Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 2ail Mehefin, 2015 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor<br>Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, CAERNARFON, Gwynedd, LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Bethan Richardson<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.gov.uk |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | **Aelodau** |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Iaith, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | | | |
| 2 | Datgan Buddiant Personol | | | |
| 3 | Materion Brys | | | |
| 4 | Materion yn codi o Bwyllgorau Craffu | | | |
| 5 | Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg o Fai 2015 | | | 1 - 3 |
| 6 | Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Ysgol y Berwyn - penderfyniad ar rybudd statudol | | | 4 - 164 |
| 7 | Cyfrifon Terfynol 2014/15 - Alldro Refiniw | | | 165 - 207 |
| 8 | Rhaglen Gyfalaf 2014/15 - 2016/17 | | | 208 - 213 |
| 9 | Cydleoli Llyfrgell Porthmadog a Chanolfan Hamdden Glaslyn | | | 214 - 219 |

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**COFNODION**
**19 Mai 2015**

**Yn bresennol** –
Y Cynghorwyr : Dyfed Edwards (Cadeirydd), John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol** –
Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan G D Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Cyllid), Guto Rhys Huws (Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd), Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol), Idris Jones (Rheolwr Cyswllt Cwsmer), Bethan Richardson (Arweinydd Tîm Cefnogi Cabinet – Cofnod).

**1. CROESAWU/YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau –
Cyng. Peredur Jenkins, Cyng. Louise Hughes (Aelod Lleol – ar gyfer eitem 6).
Yr Aelodau Lleol canlynol yn ymddiheuro a datgan buddiant ar eitem 6 – Linda Morgan, Gethin Glyn Williams, John Pughe Roberts.
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Prif Swyddog Cyllid), Arwyn Thomas (Prif Swyddog Addysg).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn fuddiant personol yn eitem 6 ar y rhaglen (Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch y Gader), oherwydd bod ei Fab yn ddisgybl yn Ysgol y Gader Dolgellau, ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol y Gader Dolgellau ac yn aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dolgellau.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o Bwyllgorau Craffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 5 Mai 2015.

## 6. DYFODOL DARPAPRIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y GADER – PENDERFYNIAD STATUDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Gweithredu ar y cynnig i gau Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Brithdir, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Llanelltyd, Ysgol Friog, Ysgol Clogau (Bontddu) ac Ysgol Ganllwyd ar 31 Awst 2017 a sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cymunedol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Dinas Mawddwy, Llanelltyd a Friog ar 1 Medi 2017.

Yn sgil pwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo/iddi gael ei b/phenodi ymlaen llaw, cymeradwyo sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn ystod Tymor yr Haf 2015 ac yna cyllido pennaeth yr Ysgol Ddilynol Ddalgylchol o arbedion y cynllun cyn gynted a phosibl.

Gohirio cadarnhau rhybudd statudol Ysgol Machreth (Llanfachreth) er mwyn cael mwy o eglurdeb yn dilyn datblygiadau diweddar. Gellir ail gyflwyno cais i gadarnhau rhybudd statudol i Ysgol Machreth ger bron y Cabinet yn y dyfodol heb amharu ar yr amserlen a nodir uchod.

## 7. MABWYSIADU A HYRWYDDO ENW PARTH .CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.
Eiliwyd gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Prynu www.gwynedd.llyw.cymru a www.gwynedd.gov.wales pan fyddant ar gael.

Hyrwyddo www.gwynedd.llyw.cymru yn unig ar gyfer y wefan.

Parhau i ddefnyddio terfyniadau Cymraeg a Saesneg.

Cyfeiriadau cyfeillgar er mwyn cyfeirio cwsmeriaid i'r dudalen yn eu dewis iaith ar y wefan. (e.e. www.gwynedd.gov.uk/cynllunio a www.gwynedd.gov.uk/planning).

Mabwysiadu cyfeiriadau uniaith Gymraeg yn unig (@gwynedd.llyw.cymru) ar gyfer e-byst.

Mabwysiadu cyfeiriadau uniaith Gymraeg yn unig ar gyfer blychau e-bost generig sydd ar dudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan (e.e.trethcyngor@gwynedd.llyw.cymru) .

Disodli cyfeiriadau www.gwynedd.gov.uk ar ddeunyddiau a chyhoeddiadau gyda www.gwynedd.llyw.cymru pan fyddant yn dod i ben.

Dechreuodd y cyfarfod am 1 o'r gloch a daeth i ben am 1.50pm.

**CADEIRYDD**

**ADRODDIAD I'R CABINET**
2 Mehefin, 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Gareth Thomas

**Pwnc**: Dyfodol Darpariaeth addysg yn Nalgylch Y Berwyn

**Swyddog Cyswllt:** Iwan T Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol

---

**Pwrpas yr adroddiad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd i'r Cabinet yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19, ("Y Campws"), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn nhref Y Bala. Byddai'r Campws yn gwasanaethu disgyblion presennol Ysgol Bro Tegid, Beuno Sant, ac Ysgol Y Berwyn.

**Y penderfyniad a geisir**

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2018 a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2018.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

**iii.** Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo gael ei benodi o flaen amser, cymeradwyo penodi a chyllido pennaeth y Campws Dysgu 3-19 o arbedion y cynllun, am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2018.

---

**Barn yr aelodau lleol**

Bydd unrhyw sylwadau gan yr Aelodau Lleol yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod.

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cael penderfyniad Cabinet y Cyngor i barhau neu beidio ar y cynnig i ad-drefnu darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn, Y Bala. Gofynnir i'r Cabinet:
   i. Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol a'r ymateb i'r sylwadau hynny
   ii. Penderfynu parhau â'r cynnig yn ei ffurf bresennol ai peidio
   iii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol pe bai penderfyniad i gefnogi'r cynnig

1.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu Strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ers ei mabwysiadu yn Ebrill 2009. Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2012, penderfynodd y Cabinet ar '*Gynllun Blaenoriaethau – Maes Trefniadaeth Addysg'* gan ei sylfaenu ar y strategaeth hon. Yn unol â'r Strategaeth cafwyd trafodaethau ynglŷn â darpariaeth addysg yn nalgylch Y Berwyn ers 2009.

1.3 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cyngor Llawn ar Orffennaf 15, 2010 ynglŷn ag ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn. Mae'r adroddiad yn gyd-destun i'r adroddiad yma a cheir copi, yn ogystal â chopïau adroddiadau

a dogfennau perthnasol eraill ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion a www.gwynedd.gov.uk/ycabinet.

1.4 Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori statudol rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011.

1.5 Cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cyngor Llawn ar 12 Mai 2011, ac fe gytunwyd ar yr argymhellion canlynol:

*i. cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn ar 31 Awst 2015*

*ii. cymeradwyo'r bwriad i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol Y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion rhwng oedran 3-19 fel rhan o'r bwriad o sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes yn Y Bala, i agor ar 1 Medi 2015*

iii. *cymeradwyo cau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012, ac i ddarparu lle ar gyfer y disgyblion hynny yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, gan wneud gwaith uwchraddio i Ysgol OM Edwards*

1.6 Rhwng 2010 a 2012, bu newid yn nulliau Llywodraeth Cymru o gyllido prosiectau mawr, ac roedd yna ansicrwydd am argaeledd cyllid ar gyfer cyllido'r Campws Dysgu Gydol Oes yn Y Bala. Penderfynodd y Cyngor warantu'r cyllid ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol OM Edwards, ond ni aethpwyd ati i ad-drefnu yng ngweddill y dalgylch.

1.7 Fe gaeodd Ysgol Y Parc ar 31 Awst 2013, ac fe wnaethpwyd gwelliannau gwerth £1miliwn i Ysgol OM Edwards erbyn Medi 2013.

1.8 Wedi cyfnod o oedi, cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar 1 Ebrill 2014, ble y cytunwyd i:

*i. Rhoi caniatâd i ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai'n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol a/neu lywodraethol ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*

*ii. Rhoi awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod yr argymhellion fel y nodir yn i. Uchod.*

*iii. Gan fod un o ysgolion y dalgylch yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, (VA), dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg, Plant a Phobl Ifanc gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.*

1.9 Yn dilyn hyn, ail-sefydlwyd y Panel Adolygu Dalgylch (PAD), ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd ar 6 Mai 2014 a 14 Ionawr 2015. Yn ystod y cyfnod yma cynhaliwyd 3 cyfarfod ychwanegol gyda phenaethiaid ysgolion y dalgylch er mwyn trafod materion addysgiadol ac addysg yn ogystal. Trafododd y Panel ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ystadegau'r gwahanol ysgolion, cefndir ariannol, canllawiau newydd y Llywodraeth ar ymdrin â chynigion ad-drefnu ysgolion a'r Rheoliadau newydd ddaeth i rym ar sefydlu ffederasiynau rhwng ysgolion.

1.10 Bu amrywiol drafodaethau rhwng Ebrill 2014 ac Ionawr 2015. Er bod Ysgol OM Edwards yn rhan o'r ad-drefnu blaenorol, bu'r ysgol yn rhan o'r ystyriaethau wrth ddatblygu gwahanol fodelau ar gyfer ystyriaeth bellach. Cynhaliwyd y cyfarfod PAD diweddaraf ar 14 Ionawr 2015 ble cyflwynwyd gwaith cefndirol yn seiliedig ar y dalgylch cyfan. Roedd hyn yn cynnwys rhestr hir o fodelau, y ffordd ymlaen arfaethedig, (h.y. y cyfeiriad ar hyn o bryd), ac eglurhad o'r prosesau statudol.

1.11 Trwy raglen Llywodraeth Cymru - *'Rhaglen Ysgolion yr unfed Ganrif ar Hugain'*, mae swm o £9.27miliwn, (cyfraniad o £4.635m Llywodraeth Cymru, £4.635m Cyngor Gwynedd), wedi ei glustnodi ar gyfer dalgylch Y Berwyn. Bydd angen cyflwyno achos busnes cynhwysfawr mewn tri cham i ddenu'r arian. Mae cam cyntaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ond bu cryn herio ar gynaladwyedd yr ysgolion gwledig a'r ddarpariaeth ôl-16. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ei argyhoeddi am y tro o'r angen i gadw'r ddarpariaeth wledig yn y dalgylch ynghyd â'r ddarpariaeth ôl-16, gall y bydd y materion yma'n cael eu codi

unwaith eto wrth i gamau 2 a 3 yr achos busnes gael eu cyflwyno. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

## 2 CEFNDIR - DEWIS Y MODEL FFAFREDIG

2.1 Trafodwyd nifer fawr o fodelau, cyn cytuno ar restr hir:

| | |
|---|---|
| **Model 1** | Gwneud dim. |
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Dysgu (CD) ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CD a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala.<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CD. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CD ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CD<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CD dalgylchol ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CD. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CD. |
| **Model 8** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CD ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CD a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. |

2.2 Gwerthuswyd modelau'r rhestr hir wrth grynhoi prif fanteision ac anfanteision yn erbyn ffactorau penodol. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill.

2.3 Adroddwyd hyn i'r Cabinet ar 17 Chwefror 2015 **lle cymeradwywyd yr argymhellion canlynol:**

*i I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018.*


*ii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws gwirfoddol a reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn agor ar 1 Medi 2018.*

*iii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef Ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.*

2.4 Bydd y broses ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn yn digwydd yn y dyfodol ac yn broses ar wahân i'r broses ymgynghori statudol sydd yn destun trafod yr adroddiad hwn i'r Cabinet.

## 3. Y CYNNIG

3.1 Bydd Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant yn cau, a bydd y ddarpariaeth addysgol a ddarperir ganddynt yn cael ei darparu yn y Campws Dysgu 3-19. Bydd Ysgol y Berwyn hefyd yn cau, a bydd addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol uwchradd yn cael ei darparu yn y Campws Dysgu. Bydd y Campws Dysgu yn cael ei ddatblygu ar safle presennol Ysgol y Berwyn.




3.2 Golyga hyn **gau 3 ysgol**:

- Ysgol Bro Tegid
- Ysgol Beuno Sant
- Ysgol y Berwyn

3.3 Golyga hyn **sefydlu Campws Dysgu 3-19, Cyfrwng Cymraeg Gwirfoddol a Reolir, (VC), Eglwys yng Nghymru** ar un safle yng nghanol tref Y Bala, ar safle presennol Ysgol y Berwyn.

3.4 Bydd safleoedd ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn cau ac ni fyddai'r safleoedd hyn yn ail-agor.

Bydd y cynnig yn:

- Gwella safonau addysg, drwy alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol
- Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion tref Y Bala yn sylweddol wrth fuddsoddi £9.27miliwn
- Yn gwella effeithlonrwydd stad ysgolion Cyngor Gwynedd
- Galluogi system uwch reoli modern newydd, fydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, ac yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Yn lleihau llefydd gweigion y dalgylch
- Yn rhoi oddeutu £85,000 o arbedion refeniw, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Diogelu ac yn cryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dalgylch
- Creu adnodd newydd fyddai ar gael at ddefnydd disgyblion ysgolion gwledig y dalgylch a'r gymuned leol y tu allan i oriau arferol ysgol

## 4. CYFNOD YMGYNGHORI STATUDOL

4.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion statudol y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol ar y cynnig gydag ymgynghorai perthnasol rhwng 13 Mawrth ac 13:00 o'r gloch ar 28 Ebrill 2015.

4.2 Paratowyd dogfen ymgynghori statudol, yn unol â gofynion ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Ar gychwyn y cyfnod ymgynghori statudol dosbarthwyd y ddogfen i'r ymgynghorai perthnasol, gan sicrhau bod copïau caled yn cael eu hanfon i'r ysgolion at sylw'r rhieni, llywodraethwyr a'r staff. Mae'r ddogfen a holl ddogfennaeth y pecyn cefndirol ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

4.3 Derbyniwyd 220 o ymatebion i'r ymgynghoriad statudol gan gynnwys ymatebion gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni unigol, yn ogystal â'r cyrff canlynol:

- Cyngor Tref Y Bala
- Cyngor Cymuned Llangywer
- Cyngor Cymuned Llanuwchllyn
- UCAC
- Estyn
- Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Bangor, Yr Eglwys yng Nghymru

- Corff Llywodraethol Ysgol Y Berwyn
- Corff Llywodraethol Ysgol Bro Tegid
- Corff Llywodraethol Ysgol Beuno Sant
- Corff Llywodraethol Ysgol O M Edwards
- Corff Llywodraethol Ysgol Ffridd y Llyn
- Corff Llywodraethol Ysgol Bro Tryweryn
- 2 Aelod Lleol Dalgylch Y Berwyn
- Esgob Bangor
- Esgob Llanelwy
- Mudiad Meithrin
- Grŵp Cynefin
- Swyddog Pobl Ifanc Egnïol

Mae'r ymatebion i gyd, yn dilyn dileu manylion personol a'r ymatebion na ddylid eu cyhoeddi yn unol â dymuniad yr ymatebwyr, i'w gweld yn llawn ar wefan y Cyngor yn www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion. Mae manylion pellach yn gysylltiedig â'r ymatebion isod:

| **Nifer Yr Ymatebion Gan Nodi Cysylltiad Gydag Ysgol** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Bro Tegid** | **Ysgol Beuno Sant** | **Ysgol y Berwyn** | **Ysgol Bro Tryweryn** | **Ysgol Ffridd y Llyn** | **Ysgol OM Edwards** | **Arall** |
| 15 | 117 | 45 | 4 | 8 | 8 | - |
| **Cyfanswm = 197** | | | | | | |
| **Un ar ddeg ymateb wedi nodi 2 ysgol gysylltiedig / Un ymateb wedi nodi 3 ysgol gysylltiedig / Un ymateb wedi nodi 6 ysgol gysylltiedig** | | | | | | |

| **Nifer Yr Ymatebion *Plant a Phobl Ifanc* Nodwyd Cysylltiad gydag Ysgol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Bro Tegid / Ysgol Beuno Sant** | **Ysgol y Berwyn** | **Ysgol Bro Tryweryn** | **Ysgol Ffridd y Llyn** | **Ysgol OM Edwards** | **Arall** |
| 2 | 1 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm = 3** | | | | | |

4.4 Ar 26 Mawrth 2015 cynhaliwyd diwrnod agored yn Ysgol Y Berwyn, rhwng 14:00 a 20:00. Yma roedd arddangosfa o'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghorol ac roedd swyddogion o adrannau perthnasol (e.e. addysg, eiddo, personél ayb) ar gael i egluro ac ymateb i ymholiadau. Roedd hefyd cyfle i gael copi o unrhyw ddogfennaeth ac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mynychodd 93 o bobl y diwrnod agored.





4.5 Crëwyd dogfen ymgynghorol i blant cynradd a phlant uwchradd gyda holiaduron cysylltiedig. Trefnwyd bod hwylusydd arbenigol plant a phobl ifanc yn ymweld â'r ysgolion i gyd i gynnal sesiynau gyda'r disgyblion i ganfod eu barn. Mae dadansoddiad yr hwylusydd o'r sesiynau hyn ar gael yn atodiad 2 yr adroddiad yma.

4.6 Prif bwyntiau gododd yn ystod yr ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc

| Cynradd | Uwchradd |
|---|---|
| Mwy o gyfleoedd i ddysgu pynciau newydd | Dim digon o le i bawb |
| Plant yn poeni am fwlio | Adnoddau gwell |
| Eisiau cadw elfen hanesyddol yr ysgolion a'r ardal | Chwaraeon yn bwysig |
| Plant ddim eisiau colli ffrindiau | Cadw elfen hanesyddol yr ysgol |
| Cael dewis cinio | Iaith |

4.7 Casgliad yr adroddiad ydy...*"Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynghori oedd bod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd er eu bod yn poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn y rhan fwyaf o'r ysgolion."*

**5. SYLWADAU A DDERBYNIWYD YN YSTOD YR YMGYNGHORI STATUDOL**

5.1 Pwrpas rhan yma'r adroddiad yw cyflwyno rhai o'r prif bwyntiau ddaeth yn amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Nid oes posib ymateb i bob sylwad yn fanwl yng nghorff yr adroddiad hwn, ond dadansoddwyd yr holl sylwadau gan nodi ymateb y Cyngor. Ceir y wybodaeth yma i gyd yn atodiad 1 yr adroddiad yma.

5.1.1. Roedd mwyafrif y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gefnogol i sefydlu Campws 3-19 ar safle Ysgol Y Berwyn, a chau Ysgol Bro Tegid, Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn. Teimlwyd y byddai'r cynnig yn gwella ansawdd addysg ac yn gwella amgylchedd ddysgu disgyblion tref Y Bala. Er bod ychydig o bryder am y model 3-19, yn benodol o ran disgyblion oedran cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un safle, mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i'r model hwn.

5.1.2. Fodd bynnag, ar y cwestiwn o statws cyfreithiol y cynnig arfaethedig y cododd y mwyafrif o sylwadau. O'r 220 ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 154 sylwad ynglŷn â statws categori cyfreithiol yr ysgol. O'r 154, cafwyd 116 o blaid gosod statws Eglwysig Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws, a 38 sylw yn erbyn gosod y statws yma, gan ffafrio gosod categori Cymunedol ar y Campws. **Rhoddir sylw manwl i'r mater hyn yn rhan 6 o'r adroddiad.**

5.1.3. Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn canolbwyntio'n gyffredinol ar y canlynol:

- Addysg
- Y Gymuned
- Materion Staffio
- Iaith Gymraeg
- Statws Cyfreithiol (gweler adran 6 o'r adroddiad hwn)
- Dyluniad a Chynllun yr Adeilad
- Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc
- Y Prosesau Statudol
- Campws Dysgu 3-19 (Ysgol Gydol Oes)
- Cylch Meithrin
- Ystadegau a Chyllid
- Opsiynau Amgen

5.2 <u>Ansawdd Addysg</u>

5.2.1 Croesawyd y buddsoddiad, gyda'r mwyafrif yn credu y byddai'r cynnig o Gampws 3-19 ac adeilad newydd yn cyfrannu at wella ansawdd addysg. Fodd bynnag, nid pawb oedd o'r farn fod adeilad newydd ynddo'i hun yn gwella ansawdd addysg.

5.2.2 Bydd y buddsoddiad o £9.27m yn gwella amgylchedd ddysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ddysgu da yn hyrwyddo gwell addysg. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn Y Bala yn arwain at fwy na buddsoddiad yn yr amgylchedd ddysgu yn unig. Trwy ddod ag ysgolion tref Y Bala at ei gilydd fel un sefydliad oedran 3-19, gellir rhannu adnoddau ac arbenigedd staff yn well, gan arwain at welliant yn ansawdd addysg, a chymhwyso buddion y model 3-19 ar gyfer gwella a chysoni addysg yn nhref Y Bala.

5.2.3 Soniwyd gan rai o'r ymatebwyr bod safon y ddarpariaeth a'r adeiladau yn Ysgol y Berwyn wedi bod yn annerbyniol yn ddiweddar a bod hyn wedi golygu lleihad mewn niferoedd gan fod disgyblion yn mynychu ysgolion eraill.

5.2.4 Fel yr eglurwyd yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r math hwn o gynnig rhoi cyfle i wella safonau addysgol ar draws y dalgylch. Byddai sefydlu un Campws Dysgu 3-19 yn y Bala yn galluogi hyblygrwydd ar draws yr holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau, yn dod yn arfer safonol. Dyma rai o'r posibiliadau:

- Gall athrawon uwchradd arbenigol ddysgu'r cynradd hefyd e.e. cerddoriaeth
- Gellir trefnu'r cwricwlwm cynradd a'r amserlen ar draws yr holl safleoedd fel bod yr holl ddisgyblion o'r un oedran yn dysgu'r un pethau ar yr un pryd - byddai hyn yn sicrhau eu bod i gyd ar yr un lefel wrth fynd i flwyddyn 7 yn y safle uwchradd
- Gall staff cynradd o bob safle gyfarfod i drafod a rhannu arfer gorau a chefnogi, annog a dysgu oddi wrth ei gilydd
- Byddai gwell parhad ym mhob agwedd ar y cwricwlwm oherwydd ei fod yn cael ei raglennu ar draws y dalgylch, gan sicrhau'r un profiadau a chyfleoedd i bob disgybl

5.2.5 Derbyniwyd ymateb gan Estyn oedd yn nodi bod y cynnig yn *"debygol o leiaf gynnal safonau addysg yn yr ardal gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o sicrhau arweinyddiaeth newydd sefydlog gyda ffocws ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth."*

5.3 <u>Y Gymuned</u>

5.3.1 Cefnogwyd y bwriad i barhau gyda darpariaeth llyfrgell yn y Campws 3-19. Nododd un sylw gefnogaeth i gadw Neuadd Buddug ar agor, tra bod sylw arall yn cefnogi'r bwriad o ddarparu adnoddau theatr a sinema newydd yn y Campws. Doedd ymatebydd arall ddim yn medru gweld pwrpas gosod adnoddau sinema mewn ysgol.

5.3.2 Mewn cyfnod o gynni ariannol mae'r Cyngor yn edrych i weld a oes modd darparu gwasanaethau mewn modd gwahanol, ac un ffordd o wneud hyn yw drwy rannu a chanoli adnoddau. Mae cyfle drwy'r datblygiad hwn i sicrhau darpariaeth llyfrgell a chelfyddydol yn rhan o ddatblygiad y Campws. Ni fydd datblygu'r adnoddau hyn yn dwyn oddi ar adnoddau addysgol y datblygiad gan y bydd ffynonellau ariannol eraill yn cael eu defnyddio yn ogystal.

5.3.3 Mae grŵp defnyddwyr wedi ei sefydlu er mwyn trafod dyfodol Neuadd Buddug, a bydd mewnbwn rhanddeiliad yn cael ei gasglu ar gyfer datblygu unrhyw adnoddau a chyfleusterau cymunedol eraill yn y Campws.

5.4 <u>Materion Staffio</u>

5.4.1 Cafwyd rhai sylwadau yn ymwneud â materion staffio. Mynegodd y rhan fwyaf bryder nad oedd trafodaethau digonol wedi bod efo oblygiadau'r cynnig ar swyddi staff presennol yr ysgolion, a bod yr ad-drefnu yn arwain at ansicrwydd. Awgrymwyd gan rai y dylai'r Awdurdod gydweithio'n agos efo'r Corff Llywodraethol Cysgodol er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ansicrwydd.

5.4.2 Cydnabuwyd bod trafodaethau trefniadaeth ysgolion yn creu ansicrwydd yn y dalgylch. Gan nad yw'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto, (ymgynghori'n unig yw'r cam yma), nid yw'n bosib rhoi gwybodaeth fanwl am sefyllfaoedd unigolion eto. O ran nifer y swyddi bydd yn cael eu colli, mae'n gynamserol dod i gasgliad am hyn, oherwydd bod strwythur staffio'r Campws newydd yn fater trafod i'r corff llywodraethol cysgodol.

5.4.3 Pe bai penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, byddai angen sefydlu corff llywodraethu cysgodol. Byddai'r corff llywodraethu cysgodol hwn yn cael ei sefydlu yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ymhell cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig o fis Medi 2018. Byddai angen amser digonol i greu polisïau perthnasol, offeryn llywodraethu, penodi pennaeth a chreu strwythur staffio ar y cyd â'r pennaeth. Hefyd bydd ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth gydol y broses. Mae nifer o gyfarfodydd a chymorth wedi cael eu rhoi i staff ysgolion yn

gysylltiedig â datblygiad Ysgol Bro Llifon (ysgol ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel) yn y 6 mis diwethaf, a bydd cymorth tebyg ar gael i staff ysgolion tref Bala. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r galw tebygol am gefnogaeth gwasanaeth Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 2 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

5.4.4 Roedd rhai rhieni'n pryderu hefyd am yr effaith y byddai newid a throsiant staff yn ei gael ar addysg plant. Does dim rheswm i feddwl y bydd yna fwy o drosiant yn staff yr ysgolion presennol yn ystod y cyfnod newid a bydd bob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y corff llywodraethol cysgodol, y pennaeth a'r strwythur staffio yn ei gyfanrwydd yn cael eu rhoi mewn lle mor fuan â phosib, i leihau'r cyfnod o ansicrwydd.

5.4.5 Derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn pwysleisio'r angen i sicrhau trefn reolaethol a staffio clir a phendant i'r Campws er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, a bod y budd mwyaf posib o'r strwythur Campws 3-19.

5.4.6 Mewn ymateb i'r pryderon yma, y bwriad yw bod y Pennaeth wedi ei benodi erbyn Medi 2017, sef o leiaf flwyddyn cyn dyddiad arfaethedig agor y Campws ym Medi 2018, er mwyn sicrhau bod y trefniadau rheoli yn gweithredu'n effeithiol cyn i'r sefydliad newydd agor. Argymhellir cyllido apwyntiad y Pennaeth flwyddyn yn gynnar o arbedion y cynllun.

5.5 <u>Iaith Gymraeg</u>

5.5.1 Derbyniwyd nifer o sylwadau yn gofyn i'r Campws arfaethedig gael ei ddynodi'n ysgol Gymraeg uniaith. Crybwyllwyd gan rai'r pryder byddai statws Gwirfoddol a Reolir (VC) arfaethedig y Campws yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg.

5.5.2 Mae statws ieithyddol yn derm technegol sydd angen ei glustnodi wrth greu ysgol newydd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Mae mater statws y Campws yn cael mwy o sylw yn adran 6 yr adroddiad ond nid oes unrhyw reswm i feddwl y byddai'r statws yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg gan ystyried bod y Polisi Iaith Addysg yn berthnasol i bob ysgol yn y Sir.

5.5.3 Gwnaed asesiad o effaith datblygu'r model hwn, ac fel rhan o gasgliadau'r asesiad "...*rhagwelir cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg drwy sefydlu Campws Dysgu yn Y Bala, drwy sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn mynychu ysgol sydd yn addysgol ac yn gymdeithasol yn ysgol cyfrwng Cymraeg*". Y bwriad yw cynnal statws ieithyddol ysgolion tref Y Bala ar gyfer y Campws 3-19. O gofio cyfrwng a statws iaith y tair ysgol bresennol yn nhref Y Bala, bydd hyn yn golygu y bydd darpariaeth ieithyddol y Campws 3-19 gyda'r Cymreigiaf yng Ngwynedd a Chymru.

5.6 <u>Dyluniad a chynllun yr adeilad</u>

5.6.1 Cafwyd nifer o sylwadau o ran dyluniad a chynllun yr adeilad arfaethedig. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn nodi'r angen i fuddsoddi'n sylweddol yn adeilad Ysgol Y Berwyn, oherwydd bod yr adeilad mewn cyflwr gwael iawn, heb unrhyw fuddsoddiad ers nifer o flynyddoedd.

5.6.2 Roedd nifer o'r sylwadau hefyd yn ymwneud â phryder am yr egwyddor o Gampws Gydol Oes, sef pryder fod disgyblion oedran cynradd ac oedran uwchradd yn rhannu'r un safle. Yn benodol, mynegwyd pryder fod disgyblion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r un fynedfa. Nid oes bwriad i'r disgyblion cynradd ac uwchradd ddefnyddio'r un fynedfa, ac mae'r cynlluniau presennol yn dangos mynedfa ar wahân i'r cynradd a'r uwchradd. Mae'n drefn arferol mewn ysgol sy'n cwmpasu'r oedran cynradd ac uwchradd i sicrhau fod y ddau gategori oedran wedi eu gwahanu. Mae cynllun arfaethedig y Campws yn un ble y bwriedir cael bloc cynradd newydd ar wahân i'r bloc uwchradd. Er bod bwriad i rannu cyfleusterau megis campfa, neuadd a'r ffreutur, byddai'r defnydd gan y disgyblion uwchradd a'r disgyblion cynradd

yn digwydd ar adegau gwahanol drwy amserlennu gofalus. Byddai drysau mewn lleoliadau strategol yn yr adeilad yn sicrhau fod mynediad yn cael ei reoli.

5.6.3 Roedd nifer o ymatebion yn cynnig sylwadau am gae 3G yn Y Bala. Cae artiffisial yw Cae 3G ar gyfer chwarae Pêl Droed, Rygbi a Hoci. Mae Clwb Pêl Droed Bala wedi bod yn cynnal trafodaethau cychwynnol gyda Chymdeithas Bel Droed Cymru er mwyn gwneud cais am grant i ddenu arian grant ar gyfer cyllido Cae 3G. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau yma.

5.6.4 Trafodaethau cychwynnol sydd wedi bod ar hyn o bryd. Er y byddai Cae 3G yn medru bod yn adnodd defnyddiol i'r Campws mater ar gyfer y dyfodol yw hyn, ac nid yw'n ffurfio rhan o'r cynnig yma. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ddiolchgar am y sylwadau a bydd y sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw drafodaethau pellach.

5.6.5 Roedd sylwadau penodol hefyd am y materion canlynol:

- Pryder y gallai maint y dosbarth fod yn rhy gyfyng
- Angen ystafell chweched gwell a mwy modern
- Pryder nad oes digon o le chwarae i'r cynradd
- Yr angen i ddarparu neuadd/ystafell ymgynnull ar gyfer disgyblion cynradd
- Yr angen i ystyried lleoliad y toiledau o fewn yr ysgol a bwlio
- Pryder na fyddai'r gampfa yn ddigon mawr i oedran cynradd ac uwchradd
- Pryder am rannu'r ffreutur

Bydd sylwadau am gynllun a dyluniad y Campws arfaethedig yn cael eu hystyried yn ystod y broses o ddylunio'r Campws 3-19.

5.7 <u>Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc</u>

5.7.1 Derbyniwyd un neu ddau o ymatebion gan ddisgyblion yn ystod yr ymgynghoriad, yn ychwanegol i'r ymgynghoriad ffurfiol gynhaliwyd gan yr hwylusydd plant a phobl ifanc ym mhob ysgol (mae adroddiad yr ymgynghoriad ffurfiol yn atodiad 2). Roedd rhai wedi nodi eu bod yn hapus gyda'r cynllun ac mai gwersi diddorol ac athrawon da a hapus sydd yn gwneud ysgol dda. Amlygodd rhai eu bod yn edrych ymlaen at well adnoddau ac adeiladau safon da. Nododd un eu bod yn pryderu am yr athrawon yn colli eu swyddi.

5.7.2 Mae'r Cyngor yn falch bod disgyblion yr ardal wedi rhoi eu barn yn ystod y cyfnod ymgynghori, fel rhan o'r sesiynau gyda'r hwylusydd ac yn unigol. Bydd bob sylwad o ran adnoddau ac adeiladau yn cael eu hystyried wrth i'r cynnig cael ei ddatblygu a bydd bob ymdrech i sicrhau bod y cyfnod o ansicrwydd i staff yn dod i ben mor fuan â phosib.

5.8 <u>Y Prosesau Statudol</u>

5.8.1 Mynegwyd pryder gan rai bod y ddogfen ymgynghorol yn gamarweiniol gan ei bod yn cynnwys cynnig yn ymwneud ag ysgolion y dref yn unig ond yn cynnwys modelau ac yn sôn am ffedereiddio a chydbwyllgor sy'n effeithio'r ysgolion gwledig.

5.8.2 Mae angen ategu bod y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol ar ysgolion y dref yn unig ac mai ymgynghoriad ar ddyfodol ysgolion Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant oedd dan sylw yn ystod yr ymgynghoriad yma. Fodd bynnag, fel rhan o weledigaeth tymor hir ar gyfer y dalgylch mae'r ddogfen yn crybwyll ffedereiddio'r ysgolion gwledig ac yna creu cydbwyllgor rhwng y Campws a'r ffederasiwn. Bydd ymgynghoriad ar wahân i'r broses ffedereiddio yn unol â'r canllawiau perthnasol. Mae gwerth nodi bod y ddogfen ymgynghori wedi ei dosbarthu i holl rieni/gwarchodwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgolion gwledig fel bod modd iddynt gael rhoi eu barn gan ystyried bod y cynnig yn effeithio ysgol uwchradd y dalgylch.

5.8.3 Nododd rhai bod ystadegau anghywir yn y ddogfen ymgynghorol. Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar y pecyn ystadegol a rhoddwyd cyfle i benaethiaid y dalgylch wirio'r data cyn ei gyhoeddi. Mae angen amlygu, gan fod y broses statudol yn cymryd amser, cymerwyd ciplun o ddata am un flwyddyn academaidd (2013/14) ac yna defnyddiwyd y rhain yn gyson, i osgoi unrhyw ddryswch.

5.8.4 Crybwyllwyd gan rai rhwystredigaeth oherwydd yr oedi ym mhroses ad-drefnu'r dalgylch a bod hyn wedi achosi anfantais i Ysgol y Berwyn, oherwydd cyflwr yr adeilad. Er hynny, nodwyd hefyd eu bod yn gwerthfawrogi fod y broses yn symud ymlaen yn awr.

5.9 Ysgol 3-19

5.9.1 Fel y nodwyd yn 5.6.2 uchod, roedd anfodlonrwydd a phryder gan rai, y byddai Campws Dysgu 3-19 yn golygu fod plant oedran cynradd yn gorfod cymysgu gyda phlant oedran uwchradd. Fel yr amlinellir uchod, mae'n arferol bod ysgolion 3-19 yn gwahanu'n glir yr oedran cynradd a'r uwchradd. Bydd y bloc oedran cynradd ar wahân gyda'i le chwarae ei hun, a bydd y cyfleusterau sy'n cael eu rhannu - campfa, neuadd, ffreutur, yn cael eu cynllunio yn y fath ffordd na fydd mynediad ond i gategorïau penodol o ddisgyblion ar yr un pryd. Yn ogystal, bydd mynediad ar wahân i'r disgyblion oedran cynradd a'r oedran uwchradd.

5.9.2 Mae'n deg dweud mai cymharol fychan oedd unrhyw bryderon neu wrthwynebiad i'r model dysgu 3-19, yn enwedig o gofio ei fod yn fodel newydd ac arloesol.

5.10 Cylch Meithrin Bro Tegid

5.10.1 Mae Cylch Meithrin Bro Tegid yn defnyddio caban ar safle Ysgol Bro Tegid ar hyn o bryd. Pe byddai Campws 3-19 yn cael ei sefydlu, ac Ysgol Bro Tegid yn cau, yna byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i leoliad y Cylch Meithrin erbyn Medi 2018 pan fydd y Campws 3-19 yn agor.

5.10.2 Mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin wedi gofyn am fwriadau'r Cyngor o ran lleoliad y Cylch Meithrin yn y dyfodol. Bydd angen trafod yr opsiynau posibl gyda chynrychiolwyr y Cylch Meithrin a'r Mudiad Ysgolion Meithrin fel bod unrhyw ddarpariaeth amgen wedi ei gytuno mewn da bryd a chyn i'r Campws agor ym Medi 2018.

5.11 Ystadegau a Chyllid

5.11.1 Ychydig o sylwadau a gafwyd o ran ystadegau a chyllid. Nododd rhai eu bod wedi synnu mai Ysgol Bro Tegid sydd gyda'r gost y disgybl lleiaf yn y dalgylch, a'i bod hi'n anodd deall sut fod cost Ysgol Beuno Sant sy'n darparu addysg i blant o'r un oedran yn uwch. Yr eglurhad syml am hyn yw'r ffaith fod Ysgol Bro Tegid yn llawn tra bo Ysgol Beuno Sant gyda nifer o lefydd gweigion. Un o amcanion yr ad-drefnu arfaethedig yn nhref Y Bala yw ceisio cysoni cost y disgybl.

5.11.2 Gwnaeth un person sylw fod y Cyngor wedi dewis a dethol y data mwyaf negyddol am yr ysgolion presennol yn y ddogfen ymgynghori. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i ddarparu ystadegau perthnasol, (yn enwedig yng nghyd-destun ansawdd addysg), am yr ysgolion dan sylw yn y ddogfen ymgynghori, boed yn ystadegau hynny yn rhai positif neu negyddol.

5.12 Opsiynau Amgen

5.12.1 Ni chynigiodd unrhyw un yn ystod y cyfnod ymgynghori opsiwn amgen, hynny ydy model gwahanol i'r Campws 3-19 fel y cynigiwyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer trefniadaeth ysgolion yn y dalgylch.

5.12.2 Tra cafwyd sylwadau yn gwrthwynebu categori cyfreithiol yr opsiwn ffafredig, nid oedd dim un oedd yn gwrthwynebu'r egwyddor o Fodel o Gampws Dysgu 3-19 yn nhref Y Bala. Roedd y rhai oedd yn gwrthwynebu yn cytuno gyda'r opsiwn a ffafrir ond yn awgrymu gosod categori Cymunedol yn hytrach na Chategori Gwirfoddol a Reolir, (VC), Eglwys yng Nghymru arno. Manylir ar y mater yma yn rhan nesaf yr adroddiad.

## 6 STATWS CYFREITHIOL (CYMUNEDOL/EGLWYSIG)

6.1 Mae'r angen i bennu statws cyfreithiol yr ysgol yn fater sydd wedi cael ystyriaeth fanwl. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Cabinet yn adroddiad Chwefror 19, 2015 penderfynwyd ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws. Ymhlith y ffactorau dros osod statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws oedd y canlynol:

- y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch a'r ffaith fod darpariaeth Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) yn yr ardal eisoes
- safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad
- tebygrwydd categorïau cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC)
- y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau yw'r ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad cychwynnol a wnaethpwyd
- y penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir

6.2 Fel y nodwyd eisoes, dyma'r pwnc ysgogodd y mwyaf o sylwadau yn ystod y cyfnod o ymgynghori statudol.

6.3 Rhoddir ystyriaeth yn y rhan yma o'r adroddiad i'r materion penodol a godwyd ar y mater yma. Gellir gweld yr holl sylwadau ac ymateb y Cyngor iddynt yn atodiad 1.

6.4 Dyma grynodeb o'r prif bryderon a fynegwyd;

- Mae nifer o'r sylwadau yn awgrymu y byddai gan yr ysgol yr un statws ag Ysgol Beuno Sant. Mae'n amlwg felly fod yna aneglurder yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng y categorïau Gwirfoddol a Reolir (VC) a Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA).
- Dylanwad a chynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu i'r dyfodol gan yr Eglwys
- Mae nifer yn pryderu y byddai'r Eglwys am ddylanwadu ar enw'r Campws Dysgu newydd
- Angen nodi hanes a thraddodiad ymneilltuol yr ardal a phryder am effaith canfyddiad o ddelwedd Saesnig yr Eglwys a dylanwad posibl hyn ar yr ysgol.

6.5 Mae nifer o'r sylwadau yn awgrymu y byddai gan yr ysgol yr un statws ag Ysgol Beuno Sant, Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA). **Nid yw hyn yn wir**. Categori Gwirfoddol a Reolir (VC) sydd dan sylw fan hyn ,ac felly mae aneglurder yn nealltwriaeth y cyhoedd o'r gwahaniaeth rhwng y categorïau VC a VA.

6.5.1 Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai;

- Cymuned
- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

6.5.2 Mae'r Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae hyn yn golygu fod gan yr Eglwys hawliau penodol iawn drwy'r statws Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), er enghraifft;

- Mae gan yr Eglwys fwyafrif ar y Corff Llywodraethu
- Yr Eglwys sydd yn rheoli mynediad
- Yr Eglwys sydd yn gyfrifol am benodi staff

- Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol. Bydd gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol

Ni fyddai'r uchod yn berthnasol i'r categori Gwirfoddol a Reolir (VC).

6.5.3 Mewn cymhariaeth – mae'r statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn debyg iawn i'r statws Cymunedol gyda rhai amrywiaethau;

- Mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC) byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond byddai'r gynrychiolaeth yma yn y lleiafrif. Mae yn ansicr beth fyddai maint y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd, ond mae'n debyg y byddai ganddo un ai 18 neu 21 aelod a byddai gan yr Eglwys 4 allan o 18 neu 5 allan o 21 aelod.
- Byddai ymarferiad cyfreithiol technegol o drosglwyddiad amodol o'r tir i'r Eglwys. Bydd y tir yn dychwelyd i Gyngor Gwynedd pe byddai darpariaeth addysgol Eglwysig yn terfynu ar y safle.

Fel arall – mae'r canlynol yn wir am y ddau gategori - Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC);

- Cyngor Gwynedd fyddai yn rheoli mynediad i'r ysgol
- Cyngor Gwynedd a'r llywodraethwyr fyddai yn gyfrifol am benodi staff
- O ran cydaddoli byddai angen bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu'n bennaf gyda'r hawl i unigolion gael eu heithrio o weithredoedd cydaddoli neu addysg grefyddol
- Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai'n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

6.5.4 O fewn y sylwadau hyn, roedd pryder yn codi yn sgil adroddiad diweddar gan Estyn yn dilyn arolygiad yn Ysgol Beuno Sant. Mae'r hyn nodir uchod o ran rhinweddau'r categori cyfreithiol yn nodi fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng y statws VA a VC. Gan y byddai'r Campws Dysgu yn ysgol newydd gyda Chorff Llywodraethu newydd, byddai cyfle i ddysgu gwersi o brofiadau'r gorffennol, ac adeiladu ar y gwaith da sydd yn digwydd yn yr ysgolion presennol. Hefyd, rhaid cofio fod ansawdd addysg ysgolion yn amrywio ar draws Gwynedd a Chymru, a does dim tystiolaeth fod statws cyfreithiol ysgol a nodweddion Gwirfoddol a Reolir (VC) ynddo'i hun yn dylanwadu'n neu'n effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd addysg.

6.6 <u>Dylanwad a chynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu i'r dyfodol</u>:

6.6.1 Fel nodwyd uchod, mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC) byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond yn y lleiafrif o dipyn - byddai yn llai na chwarter aelodaeth y Corff. **Felly ni fyddai ganddynt y grym i orfodi penderfyniadau gan y byddent yn y lleiafrif.**

6.6.2 O ran y Corff Llywodraethu Cysgodol – nodir y byddai aelodaeth y Corff hwn yn cael eu penodi o Gyrff Llywodraethu presennol ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant. Felly, byddai'n rhaid sicrhau cynrychiolaeth deg o'r cyrff hyn drwy broses benodol yn dilyn camau statudol.

6.6.3 Mewn trafodaethau, yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Eglwys yn awyddus i ymateb i'r pryderon a fynegwyd ac wedi nodi eu bod yn awyddus i gael cynrychiolaeth **o ddim ond 2 sedd ar y Corff Llywodraethol**, gan ryddhau'r gweddill o'r gynrychiolaeth i enwadau ymneilltuol o'r ardal

6.6.4 Wrth gwrs, fel arall byddai cyfansoddiad y corff Llywodraethu Cysgodol a'r Corff Sefydlog wedi hynny yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o Staff yr ysgol, Rheini, Aelodau'r Gymuned ac Aelodau Lleol fel sydd yn wir yn rhelyw ysgolion y Sir.

6.7 <u>Mae nifer yn pryderu y byddai'r Eglwys am ddylanwadu ar enw'r Campws Dysgu newydd</u>

6.7.1 Rôl y Corff Llywodraethu Cysgodol fydd enwi'r ysgol.

6.7.2 Mae profiad diweddar o'r broses hon yn sefyllfa ysgolion Craig y Deryn a Bro Llifon wedi dangos fod y cyrff hynny wedi enwi'r ysgolion mewn proses agored a chynhwysol iawn. Mae'n debyg iawn y byddai'r Corff Llywodraethu Cysgodol y Campws yn parhau gyda'r modd yma.

6.7.3 Mewn ymateb i'r mater yma, mae'r Eglwys wedi mynegi eu bod yn hollol agored ac yn fodlon cefnogi'r enw a ddewisir a'r broses fydd y Corff Llywodraethu yn ei mabwysiadu i enwi'r Campws.

6.8 Hanes a thraddodiad ymneilltuol yr ardal a phryder am effaith canfyddiad o ddelwedd Saesnig o'r Eglwys ar yr ysgol.

6.8.1 Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Eglwys wedi nodi eu bod yn hollol ymwybodol ac yn parchu hanes yr ardal ac yn awyddus i sicrhau fod y Campws Dysgu newydd yn adlewyrchu hanes a thraddodiadau'r ardal. Fel nodwyd eisoes, mae'r cynnig i sicrhau fod cyfran o'u cynrychiolaeth yn dod o'r traddodiad ymneilltuol.

6.8.2 Yn ogystal, mae'r Eglwys ac yn wir y Cyngor yn gweld cyfle drwy'r Campws **i gryfhau'r iaith Gymraeg.** Bwriedir gosod categori iaith cyfrwng Cymraeg ar y campws, sef yr un categori sydd wedi ei ddynodi ar hyn o bryd ar holl ysgolion tref Y Bala.

6.8.3 Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y Polisi yw -"......... *sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol....er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd*......".

6.8.4 Gwnaed asesiad o effaith datblygu'r model hwn, ac fel rhan o gasgliadau'r asesiad **"...*rhagwelir cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg drwy sefydlu Campws Dysgu yn Y Bala, drwy sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn mynychu ysgol sydd yn addysgol ac yn gymdeithasol yn ysgol cyfrwng Cymraeg*".**

6.8.5 Y bwriad yw cynnal statws ieithyddol ysgolion tref Y Bala ar gyfer y Campws 3-19. O gofio cyfrwng iaith y tair ysgol bresennol yn nhref Y Bala, bydd hyn yn golygu y **bydd darpariaeth ieithyddol y Campws 3-19 gyda'r Cymreiciaf yng Ngwynedd a Chymru.**

6.9 Ystyriaethau wrth benderfynu ar y statws cyfreithiol

6.9.1 Fel yr amlygwyd uchod, roedd cefnogaeth gyffredinol i greu Campws 3-19 yn nhref Y Bala. Y cwestiwn sydd angen ystyriaeth ddwys cyn gwneud penderfyniad yw pa gategori cyfreithiol ddylai gael ei ddynodi ar y Campws 3-19. A ddylid parhau efo'r cynnig a wnaethpwyd yn yr ymgynghoriad statudol, sef i osod categori Gwirfoddol a Reolir, (VC), neu a ddylai'r Campws fod yn un â statws Cymunedol? Wrth ystyried y mater yma, yna mae angen i'r Cabinet bwyso a mesur yn ofalus nifer o agweddau, yn cynnwys y rhesymeg wreiddiol dros adnabod yr opsiwn ffafredig i ymgynghori i osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws, y sylwadau ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r ymateb i'r sylwadau hynny (gweler atodiad 1). Oes yna unrhyw wybodaeth newydd neu reswm dilys wedi dod i law yn ystod y broses ymgynghori statudol sy'n tanseilio'r penderfyniad gwreiddiol neu'n cyfiawnhau newid cyfeiriad?

6.9.2 Mae'n briodol atgoffa'r Cabinet unwaith eto o'r ffactorau a ystyriwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar 17 Chwefror ac arweiniodd at y Cabinet yn penderfynu ymgynghori ar sail Campws statws Gwirfoddol a Reolir (VC). Ymhlith y ffactorau dros osod statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws roedd y canlynol:

- y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch a'r ffaith fod darpariaeth Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) yn yr ardal eisoes
- safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad
- tebygrwydd categorïau cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC)
- y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau yw'r ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad cychwynnol a wnaethpwyd
- y penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir

6.9.3 Roedd 38 sylwad yn erbyn y statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ac 116 sylwad o blaid. Beth sy'n bwysig yw sylwedd a rhesymeg y sylwadau yma.

6.9.4 Roedd y sylwadau o blaid y statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn pwysleisio'r gwerth ychwanegol y gall ysgol efo statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ei chynnig, y ffaith fod angen y dewis o addysg Eglwysig yn Ne Meirionnydd, fod gosod y statws yma yn cadarnhau barn yr Eglwys yn ystod y cyfnod rhag-ymgynghori, a hefyd y tebygrwydd rhwng categori Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC). Roedd y sylwadau yn ategu'r rhesymeg arweiniodd i'r Cabinet benderfynu ymgynghori ar osod categori Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws yn y lle cyntaf, ac yn ategu egwyddorion dogfen Llywodraeth Cymru "Ffydd mewn addysg."

6.9.5 Roedd y sylwadau oedd yn gwrthwynebu gosod statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn llai niferus na'r sylwadau oedd o blaid, ond rhaid ystyried sylwedd a rhesymeg y sylwadau yma hefyd.

6.9.6 Un peth ddaeth yn amlwg wrth ystyried y sylwadau gwrthwynebus oedd nad y rhai oedd yn gwrthwynebu yn eglur ar y gwahaniaeth rhwng y gwahanol gategorïau cyfreithiol. Roedden nhw'n ei chael hi'n anodd deall y statws cyfreithiol yr argymhellwyd ei osod ar y Campws fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, ac union oblygiadau categori Gwirfoddol a Reolir (VC) ar addysg a bywyd o ddydd i ddydd disgyblion y Campws. Yn benodol, roedd hi'n amlwg fod nifer o'r rhai oedd wedi cynnig sylwadau yn credu mai statws Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) a fwriedid ei roi ar y Campws ac nid statws Gwirfoddol a Reolir (VC).

6.9.7 Fel yr eglurwyd yn flaenorol yn yr adroddiad yma, (ond mae'n werth pwysleisio eto), mae'r gwahaniaethau rhwng categori Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) a Gwirfoddol a Reolir (VC) yn sylweddol. Yn benodol, mewn ysgol Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), fel y Beuno Sant presennol :

- Mae gan yr Eglwys fwyafrif o Lywodraethwyr
- Yr Eglwys sydd yn rheoli mynediad
- Yr Eglwys sydd yn penodi staff
- Yr Eglwys sydd yn gyfrifol am Addysg Grefyddol ac mae hwnnw o gymeriad enwadol, gyda gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol.

Mae'n amlwg felly fod dylanwad yr Eglwys yn gryf mewn ysgol categori Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) fel Beuno Sant.

Ar gyfer y Campws 3-19, sef ysgol categori Gwirfoddol a Reolir (VC), does yr un o'r ffeithiau uchod yn wir, ac mae statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn debyg iawn i'r statws Cymunedol.

Yn benodol, mewn ysgol Gwirfoddol a Reolir (VC):

- Byddai'r gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethol yn y lleiafrif. Byddai'r Corff Llywodraethol newydd yn cynnwys 18 neu 21 o aelodau. Mae'r Eglwys wedi datgan mai dim ond cynrychiolaeth o 2 allan o'r 4 sedd neu 3 allan o'r 5 sedd y byddai ganddynt hawl i'w cael y byddent am eu cadw - gyda'r gweddill yn cael eu rhyddhau i enwadau eraill o'r ardal.
- Cyngor Gwynedd fyddai'n rheoli mynediad i'r ysgol
- Cyngor Gwynedd a'r llywodraethwyr fyddai'n penodi staff

- Byddai natur yr Addysg Grefyddol ac ethos Cristnogol yr ysgol yn debyg iawn i ysgolion Cymunedol
- Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai'n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd, ac er mai'r llywodraethwyr fyddai yn penodi'r rhain, yn y lleiafrif fyddai gallu'r Eglwys i ddylanwadu ar y penderfyniadau yma.

Mae dylanwad yr Eglwys mewn ysgol Gwirfoddol a Reolir (VC) felly'n ymylol.

6.9.8 Yng nghyd-destun y gwrthwynebiadau i statws Eglwysig y Campws, mae nifer o'r gwrthwynebiadau a wnaethpwyd ar sail dylanwad a grym yr Eglwys yn rhai fyddai'n rhai dilys os mai categori Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) y bwriedid ei osod ar y Campws, ond nid yw cryfder a dilysrwydd dadleuon nifer o'r gwrthwynebwyr mor gryf petaent yn cael eu cymhwyso i'r categori Gwirfoddol a Reolir (VC). Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried yr elfen sy'n cael y mwyaf o ddylanwad ar natur ysgol Eglwysig, sef y Llywodraethwyr. Gan y Llywodraethwyr mae'r prif rym i fedru dylanwadu ar weithrediad dydd i ddydd ysgol a phrofiad y disgyblion, ond gan eu bod yn y lleiafrif mewn ysgol Gwirfoddol a Reolir (VC), yna tra byddai grym a dylanwad yr Eglwys yn gryf mewn ysgol Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), cymharol ymylol fyddai eu grym a'u dylanwad mewn ysgol Gwirfoddol a Reolir (VC).

6.9.9 Yn ogystal, rhaid nodi na wnaeth neb oedd yn gwrthwynebu'r statws Eglwysig Gwirfoddol a Reolir (VC) wneud hynny drwy gynnig tystiolaeth y byddai statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn effeithio ar ansawdd addysg. Mae'n wir y cafwyd nifer o sylwadau oedd yn mynegi pryder am ansawdd addysg Ysgol Beuno Sant. Fodd bynnag, ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) yw Ysgol Beuno Sant, ac nid yw hi'n rhesymegol casglu y byddai ansawdd addysg y Campws yn dioddef, dim ond oherwydd bod ganddo statws Eglwysig Gwirfoddol a Reolir (VC). Mae perfformiad ysgolion yn amrywio drwy Wynedd a Chymru, beth bynnag fo'u statws cyfreithiol. Ni wnaeth yr un o'r gwrthwynebiadau gyflwyno dadl oedd yn llwyddo gydag unrhyw hygrededd i argyhoeddi fod egwyddorion sylfaenol ysgol Gwirfoddol a Reolir (VC) yn debygol o effeithio ar ansawdd addysg a phrofiadau dysgu disgyblion.

6.9.10 O ran y pryderon eraill a fynegwyd, sef penderfynu ar enw ar y Campws a chanfyddiad o ddelwedd Saesnig yr Eglwys mae'r rhain wedi eu hateb yn flaenorol ym mharagraffu 6.7 a 6.8 uchod. Gellir deall y pryderon a fynegwyd ar y materion yma, ond am y rhesymau a nodir yn y paragraffau uchod mae'n bosibl lleddfu'r pryderon yma i raddau helaeth os nad yn gyfan gwbl.

6.9.11 Gellir parchu'r gwahaniaeth barn sydd ar statws arfaethedig y Campws, ond gan nad yw'r gwrthwynebiadau wedi cynnig unrhyw dystiolaeth newydd nag unrhyw ffactorau sy'n tanseilio rhesymeg flaenorol y Cyngor o ymgynghori ar Gampws 3-19 gyda statws Gwirfoddol a Reolir (VC), (gweler paragraff 6.1 am y rhesymeg), nid yw'r dadleuon wedi llwyddo i argyhoeddi y dylid ail-ystyried y statws Gwirfoddol a Reolir (VC), ac felly mae'n rhesymol parhau efo'r cynnig o Gampws 3-19 statws Gwirfoddol a Reolir (VC).

6.9.12 Ffactor arall berthnasol i'w ystyried yw'r angen i sicrhau darpariaeth Eglwysig yn Ne Meirionnydd. Gyda'r ad-drefnu sy'n digwydd yn nalgylch cyfagos y Gader, bwriedir cau 2 ysgol statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn Ne Meirionnydd, yn ogystal â Beuno Sant Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA). Golyga hyn golli dros 200 o lefydd mewn ysgolion Eglwysig yn Ne Meirionnydd. Mae angen ystyried y ffactor yma wrth wneud penderfyniad. Rhaid cofio hefyd canlyniad yr asesiad o angen am addysg o wahanol gategorïau a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd yn nalgylch y Berwyn, ddaeth i'r casgliad mai ansawdd addysg oedd y ffactor pwysicaf i rieni wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plentyn, gyda 79% o'r ymatebwyr yn dweud mai hwn oedd y ffactor pwysicaf mewn ysgol. Nid oes barn o ran categori'r ysgol y naill ffordd neu'r llall. Cadarnhawyd mai materion addysgol – ansawdd, perthynas dda gyda'r ysgol a safon yr adnoddau a'r amgylchedd ddysgu yw'r prif ffactorau a ystyrir yn bwysig.

6.9.13 Mater arall sydd angen ystyriaeth yw'r broses gyfreithiol. Pe byddai penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen efo'r cynnig gwreiddiol a gosod statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws, byddai'n rhaid ymgynghori eto. Byddai hyn yn achosi llithriad o tua 10 mis yn yr amserlen. Mae gan yr Eglwys yng Nghymru hawl i atgyfeirio cynigion i Lywodraeth Cymru, a phe byddai hyn yn digwydd gall arwain at oedi o 6-7 mis pellach. Gall Llywodraeth Cymru dderbyn neu wrthod y cynnig. Pe bai'r cynnig yn cael ei wrthod, yna byddai'n rhaid cychwyn ar y broses o ddatblygu'r cynnig o'r cychwyn, a hefyd o bosibl ail gychwyn y

broses o ymgeisio am arian gan y Llywodraeth. Byddai'n rhaid ail gynnal y broses rhag-ymgynghori gyda'r Eglwys, ac yna adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ymateb yr Eglwys i unrhyw gynnig newydd. Byddai angen i'r Cabinet wedyn ystyried cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach, cyn derbyn adroddiad pellach i ystyried yr ymgynghoriad hwnnw i ryddhau rhybuddion statudol. Byddai hyn yn llithriad amser oddeutu 10 mis i'r pwynt rydym ynddo nawr.

6.9.14 Yn y cyfamser, byddai hyn yn golygu oedi cyflwyno'r achos busnes i ddechrau 2016 ac yn gwthio'r gwariant tuag at gynffon y rhaglen Band A presennol a allasai greu problemau o ran sicrhau gwariant Llywodraeth Cymru. Byddai newid cyfeiriad yn golygu na fyddai'r Campws yn agor tan o leiaf Medi 2019.

6.9.15 Nid yw'r rhain yn ffactorau ddylai ddylanwadu ar benderfyniad gan y Cabinet i beidio â gosod statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws, oherwydd fel y dywedir uchod ym mharagraff 6.9.11, "....nid yw'r dadleuon wedi llwyddo i argyhoeddi y dylid ail-ystyried y statws Gwirfoddol a Reolir (VC), ac felly mae'n rhesymol parhau efo'r cynnig o Gampws 3-19 statws Gwirfoddol a Reolir (VC)."

6.9.16 Felly, pe byddai'r Cabinet am newid y cynnig mae angen ystyried, (yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi ei nodi uchod), y canlynol;

- Y llithriad yn yr amserlen
- Yr angen i ystyried modelau eraill o'r newydd
- Effaith atgyfeiriad yr Eglwys
- Y risg o'r Llywodraeth yn gwrthod y cynnig
- Ansicrwydd pellach i'r achos busnes

6.10 <u>Casgliadau ar fater y categori</u>

6.10.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod fod mater y categori wedi ennyn ymateb cryf o blaid ac yn erbyn drwy'r ymgynghoriad, a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r holl faterion a godwyd.

6.10.2 Mae'r Eglwys yng Nghymru hefyd wedi cytuno yn benodol i'r isod, ac mae hyn yn golygu bod y pryderon gafodd eu nodi yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu lleddfu ymhellach :

- Mae cynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu wedi'i agor i enwadau eraill er mwyn adlewyrchu cymeriad a thraddodiadau'r ardal,
- Mae'r Eglwys yn hollol agored i gefnogi pa bynnag enw fydd y Corff Llywodraethu Cysgodol yn ei roi ar y Campws Dysgu
- O ran yr ogwydd ieithyddol – mae cefnogaeth lwyr o du'r Eglwys i ddatblygu'r Campws fel sefydliad i gryfhau'r iaith Gymraeg

6.10.3 Felly, wrth ystyried y rhesymeg wreiddiol dros ymgynghori i osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws Dysgu, y sylwadau ddaeth i law a'r ymateb i'r sylwadau hynny, deuir i'r casgliad nad oes cyfiawnhad digonol yn dilyn y broses ymgynghori statudol i newid y categori yr ymgynghorwyd arno.

## 7 I GRYNHOI

7.1 Mynegwyd cefnogaeth gyffredinol gadarn drwy'r ymgynghoriad i'r cynnig o sefydlu Campws Dysgu 3-19 yn y Bala. Mae'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y statws cyfreithiol wedi eu trafod a'u cloriannu uchod. Argymhellir felly ryddhau rhybuddion statudol i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Gwirfoddol a Reolir (VC) ar safle presennol Ysgol y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018 a bod y Campws yn agor ar 1 Medi 2018.

7.2 Mae'r argymhelliad yma yn dilyn **ystyriaeth o ystod eang o fodelau posib**. Crynhowyd y cynigion yma i **restr hir o fodelau posib**, a **gwerthuswyd yr opsiynau yma'n llawn** wrth gymharu prif fanteision ac anfanteision yn erbyn **ffactorau penodol**. Defnyddiwyd ffactorau'r strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant*

*Gwynedd'*, ffactorau yn y Cod Trefniadaeth, gweledigaeth dalgylch Y Berwyn a ffactorau perthnasol eraill. Roedd y ffactorau yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- Ansawdd yr Addysg
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Niferoedd disgyblion a llefydd gweigion
- Amgylchedd Dysgu – ansawdd ac addasrwydd adeiladau
- Statws / Categori Ysgol
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Yr Iaith Gymraeg
- Ardrawiad Cydraddoldeb
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol

Mae'r gwerthusiad opsiynau llawn yma eisoes wedi ei gyflwyno i'r Cabinet am ystyriaeth yn Chwefror 2015, ac i'w weld yn atodiad 3.

7.3 Fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau yma, defnyddiwyd hefyd casgliadau **asesiadau effaith Cymunedol , Ieithyddol a Chydraddoldeb.** Mae'r asesiadau yma yn atodiad 4, a holl ddogfennaeth gefndirol y cynnig ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion <http://www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion>. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynigion. Mae'r asesiadau yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisïau a threfniadau mewn lle a fyddai yn sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd ag hawliau cyfartal. Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad bod sicrwydd yr hyrwyddir cyfleoedd cyfartal yn gadarnhaol yn sgil y cynnig a bod mesurau mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu. Mae trefniadau mewn lle yn ogystal fydd yn monitro ac yn adolygu'r sefyllfa. Ystyrir felly fod canfyddiadau'r asesiadau yn parhau yn gyfredol ac yn berthnasol i'r argymhelliad.

7.4 **Cwblhawyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghrymu** ac ystyriwyd eu sylwadau, ynghyd â'r gwerthusiad opsiynau a'r asesiadau effaith cyn penderfynu cymeradwyo cynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol ar y cynnig.

7.5 Yn dilyn **ystyried yr holl sylwadau** a dderbyniwyd yn ystod y **cyfnod ymgynghori statudol, ystyrir fod y cynnig ymgynghorwyd arno dal i gynnig yr opsiwn orau ar gyfer dyfodol addysg yn nalgylch Y Berwyn.** Mae dadansoddiad o'r sylwadau a dderbyniwyd yn cael sylw yn adran 5 a 6 ac atodiad 1 yr adroddiad yma, ac mae'r ymatebion ar gael yn llawn ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion.

7.6 Fel nodwyd yn yr adroddiad, mynegwyd nifer o sylwadau ar ddyluniad arfaethedig o'r Campws, ac mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi derbyn y sylwadau hyn ac yn awyddus i weithio ymhellach gyda rhan-ddeiliaid i ddatblygu'r cynllun ymhellach.

7.7 Fel nodwyd, mae mater statws y Campws wedi derbyn cryn sylw yn ystod yr ymgynghoriad, ond, wedi pwyso a mesur a thrafod y mater ymhellach, argymhellir parhau gyda'r cynnig presennol o osod statws Gwirfoddol a Reolir (VC), ar y Campws Dysgu 3-19.

7.8 Mae'r cynnig yn parhau fel yr opsiwn ffafriedig am nifer o resymau. Trwy sefydlu Campws Dysgu 3-19, gellir **mynd i'r afael â nifer o'r heriau** a geir ar hyn o bryd yn nalgylch y Berwyn, creu **nifer o wahanol gyfleoedd i ddatblygu ar sylfaen ansawdd addysg a dysgu** presennol y dalgylch, yn ogystal â chynnig hyblygrwydd mewn nifer o ffyrdd i **greu darpariaeth addysgol gadarn a chynaliadwy i'r dyfodol**. Rhai o fuddion y cynnig yw ei fod yn:

- Gwella cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg yn nhref Y Bala
- Gwella safonau addysg wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol

- Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau
- Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer llefydd gweigion
- Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion y dalgylch wrth fuddsoddi £9.27miliwn ar greu Campws Gydol Oes newydd a gwaredu dau safle
- Cysoni nifer yr ysgolion i gyfarch y galw
- Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion, gan leihau'r gost fesul disgybl i hafal neu well na'r cyfartaledd Sirol o £3,856 i'r Cynradd a £4,623 i'r Uwchradd
- Galluogi system uwch reoli modern newydd, bydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd
- Sicrhau bod safle addysg o fewn pellter rhesymol i holl ddisgyblion y dalgylch
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Yn rhoi oddeutu £85,000 o arbedion yn ei gyfanrwydd, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch
- Yn rhoi'r cyfle gorau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio dysgu mwy byddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch
- Diogelu a chryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dalgylch

## 8 CAMAU NESAF

8.1 Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn - bydd angen cyhoeddi rhybuddion statudol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac arweiniad y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

8.2 Byddai'r rhybuddion statudol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o pan gyhoeddir y rhybuddion. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

8.3 Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Rhaid cofio bod rhai sefyllfaoedd lle bydd penderfyniad terfynol y Cyngor yn gallu cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013).

8.4 Yn ddarostyngedig ar benderfyniadau'r Cabinet, dyma gamau nesaf y broses gydag amserlen amlinellol;

| Camau'r Daith | Amserlen Amlinellol |
|---|---|
| Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad statudol | 2 Mehefin 2015 |
| Cyhoeddi Rhybuddion Statudol a chyfle i ymgynghorai wrthwynebu | Mehefin-Gorffennaf 2015 |
| Penderfyniad Terfynol gan Gabinet y Cyngor | Medi 2015 |
| Cychwyn Gwaith Adeiladu | Dechrau 2016 |
| Agor Y Campws Dysgu | 1 Medi 2018 |

## 9 ARGYMHELLION

9.1 Argymhellir felly:

i. Cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol y Berwyn ar 31 Awst 2018 a sefydlu Campws Dysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar safle presennol Ysgol y Berwyn i agor ar 1 Medi 2018.

ii. Cymeradwyo cyhoeddi rhybuddion statudol ar y cynnig yn (i) uchod yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

iii. Yn dilyn ystyried sylwadau'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â phwysigrwydd penodi pennaeth a'r angen iddo gael ei benodi o flaen amser, cymeradwyo penodi a chyllido pennaeth y Campws Dysgu 3-19 o arbedion y cynllun, am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2018.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Prif Weithredwr:**

"Fel y nodais pan yn cyflwyno sylwadau ac adroddiad tebyg o ran dalgylch Ysgol Y Gader, pan mai mater yn cyrraedd y pwynt hwn yn y drefn, mae'n amser i'r Cyngor symud yn ei flaen i wireddu'r newid hwn. Yn amlwg, mae rhai gwrthwynebiadau i bob newid. Yn amlwg, mae mater statws yr ysgol yn fater sydd wedi derbyn sylw, ond byddwn yn awgrymu mai'r hyn sy'n allweddol i'r ffordd ymlaen yw, nid yn gymaint ei statws ond ansawdd a chynaladwyedd yr hyn a ddarperir yno.

Unwaith eto, mae elfennau cost ynghlwm ag un o'r argymhellion, ac mae'r Pennaeth Cyllid yn cyfarch y mater hwnnw. Rwy'n cymeradwyo'r argymhellion."

**Y Swyddog Monitro:**

"Wedi cwblhau cyfnod o ymgynghori statudol adroddir ar ganlyniadau'r broses gan hefyd ddarparu sylwadau ar yr ymatebion. Dilynwyd gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013 ynghyd ac arweiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn y broses. Mae rhaid i'r Cabinet ystyried a chloriannu'r wybodaeth a barn a gyflwynwyd mewn ymateb, y sylwadau ar y rhain ynghyd a'r ffactorau a gwybodaeth ehangach berthnasol sydd yn adroddiad a'r dogfennau cefndir wrth ddod i gasgliad ynglŷn â mabwysiadu'r argymhellion yn yr adroddiad ai peidio."

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Mae hanes hir i gynlluniau Trefniadaeth Ysgolion yn Nalgylch Y Berwyn. Ar bob cam, mae swyddogion Cyllid wedi cydweithio gyda'r Adran Addysg wrth baratoi'r ffigyrau ariannol, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y ffigyrau sy'n ymddangos yn rhan 3.4 o'r adroddiad. Rwy'n argyhoeddedig fod yr achos busnes yn parhau'n gadarn, ac mae rhesymau amlwg i gefnogi'r argymhellion a gweithredu heb oedi pellach.

Un mater "newydd" gerbron yma, sydd ag ymhlygiad ariannol, yw penderfyniad iii, sef "*penodi a chyllido pennaeth y Campws Dysgu 3-19 o arbedion y cynllun, am o leiaf blwyddyn cyn dyddiad agor arfaethedig y Campws sef Medi 2018*." Credaf byddai'n rhesymol i ddefnyddio £90,000 un-tro (amcangyfrif cost blwyddyn yn cynnwys yswiriant gwladol a phensiwn) o arbedion trefniadaeth i'r perwyl hwn."

---

**ATODIADAU**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Dadansoddiad ac ymateb y Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol |
| **Atodiad 2** | Dadansoddiad yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc gan hwylusydd arbenigol |
| **Atodiad 3** | Gwerthusiad opsiynau |
| **Atodiad 4** | Asesiadau Ardrawiad Ieithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb a'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion |

**DOGFENNAU CEFNDIROL**

Mae'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol (gyda rhai wedi eu cyhoeddi'n llawn, rhai heb fanylion personol a rhai heb eu cyhoeddi yn unol â dymuniad yr ymatebwyr) ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion

Mae dogfennau cefndirol perthnasol eraill yn cynnwys y canlynol, hefyd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion neu drwy gysylltu â trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

Dyma'r prif ddogfennau cefndirol perthnasol:

- Dogfen Ymgynghori Statudol 13 Mawrth – 28 Ebrill 2015
- Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013)
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd
- Cynllun Blaenoriaethau - Maes Trefniadaeth Darpariaeth Addysg
- Dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru
- Agenda a Chofnodion Cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn 6 Mai 2014 a 14 Ionawr 2015
- Pecyn Ystadegol

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol i gau Ysgol Y Berwyn, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant a Sefydlu Campws Ddysgu 3-19 Cyfrwng Cymraeg, Gwirfoddol a Reolir (VC) Eglwys yng Nghymru ar safle bresennol Ysgol Y Berwyn yn Nhref Y Bala (Cyfnod Ymgynghori Statudol 13 Mawrth – 28 Ebrill 2015)**

Derbyniwyd 220 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.



| Cod y Sylwad | Sylwadau | Nifer yr ymatebion gan gynnwys y sylwad | Ymateb Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cefnogaeth** | | |
| 1.1 | Rwy'n hynod o falch fod y cynllun ysgol gydol oes yn digwydd/Rwyf yn cefnogi'r cynllun ond dim ond er mwyn cadw ysgol yn y dref gan fy mod yn credu ei bod yn angenrheidiol cael addysg i blant mor agos i'w cynefin a phosibl/ Rwy'n hollol gytûn ar y penderfyniad i ddatblygu Campws Gydol Oes ar safle Ysgol y Berwyn, yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer adnoddau a chanolfannau arbennig/ Mae'r amcan gan y Cyngor i "greu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir" yn amcan sydd i'w ganmol yn fawr. Rwy'n siŵr bod pawb yn ardal Penllyn yn cytuno bod wir angen gwario ac altro yn Ysgol y Berwyn ac y bydd y Campws o fudd i'r plant a'u haddysg/ Dwi'n cytuno gyda Chyngor Gwynedd bod ni'n cael un ysgol fawr rhwng Ysgol Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn/ Rwyf wedi bod yn gefnogol i'r syniad o ysgol gydol oes ers y dechrau, yn enwedig uno ysgolion tref y Bala. / Mae'n hen bryd i'r dref gael Campws newydd ar gyfer yr ysgol gydol oes.. / Bydd hyn ar les addysg y dref gan fydd defnydd effeithiol o adnoddau. Hyn i gyd yn ychwanegol i arbenigedd yr athrawon bydd ar gynnig | 8 | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau cadarnhaol iawn ynglŷn â'r model a gynigir yn ystod y broses ymgynghori.<br><br>Gall y cynnig i sefydlu Campws 3-19 yn Y Bala:<br>• Gwella safonau addysg ar draws y dalgylch wrth alluogi hyblygrwydd ar draws holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol<br>• Cael effaith ar faint ac amrediad oedran o fewn dosbarthiadau<br>• Yn gwella cyflwr a safon stad ysgolion y dalgylch wrth fuddsoddi £9.27miliwn ar greu Campws Gydol Oes newydd a gwaredu dau safle<br>• Galluogi system uwch reoli modern newydd, bydd yn rhyddhau'r pennaeth o'r dosbarth, yn cynnig hyblygrwydd gyda'r strwythur staffio ar draws y sectorau, yn darparu cyfleoedd gyrfa newydd<br>• Sicrhau bod safle addysg o fewn pellter rhesymol i holl ddisgyblion y dalgylch<br>• Yn lleihau llefydd gweigion y dalgylch yn sylweddol<br>• Yn rhoi oddeutu £85,000 o arbedion yn ei gyfanrwydd, ac yn rhesymoli amrediad cost y disgybl yn y dalgylch<br>• Yn rhoi'r cyfle gorau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio dysgu mwy byddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch<br>• Diogelu a chryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn y dalgylch<br><br>Gallai'r cynnig i sefydlu Campws Ddysgu 3-19 rhoi cyfle i wella safonau addysgol yn nhref y Bala, sydd wedi bod yn llusgo y tu ôl i safonau'r ysgolion gwledig y dalgylch yn ddiweddar.<br><br>Byddai sefydlu un Campws Dysgu 3-19 yn y Bala yn galluogi hyblygrwydd ar draws yr |
| 1.2 | Byddai'n dda o beth petai ysgolion gwledig yr ardal yn manteisio ar yr un cyfleoedd yma efallai dylid cysidro cyllid ar gyfer cludiant nol a blaen rhwng yr ysgol gynradd ar Ysgol Gydol Oes. | 1 | |
| 1.3 | Mynegodd aelodau Cyngor Tref Y Bala, Cyngor Cymuned Llangywer a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn eu cefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig. | 1 | |
| 1.4 | Ar ran Bwrdd Addysg Statudol Esgobaeth Bangor hoffwn nodi ein bod yn cefnogi'r cynllun a amlinellir yn nogfennaeth yr ymgynghoriad. / Credwn fod ysgol o'r fath hefo potensial i gynnig y profiad gorau o addysg i bobl ifanc tref y Bala a'r cylch. | 1 | |

| | | |
|---|---|---|
| 1.5 | Hoffem fel Corff Llywodraethol Ysgol Bro Tryweryn fynegi ein cefnogaeth i sefydlu'r Ysgol Gydol Oes a chroesawn y buddsoddiad hir disgwyliedig yn addysg y cylch. | 2 |
| 1.6 | Ar ran Corff Llywodraethol Ysgol OM Edwards dymunwn fynegi cefnogaeth gyffredinol y Corff Llywodraethu i'r cynlluniau arfaethedig i sefydlu Ysgol Gydol Oes yn nhref y Bala. Profiad ni yn Ysgol OM Edwards yn dyst i arwyddocâd adeilad ac adnoddau modern i addysgu effeithiol a chael y gorau o gyrhaeddiad pob un disgybl. Does dim amheuaeth bod amgylchedd addysg fodern a byrlymus ym mhellgyrhaeddol er gwireddu gofynion a heriau'r cwricwlwm cyfoes. | 1 |
| | Mae'n ymddangos mai'r dewis sy'n ymwneud a champws dysgu gydol oes sy'n cynnig y budd mwyaf wrth werthuso dewisiadau. | |
| 1.7 | Rwyf o blaid y cynnig | 32 |
| 1.8 | Gefnogol i'r bwriad o greu ysgol 3-19 ar gampws dysgu yn nhref y Bala - ddogfen ymgynghori yn rhoi digon o dystiolaeth o'r angen hwnnw. | 1 |
| 1.9 | Rwyf eisiau'r addysg orau bosibl ar gyfer plant y Bala ac rwy'n meddwl bod y cynnig hwn yn gwneud synnwyr. Mae'n dod a'r gymuned at ei gilydd ac yn cynnig amgylchedd dysgu newydd a all gyflawni'r holl fuddiannau a ddaw mewn ysgol fodern addas i'r diben. Edrychaf ymlaen at weld plant yr ardal hon yn elwa ar y buddsoddiad. / Hoffwn i hyn fynd yn ei flaen gan fy mod yn credu ei fod yn darparu amgylchedd dysgu lle caiff pob disgybl ei barchu a'i annog ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud; lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. | 8 |
| 1.10 | Yn bendant rhaid cael ysgol newydd, gymunedol cefn gwlad. | 1 |
| 1.11 | Yn hapus a'r cynlluniau newydd a'r planiau yn gwneud synnwyr ac yn diogelu'r ysgol i'r dyfodol. /Mae'r cynlluniau ar gyfer yr Ysgol Gydol Oes i'w gweld yn fodern ac yn effeithiol ac yn sicr yn welliant ar yr adnoddau presennol/Rwyf yn hollol gefnogol i Ysgol Gydol Oes yn y Bala gan fod gwir angen addasu'r adeilad er mwyn sicrhau awyrgylch braf ac i sicrhau addysg o'r radd flaenaf ar gyfer y dyfodol | 3 |
| | Gobeithio y bydd y cynlluniau yn llwyddiant er budd plant yr ardal. | 1 |
| 1.12 | Cytuno efo'r bwriad i gau'r ddwy ysgol gynradd, ond bydd yn trawsnewid y Bala. Wedi cael y profiad o Ysgol y Sarnau yn cau a gorfod symud i Ffridd y Llyn - ddim yn brofiad hawdd. | 1 |
| 1.13 | Er nad wyf yn gyffyrddus gyda'r syniad o gau ysgolion a chael disgyblion 3-19 i rannu'r un ysgol, mae'n debyg mai dyma'r ffordd ymlaen er mwyn gwella addysg, felly pam ddim bod "o flaen y gad" yn Y Bala? / Fel unrhyw brosiect newydd, mae elfen o bryder, nerfusrwydd ac ansicrwydd ymysg trigolion y dalgylch, ond rwy'n grediniol y byddai | 2 |



holl oedrannau fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau, yn dod yn arfer safonol. Dyma rai o'r posibiliadau:

- Mae cyfle i fanteisio ar arbenigedd staff ar draws y grwpiau oedran.
- Gall athrawon uwchradd arbenigol addysgu pynciau i'r oed cynradd e.e. cerddoriaeth
- Mewn cydweithrediad a'r ysgolion gwledig posib gellir trefnu'r cwricwlwm cynradd a'r amserlen ar draws yr holl safleoedd fel bod yr holl ddisgyblion o'r un oedran yn dysgu yr un pethau ar yr un pryd - byddai hyn yn sicrhau eu bod i gyd ar yr un lefel wrth fynd i flwyddyn 7 yn y safle uwchradd
- Bydd mwy o staff cynradd yn gallu dod at ei gilydd i drafod a rhannu arfer gorau a chefnogi, annog a dysgu oddi wrth ei gilydd
- Byddai gwell parhad ym mhob agwedd ar y cwricwlwm oherwydd ei fod yn cael ei raglennu ar draws y dalgylch, gan sicrhau yr un profiadau a chyfleoedd i bob disgybl

Dylai model y Campws Dysgu roi cyd-destun mwy effeithiol i reolwyr reoli adnoddau ac i gynllunio addysg yn y sefydliad. Gallai hyn yn ei dro ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd, safon yr addysg a lles y disgyblion.

- Mae tystiolaeth yn dangos bod perthynas agosach rhwng yr ysgol a'r rhieni, ac y sefydlir cymuned agosach o'r herwydd. Dangosodd gwaith ymchwil yn yr Alban *"... yn aml mae'r berthynas gref gyda'r rhieni â'i gwreiddiau mewn cysylltiadau a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar addysg y plant" (*Dysgu Gyda'n Gilydd HMIE (yr Alban), 2010). Mae perthynas o'r fath yn un iach i'r disgybl, ac yn wir i'r gymuned ehangach.
- Gellir cefnogi lles y disgyblion drwy leihau'r pryder ac ofn dros y cyfnod pontio rhwng y sector cynradd cyfarwydd a'r sector uwchradd. Sefydlir system gymorth sy'n briodol i oed ac anghenion y disgyblion, ac felly caiff perthynas tymor hir ei ffurfio rhwng rhieni a staff.
- Canfuwyd bod athrawon yn gallu deall gofynion addysgol disgyblion yn well mewn system ysgolion gydol oes.
- Mae profiadau ardaloedd eraill yn dangos bod cyfle i gefnogi teuluoedd trwy ddarparu gwasanaethau integredig, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal plant, hyfforddi oedolion, yn ogystal ag ystod o wasanaethau eraill.
- Gellir datblygu polisi iaith gynhwysfawr drwy'r sectorau cynradd ac uwchradd, i gynnwys gweithgareddau cymunedol ac addysg i oedolion.

Gallai Campws Dysgu 3-19 roi cyfleoedd ychwanegol i gynnal ethos a gwerthoedd cyffredinol ar draws yr ysgol a dylai'r rhain ddarparu cyd-destun mwy effeithiol ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Yn fyr:

- Mae'n fanteisiol defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgu a dysgu mewn ysgolion

| | | |
|---|---|---|
| | datblygiad o'r fath yn llwyddiant.<br>Mae'n anodd dychmygu sut y gall addysg y dalgylch barhau fel ar y mae ar hyn o bryd – mae angen sicrhau bod y broses ad-drefnu yn digwydd er mwyn arbed addysg ardal Penllyn. | |
| 1.14 | Rwyf o blaid y cynnig mewn egwyddor. Fodd bynnag mae gen i bryder y bydd fy mhlentyn sy'n ddwy oed ar hyn o bryd ac yn dechrau'r ysgol flwyddyn cyn i'r cynnig ddod i rym yn ei hansefydlogi | 1 |
| 1.15 | Cefnogaeth lwyr i gynlluniau Cyngor Gwynedd i ad-drefnu addysg yn nalgylch Y Bala. Mae'r weledigaeth o gael campws gydol oes gydag adnoddau modern yn mynd i sicrhau'r addysg a'r cyfleoedd gorau i blant a phobl ifanc yr ardal. / Cynllun cyffrous ac mae gennym bob ffydd y bydd y Cyngor yn llwyddo i droi'r cyfan yn ffaith ac rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sy'n gweithio'n galed ar ein rhan. /<br>Awyddus i weld ysgol gydol oes a fydd yn darparu addysg o'r safon uchaf bosibl i ddisgyblion Penllyn, ac yn sicrhau dyfodol addysg yr ardal ar gyfer y dyfodol. | 2 |
| 1.16 | Hoffem eich llongyfarch a datgan ein cefnogaeth lwyr i'r cynlluniau cyffrous i gampws y Berwyn Y Bala. Bydd darpariaeth addysgol fodern yn gaffaeliad mawr i addysg Penllyn. Bydd yn allweddol er cynyddu niferoedd y disgyblion, gan ail ddenu plant yn ôl i'r Berwyn o ardaloedd ffiniol Sir Dinbych a Conwy. / Mae dylanwad Ysgol y Berwyn wedi gwanhau dros y blynyddoedd drwy ardaloedd ffiniol DInbych a Conwy. Mae'r addewid o Ysgol Gydol Oes newydd yn gyfle euraid i ail sefydlu Ysgol y Berwyn drwy'r ardaloedd hyn. | 1 |
| 1.17 | Argymhelliad yma'n dod a holl gryfderau'r ysgolion presennol at ei gilydd, gan gyfuno talent a sgiliau ar draws yr ardal gyfan, a hefyd dod a darparwyr addysg gwahanol at ei gilydd er budd y dalgylch cyfan. | 1 |



cynradd ac uwchradd, er mwyn gwella dysgu'r disgyblion ar draws y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

- Gellir sicrhau cysondeb mewn addysgu, dysgu a dulliau asesu a'r cyfleoedd a roddir i ddatblygu ffyrdd o hyrwyddo sgiliau arloesol.
- Gall y cyfnod pontio o'r cynradd i'r sector uwchradd fod yn brofiad heriol i rai dysgwyr oni ymdrinnir â'r pontio mewn ffordd gydlynol. Gall ysgol ddilynol hwyluso'r newid gan na fyddai'n golygu newid sefydliad rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd pan fo'r disgybl yn cyrraedd 11 oed. Yn naturiol byddai gwahaniaethau mewn ethos a diwylliant rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd, ac i rai disgyblion gallai hyn gyfrannu tuag at anawsterau yn y cyfnod pontio rhwng CA2 a CA3
- Gellid sicrhau dilyniant, a hefyd cefnogi a gofalu am ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol. Byddai hyn yn sicrhau gwell dilyniant a chysondeb yn y cymorth a roddir ar draws yr holl gyfnodau allweddol. Hefyd byddai mwy o gyfleoedd i ymyrryd yn gynnar – a thrwy hynny, fframwaith ar gyfer tracio drwy'r system i gyd.
- Gallai hyn gynnig cyfle i benodi athrawon arbenigol er mwyn sicrhau cysondeb yn y cwricwlwm ar draws pob grŵp oedran.
- Mae mwy o gyfleoedd i sicrhau bod plant yn cael eu dysgu yn ôl eu hanghenion yn hytrach nag yn ôl eu grŵp oedran.
- Nid yw profiad ysgol uwchradd yn gymhwyster angenrheidiol i arweinwyr ysgolion gydol oes, gall ysgol o'r fath gael ei harwain gan benaethiaid ysgolion arbennig neu benaethiaid ysgolion cynradd. O ran y strwythurau rheoli, mae'n bwysig sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng y gwahanol sectorau.
- Mae rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol yn fanteisiol fel mesurau cymorth i'r ethos ysgol gyfan. Gall rhannu arbenigedd wella gwybodaeth am y cwricwlwm ar draws y gwahanol gyfnodau, ynghyd â chymorth o safbwynt arfer gorau.
- Mae nifer o gyfrifoldebau - cwricwlaidd a rheolaethol, sy'n gallu bod yn feichus i sefydliadau bach – y gellir eu canoli, e.e. cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, rheoli perfformiad, trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu.
- Gellir gwneud defnydd rheoli mwy effeithiol o adnoddau dynol wrth addysgu rhai pynciau arbenigol i ddisgyblion.

Bydd amryw o gyfleoedd i ddatblygu ar sylfaen ansawdd addysg a dysgu presennol. Bydd gweithredu'r cynnig i sefydlu Campws Gydol Oes 3-19 oed yn cael effaith ar lawer o'r heriau a geir ar hyn o bryd yn nalgylch y Berwyn, y rhelyw o'r rheini yn rhai sy'n ymwneud a'r ddarpariaeth addysgol yn nhref Y Bala. Byddai sefydlu Campws Gydol Oes yn gyfle arloesol i fynd i'r afael â'r heriau addysgol sydd yn y dalgylch. Byddai adeiladau ac adnoddau'r Campws Gydol Oes yn addas ar gyfer darpariaethau

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cwricwlwm a phrofiadau galwedigaethol cyfoes. Byddai hefyd yn adnodd newydd fyddai ar gael at ddefnydd disgyblion ysgolion gwledig y dalgylch yn ogystal â phlant a phobl ifanc y dalgylch a'r gymuned y tu allan i oriau arferol ysgol. |
| **2** | **Addysg** | | |
| 2.1 | Yn fy marn i dylai Cyngor Gwynedd fuddsoddi'r arian ar adnoddau athrawon i'r ysgolion a pharhau i gael yr ysgolion cynradd i gydweithio/ffedreiddio. | 1 | Mae'r ardal wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol gan fod nifer o heriau yn wynebu'r ddarpariaeth addysg:<br>• Mae niferoedd disgyblion yn y dalgylch wedi lleihau dros y chwarter canrif ddiwethaf. Mae niferoedd disgyblion felly'n isel, er yn gyson a sefydlog ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o ysgolion y dalgylch<br>• Mae'r gost fesul disgybl yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y dalgylch ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Sirol o £3,856, ac yn Ysgol Y Berwyn yn £5,174 o'i gymharu â'r cyfartaledd sirol uwchradd o £4,623<br>• Mae amrediad o fewn y dalgylch yn y gost fesul disgybl cynradd o £3,378 - £4,202<br>• Ceir dwy ysgol gynradd yn nhref Y Bala a'r ddwy wedi eu lleoli nepell o'i gilydd. Mae hyn yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau<br>• Mae'r tair ysgol yn nhref Y Bala gyda Phenaethiaid mewn gofal, neu'n cael cymorth gan benaethiaid yr ysgolion gwledig<br>• Anghysondeb yn ansawdd addysg y dalgylch, yn enwedig yn ysgolion y dref<br>• Nid yw adeiladau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Y Berwyn yn y cyflwr gorau nac yn addas ar gyfer dysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae adeilad Ysgol Y Berwyn yn enwedig, mewn cyflwr gwael iawn, yr adeilad wedi dirywio'n sylweddol ac ôl-groniad gwariant cynnal a chadw o £1,233,000<br>• Mae gan ysgolion Beuno Sant 48% o lefydd gweigion ac Ysgol Y Berwyn 57% o lefydd gweigion. Mewn cyferbyniad a hyn, mae Ysgol Bro Tegid yn llawn a niferoedd y disgyblion yn fwy na'i chapasiti.<br>• Yr angen i sicrhau hyfywedd a chynaladwyedd y trefniadau addysgol yn y dalgylch ar gyfer y dyfodol<br><br>Bydd y buddsoddiad o £9.27m yn gwella amgylchedd ddysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ddysgu da yn hyrwyddo gwell addysg. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn Y Bala yn arwain at fwy na buddsoddiad yn yr amgylchedd ddysgu yn unig. Trwy ddod ag ysgolion tref Y Bala at ei gilydd fel un sefydliad oedran 3-19, gellir rhannu adnoddau ac arbenigedd staff yn well, gan arwain at welliant yn ansawdd addysg. |
| 2.2 | Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn debygol o leiaf gynnal safonau addysg yn yr ardal gan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn debygol o sicrhau arweinyddiaeth newydd sefydlog gyda ffocws ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. | 1 | Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau Estyn ac yn cytuno bod y cynnig yma'n cynnig y cyfle gorau i wella ansawdd addysg yn y dalgylch. |
| 2.3 | Mae UCAC yn cydnabod y gellid gweld llawer iawn o fanteision o wireddu'r cynllun ac y bydd y cynllun yn debygol o sicrhau bod plant | 1 | Mae'r Cyngor yn nodi sylwadau UCAC ac yn cytuno bod y cynnig yma yn cynnig cyfle i sicrhau fod plant y dalgylch yn cael y cyfleodd addysgol gorau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dalgylch y Berwyn yn "cael dechrau da mewn bywyd" ac yn cael "amrediad cynhwysfawr o gyfleodd addysg a dysgu | | |
| 2.4 | Ni fydd adeilad mawr crand a chostus yn gwella dim ar addysg y plant, ac fe fydd dosbarthiadau yn rhy fawr, fydd yn peri i blant syrthio drwy'r rhwyd! | 1 | Bydd y buddsoddiad o £9.27m yn gwella amgylchedd ddysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae amgylchedd ddysgu da yn hyrwyddo gwell addysg. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau yn Y Bala yn arwain at fwy na buddsoddiad yn yr amgylchedd ddysgu yn unig. Trwy ddod ag ysgolion tref Y Bala at ei gilydd fel un sefydliad oedran 3-19, gellir rhannu adnoddau ac arbenigedd staff yn well, gan arwain at welliant yn ansawdd addysg. |
| 2.5 | Yn gyffredinol croesawaf yr argymhellion, ar y sail bod lle i strwythuro a gwella safon addysg, cydyd a bod y cyllid yn ddigonol a'r apwyntiadau gorau yn cael eu gwneud wrth apwyntio'r arweinwyr newydd.<br>Mae safon y ddarpariaeth yn Ysgol y Berwyn, yn enwedig yn y blynyddoedd canol yn annerbyniol, gyda llawer o ddisgyblion yn dewis mynd i Ysgol Brynhyfryd neu Ddinas Bran. Gorau po gyntaf y bydd penderfyniad yn cael ei gymryd a bod y cynllun ad-drefnu yn cael ei weithredu. Mae'r diffyg buddsoddiad yn ysgolion y dref, gyda'r diffyg penodi pennaeth neu benaethiaid hirdymor ar yr ysgolion, wedi bod yn andwyol i arweinyddiaeth gadarn a safon addysg. /<br>Rwy'n cytuno bod adnoddau modern yn rhan bwysig o ddarparu cyfleoedd i greu amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Ond yr elfen bwysicaf yn natblygiad plentyn yw'r staff sy'n addysgu ac yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Ar ddenu a chadw'r staff gorau ddylai prif bwyslais y Cyngor fod. Mae'n fy mhryderu yn fawr nad oes unrhyw drafodaeth na chydnabyddiaeth o gwbl o hyn yn y ddogfen ymgynghori. Nid yw'n argoeli'n dda ar gyfer unrhyw fodel sy'n cael ei roi gerbron yn y ddogfen ymgynghori os yw elfen mor greiddiol yn addysg plant heb ei gydnabod mewn dogfen o'r fath. | 2 | O yrru'r datblygiad hwn yn ei flaen, mae'r Cyngor yn gobeithio y daw sefydlogrwydd i strwythurau rheoli'r ysgol. Gellid cael gweledigaeth gyfannol, gydag un sefydliad yn rheoli, cynllunio a darparu addysg ar draws yr ystod oedran a hynny'n arwain at well cydlynu a dilyniant yn addysg y plentyn. Ceir dilyniant o ran arweinyddiaeth ar draws yr ystod oedran. Gellid cael un corff llywodraethu, un tîm o staff, un tîm rheoli, a allai sicrhau arbedion rheolaethol, osgoi dyblygu a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ariannol a dynol.<br>• Gallai arweinwyr ddatblygu ethos cyffredinol a allai roi pwrpas a chyfeiriad i'r holl staff a'r disgyblion, cynnydd mewn dulliau addysgu, a rheolaeth a chysondeb ymddygiad mewn rheolaeth ac ymarfer dosbarth. Gydag un strwythur rheoli, byddai'n bosibl datblygu systemau cyffredinol ar gyfer asesu, cofnodi ac olrhain cynnydd disgyblion.<br>• Mae dau dîm o staff, sy'n draddodiadol wedi bod ar wahân – sef cynradd ac uwchradd - yn elwa llawer mwy ar arbenigedd ei gilydd.<br>• Mae arweinyddiaeth ysgol gydol oes yn rhoi manteision cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, rhaid i uwch reolwyr a rheolwyr canol gofleidio o ddifrif y gwaith sydd ynghlwm â'r cyfnod pontio<br>• Mae'r sgiliau angenrheidiol i arweinwyr ysgol gydol oes yr un fath â'r rhai i unrhyw ysgol unigol, ond eu bod yn fwy cymhleth, sef:<br>- cyfathrebu effeithiol ar draws yr holl gyfnodau allweddol a sefydlu diwylliant tîm effeithiol<br>- gallu i arwain sefydliad trwy gyfnod o newid sylweddol<br><br>Mae rôl y tîm o staff yn greiddiol i lwyddiant unrhyw fodel, ond credir mai'r model hwn sydd yn rhoi'r cyfle gorau i'r staff yn yr ardal ddarparu addysg o safon i'r dyfodol. Ar y pwynt hwn yn y broses ni ellir manylu ar y strwythur staffio, bydd yr union strwythur reoli a strwythur staffio yn cael ei benderfynu gan y corff llywodraethu cysgodol. Wrth gwrs, staff yr ysgol yw ei hadnodd mwyaf gwerthfawr a'r gobaith ydy y bydd y model yn sicrhau cyfleoedd i staff, ond hefyd yn cynnig y modd gorau i'r staff gynnal a gwella safonau i'r dyfodol;<br>• Mae cyfle i fanteisio ar arbenigedd staff ar draws y grwpiau oedran.<br>• Mae mwy o gyfleoedd i sicrhau bod plant yn cael eu dysgu yn ôl eu hanghenion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn hytrach nag yn ôl eu grŵp oedran.<br>• Nid yw profiad ysgol uwchradd yn gymhwyster angenrheidiol i arweinwyr ysgolion gydol oes, gall ysgol o'r fath gael ei harwain gan benaethiaid ysgolion arbennig neu benaethiaid ysgolion cynradd. O ran y strwythurau rheoli, mae'n bwysig sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng y gwahanol sectorau.<br>• Mae rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol yn fanteisiol fel mesurau cymorth i'r ethos ysgol gyfan. Gall rhannu arbenigedd wella gwybodaeth am y cwricwlwm ar draws y gwahanol gyfnodau, ynghyd â chymorth o safbwynt arfer gorau.<br>• Mae nifer o gyfrifoldebau - cwricwlaidd a rheolaethol, sy'n gallu bod yn feichus i sefydliadau bach – y gellir eu canoli, e.e. cynnal a chadw, iechyd a diogelwch, rheoli perfformiad, trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu.<br>• Gellir gwneud defnydd rheoli mwy effeithiol o adnoddau dynol wrth addysgu rhai pynciau arbenigol i ddisgyblion. |
| 2.6 | Gwelir y Pennaeth mewn Gofal yn aml o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, nid wyf eto wedi gweld y Pennaeth Strategol. | 1 | Rhoi arweinyddiaeth strategol mae'r Pennaeth Strategol, gyda phresenoldeb rhan amser. Nid yw'n gofalu am yr ysgol o ddydd i ddydd, y Pennaeth mewn Gofal sydd yn gwneud hyn gyda presenoldeb llawn amser. |
| 2.7 | Yn y dosbarthiadau fydd y plant yn cael eu rhannu o fewn gallu neu ffrindiau? Dylai plant cynradd fod gyda'u ffrindiau a ffrydio o ran gallu ar gyfer gwersi rhifedd a llythrennedd | 1 | Mae rhain yn faterion dilys iawn. Bydd sut mae disgyblion yn cael eu dyrannu yn fater i'r pennaeth a'r Corff Llywodraethol, gan ystyried beth sydd orau i'r disgyblion hynny. |
| 2.8 | Bydd disgyblion sy'n pontio i'r ysgol newydd yn cael eu meithrin | 3 | Bydd angen trefniadau a rhaglen waith ar gyfer y cyfnod trosglwyddo i sicrhau fod y cyfnod pontio yn llyfn a hwylus. |
| **3** | **Y Gymuned** | | |
| 3.1 | Os oes defnydd o Sinema yn yr ysgol – pam ddim cefnogi'r hyn sydd yn y dre – er mwyn cadw Neuadd Buddug ar agor? / Oherwydd ansicrwydd dyfodol Neuadd Buddug mae lleoli'r Sinema yn yr ysgol yn dderbyniol gan nad oes unman o'r fath yn agos/ Pam fod angen sinema? Nid oes ei angen mewn ysgol. Doedd neb yn medru ateb y cwestiwn yma yn y diwrnod agored. | 3 | Mewn cyfnod o gynni ariannol - mae'r Cyngor yn edrych i weld a oes modd darparu gwasanaethau mewn modd gwahanol. Mae cyfle drwy'r datblygiad hwn i sicrhau darpariaeth llyfrgell a chelfyddydol fel rhan o ddatblygiad yr ysgol. Ni fydd datblygu'r adnoddau hyn yn dwyn oddi ar adnoddau ochr addysgol o'r datblygiad - bydd ffynonellau arian eraill yn cael eu defnyddio yn ogystal.<br><br>Bydd Tîm Defnyddwyr wedi ei sefydlu er mwyn trafod dyfodol Neuadd Buddug. Mae datblygu'r Campws 3-19 yn creu cyfle i greu darpariaeth amgen yn yr ysgol. |
| 3.2 | Falch o weld bod y llyfrgell am barhau yn yr ysgol gan ei fod yn atyniad pwysig i'r ysgol a'r cyhoedd | 1 | Mae'r Cyngor am sicrhau fod y llyfrgell yn parhau, ac am i'r llyfrgell barhau i fod yn adnodd i'r ysgol ac i'r gymuned. |
| **4** | **Materion Staffio** | | |
| 4.1 | Beth sy'n digwydd i'r athrawon sydd am adael yn ystod y cyfnod newid? / Sylwadau'r ferch "Mi fydd yn grêt cael ysgol newydd a dwi'n edrych ymlaen." Ond wedi i mi egluro na fydd yr athrawon yn rhan o'r ysgol newydd ac y bydd athrawon newydd yno "O na dydy hyn ddim yn deg, rhaid i athrawon ein hysgol dod i'r ysgol newydd hefyd." / Fel aelod staff presennol Ysgol y Berwyn rwy'n pryderu'n fawr nad oes unrhyw un | 3 | Gall athrawon adael eu cyflogaeth ar unrhyw adeg, fel mewn unrhyw swydd arall.<br><br>Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai goblygiadau staffio a allai arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. O dan y model hwn, byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r 3 ysgol yn dod i ben. Byddai penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol y Campws Dysgu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi trafod oblygiadau’r ysgol newydd ar ein swyddi presennol. Rwyf hefyd yn glerc llywodraethwyr ac yn pryderu nad oes neb wedi trafod oblygiadau’r swydd hon ychwaith. | | Cyngor Gwynedd wedi datblygu model polisi adleoli ar gyfer ysgolion, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Mater i’r corff llywodraethu cysgodol fyddai mabwysiadu'r polisi hwn, ei ddiwygio, neu benderfynu peidio â mabwysiadu'r polisi. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.<br><br>Roedd staff o adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol yn y diwrnod agored yn Y Bala ar 26 Mawrth 2015 ac roedd croeso i unrhyw aelod o staff oedd yn dymuno drafod eu sefyllfa. Mae croeso hefyd i staff gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno cael trafodaethau un i un<br><br>Petai’r cynnig i greu Campws Dysgu newydd yn cael ei weithredu, byddai angen sefydlu corff llywodraethu cysgodol. Byddai’r corff llywodraethu cysgodol hwn yn cael ei sefydlu yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ymhell cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig o fis Medi 2018. Byddai angen amser digonol i greu pob polisi perthnasol, offerynnau llywodraethu, penodi pennaeth a chreu strwythur staffio ar y cyd â'r pennaeth.<br><br>Mae'r Cyngor yn penodi a chyflogi staff ategol (staff cegin, gofalu a glanhau) sy'n gweithio yn yr ysgolion cynradd o fewn y dalgylch. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i gorff llywodraethu cysgodol y Campws Dysgu 3-19 newydd benderfynu a yw’n dymuno i lywodraethwyr yr ysgol ynteu'r Cyngor fod yn gyfrifol am gyflogi staff ategol yn yr ysgol newydd |
| 4.2 | A fydd un Pennaeth ar yr ysgol gyfan neu un i’r uwchradd ac un i’r cynradd | 1 | Bydd union strwythur staffio'r campws yn benderfyniad i’r corff llywodraethol cysgodol. Rhagwelir bydd un pennaeth i’r campws ond posib bydd arweinydd maes uwchradd ac arweinydd maes cynradd yn y tîm rheoli.<br><br>Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio’n agos efo’r corff cysgodol, gan wneud hynny mor fuan ag sy’n rhesymol bosibl yn ystod y broses. Yn dilyn yr ymgynghoriad yma, mae cais yn mynd gerbron y Cabinet i geisio penodi pennaeth o leiaf blwyddyn cyn i dyddiad agor arfaethedig y Campws ar 1 Medi 2018. Byddai hyn yn golygu bod gan yr unigolyn amser i osod fframwaith staffio glir mewn lle mewn da bryd cyn i’r ysgol agor, cynllunio a cwblhau dogfennaeth fel polisiau. |
| 4.3 | Pryderus am y goblygiadau staffio a’r perygl y bydd ad-drefnu yn arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Rhaid i’r Awdurdod gydweithio’n agos efo’r Cytunwn y gallai’r ad-drefnu cynnig “cyfle i rannu arbenigedd staff mewn meysydd penodol ar draws y sectorau dysgu, ond mae’n bryder nad oes unrhyw fodel staffio arfaethedig wedi’i gynnwys yn y ddogfen. Mae nodi mai cyfrifoldeb y Corff Cysgodol fydd pennu’r strwythur staffio yn osgoi prif her sefydlu’r ysgol newydd. Er yn derbyn y byddai’r penderfyniad terfynol yn nwylo’r Corff hwn, byddem yn dal i ddisgwyl i’r Awdurdod fod yn cynnig arweiniad pendant gan ei fod yn fater mor greiddiol i lwyddiant yr ysgol. Byddai’n annheg disgwyl i’r Corff gychwyn efo llechen lan. Byddai disgwyliad ar y Corff Cysgodol i geisio sicrhau y cyfyd cyn lleied o ansicrwydd pellach ag sy’n ymarferol bosibl. Byddai UCAC yn hoffi gweld Pennaeth yn cael ei benodi o leiaf blwyddyn ymlaen llaw. Byddai angen person o galibr arbennig. Yn ogystal ag arwain ar gwricwlwm 3-19 oed bydd angen i’r person yma reoli tîm sylweddol o staff a hynny o gefndiroedd tra gwahanol. | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | **Iaith Gymraeg** | | |
| 5.1 | Dymunwn i Gyngor Gwynedd ystyried o ddifrif ddynodi’r ysgol newydd yn ysgol Gymraeg uniaith. Trwy hynny gallwn sicrhau dyfodol i’r iaith yn un o’i chadarnleoedd pwysicaf/ Byddwn eisiau i’r ysgol newydd fod yn ysgol Cyfrwng Cymraeg | 5 | Mae statws ieithyddol yn derm technegol sydd angen ei glustnodi wrth greu ysgol newydd yn unol â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y Polisi yw -“......... *sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Yr un yw’r disgwyliad ar gyfer pob ysgol....er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio’n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu’r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a’u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd......*”.<br><br>Gwnaed asesiad o effaith datblygu’r model hwn, ac fel rhan o gasgliadau’r asesiad “*...rhagwelir cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg drwy sefydlu Campws Dysgu yn Y Bala, drwy sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn mynychu ysgol sydd yn addysgol ac yn gymdeithasol yn ysgol cyfrwng Cymraeg*”.<br><br>Y bwriad yw cynnal statws ieithyddol ysgolion tref Y Bala ar gyfer y Campws 3-19. O gofio cyfrwng a statws iaith y tair ysgol bresennol yn nhref Y Bala, bydd hyn yn golygu bydd darpariaeth ieithyddol y Campws 3-19 gyda’r Cymreigiaf yng Ngwynedd a Chymru. |
| 5.2 | Gwrthwynebwn hefyd oherwydd yr effaith negyddol y byddai’r Eglwys yng Nghymru yn ei gael ar bolisi iaith yr ysgol. Nid yw’r Eglwys yn enwog am ei chefnogaeth i’r Gymraeg ac yn sicr nid ydynt yn deall anghenion eu cymunedau Cymraeg wrth iddynt yn rheolaidd lenwi swyddi yng nghefn gwlad gyda swyddogion uniaith Saesneg.. | 1 | Bwriedir gosod categori iaith cyfrwng Cymraeg ar y campws, sef yr un categori sydd wedi ei ddynodi ar hyn o bryd ar holl ysgolion tref Y Bala.<br><br>Beth bynnag fo categori cyfreithiol y Campws, (Cymunedol neu Wirfoddol a Reolir), ni fydd hynny’n cael unrhyw effaith ar gyfrwng iaith y Campws. Pennaeth y Campws fyddai’n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd ar y Cammpws o bolisi iaith y Cyngor. |
| **6** | **Statws Cyfreithiol – Gwrthwynebu Statws Eglwysig** | | |
| 6.1 | Gwrthwynebu’n chwyrn dynodi’r Campws 3-19 yn un gyda statws Eglwysig. / Ysgol Gymunedol dylai’r ysgol newydd fod ac nid ysgol Eglwysig. / Ni ddylai’r ysgol newydd ar unrhyw gyfrif fod ynghlwm i’r Eglwys yng Nghymru / Pryder ynglŷn â statws rheolaeth Eglwysig yr ysgol gydol oes newydd. / Ni ddylai’r ysgol newydd fod yn Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC). / Hoffwn fynegi pryder am y posibilrwydd o roi’r Ysgol Gydol Oes o dan ymbarél yr Eglwys. Ysgol Gymuned ddylai’r unig gynnig fod yn yr ardal hon. Gwrandewch ar eich ystadegau eich hun. / Credaf fod yr argymhelliad i osod statws Eglwysig ar yr ysgol yn | 20 | Mae’r angen i bennu statws cyfreithiol yr ysgol yn fater sydd wedi cael ystyriaeth fanwl. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Cabinet yn adroddiad Chwefror 19, 2015 penderfynwyd ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws Dysgu. Ymhlith y ffactorau dros osod statws Gwirfoddol a Reolir ar y Campws oedd y canlynol:<br>• y gyd-ddarpariaeth sy’n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch a’r ffaith fod darpariaeth VA yn yr ardal eisoes<br>• safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad |

| | | |
|---|---|---|
| | hollol amhriodol a diangen / Ysgol Gymunedol ddylai'r ysgol/campws fod gan mai dyna yw natur addysg canran y rhan fwyaf o'r disgyblion ar hyn o bryd. / Siom gyda'r statws / Unfrydol mai ysgol gymunedol ddylai'r ysgol gydol oes fod heb unrhyw gysylltiad ag ethos Eglwysig. Anghredadwy bod Gwynedd yn ystyried rhoi statws eglwysig i'r ysgol. | |
| 6.2 | Ysgrifennaf ar ran Llywodraethwyr Ysgol Bro Tegid i ddatgan yn unfrydol eu gwrthwynebiad i ddynodi ysgol arfaethedig newydd i blant 3-19 yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru | 1 |
| 6.3 | Er fy mod yn Gristion a'm ffydd yn gyfan gwbl ganolog i bob agwedd fy mywyd, fyddwn i ddim yn dymuno i'r ysgol newydd fod yn Ysgol Eglwys. Rydw i'n bersonol, ac fel corff llywodraethol Ysgol OM Edwards, yn cefnogi safbwynt llywodraethwyr Ysgol y Berwyn, sef y dylai'r ysgol newydd fod yn ysgol categori Cymunedol. | 1 |
| 6.4 | Gan gyfeirio at ymateb Cyngor Cymuned Llangywer, Cyngor Cymuned Llanuwchllyn a Chyngor Tref Y Bala, hoffwn ei wneud yn glir mai cefnogaeth i'r egwyddor o ail-drefnu addysg oedd yn cael ei fynegi wrth anfon cefnogaeth y 3 Chyngor yma. Ni thrafodwyd rôl yr Eglwys yng Nghymru yn yr ail drefnu arfaethedig, ac ni fynegwyd barn gefnogol i rôl yr Eglwys yn nhrafodaethau'r Cynghorau yma. | 1 |
| 6.5 | Wedi dewis gyrru fy mhlant i Ysgol Bro Tegid gan nad oeddwn yn dymuno iddynt gael eu haddysg mewn ysgol Eglwys - os bydd yr ysgol gydol oes yn ysgol eglwysig byddaf yn symud fy mhlant o'r ysgol yma | 1 |
| 6.6 | Nid ydym yn dymuno i'n plant fynychu ysgol eglwysig. Hanes a thraddodiad yr ardal yn Gymreig a chapelgar. Nid ydym yn teimlo y gall yr Eglwys fynnu hyn ar chwarae bach. / Wedi dewis peidio gyrru fy mhlant i ysgol Eglwys | 2 |

- tebygrwydd categorïau cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC)
- y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau yw'r ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad cychwynnol a wnaethpwyd
- y penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai;

- Cymuned
- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

Mae'r Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae hyn yn golygu fod gan yr Eglwys hawliau penodol iawn drwy'r statws VA, er enghraifft;

- Mae gan yr Eglwys Fwyafrif ar y Corff Llywodraethu
- Yr Eglwys sydd yn rheoli mynediad
- Yr Eglwys sydd yn gyfrifol am benodiadau staff
- Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol. Bydd gwerthoedd a moeseg Cristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol

Ni fyddai'r uchod yn berthnasol i'r categori Gwirfoddol a Reolir VC.

O gymharu – mae'r statws Gwirfoddol a Reolir VC yn debyg iawn i'r statws Cymunedol gyda rhai amrywiaethau;

- Mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir VC byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond byddai'r gynrychiolaeth yma yn y lleiafrif. Mae yn ansicr beth fyddai maint y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd, ond mae'n debyg y byddai ganddo unai 18 neu 21 aelod a fyddai gan yr Eglwys 4 allan o 18 neu 5 allan o 21.
- Byddai ymarferiad cyfreithiol technegol o drosglwyddiad amodol o'r tir i'r Eglwys. Bydd y tir yn dychwelyd i Gyngor Gwynedd pe byddai darpariaeth addysgol Eglwysig yn terfynu ar y safle.

Fel arall – mae'r canlynol yn wir am y ddau gategori (Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir VC);

- Y Cyngor fyddai yn rheoli mynediad i'r ysgol
- Y Cyngor a'r llywodraethwyr fyddai yn gyfrifol am benodi staff
- O ran cydaddoli byddai angen bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Mae hawl i unigolion gael eu heithrio o weithredoedd

cydaddoli neu wersi addysg grefyddol.

- Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai'n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae'r opsiwn a ymgynghorir arno yn cynnig rhoi statws VC (Gwirfoddol a Reolir) ar y Campws Gydol Oes 3-19.

Wrth ystyried y mater yma, debyg fod angen i'r Cabinet bwyso a mesur nifer o agweddau, yn cynnwys y rhesymeg wreiddiol dros ymgynghori i osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws Dysgu, y sylwadau ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r ymateb i'r sylwadau hynny a'r ystyriaethau o newid cyfeiriad.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu eu bod am newid y categori cyfreithiol byddai'n rhaid gwneud y canlynol.

Byddai angen i'r Cabinet fel rhan o'r pwyso a mesur asesu'r model a gynigir. Byddai hyn yn ofynnol o ran trefn statudol o ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion, ond hefyd, byddai yn ofynnol gwneud hyn o ran y broses o ddatblygu'r achos busnes i dderbyn cyfraniad gan y Llywodraeth tuag at y datblygiad o dros £9 miliwn. Mae rhai modelau na ellir eu cyflawni ar hyn o bryd, er enghraifft - ffedereiddio'r ardal gyfan oherwydd y cynnig o roi dau gategori gwahanol yn yr ardal. Ni ellir ffedereiddio ysgolion o gategorïau gwahanol.

O ran proses wedyn - byddai rhaid ail-gynnal y broses o rag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys, ac yna adrodd yn ôl i Gabinet ar ymateb yr Eglwys i unrhyw gynnig newydd. Byddai angen i'r Cabinet wedyn ystyried cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach, cyn derbyn adroddiad pellach i ystyried yr ymgynghoriad hwnnw i rhyddhau rhybudd statudol. Byddai hyn yn llithriad amser oddeutu 10 mis i'r pwynt rydym ynddo nawr.

Wedi cyhoeddi rhybuddion statudol - byddai adroddiad pellach i'r Cabinet cyn y byddai cyfle i'r cynnig gael ei atgyfeirio i'r Llywodraeth am benderfyniad. Mae hawl penodol gan yr Eglwys i atgyfeirio cynigion i'r Llywodraeth, ac maent yn ystod y broses wedi nodi y byddent yn gwneud hynny pe na fyddent yn cytuno gydag unrhyw gynnig argymhellir. Byddai'r atgyfeirio hyn yn golygu tua 6/7 mis o ystyriaeth gan y Llywodraeth. Ar ddiwedd hyn, gall y Gweinidog dderbyn neu wrthod y cynnig. Pe byddai'r Gweinidog yn gwrthod y cynnig, yna byddai rhaid cychwyn ar y broses o ddatblygu'r cynnig o'r cychwyn a hefyd o bosib ail gychwyn y broses o ymgeisio am arian gan y Llywodraeth. Mae posib hefyd i'r cynnig ddod yn destun Adolygiad Barnwrol.

Yn y cyfamser, byddai hyn yn golygu oedi cyflwyno'r achos busnes i ddechrau 2016 ac yn gwthio'r gwariant tuag at gynffon y rhaglen Band A presennol a allasai greu problemau o ran sicrhau gwariant Llywodraeth Cymru.

Byddai newid cyfeiriad yn golygu na fyddai'r Campws Dysgu yn agor tan o leiaf Medi

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>2019.<br><br>Felly, pe byddai’r Cabinet am newid y cynnig mae angen ystyried y canlynol;<br>- Y llithriad yn yr amserlen<br>- Yr angen i ystyried modelau eraill o’r newydd<br>- Effaith atgyfeiriad yr Eglwys<br>- Y risg o’r Llywodraeth yn gwrthod y cynnig<br>- Y risg o adolygiad barnwrol<br>- Ansicrwydd pellach i’r achos busnes</td></tr>
<tr><td>6.7</td><td>Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw ddylanwad Eglwysig ar gyfundrefn reolaethol Ysgol Ffridd y Llyn</td><td>2</td><td>Nid yw’n fwriad newid statws Ysgol Ffridd Y Llyn fel rhan o’r cynnig yma.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Ni Ddylid Cymysgu Addysg a Chrefydd</td></tr>
<tr><td>6.8</td><td>Pryder mawr fod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys unrhyw reolaeth o ran yr Eglwys yn y cynllun – addysg yn orfodol, dewisol yw crefydd ble mae hyn yn gadael pobl o grefyddau eraill neu ddyneiddwyr? / Ni ddylai’r ysgol newydd ar unrhyw gyfrif fod yn atebol i’r Eglwys yng Nghymru nac i unrhyw gorff crefyddol arall o ran hynny.</td><td>2</td><td>Nid yw’r cynnig yn cynnwys elfen o reolaeth o ran yr Eglwys yng Nghymru. Mae’r cynnig yn cynnwys statws arfaethedig o Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC). Byddai hyn yn golygu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd (fel sydd yn digwydd mewn ysgol gymunedol). Byddai gan yr Eglwys yng Nghymru aelodau ar y corff llywodraethol ond ni fyddant yn y mwyafrif.</td></tr>
<tr><td>6.9</td><td>Penllyn yn ardal ymneilltuol gryf – a hanes y frwydr gyda safbwynt ceidwadol, Seisnig yr Eglwys yn dal yn fyw.</td><td>1</td><td>Mae statws ysgol yn fater technegol. Mae 3 gwahanol statws yn bodoli eisoes yng Ngwynedd. Dyma’r prif wahaniaethau rhwng y gwahanol statws:<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>Categori Cymuned</th><th>Categori Eglwysig (Ysgol Wirfoddol a Reolir) (VC)</th><th>Categori Eglwysig (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir) (VA)</th></tr>
<tr><td>Perchnogaeth tir ac adeiladau’r ysgol</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Yr Eglwys yn berchen ar adeilad yr ysgol a’r Awdurdod Lleol yn berchen ar y caeau chwarae</td><td>Yr Eglwys yn berchen ar adeilad yr ysgol, a’r Awdurdod Lleol yn berchen ar y caeau chwarae</td></tr>
<tr><td>Cyfrifoldeb am gyllido</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Awdurdod Lleol yn cyllido’r costau rhedeg. Grant 85% tuag at waith cyfalaf, yr Eglwys yn ariannu’r gweddill.</td></tr>
<tr><td>Cyfrifoldeb am gyflogi staff a phenodi</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Yr Eglwys</td></tr>
<tr><td>Polisi Mynediad</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Awdurdod Lleol</td><td>Corff Llywodraethol</td></tr>
<tr><td>Cyfansoddiad y Corff Llywodraethu</td><td>Cynrychiolaeth rhieni, Awdurdod Addysg, Athrawon, Staff, Cymunedol a Chyngor Cymuned</td><td>Llywodraethwyr Eglwysig yn y lleiafrif</td><td>Llywodraethwyr Eglwysig yn y mwyafrif</td></tr>
<tr><td>Cydaddoli</td><td>Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur</td><td>Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur Gristnogol yn gyfan gwbl</td><td>Bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Bydd yr addoliad o natur Gristnogol naill ai yn gyfan</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td></td><td>Gristnogol yn gyfan gwbl neu yn bennaf</td><td>neu’n bennaf</td><td>neu yn rhannol</td></tr>
<tr><td>Cwricwlwm ac Addysg Grefyddol</td><td>Addysg Grefyddol yn faes o fewn cwricwlwm yr ysgol<br><br>Maes llafur addysg grefyddol y cytunir arno yn lleol trwy CYSAG</td><td>Bydd gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn rhan bwysig o weithrediad yr ysgol, ond yn ddibynnol i raddau helaeth ar arweiniad y Pennaeth a’r Llywodraethwyr<br>Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu yn ôl y maes llafur y cytunir arno yn lleol drwy CYSAG</td><td>Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol.<br><br>Bydd gwerthoedd a moeseg Gristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol</td></tr>
<tr><td>Arolygiadau</td><td>Arolygiad gan Estyn yn unig</td><td>Arolygiad gan Estyn. Y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am arolygu cymeriad crefyddol ac addoli’r ysgol.</td><td>Arolygiad gan Estyn. Y Corff Llywodraethol yn gyfrifol am arolygu cymeriad crefyddol ac addoli’r ysgol.</td></tr>
</table>
<br>Ar hyn o bryd mae dewis darpariaeth addysgol yn nhref y Bala. Mae Ysgol Bro Tegid yn ysgol gymunedol ac mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA), Eglwys yng Nghymru. Mae’r statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn sylweddol wanach na statws Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) Ni fydd gan yr Eglwys yng Nhgymru unrhyw ddylanwad ar bolisi iaith y Campws
</td>
</tr>
<tr>
<td>6.10</td>
<td>Ysgol gwbl gymunedol rydym am ei gael, ond un fydd o reidrwydd yn gorfod parchu a rhoi lle blaenllaw i’r egwyddorion Cristnogol sy’n dal yn rhan annatod o’r gymdeithas leol.</td>
<td>1</td>
<td>Mae’n bosib rhoi egwyddorion Cristnogol i Ysgol Gymunedol ac Eglwys yng Nghymru Gwirfoddol a Reolir (VC).</td>
</tr>
<tr>
<td>6.11</td>
<td>Ni chredaf fod lle i enwadaeth mewn addysg / Nid oes gennym unrhyw beth yn erbyn Eglwyswyr nac unrhyw grefydd arall, ond ardal wledig cefn gwlad yw’n ardal ac ni ddylem gael pwysau o ran enwadau crefydd. / Dyddiau hyn o gyfartaledd, pam dylai unrhyw enwad gael ffafraeth dros un arall. / Hanfodol i’r ysgol gael ei gweld fel un sy’n annibynnol o unrhyw ddylanwadau allanol, fel nad oes unrhyw gamargraff yn cael ei greu ym meddyliau pobl o’r dechrau. / Ni ddylai sefydliad addysg fod ynghlwm wrth grefydd, yn arbennig yr Eglwys yng Nghymru</td>
<td>5</td>
<td>Noder y sylwadau – bydd angen i’r Cabinet ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol cyn penderfynu parhau ai peidio gyda’r cynnig.</td>
</tr>
<tr>
<td>6.12</td>
<td>Rhaid i’r ysgol gael ei rhedeg gan gorff llywodraethol sydd a’i holl aelodau wedi eu hethol yn unol â’r canllawiau sy’n arferol o fewn ysgol dan reolaeth lwyr y Cyngor Sir, heb unrhyw gyfethol gan gorff megis yr Eglwys yng Nghymru. / Dylai gael ei dynodi yn ysgol Gymunedol, fydd yn cael ei rhedeg gan Gyngor Gwynedd yn unig. Rwy’n gyn ddisgybl ac yn fam i gyn ddisgyblion ac yn gobeithio’n arw y byddwch yn gwrando ar lais a dymuniad llywodraethwyr Ysgol y Berwyn / Pe byddai’r Campws yn un gyda statws gwirfoddol a reolir, byddai gan yr Eglwys yng Nghymru'r hawl i benodi cyfran o Lywodraethwyr (heb fod yn y</td>
<td>4</td>
<td>Mae’n wir byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y corff llywodraethol, (sef yr hawl i gyfethol llywodraethwyr), pe bai gan y Campws Ddysgu 3-19 statws Gwirfoddol a Reolir (VC). Mae’n debyg, yn seiliedig ar ragamcanion niferoedd disgyblion Medi 2017 byddai tua 18 o lywodraethwyr. Bydd angen i gyfansoddiad y corff cyd-fynd a chanllawiau cenedlaethol a phosib bydd yn edrych yn debyg i’r enghreifftiau isod:
<table>
<tr><th>Math o Lywodraethwr</th><th>Nifer o Lywodraethwyr</th><th>Nifer o Lywodraethwyr</th></tr>
<tr><td>Pennaeth</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Rhiant Llywodraethwr</td><td>5</td><td>6</td></tr>
</table>
</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr><td></td><td>mwyafrif mae'n wir). Amheuaf mai doeth fyddai hynny gan fod Adroddiad Estyn ar Ysgol Beuno Sant (Ebrill 2015) yn nodi'r canlynol; "Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at bennu cyfeiriad strategol i waith yr ysgol." Yr Eglwys yng Nghymru a benododd y Corff Llywodraethol i Ysgol Beuno Sant, a gofynna fy nghwestiwn a fyddai gan y Llywodraethwyr a benodid gan yr Eglwys yng Nghymru well dealltwriaeth o'u rôl at bennu cyfeiriad strategol i waith yr Ysgol Gydol Oes / Nid wyf yn hapus byddai gan "Eglwyswyr" hawliau ar y Corff Llywodraethol - ac felly'n gallu dylanwadu ar bob agwedd o'r ysgol a'i haddysg.</td><td></td><td>
<table>
<tr><td>Llywodraethwr All</td><td>3</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Athro Llywodraethwr</td><td>2</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Staff Llywodraethwr</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Sefydledig/Eglwysig</td><td>4</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Cymunedol</td><td>2</td><td>2</td></tr>
<tr><td>CYFANSWM</td><td>18</td><td>21</td></tr>
</table>
O'r tabl uchod posib, mae aelodau all Fod o gefndir Eglwysig wedi ei ragnodi yn ôl y gyfraith, ac nid oes modd iddynt ar gorff ysgol VC fod yn y mwyafrif.</td></tr>
<tr><td>6.13</td><td>Corff Llywodraethol yn gwbl unfrydol dylai'r ysgol arfaethedig aros yn un gymunedol fel yr ysgol uwchradd bresennol a hefyd ysgol gynradd Bro Tegid. Hynny yw - dylid parhau a darpariaeth gymunedol fel sefyllfa bresennol yr ardal. / Nid yw Ysgol y Berwyn na Bro Tegid yn eglwysig, felly ni ddylai'r ysgol newydd fod. Nid ydy pob plentyn yn Y Bala yn mynd i'r Eglwys - pam eu gorfodi i fynd i Ysgol Eglwys? Mi fydda i yn debygol o yrru fy mhlentyn i un o'r ysgolion eraill os fydd y Berwyn yn Ysgol Eglwys gan mai i'r Capel rydym yn mynd.</td><td>2</td><td rowspan="2">Ar hyn o bryd mae dewis darpariaeth addysgol yn nhref Y Bala. Mae Ysgol Bro Tegid yn ysgol gymunedol ac mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir [VA], Eglwys yng Nghymru.<br><br>Mae'r cynnig yn cynnwys statws arfaethedig o Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC) i'r Campws Ddysgu (3-19).</td></tr>
<tr><td>6.14</td><td>Ysgol gymunedol yw Ysgol y Berwyn sy'n adlewyrchiad o'r gymuned – gan gynnwys traddodiadau ac arferion crefyddol Ydy'r newid sylfaenol hwn yn arwydd bod y Cyngor yn cyfaddef nad yw Ysgol y Berwyn yn diwallu'r nod ar hyn o bryd? Ac os yw'r Cyngor yn honni bod Ysgol y Berwyn yn llwyddo fel mae, pa ffactorau sydd wedi'u codi er mwyn i'r Cabinet gynnig newid y drefn lwyddiannus bresennol? Ai rhesymau ehangach "sirol" sydd y tu ôl i'r penderfyniad yn hytrach na rhai lleol?</td><td>1</td></tr>
<tr><td>6.15</td><td>UCAC yn cwestiynu'r bwriad i roi statws cyfreithiol ysgol "Wirfoddol a Reolir" i'r Ysgol Gydol Oes. Ni allwn weld unrhyw fantais i hyn o gwbl, yn arbennig gan ystyried nad yw'n ddyhead gan rieni yn ôl yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y mater hwn.</td><td>1</td><td>Yn adroddiad Cabinet Chwefror 19 2015, ystyriwyd statws arfaethedig y cynnig yn ofalus. Cymeradwywyd cynnal cyfnod ymgynghori statudol ar statws arfaethedig Gwirfoddol a Reolir (VC), Eglwys yng Nghymru ar y Campws Ddysgu 3-19.<br><br>O'r 230 ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad, roedd 154 sylwad ynglŷn â statws categori cyfreithiol yr ysgol. O'r 154, cafwyd 116 yn gosod o blaid gosod statws Eglwysig Gwirfoddol a Reolir (VC) ar y Campws, a 38 sylw yn erbyn gosod y statws yma, gan ffafrio gosod categori Cymunedol ar y Campws.</td></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Perchnogaeth Safle</td></tr>
<tr><td>6.16</td><td>Pam y dylid trosglwyddo eiddo cyhoeddus fel adeiladau addysgiadol i'r Eglwys? Hollol annerbyniol / Od yw sylwi fod yr holl eiddo yn mynd i'r Eglwys sy'n goblyn o bres a gwerth o ran safle adeiladu etc / Sut mae'n bosibl i'r Cyngor drosglwyddo adeiladu'r ysgol wedi eu hariannu gan y trethdalwr i'r Eglwys? / Dylai'r eiddo aros ym mherchnogaeth y Cyngor</td><td>8</td><td rowspan="2">Pe byddai'r Campws 3-19 efo statws Gwirfoddol a Reolir, yna byddai perchnogaeth y safle yn cael ei drosglwyddo i'r Eglwys yng Nghymru ar gyfer pwrpas addysg yn unig. Dal y tir dros dro fyddai'r Eglwys, a byddai'r tir yn dychwelyd i Gyngor Gwynedd pe byddai'r Campws am ba bynnag reswm yn peidio darparu addysg neu'n colli'r statws Eglwysig ar unrhyw adeg yn y dyfodol.</td></tr>
<tr><td>6.17</td><td>Gwrthwynebaf yn gryf y bwriad i roi perchnogaeth yr ysgol newydd yn</td><td>1</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ysgol y Berwyn i'r Eglwys yng Nghymru | | Nid yw statws Gwirfoddol a Reolir yn rhoi perchnogaeth y caeau chwarae i'r Eglwys, ac felly Cyngor Gwynedd fyddai berchen y caeau chwarae beth bynnag fo statws y Campws. |
| 6.18 | Pwy sy'n berchen ar adeilad Ysgol Beuno Sant yn bresennol? A fydd adeiladau Beuno Sant yn rhan o gampws yr ysgol newydd? Os nad ydynt a fyddent yn dychwelyd i'r Eglwys yng Nghymru, ynteu i'r perchennog tir. | 2 | Yr Eglwys yng Nghymru sydd yn berchen safle ac adeilad presennol Ysgol Beuno Sant. Ar hyn o bryd, fel rhan o'r cynlluniau mwyaf diweddar, nid oes bwriad defnyddio'r safle fel rhan o'r Campws Ddysgu 3-19. Pe bai'r cynnig yn parhau, ac na fyddai bwriad i ddefnyddio safle Beuno Sant, byddai dyfodol y safle yma yn gyfrifoldeb i'r Eglwys yng Nghymru. |
| | **Traddodiad Ymneilltuol a Hanesyddol Penllyn a pryder am effaith canfyddiad o ddelwedd Saesnig o'r Eglwys / Diffyg Galw am Addysg Eglwysig** | | |
| 6.19 | Syndod mawr oedd deall y byddai'n ysgol eglwysig. Yn yr oes seciwlar pam mae angen cysylltu'r ysgol ag unrhyw enwad crefyddol gan na fydd unrhyw gynnydd yn yr hyfforddiant Cristnogol yn y cwricwlwm. Os oes rhaid cael cyswllt, pam yr Eglwys? Enwadau anghydffurfiol sydd wedi rhoi eu stamp ar y Bala a Penllyn ers canrifoedd - Thomas Charles a Michael D. Jones - cewri'r Methodistiaid a'r Annibynwyr. Cofier hefyd y Crynwyr a rhyfel y degwm. | 1 | Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Eglwys wedi nodi eu bod yn hollol ymwybodol ac yn parchu hanes yr ardal ac yn awyddus i sicrhau fod y Campws Dysgu newydd yn adlewyrchu hanes a thraddodiadau'r ardal. Fel nodwyd eisoes, mae'r cynnig i sicrhau fod cyfran o'u cynrychiolaeth yn dod o'r traddodiad ymneilltuol.<br><br>Yn ogystal, mae'r Eglwys ac yn wir y Cyngor yn gweld cyfle drwy'r Campws i gryfhau'r iaith Gymraeg. Bwriedir gosod categori iaith cyfrwng Cymraeg ar y campws, sef yr un categori sydd wedi ei ddynodi ar hyn o bryd ar holl ysgolion tref Y Bala.<br><br>Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y Polisi yw -"......... *sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol....er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg.... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd......*", mater technegol yw statws ieithyddol yng Ngwynedd.<br><br>Gwnaed asesiad o effaith datblygu'r model hwn, ac fel rhan o gasgliadau'r asesiad "*...rhagwelir cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg drwy sefydlu Campws Dysgu yn Y Bala, drwy sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn mynychu ysgol sydd yn addysgol ac yn gymdeithasol yn ysgol cyfrwng Cymraeg*".<br><br>Y bwriad yw cynnal statws ieithyddol ysgolion tref Y Bala ar gyfer y Campws 3-19. O gofio cyfrwng iaith y dair ysgol presennol yn nhref Y Bala, bydd hyn yn golygu bydd darpariaeth ieithyddol y Campws 3-19 gyda'r Cymreiciaf yng Ngwynedd a Chymru. |
| 6.20 | Enwadau Penllyn wedi cyd fyw a chydweithio yn hwylus a hapus ac nid yw'n fwriad codi cynnen ac atgasedd rhyngom, dim ond nodi pa mor ddisyniad yw Cyngor Gwynedd o'r amgylchiadau yn ein hardal. | 1 | |
| 6.21 | Y Nadolig diwethaf bu plant yr Ysgol yn cymryd rhan yn y sioe Er Mwyn Yfory, sy'n trafod rhyfel y Degwm. Mae'n eironig eich bod yn bwriadu sefydlu Ysgol Eglwys o'r newydd a'i dalgylch yn cynnwys rhannau o Uwchaled lle roedd y "rhyfel" ar ei boethaf. | 1 | |
| 6.22 | Mae llawer mwy o Annibynwyr a Phresbyteriaid yn dal i fynychu addoldai yn lleol nag sydd o Eglwyswyr. Pam y dylai lleiafrif gael ffafraeth dros y mwyafrif? Roedd y Bala'n arfer bod yn gadarnle'r ddau enwad yma ers mwy na 250 mlynedd, ac mae'n drist meddwl eich bod yn bwriadu creu ysgol Eglwys newydd o fewn golwg i gyn goleg Presbyteraidd a chyn gartref Michael D Jones | 1 | |
| 6.23 | Nid yn unig rhoi statws gwirfoddol i ysgol gynradd a wneir yma ond rhoi statws gwirfoddol i ysgol gyda disgyblion CA3 a 4 hefyd, a hynny i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgolion Sul a gwasanaethau mewn Eglwysi ymneilltuol - nid yw hyn yn dderbyniol. | 2 | |
| 6.24 | Cam i'r gorffennol lle byddai'r Eglwys afael ar addysg ein plant. Dylai ysgol uwchradd ble bydd pob disgybl yr ardal ei mynychu ar ryw gyfnod fod yn rhydd o unrhyw gorff crefyddol. Nid yw'r opsiwn o **orfod** gyrru ein plant i Ysgol Eglwysig yn dderbyniol o gwbl. | 1 | |
| 6.25 | Canran fechan iawn sy'n dewis addysg mewn sefydliad Eglwysig ar hyn o bryd / Nid oes cyfiawnhad dros ysgol eglwysig oherwydd lleiafrif ym | 2 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mhlwyf Penllyn sydd yn mynychu’r Eglwys; pam yr Eglwys yn fwy nag unrhyw grefydd arall? | | Un o heriau sefydlu’r Campws Ddysgu 3-19 ysgol ddilynol ddalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i’r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan yr Awdurdod. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i’r her yn yr asesiad ieithyddol. |
| 6.26 | Syndod a siom fod Cyngor Gwynedd yn ystyried dynodi’r ysgol fel ysgol Eglwys. Mae Ysgol y Berwyn wedi ac yn dal i fod a sail gadarn ymhob agwedd o’i bodolaeth. Syniad o ysgol Eglwys yn wrthun iawn gan ei fod yn ffafrio un enwad, a honno’n enwad digon estron i gymuned wledig. | 1 | |
| 6.27 | Credaf yn gryf mai ysgol Gymunedol fuasai’n addas ar gyfer ein hardal. Gwerthoedd Cristnogol yn gryf yn barod ble mae ein hysgolion yn cyfrannu at grefydd ein cymunedau yn flynyddol. Teimlaf fod yr holiadur Eglwysig yn gamarweiniol. Pawb yn cytuno mai'r addysg orau sydd bwysicaf - diddorol gweld yr ymatebion pe na fyddai’r opsiwn am addysg orau wedi cael ei gynnwys - faint fyddai wedi rhoi blaenoriaeth i Ysgol Gymunedol yn hytrach nag Ysgol Eglwys? Ofnaf pe byddai'r Ysgol Gydol Oes yn cael statws Eglwysig y buasai’r Eglwys yn cael gormod o reolaeth ac y buasai hyn yn effeithio ar addysg plant. . | 1 | |
| 6.28 | Dylai'r ysgol newydd gael ei dynodi yn Ysgol Gymunedol ac nid Ysgol Eglwysig. Mae Ysgol Eglwys yn Y Bala ar hyn o bryd ac mae’r ffaith fod teuluoedd yn ffafrio anfon eu plant i ysgolion eraill ym Mhenllyn megis Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn a Llanuwchllyn am fod Ysgol Bro Tegid yn llawn yn arwydd o’r hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol ac yn amharu ar lwyddiant yr Ysgol Gymuned Newydd | 1 | |
| 6.29 | Yn hanesyddol bu Ysgol y Berwyn yn llwyddiannus i ddenu disgyblion o ardaloedd ffiniol Dinbych a Conwy. Bydd yr ethos a’r ddelwedd Gymraeg yn cael ei chwalu’n llwyr os gwireddir y statws Eglwysig. Bydd hyn yn siŵr o gael effaith niweidiol ar niferoedd yr ysgol sef yr union broblem y bwriedir ei datrys. | 1 | |
| | **Safonau Addysgol Ysgolion Eglwysig** | | |
| 6.30 | Dengys yr ystadegau yn y ddogfen ymgynghori fod yr ysgol Eglwys bresennol yn fethiant. Beuno Sant 48% o lefydd gweigion, Bro Tegid 0%.<br>Adroddiad Estyn Beuno Sant –Digonol, Bro Tegid – Da<br>Mae’n amlwg nad yw’r Eglwys yn gallu cynnig addysg o safon yn Ysgol Beuno Sant felly pam ddylai addysg ein plant ni sydd yn mynychu Bro Tegid gael ei roi yn y fantol? | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod ansawdd addysg Ysgol Beuno Sant wedi bod yn ansicr yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae yna amrywiol ffactorau sydd yn dylanwadu ar ansawdd addysg mewn ysgol.<br><br>Dydy’r ffaith fod Ysgol Beuno Sant wedi cael adolygiad gwael gan Estyn yn gymharol ddiweddar ddim yn gosod cynsail fyddai’n golygu y byddai Campws 3-19 gyda statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn perfformio’n wael yn addysgol. Mae ysgol yn cael ei rhedeg ac arwain gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol mewn cydweithrediad â’r Cyngor boed fod ganddi statws cymunedol neu statws Gwirfoddol a Reolir (VC). Pan fydd gan ysgol statws Ysgol Wirfoddol a gynorthwyir (VA) mae gan yr Eglwys yng Nghymru fwy o fewnbwn ac arweiniad i’r ysgol.<br><br>Yn wir, holl fwriad Cyngor Gwynedd wrth fynd ati i ad-drefnu’r ddarpariaeth ysgolion |
| 6.31 | Ydy ysgolion Eglwysig yn gwella ansawdd addysg? Ysgol Eglwys ydy’r unig un ambr cynradd yn yr ardal. Beth felly sydd gan Bala i elwa o Ysgol Eglwys gydol oes? | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn Y Bala yw sicrhau cysondeb a gwelliant yn ansawdd addysg. Bydd strwythur awenyddol a rheolaethol yr ysgol yn arf cryf i sicrhau hyn. |
| 6.32 | Ar hyn o bryd mae niferoedd Bro Tegid yn tyfu, a niferoedd Beuno Sant yn lleihau. Nid yw'n gwneud synnwyr bod lleiafrif fel hyn yn cael cymaint o ddylanwad ar yr ysgol newydd, | 1 | Mae'n wir fod Ysgol Bro Tegid yn llawn a bod 48% o lefydd gweigion yn Ysgol Beuno Sant. Bydd angen i'r Cabinet ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen, gan gynnwys niferoedd, llefydd gwag a rhagamcanion disgyblion yr ysgolion dan sylw. Mae ffactorau eraill sydd angen eu hystyried hefyd ac roedd y rhain yn cynnwys elfennau o strategaeth trefniadaeth ysgolion y sir, gweledigaeth dalgylch, elfennau o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a ffactorau perthnasol eraill. |
| | **Y Rhesymeg Dros Ddynodi Statws Eglwysig** | | |
| 6.33 | Nid statws ysgol sy'n magu ethos, ond y staff a benodir sy'n creu'r ethos. Nid yw ffeithiau yn dangos bod galw gan rieni am ysgol gyda statws Eglwysig - mwy o leoedd gwag yn ysgol Beuno Sant nag yn yr un ysgol gynradd arall yn y dalgylch. | 2 | Mae'r Cyngor yn cytuno nid statws sy'n magu ethos mewn ysgol a'r gobaith yw bydd y pennaeth a'r corff llywodraethol yn gweithio'n galed ar ddatblygu ethos priodol i'r Campws Dysgu, yn annibynnol o'r statws. |
| 6.34 | Nid wyf yn medru dirnad y manteision na'r rhesymeg dros greu ysgol eglwys yn y Bala. Deallaf fod Cabinet Gwynedd wedi gwrthod sefydlu ysgol eglwysig yn Nolgellau. Hoffwn wybod felly beth oedd y meini prawf i ddod i'r penderfyniad hwnnw yn Nolgellau o'i gymharu â'r meini prawf ar gyfer penderfyniad hollol wahanol yn y Bala. Beth oedd y meini prawf i ddod i'r penderfyniad hwn yn y Bala o gymharu â'r meini prawf wrth wrthod ysgol eglwys yng Nghymru? | 1 | Mae angen gwerthuso opsiynau ar sail sefyllfa ad-drefnu ysgolion yn ddibynnol ar sefyllfaoedd ysgolion penodol. Nid oes modd cymharu dalgylch Y Gader a dalgylch Y Berwyn gan fod nifer a math yr ysgolion yn hollol wahanol ac mae'r modelau arfaethedig yn wahanol i gwrdd â gofynion y dalgylchoedd.<br><br>Mae'r angen i bennu statws cyfreithiol yr ysgol yn fater sydd wedi cael ystyriaeth fanwl. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Cabinet yn adroddiad Chwefror 19, 2015 penderfynwyd ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws Dysgu. Ymhlith y ffactorau dros osod statws Gwirfoddol a Reolir ar y Campws oedd y canlynol:<br>• y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch a'r ffaith fod darpariaeth VA yn yr ardal eisoes<br>• safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad<br>• tebygrwydd categorïau cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC)<br>• y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau yw'r ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad cychwynnol a wnaethpwyd<br>• y penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir<br><br>Mae'r pwyntiau nodwyd yn gysylltiedig â rheolaeth o ran yr Eglwys yng Nghymru yn gywir. Mae ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn cael eu rhedeg gan Bennaeth a Chorff Llywodraethol yr ysgol mewn cydweithrediad â Chyngor Gwynedd, fel sydd yn digwydd mewn ysgolion statws cymunedol. Mae gan yr Eglwys yng Nghymru aelodau ar gorff llywodraethol ysgolion VC, ond nid ydynt yn y mwyafrif. |
| 6.35 | Beth yw'r rhesymeg dros statws rheolaeth Eglwysig yr ysgol gydol oes newydd? / Hoffwn wybod pa fantais sydd i drigolion Penllyn ac i Gyngor Gwynedd wrth gysylltu'r ysgol a sefydliad Anglicanaidd er mwyn iddynt gael dylanwad ar addysg ein plant a phobl ifanc. | 2 | |
| 6.36 | Deallaf na fydd gan yr Eglwys reolaeth lwyr dros yr ysgol, na fyddant yn penodi'r pennaeth na staff, nac yn rheoli'r polisi mynediad, nac mewn mwyafrif ar y corff llywodraethol, nac yn medru gwneud dim gyda'r adeilad o dan ei pherchenogaeth, ac felly cyfyd y cwestiwn sylfaenol, beth ar wyneb y ddaear yw'r pwynt o sefydlu ysgol eglwys yn y lle cyntaf? Os bwriad sefydlu ysgol eglwys yw cael dylanwad yr eglwys drosti, mae'n afresymol nad oes ganddi reolaeth. Ac oherwydd hynny, mae'n fwy afresymol i gynnig sefydlu ysgol eglwysig yn y lle cyntaf gan wybod yn iawn na fydd ganddi lawer o ddylanwad. Pa bwerau sydd gan yr Eglwys dros yr ysgol, ac os nad oes pŵer ganddi dros yr ysgol pa reswm sydd dros drosglwyddo'r ysgol iddi yn y lle cyntaf? | 1 | |
| 6.37 | Byddai hyn yn gadael rhieni a disgyblion yr ardal heb unrhyw ddarpariaeth seciwlar o ran darpariaeth addysg uwchradd. Nid wyf o'r farn y dylai addysg fod o natur grefyddol a gobeithiaf y bydd y Cyngor | 8 | Mae mynediad ysgolion wastad yn ddarostyngedig i ddewis rhieni a gall rhieni ddewis ysgol am ystod eang o resymau. Fel mewn ysgol gymunedol, mewn ysgol eglwysig (VC) gall rhiant dynnu eu plant allan o wasanaethau ac o addysg grefyddol, mae'r hawl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tud. 41 | yn ail feddwl y bwriad all rwygo’r gymuned. / A fydd darpariaeth amgen i rieni nad ydynt eisiau anfon eu plant i ysgol sydd o dan ddylanwad yr Eglwys? Bws i’r ysgol yn Nolgellau efallai? / Rhaid gofyn y cwestiwn, beth yw’r opsiwn i riant sydd yn anfodlon i’w plentyn fynychu ysgol Eglwysig? Nid oes gan riant ym Mhenllyn opsiwn. Ond bydd gan riant o ardaloedd ffiniol Dinbych a Conwy ddewis o yrru eu plant i Ysgolion Rhuthun a Llangollen. Trwy sefydlu ysgol Eglwysig rydym yn chwarae i ddwylo'r union ysgolion rydym mewn cystadleuaeth a nhw a hyn ar draul Ysgol y Berwyn. / Ar hyn o bryd mae dewis gan y sawl sydd am addysg Eglwysig, ai peidio, ni fydd y dewis yna yn y dyfodol. / Yn y Bala mae bodolaeth Ysgol Gymunedol ac un Ysgol Eglwysig yn tystio bod teimlad angerddol yn lleol bod angen dewis yn y mater yma, ac annoeth ac annheg iawn yw hepgor y dewis hwn gan gyflwyno gorfodaeth enwadol yn ei le. / Nid ydych wedi dangos cyfiawnhad o’r angen i greu ysgol Eglwys. Nid oedd mantais creu ysgol Eglwys yn Nolgellau felly pam yn y Bala? Nid yw’n statudol sicrhau dewis o addysg Eglwys felly pam bod yr angen yn fwy yn y Bala nac yn Nolgellau? / Angen yr addysg a’r cyfleoedd gorau i blant yr ardal, ac mae’n rhaid ystyried natur gymunedol plant yr ysgolion gwledig fydd yn dod i Ysgol y Berwyn yn 11 oed. Rhieni’r ardal wedi dewis peidio anfon eu plant i Feuno Sant. Mae angen felly iddynt gael dewis i beidio anfon eu plant i ysgol uwchradd eglwysig. Dylai ystyriaeth gael ei roi i ddewisiadau’r mwyafrif | | yma’n parhau.<br><br>Mae angen ategu y prin gwahaniaethau sydd rhwng statws Gwirfoddol a Reolir VC a statws Cymunedol;<br>• Mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir VC byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond byddai’r gynrychiolaeth yma yn y lleiafrif. Mae yn ansicr beth fyddai maint y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd, ond mae’n debyg y byddai ganddo unai 18 neu 21 aelod a fyddai gan yr Eglwys 4 allan o 18 neu 5 allan o 21.<br>• Byddai ymarferiad cyfreithiol technegol o drosglwyddiad amodol o’r tir i’r Eglwys. Bydd y tir yn dychwelyd i Gyngor Gwynedd pe byddai darpariaeth addysgol Eglwysig yn terfynu ar y safle.<br><br>Fel arall – mae’r canlynol yn wir am y ddau gategori (Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir VC);<br>• Y Cyngor fyddai yn rheoli mynediad i’r ysgol<br>• Y Cyngor a’r llywodraethwyr fyddai yn gyfrifol am benodi staff<br>• O ran cydaddoli byddai angen bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Y weithred o addoli o natur Gristnogol yn gyfan gwbl neu’n bennaf gyda’r hawl i unigolion gael eu cynnwys o fewn addoliad neu addysg grefyddol<br>• Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai’n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.<br><br>Mae’r opsiwn a ymgynghorir arno yn cynnig rhoi statws VC (Gwirfoddol a Reolir) ar y Campws Gydol Oes 3-19.<br><br>Mae cludiant ysgolion Cyngor Gwynedd yn cael ei ddarparu yn unol a polisi cludiant ysgolion y Sir. |
| 6.38 | Ychydig iawn o flynyddoedd sydd ers pan oedd yr Eglwys yng Nghymru yn mynd ati i gau eu heglwysi yn Llanuwchllyn, Llanycil a Llangywer heb fawr o bwys ganddynt am eu cymunwyr yn yr Eglwysi hynny, ond dyma nhw erbyn hyn yn poeni am statws yr Ysgol Gydol Oes! Gofynnaf beth yw eu hagenda | 2 | Noder y sylwadau – bydd angen i’r Cabinet ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol cyn penderfynu parhau ai peidio gyda’r cynnig. |
| | **Y Broses** | | |
| 6.39 | Siom o’r mwyaf yw canfod gwir rôl y sefydliad Eglwysig yn rheolaeth yr ysgol, yn enwedig ar yr adeg hwyr yma o’r ymgynghoriad. Ymhob cyfarfod gwybodaeth fu rhwng yr adran a’r Cynghorwyr gofynnwyd beth oedd safbwynt a rôl yr Eglwys yn rheolaeth yr Ysgol Gydol Oes. Yr ymateb bob tro oedd chwarae’r cwestiwn i lawr gan ein sicrhau nad oedd fawr o ymyrraeth gan yr Eglwys. / Siomedig iawn yn y dull llechwraidd y daeth y gwirionedd i’r amlwg. Nid yw’r Cynghorwyr lleol | 1 | Cynhaliwyd nifer o drafodaethau cyn cynnal y cyfnod ymgynghori statudol. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol, rhai gyda phenaethiaid yn unig, rhai gydag Aelodau Lleol yn unig, a rhai gyda’r PAD cyfan (sy’n cynnwys pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant llywodraethwyr yr ysgolion i gyd), yn ogystal â’r aelodau lleol a chynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru.<br><br>Amlygwyd manylion presennol yr ysgolion gan gynnwys eu statws a gwnaethpwyd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wedi cael dim mewnbwn nag adborth i'r mater yma, sydd erbyn hyn yn gynhennus iawn. Mae'n anffodus iawn na fu deialog rhwng y swyddogion a'r aelodau lleol er osgoi'r sefyllfa niweidiol sydd nawr yn ein hwynebu. / Taer erfyniaf arnoch i ail drafod gyda'r Esgobaeth. Mae anfodlonrwydd ac anghrediniaeth fawr ar lawr gwlad oherwydd y datblygiadau diweddar hyn. | | glir i'r Aelodau Lleol ar nifer o achosion gall y cynnig arfaethedig cynnwys elfen eglwysig. Cyflwynwyd gwybodaeth am y tair gwahanol statws gan egluro'r gwahaniaeth i'r Aelodau Lleol gan roi cyfle iddynt holi swyddogion pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau pellach. Felly bu deialog glir rhwng swyddogion a'r aelodau lleol ar achosion niferus – drwy'r cyfarfodydd y crybwyllir uchod, drwy e-byst a sgyrsiau ffôn a thrwy'r holl ddogfennaeth sy'n ffurfio rhan o'r broses ymgynghori yr oedd yr aelodau lleol yn ymwybodol ohonynt. Drwy gydol y broses gwnaethpwyd ymdrech deg a diffuant i arfogi'r aelodau lleol gyda'r wybodaeth angenrheidiol .<br><br>Rhyddhawyd copi o adroddiad Cabinet mis Chwefror oedd yn cynnwys adran benodol ar ddewis statws/categori cyfreithiol i'r Campws Ddysgu 3-19 a gwahoddwyd yr Aelodau Lleol i siarad yn y cyfarfod Cabinet.<br><br>Felly ni ddylid statws y cynnig fod yn newyddion i'r Aelodau Lleol nac ychwaith y cyrff llywodraethol, sydd wedi eu cynnwys yn y drafodaeth ym mhob cam o'r daith. |
| 6.40 | Dim ond yn y cyfnod hwyrol yma o'r ymgynghoriad mae llawn arwyddocâd ymyrraeth yr Eglwys wedi ei amlygu. Corff yn teimlo fod hyn yn hynod anffodus - os bydd y statws Eglwysig yma yn sefyll, y bydd ein disgyblion yn cael eu gorfodi i fynychu sefydliad sydd yn hanesyddol wrthun i'w cefndir Cymreig a'u traddodiad. | 1 | |
| 6.41 | Nid oedd unrhyw bresenoldeb gan yr Eglwys yn y diwrnod agored gynhaliwyd yn ddiweddar. Os oes rôl gan yr Eglwys yn rhediad yr Ysgol, roedd yn ofynnol iddynt fod yn bresennol, er cyfarch y cyhoedd ac i amlinellu eu rôl yn agored a diffuant. | 1 | Cyngor Gwynedd sydd yn ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn ac yn ymgynghori'n statudol ar y cynnig arfaethedig, nid yr Eglwys yng Nghymru. Nid oedd gofyn iddynt fynychu gan nid yr Eglwys fydd yn rheoli'r campws.<br><br>Mae'r Cyngor yn croesawu bob sylw ar bob agwedd o'r cynnig arfaethedig. Dyma bwrpas creu dogfen ymgynghori statudol gyda'r manylion i gyd, fel bo modd i ymgynghorai ymateb a rhoi eu barn. Bydd y Cabinet yn cael copi o bob ymateb derbyniwyd, ac yn eu hystyried cyn gwneud penderfyniad i barhau a'r cynnig ai pheidio yn eu cyfarfod ym Mehefin 2015. |
| 6.42 | Rydym o'r farn nad ydych fel adran addysg, na chwaith yr Esgobaeth yn wir werthfawrogi gwrthwynebiad llawr gwlad i'r statws yma. Yn wir mae'r ffaith na bresenolodd yr Esgobaeth ei hun yn y diwrnod agored yn dweud cyfrolau. Mae'n gwbl angenrheidiol i ysgol adlewyrchu'r union boblogaeth mae'n ei wasanaethu. | 1 | |
| 6.43 | O ble ddaeth y syniad yn wreiddiol – ai rhyw alwad torfol gan y bobl leol, neu gynnig oddi wrth yr Eglwys , neu gynnig gan swyddog Cyngor? | 1 | Mae rhoi ystyriaeth lawn i statws ysgolion sy'n rhan o gynnig i ad-drefnu yn hanfodol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Cwblhawyd gwaith ymchwil cychwynnol, gan gynnwys asesiadau iaith, cymunedol, cydraddoldeb a'r angen am wahanol fathau o ysgolion yn ogystal â gwerthusiad opsiynau llawn. Cyflwynwyd y wybodaeth yma i'r Cabinet a chymeradwywyd cynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig arfaethedig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnal y cyfnod ymgynghori statudol i dderbyn sylwadau am y cynnig yn ei gyfanrwydd. Bydd angen i'r Cabinet ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol cyn penderfynu parhau ai peidio gyda'r cynnig. |
| 6.44 | Hawdd yw gweld bod Cyngor Gwynedd yn cynnig sefydlu ysgol Eglwys mewn ymateb i fygythiad gan Esgobaeth Llanelwy i gyfeirio'r penderfyniad i'r Gweinidog Addysg. Nid oes unrhyw fantais ariannol nac addysgol i'r cynnig hwn. | 1 | |
| 6.45 | Ni fu unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus am y statws | 1 | |
| 6.46 | Llenwom holiadur am hyn o'r blaen ac wedi ein siomi nad oedd unrhyw gyfeiriad at deimladau'r bobl leol yn y ddogfen ymgynghori. Mae'n wybyddus mai wedi newid eu meddyliau mae'r eglwys a'u bod wedi cytuno o'r blaen i ollwng eu statws | 1 | Cynhaliwyd asesiad o angen am wahanol fathau o ysgolion, dosbarthwyd holiaduron fel rhan o'r asesiad yma - dyma yw'r holiadur cyfeiriwyd ato. Cyflwynwyd prif gasgliad yr asesiad yma i'r Cabinet wrth iddynt wneud eu penderfyniad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig. |
| 6.47 | Roeddwn ar ddeall ar ddechrau'r broses ymgynghori fod yr Eglwys wedi cytuno i ryddhau Ysgol Beuno Sant – mae hyn yn arwydd o gryfder yr Eglwys | 1 | Nid yw'r Cyngor yn deall beth a olygir wrth gyfeirio at 'rhyddhau Ysgol Beuno Sant' yn y datganiad yma. |

<table>
<tr><th></th><th>Arall</th><th></th><th></th></tr>
<tr><td>6.50</td><td>Dydw i ddim yn amau fod modd i ysgol Eglwys ddarparu addysg gynhwysfawr i ddisgyblion, ond mae agweddau ar gael statws Ysgol Eglwysig yn fy mhoeni:-<br>i)Bod yr Eglwys yn cael penodi llywodraethwyr ar y bwrdd heb gael eu hethol. Nodir yn y ddogfen mai yn y lleiafrif y byddent, ond wela i ddim sut mae hynny'n deg ta beth.<br>ii) Mae'r ddogfen yn rhestru 11 o ysgolion Eglwys a'u pellter o'r Bala., i bwysleisio pa mor bell y byddai'n rhaid i ddisgybl sy'n dymuno mynd i ysgol Eglwysig orfod teithio. Os defnyddio tabl fel hyn, byddai'n fuddiol cael gwybod sawl disgybl (o'r 46), a fynycha Ysgol Beuno Sant sy'n gwneud hynny'n benodol am ei bod yn Ysgol Eglwysig.</td><td>1</td><td>Yn achos y Campws 3-19 dyma dabl yn dangos cyfansoddiad tebygol y corff llywodraethol Mae'n wir byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y corff llywodraethol pe bai gan y Campws Ddysgu 3-19 statws Gwirfoddol a Reolir (VC). Mae'n debyg, yn seiliedig ar ragamcanion niferoedd disgyblion Medi 2017 byddai tua 18 o lywodraethwyr. Bydd angen i gyfansoddiad y corff cyd-fynd a chanllawiau cenedlaethol a phosib bydd yn edrych yn debyg i'r enghreifftiau isod:
<table>
<tr><th>Math o Lywodraethwr</th><th>Nifer o Lywodraethwyr</th><th>Nifer o Lywodraethwyr</th></tr>
<tr><td>Pennaeth</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Rhiant Llywodraethwr</td><td>5</td><td>6</td></tr>
<tr><td>Llywodraethwr All</td><td>3</td><td>4</td></tr>
<tr><td>Athro Llywodraethwr</td><td>2</td><td>2</td></tr>
<tr><td>Staff Llywodraethwr</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Sefydledig/Eglwysig</td><td>4</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Cymunedol</td><td>2</td><td>2</td></tr>
<tr><td>CYFANSWM</td><td>18</td><td>21</td></tr>
</table>
O'r tabl uchod posib, mae aelodau gall fod o gefndir Eglwysig wedi ei ffinio ac nid oes modd iddynt ar gorff ysgol VC fod yn y mwyafrif.</td></tr>
<tr><td>6.51</td><td>Mae tabl 6.1 yn dangos gwahaniaeth cymharol fychan rhwng ysgol gymuned a VC. Canlyniad sefydlu ysgol eglwys fyddai:<br>• Cyngor Gwynedd yn talu am y buddsoddiad i wella'r adeiladau ac yna'n trosglwyddo'r perchnogaeth i'r Eglwys<br>• Cyngor Gwynedd yn parhau i dalu am y cynnal a chadw<br>• Yr Eglwys yn penodi Llywodraethwyr ar y Corff Llywodraethwyr<br>• Dau arolwg i'r ysgol yn lle un<br>Mae'r fantais i'r Esgobaeth yn amlwg, sef cael mwy o ddylanwad heb wario ceiniog Bargen wael i drigolion Gwynedd. Pam felly cynnig sefydlu ysgol Eglwys?</td><td>1</td><td>Mae'r sylw yma'n gywir. Gwahaniaeth cymharol fychan sydd rhwng ysgol gymuned a VC. Mae tipyn mwy o wahaniaeth rhwng statws VC a VA. Mae Cyngor Gwynedd wedi egluro'r gwahaniaeth rhwng yr amrywiol statws yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Mae'n gywir hefyd na fyddai'n rhaid i'r Eglwys yng Nghymru wneud ymrwymiad ariannol uniongyrchol petai'r Campws 3-19 yn ysgol Wirfoddol a Reolir. Serch hynny, mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnig cefnogaeth i ysgol Wirfoddol a Reolir na fyddai ysgol Gymunedol yn eu cael.<br><br>Mae'r rhesymeg dros roi statws gwirfoddol ar y Campws 3-19 wedi ei nodi yn Adran 6.1 o'r ddogfen ymgynghori.</td></tr>
<tr><td>6.52</td><td>Mae Cynghorwyr Gwynedd yn atebol i'w trigolion. I bwy mae'r Esgobaeth yn atebol?</td><td>1</td><td>Yng nghyd-destun Campws 3-19 Gwirfoddol a Reolir, yn anuniongyrchol a thrwy'r llywodraethwyr Eglwysig cyfetholedig (yn y lleiafrif) y byddai dylanwad yr Eglwys. Byddai'r Eglwys yng Nghymru felly'n atebol i'r Corff Llywodraethol a Chyngor Gwynedd fel y rhelyw o ysgolion eraill y Sir.</td></tr>
<tr><td>6.53</td><td>Rwy'n gwrthwynebu'r statws Eglwysig sy'n cael ei argymell ar gyfer yr ysgol newydd. Mae'r Awdurdod yn darparu elfen Gristnogol o fewn ein hysgolion. Pam ddim gadael i Ysgol Beuno Sant barhau yn ysgol Eglwysig fel bod dewis eglwysig yn y dalgylch.</td><td>1</td><td>Mae'r sylw hwn yn gwrthwynebu gosod statws Eglwysig ar y Campws arfaethedig, ond yn cefnogi cadw darpariaeth bresennol (Gwirfoddol a Gynorthwyir) yn nalgylch Y Berwyn drwy gadw Beuno Sant ar agor.<br><br>Pwrpas yr ad-drefnu yn nhref Y Bala yw gwella a sicrhau cysondeb yng nghyrhaeddiad addysgol disgyblion. Un rheswm dros argymell Campws 3-19 yw er mwyn rhesymoli'r sefyllfa bresennol ble ceir dwy ysgol gynradd yn agos i'w gilydd – Ysgol Bro Tegid yn</td></tr>
</table>

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | llawn ac Ysgol Beuno Sant gyda 48% o lefydd gweigion.<br><br>Ni fyddai parhau gyda darpariaeth addysgol yn Ysgol Beuno Sant yn gwneud dim i ddatrys y gwendidau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn nhrefniadaeth ysgolion tref Y Bala. |
| **7** | **Statws Cyfreithiol – Sylwadau o Blaid Statws Eglwysig** | | |
| 7.1 | Byddwn eisiau i'r ysgol newydd fod yn Ysgol Eglwys yng Nghymru Wirfoddol a Reolir Cyfrwng Cymraeg | 1 | Mae'r angen i bennu statws cyfreithiol yr ysgol yn fater sydd wedi cael ystyriaeth fanwl. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol. Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol gan y Cabinet yn adroddiad Chwefror 19, 2015 penderfynwyd ymgynghori ar osod statws Gwirfoddol a Reolir, (VC), ar y Campws Dysgu. Ymhlith y ffactorau dros osod statws Gwirfoddol a Reolir ar y Campws oedd y canlynol:<br><br>• y gyd-ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y dalgylch a'r ffaith fod darpariaeth VA yn yr ardal eisoes<br>• safbwynt yr Eglwys yn dilyn rhag-ymgynghoriad<br>• tebygrwydd categorïau cymunedol a Gwirfoddol a Reolir (VC)<br>• y farn mai ansawdd yr addysg a'r adnoddau yw'r ffactorau pwysicaf mewn ysgol yn ôl yr asesiad cychwynnol a wnaethpwyd<br>• y penderfyniad strategol i sicrhau parhad dewis o ddarpariaeth o fewn ardal ehangach yn ne'r Sir<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a bydd yn ystyried y sylwadau yma sy'n gefnogol i osod statws Gwirfoddol a Reolir ar y Campws 3-19 wrth benderfynu parhau a'r cynnig a'i pheidio. |
| 7.2 | Ar ôl ystyried yn ofalus, mae Esgobaeth Llanelwy yn llwyr gefnogi ac yn ategu'r dewis i gau Ysgol Beuno Sant, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn a sefydlu campws dysgu cyfrwng Gymraeg gwirfoddol a reolir 3-19 oed yn y Bala. | 1 | |
| 7.3 | Hoffwn nodi ein bod yn cefnogi cau ysgolion Bro Tegid, Beuno Sant a Berwyn a sefydlu Campws Dysgu 3-19, fel ysgol dan reolaeth wirfoddol (VC) yr Eglwys yng Nghymru. | 1 | |
| 7.4 | Mae'r ddogfen yn nodi mai categori cyfreithiol VC fydd y ddarpariaeth newydd sydd yn ymddangos yn benderfyniad rhesymol a chytbwys Ymddengys fod yr awdurdod wedi ymgynghori'n eang gyda'r Eglwys yng Nghymru a chyda rhieni a rhan-ddeiliaid yn y gymuned i'r perwyl hwn | 1 | |
| 7.5 | Y dewis i gau Ysgol Beuno Sant, Ysgol Bro Tegid ac Ysgol y Berwyn a sefydlu campws dysgu cyfrwng Cymraeg gwirfoddol yw'r dewis a gefnogir gan Esgobaeth Llanelwy. | 1 | |
| 7.6 | Ysgrifennaf ar ran Corff Llywodraethol Ysgol Beuno Sant. Rydym o blaid y cynnig ar gyfer ysgol gydol oes, ac yn dymuno i'r ysgol fod yn ysgol Eglwys yng Nghymru | 1 | |
| | **Addysg a'r Gwerth Ychwanegol Ysgol Wirfoddol a Reolir** | | |
| 7.7 | Byddai Campws Gwirfoddol a Reolir yn rhoi addysg eang o ansawdd uchel i'r disgyblion. Bydd Esgobaeth Llanelwy yn hoffi gweld model sy'n darparu amgylchedd ddysgu lle caiff pob disgybl ei barchu a'i annog ym mhopeth wnân nhw; a lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Byddem yn hoffi gweithio mewn partneriaeth â'r holl bartïon i gyflawni hyn. | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o nodweddion ysgolion Eglwysig, boed yn rhai statws Gwirfoddol a Reolir (VC) neu Wirfoddol a Gynorthwyir (VA).<br><br>Mae dogfen Llywodraeth Cymru *"Ffydd Mewn Addysg"*, yn amlinellu nodweddion ysgolion o natur grefyddol yng Nghymru, yn nodi ethos a chymeriad yr ysgolion hynny, ac yn herio rhagdybiaethau a phwysleisio a dathlu amrywiaeth.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn ymwybodol o gymorth a gwasanaethau tîm Addysg Esgobaethol Esgobaeth Llanelwy. Byddai'r Ysgol yn cael ei rheoli gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu ac felly byddent yn medru troi at y gefnogaeth pe byddent yn dymuno hynny.<br><br>Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai;<br>• Cymuned |
| 7.8 | Credaf y byddai'r cynnig hwn yn dda ar gyfer y gymuned yn y Bala; byddai'r ysgol newydd yn cael mynediad at gymorth a gwasanaethau tîm Addysg Esgobaethol (yn ychwanegol at Gyngor Gwynedd), a all roi cyngor a chymorth ar gwricwlwm a materion ethos, ac sy'n darparu hyfforddiant rheolaidd i staff. Byddai'r ysgol yn cael mynediad at rwydwaith o gynghorwyr ac ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan yr esgobaeth a byddai hefyd yn cael mynediad at hyfforddiant, adnoddau a gweithredu newydd ac yn cael mynediad at y cymorth a | 8 | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaethau'r tîm Addysg Esgobaethol | |
| 7.9 | Rwyf eisiau'r addysg orau bosibl ar gyfer plant y Bala, ac rwy'n meddwl bod y cynnig hwn yn gwneud synnwyr. Mae'n dod a'r gymuned at ei gilydd ac yn cynnig amgylchedd ddysgu newydd all gyflawni holl fuddiannau a ddaw mewn ysgol fodern addas i'r diben. Edrychaf ymlaen at weld plant yr ardal hon yn elwa ar y buddsoddiad. | 5 |
| 7.10 | Gan geisio gwasanaethu pawb drwy gynnig cwricwlwm eang a chytbwys, y mae'r Eglwys hefyd wedi ei wreiddio mewn cred gadarn fod gan bob un anghenion ysbrydol y dylid eu datblygu yn union fel sgiliau a doniau eraill. Gan hynny, mae'r Eglwys yng Nghymru yn unigryw ymysg darparwyr addysg "ffydd" yn cydbwyso'r cysyniadau o wasanaethu pawb gyda chyfleoedd i feithrin ysbrydolrwydd y rhai sydd eisiau datblygu'r maes hwn yn eu bywydau | 1 |
| 7.11 | Mae'r Eglwys yn trefnu bod disgyblion o ysgolion eglwys yn cael eu cynnwys mewn nifer o weithgareddau ychwanegol sy'n helpu i fagu hyder ac yn gwella lles. Rwyf o blaid y cynnig. | 4 |
| 7.12 | Yr wyf yn cefnogi'r cynnig oherwydd bod y manteision i agor ysgol newydd VC fel a ganlyn:<br>• Gwella a chryfhau'r berthynas bresennol gyda'r Eglwys<br>• Bydd trawsnewid disgyblion i'r ysgol newydd yn cael eu meithrin<br>• Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr newydd yn cynnwys dau gynrychiolydd yr Eglwys a fydd yn cefnogi'r Pennaeth a'r gymuned leol ymhellach | 4 |
| 7.13 | Hoffwn i hyn fynd yn ei flaen gan fy mod yn credu ei fod yn darparu amgylchedd ddysgu lle caiff pob disgybl ei barchu a'i annog ym mhopeth y maen nhw yn ei wneud; lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Wrth geisio partneriaeth a'r Eglwys, byddai' ysgol newydd yn parhau i sicrhau bod disgyblion yn cael eu paratoi yn ddinasyddion y dyfodol, gan barchu amrywiaeth gyfoethog y cymunedau lle maent yn byw ac yn meddu ar ddealltwriaeth o dreftadaeth Gymraeg a gwerthoedd Cristnogol. Bydd y bartneriaeth hon yn helpu'r ysgol newydd i ddatblygu awyrgylch gariadus, ofalgar a chryf lle mae gwerthoedd Cristnogol a pharch at dreftadaeth a diwylliant Cymru yn rhan ganolog o bopeth gaiff ei wneud. | 6 |
| 7.14 | Ar gyfer nifer fechan o deuluoedd, bydd yn lleihau'r baich sylweddol o "banal" i lawer o deuluoedd, bydd yn gallu fforddio mynediad (o'r diwedd) i brofiad pwysig a chyfoethog o addysg mewn lleoliad cynhwysol a nodedig. | 6 |
| 7.15 | Ni fyddai ysgol eglwys yn Y Bala yn mesur ei meini prawf llwyddiant yn | 20 |

- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)

Mae'r Cyngor a'r Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae hyn yn golygu fod gan yr Eglwys hawliau penodol iawn drwy'r statws VA, er enghraifft;

- Mae gan yr Eglwys Fwyafrif ar y Corff Llywodraethu
- Yr Eglwys sydd yn rheoli mynediad
- Yr Eglwys sydd yn gyfrifol am benodiadau staff
- Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol. Bydd gwerthoedd a moeseg Cristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol

Ni fyddai'r uchod yn berthnasol i'r categori Gwirfoddol a Reolir VC.

O gymharu – mae'r statws Gwirfoddol a Reolir VC yn debyg iawn i'r statws Cymunedol gyda rhai amrywiaethau;

- Mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir VC byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond byddai'r gynrychiolaeth yma yn y lleiafrif. Mae yn ansicr beth fyddai maint y Corff Llywodraethol ar hyn o bryd, ond mae'n debyg y byddai ganddo unai 18 neu 21 aelod a fyddai gan yr Eglwys 4 allan o 18 neu 5 allan o 21.
- Byddai ymarferiad cyfreithiol technegol o drosglwyddiad amodol o'r tir i'r Eglwys. Bydd y tir yn dychwelyd i Gyngor Gwynedd pe byddai darpariaeth addysgol Eglwysig yn terfynu ar y safle.

Fel arall – mae'r canlynol yn wir am y ddau gategori (Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir VC);

- Y Cyngor fyddai yn rheoli mynediad i'r ysgol
- Y Cyngor a'r llywodraethwyr fyddai yn gyfrifol am benodi staff
- O ran cydaddoli byddai angen bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Mae gan unigolion yr hawl i gael eu heithrio o weithredoedd cyd-addoli a gwersi addysg grefyddol.
- Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai'n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae'r opsiwn a ymgynghorir arno yn y cynnig gyda statws arfaethedig VC (Gwirfoddol a Reolir) ar y Campws Gydol Oes 3-19.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried y sylwadau yma yn ofalus cyn gwneud penderfyniad i barhau a'r cynnig a'i pheidio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ôl faint o ddisgyblion sy'n arddel Cristnogaeth, ond yn ceisio arfogi disgyblion gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth iddynt werthuso heriau moesol a moesegol bywyd yn feirniadol a dod o hyd i'w hymateb eu hunain; boed hynny o fewn Cristnogaeth ai peidio. | | |
| 7.16 | Rwy'n cefnogi'r cynnig oherwydd mae ysgolion eglwys yn mesur pa mor effeithiol y mae'r cymeriad Cristnogol nodedig yn llunio perthynas rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol, yn hybu dealltwriaeth o'r Gymru gyfoes a pharch tuag at gymunedau amrywiol. Byddai'r ysgol yn cyfarfod anghenion yr holl ddysgwyr mewn modd cynhwysol. /Mae ysgolion eglwysig yn addysgu cwricwlwm eang sy'n caniatáu i blant gael gwybodaeth a llunio barn resymegol/Bydd y bartneriaeth hon yn helpu'r ysgol newydd i ddatblygu awyrgylch cariadus, gofalgar a chryf lle mae gwerthoedd Cristnogol a pharch clir at dreftadaeth a diwylliant Cymru yn rhan ganolog o bopeth a gaiff ei wneud. / Rwy'n credu bod y model hwn yn cynnig darpariaeth eang a chytbwys i ddisgyblion yn y Bala. Dylai disgyblion fod yn cyflawni eu potensial llawn ym mhob ysgol. Ond mewn ysgolion Eglwys, mae gwneud y mwyaf o ddysgu trwy werthoedd yn hollbwysig. Mae gan ddisgyblion anghenion academaidd, personol ac ysbrydol, a gellir mynd i'r afael a'r holl bethau hyn mewn amgylchedd lle ceir gwerthoedd ac addysg nodedig Gristnogol.<br>Bydd y cynigion yn gwella a chryfhau'r cysylltiadau hyn, gan ganiatáu cydweithrediad agosach a chryfhau ethos a gwerthoedd holl gymuned yr ysgol. Byddai gan yr ysgol fynediad at rwydwaith o gynghorwyr ac ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan yr Esgobaeth, a byddai ganddi fynediad hefyd at hyfforddiant, adnoddau a gweithgareddau. / Gwella a chryfhau'r berthynas bresennol gyda'r eglwys/ | 35 | |
| 7.17 | Dymunaf fel rhiant gefnogi y cais i sicrhau fod elfen Gristnogol yn perthyn i'r sefydliad newydd. Os bydd yn ysgol gyda statws Eglwysig gorau oll, nid er mwyn yr Eglwys, gan nid drwy ysgol mae tyfu aelodaeth ffydd, ond er diogelu addoliad y dyfodol i blant y Bala. | 1 | |
| 7.18 | Nod ysgol Eglwys yw rhoi rhodd o addysg eang sy'n caniatáu i'r plant wneud penderfyniadau gwybodus. / Mae ysgolion yr Eglwys yn ceisio darparu'r safon uchaf posibl o addysg o fewn cyd-destun nodweddiadol Gristnogol. Nid ydynt yn ceisio gorfodi tröedigaeth, ond gwasanaethu, ac mae tystiolaeth yn dangos bod ethos Gristnogol gref a gweledigaeth addysgol yn helpu i godi safonau a chyflawniad pob plentyn i gyflawni ei botensial. / Mae hyn yn cael ei fynegi yn Adolygiad Addysg yr Eglwys yng Nghymru a'r Adolygiad o Ysgolion Eglwys y Dyfodol, a gynhyrchwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol, ac adroddiadau arolygu GWELLA a | 20 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | SIAMS. | | |
| 7.19 | Mae dadansoddiad ystadegol a gasglwyd gan yr Eglwys yng Nghymru wedi dangos bod ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn perfformio'n well yn eu hardal (yn ôl canlyniadau Estyn) o'u cymharu ag ysgolion a arolygwyd ledled Cymru. | 4 | |
| 7.20 | Mae'n bwysig deall cyfraniad yr Eglwys i addysg. Rydym yn cyfrannu tuag at addysg oherwydd ein bod yn credu mewn lles a llewyrch pobl Cymru. | 1 | |
| 7.21 | Gwn yn iawn nad ydy mwyafrif y plant yn mynychu Beuno Sant oherwydd iddi fod yn Ysgol Eglwys, ond mae yna rai. Ac er nad yw ffydd yn bwysig i lawer o'r teuluoedd nid ydynt yn wrthwynebus iddo ychwaith. Beth maent eisiau yw addysg dda, mewn awyrgylch hapus gydag ethos cariadus a moesau gorau? Yn fynych iawn bydd pobl sydd ddim yn gwybod dim am Ysgol Eglwys yn trafod yn hollol annoeth a diwybod! Mae'r ddelwedd gaiff eraill ganddynt yn erchyll. | 1 | Nodir y sylwadau. Roedd yr asesiad angen a gynhaliodd Cyngor Gwynedd cyn penderfynu gosod statws Gwirfoddol a Reolir ar y Campws yn yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd rhwng 13 Mawrth a 28 Ebrill 2015 yn dod i'r casgliad mai addysg oedd bwysicaf ac mai eilbeth oedd statws ysgol.<br><br>Yng nghyd-destun dalgylch Y Berwyn a'r ad-drefnu yno, mae Cyngor Gwynedd yn fodlon fod pob ymdrech rhesymol wedi ei wneud i egluro'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol gategorïau statws.<br><br>Roedd hyn y cynnwys:<br>• Gwybodaeth yn y ddogfen ymgynghori oedd yn egluro'r gwahanol gategorïau<br>• Rhesymeg dros argymell statws Gwirfoddol a Reolir yn y ddogfen ymgynghori<br>• Trafodaethau yn y cyfarfodydd PAD oedd yn egluro natur a rôl yr Eglwys fel cyd-ddarparwr<br>• Argaeledd y ddogfen "Ffydd Mewn Addysg" yn ystod y diwrnod agored |
| 7.22 | Dydw i ddim yn gweld y bydd y rhieni, na'r gymdeithas, na'r awdurdod yn fodlon i'r ysgol fod a statws Eglwysig ac nid ydw i ychwaith yn ddigon gwirion i feddwl hynny. Fodd bynnag gwn o ymweld ag Ysgol Sant Joseff yn Wrecsam -ysgol Gatholig ac Anglicanaidd - sydd yn hynod o boblogaidd gyda dwywaith mwy o geisiadau na lle ar eu cyfer yn ysgol anhygoel o ran adnoddau, staff, naws, darpariaeth ayyb. Y sefydliadau Eglwysig sydd yn gyfrifol am yr adeilad ac mae'r arian ddaw i mewn i'w chwennych heb os nac oni bai. Tybiaf na fu i Lywodraethwyr Ysgol y Berwyn dderbyn y wybodaeth yma gan mai'r cyfan a ddwedwyd oedd "yr Eglwys fyddai piau'r adeilad a'r Cyngor Sir y tir." Hwyr yn y dydd i bobl ddeall hyn nawr fe dybiaf, neu os ydynt wedi derbyn y wybodaeth nid ydynt wedi deall. | 1 | Cynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad ar y cynnig i greu Campws 3-19 gyda statws Gwirfoddol a Reolir (VC).<br>Nid ydym yn gwybod beth oedd natur unrhyw drafodaethau fu gan Lywodraethwyr Ysgol y Berwyn o ran y statws. Fodd bynnag, mae Adran 6 o'r ddogfen ymgynghori yn egluro'r gwahanol opsiynau o ran gosod categori cyfreithiol ar ysgol. Yn ogystal, mae Adran 6 yn cynnwys tabl sy'n egluro'r prif wahaniaethau rhwng statws Cymunedol, statws Gwirfoddol a Reolir a Statws Gwirfoddol a Gynorthwyir. Bu i'r cyfarfodydd Panel Adolygu Dalgylch a gynhaliwyd ar 6 Mai 2014 a 14 Ionawr 2015 ac a fynychwyd gan Benaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion dalgylch Y Berwyn drafod y statws. Yn ogystal, yn ystod y diwrnod agored a gynhaliwyd yn Y Bala ar 26 Mawrth 2015, roedd dogfen Llywodraeth Cymru, *'Ffydd Mewn Addysg'* ar gael i unrhyw un oedd am gopi.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori derbyniodd Cyngor Gwynedd sylwadau o blaid gosod y statws yma ar y Campws a sylwadau yn gwrthwynebu. Bydd Cyngor Gwynedd yn gwerthuso'r sylwadau yma cyn dod i benderfyniad terfynol ar y statws.<br>Mae Cyngor Gwynedd felly'n fodlon fod gwybodaeth ddigonol wedi ei roi er mwyn i unrhyw un oedd â diddordeb yn y mater yma fedru dod i gasgliad gwrthrychol ar y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cwestiwn o statws. |
| 7.23 | Mae statws Eglwysig yn ychwanegu haen o atebolrwydd / Ysgolion Eglwys “Ymwelydd yr Esgob”, a fyddai’n cefnogi a herio’r ysgol, yn cynnig cyngor a chefnogi ymgorffori’r gofal bugeiliol sydd gan Esgob Llanelwy dros yr ysgolion yn ei esgobaeth | 4 | Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o gymorth a gwasanaethau tîm Addysg Esgobaethol Esgobaeth Llanelwy. Byddai’r Ysgol yn cael ei rheoli gan y Pennaeth a’r Corff Llywodraethu ac felly byddent yn medru troi at y gefnogaeth pe byddent yn dymuno hynny. |
| | **Cyngor Gwynedd a’r Eglwys yng Nhgymru fel Cyd-ddarparwyr** | | |
| 7.24 | Y berthynas rhwng yr Awdurdod Lleol a’r Eglwys yng Nghymru wedi darparu addysg ragorol ac yn dal i gynnig manteision sylweddol i’n plant. | 1 | Mae’r Cyngor yn cydnabod bod yr Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Berwyn. Mae Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae hyn yn golygu fod gan yr Eglwys hawliau penodol iawn drwy’r statws VA, er enghraifft;<br>• Mae gan yr Eglwys Fwyafrif ar y Corff Llywodraethu<br>• Yr Eglwys sydd yn rheoli mynediad<br>• Yr Eglwys sydd yn gyfrifol am benodiadau staff<br>• Yr ysgol yn gyfrifol am Addysg Grefyddol sydd o gymeriad enwadol. Bydd gwerthoedd a moeseg Cristnogol yn ymdreiddio drwy weithrediad ac ethos yr ysgol ac yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol |
| 7.25 | Yr Eglwys yng Nghymru yw’r ail ddarparwr mwyaf o ysgolion yng Nghymru, ar ôl yr awdurdodau lleol eu hunain: mae 15% o holl ysgolion Cymru yn ysgolion Eglwys. Yn esgobaeth Llanelwy, mae 49 o ysgolion Eglwys, sy’n darparu ychydig dros 6,450 o leoedd cynradd yn yr Esgobaeth. Sefydlwyd yr ysgolion hyn i ddarparu’r addysg orau bosibl i bob plentyn yn eu cymunedau lleol, a byddai’r ysgol newydd fel ysgol Eglwys newydd yn cynnal y traddodiad hwnnw ac yn darparu addysg ragorol mewn cyd-destun nodweddiadol Gristnogol. Mae gan Ysgol Beuno Sant ethos cryf yn barod, ac yn cysylltu â’r eglwys leol, a byddai’r cynigion yn gwella a chryfhau’r elfennau hynny ac yn ffurfioli’r ymarfer presennol. | 6 | |
| 7.26 | Fel aelod o’r Eglwys yn Y Bala cytunodd yr Eglwys i golli’r statws Eglwysig yn y gorffennol, a hyn er mwyn caniatáu i’r ysgolion uno er lles y gymdeithas leol a’r plant. Aberth fawr gan fod Beuno Sant yn ysgol Dan Gymorth Gwirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Yr addewid adeg hynny oedd sicrha u byddai yng nghyfansoddiad yr Eglwys newydd ddatganiad mai addoliad Cristnogol fyddai'r cyd addoli fyddai’n digwydd. Er bod holl ysgolion yr ardal yn cynnal gwasanaethau Cristnogol, dim ond mewn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru mae rheidrwydd i’r addoliad fod yn Gristnogol. Ymhob ysgol arall mae’n ddibynnol ar y Pennaeth ac felly nid oes sicrhad mai Cristnogol fyddai eu gwasanaethau. Dydy dweud ein bod i gyd yn ysgolion Cristnogol ddim yn sicrhau y bydd yr addoliad yn Gristnogol . Gresyn fyddai yn y dyfodol fod plant Y Bala yn derbyn addoliad ffydd arall. Wrth gwrs mae bod yn ymwybodol o ffydd a chred a diwylliant eraill yn holl bwysig yn enwedig mewn cymdeithas sydd yn fwy aml ddiwylliant yn flynyddol. | 1 | Mae’n wir y bu cyfnod o ymgynghori statudol blaenorol yn nalgylch Y Berwyn rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011. Rhwng 2010 a 2012, bu newid yn nulliau Llywodraeth Cymru o gyllido prosiectau mawr, ac roedd yna ansicrwydd am argaeledd cyllid ar gyfer cyllido'r Campws Dysgu Gydol Oes yn Y Bala. Penderfynodd y Cyngor warantu’r cyllid ar gyfer gwneud gwelliannau yn Ysgol OM Edwards, ond nid aethpwyd ati i ad-drefnu yng ngweddill y dalgylch.<br><br>Wedi cyfnod o oedi, cyflwynwyd adroddiad pellach gerbron y Cabinet ar 1 Ebrill 2014, ble y cytunwyd i:<br>*i.* *Rhoi caniatâd i ehangu’r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai’n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol a/neu lywodraethol ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda’r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*<br>*ii.* *Rhoi awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod yr argymhellion fel y nodir yn i. uchod.*<br>*iii.* *Gan fod un o ysgolion y dalgylch yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir yr Eglwys* |
| 7.27 | Dengys ystadegau fod yna lai a llai o bobl yn mynychu sefydliadau addoliad. Fel y dywedwyd yn glir yn y cyfarfodydd torfol - “tref Bresbyteraidd yw'r Bala. Ac rydym i gyd yn gwybod beth wnaeth yr | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Eglwys i bobol. Dydw i ddim yn credu fod angen dweud mwy. Dydyn ni ddim bellach yn byw yn oes Thomas Charles!!” | | *yng Nghymru, (VA), dirprwyo’r hawl i’r Aelod Cabinet Addysg, Plant a Phobl Ifanc gynnal rhag-ymgynghoriad gyda’r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.*<br>Cynhaliwyd nifer o drafodaethau ac yna Adroddwyd hyn i’r Cabinet ar 17 Chwefror 2015 **lle cymeradwywyd yr argymhellion canlynol:**<br>*i. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 i gau Ysgol Bro Tegid, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgolion yn cau ar 31 Awst 2018.*<br>*ii. I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 ar yr opsiwn a ffafrir, sef i sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes 3-19 Cyfrwng Cymraeg statws gwirfoddol a reolir (VC), ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Y bwriad yw y bydd yr ysgol yn agor ar 1 Medi 2018.*<br>ii. *I ymgymryd â phroses o ymgynghori statudol ar ffedereiddio tair ysgol wledig dalgylch Y Berwyn, sef Ysgolion Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards.* |
| 7.28 | Esgobaeth Llanelwy ac Esgobaeth Bangor wedi bod yn ddarparwyr ysgolion i blant Gwynedd ers cryn amser. Rydym eisiau i rieni gael y cyfleusterau a’r adnoddau gorau o ddarpariaeth addysgol i ddewis o’u plith ar gyfer eu plant. | 1 | |
| 7.29 | Mae’r cynnig yn sicrhau parhad i ddarpariaeth llefydd ysgol yr Eglwys yng Nghymru yn ardal De Meirionnydd. Credaf fod angen cynnig dewis i rieni yn narpariaeth llefydd ysgol De Meirionnydd, ac mae rhoi statws eglwysig i’r Campws Dysgu newydd yn y Bala yn cyflawni hyn. / Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi cynnal adolygiad o ddalgylch y Gader yn ddiweddar. Pe bai’r adolygiad hwnnw’n cael gwared ar yr ysgol Eglwys yn yr ardal honno, yna’r ddarpariaeth yn y Bala yw’r unig ddewis i rieni mewn ardal eang o Wynedd. / Bydd Campws 3-19 Gwirfoddol a Reolir yn rhoi ehangder dewis i rieni yn ardaloedd Y Bala a’r Gader. / Credwn ei bod yn bwysig cynnig dewis i rieni yn narpariaeth addysgol eu plant, a byddai rhoi statws Eglwysig i’r ysgol gydol oes yn cyflawni hyn | 21 | Bydd Campws 3-19 gyda statws Gwirfoddol a Reolir (VC) yn parhau a’r darpariaeth addysg Eglwys yn Nghymru ym Meirionnydd. |
| | **Hawl i Beidio Addoli ar y Cyd neu Gael Addysg Grefyddol** | | |
| 7.30 | Fel mewn unrhyw ysgol arall, bydd gan rieni sy’n dewis anfon eu plant i’r ysgol Wirfoddol a Reolir newydd yr hawl i ddewis bod eu plant yn peidio addoli ar y cyd nac yn cael addysg grefyddol. Felly, mae hyn yn golygu y bydd yr ysgol newydd yn gwasanaethu’r gymuned gyfan ac yn gynhwysol i anghenion a dymuniadau pawb. / Mae ysgol Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru yn dysgu’r un maes llafur Addysg Grefyddol gytunedig ag ysgolion cymunedol, sy’n cynnwys credoau a safbwyntiau crefyddol eraill yn ogystal â Christnogaeth. | 35 | Mae’n wir byddai hawl gan rieni tynnu eu plant allan o addoli ar y cyd mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC) fel sy’n digwydd mewn ysgol gyda statws cymunedol. Yn wir mae nifer o agweddau yn wir am y ddau gategori (Cymunedol a Gwirfoddol a Reolir VC);<br>• Y Cyngor fyddai yn rheoli mynediad i’r ysgol<br>• Y Cyngor a’r llywodraethwyr fyddai yn gyfrifol am benodi staff<br>• O ran cydaddoli byddai angen bodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer cydaddoli yn feunyddiol. Mae gan unigolion yr hawl i gael eu heithrio o weithredoedd cyd-addoli a gwersi addysg grefyddol<br>• Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli fyddai’n gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd. |
| 7.31 | Mae’r Corff Llywodraethol yn derbyn ac yn cytuno y byddai’r ysgol gydol oes yn ysgol a Reolir - ac os felly byddai pob disgybl yn dilyn yr un maes llafur Addysg Grefyddol, sy’n cynnwys credoau a safbwyntiau | 1 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | crefyddol eraill yn ogystal â Christnogaeth. Nod y cwricwlwm yw arfogi disgyblion gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth iddynt werthuso heriau moesol a moesegol bywyd - sgiliau allweddol a hanfodol i'r oes yr ydym yn byw ynddi heddiw. | | Mae'r opsiwn a ymgynghorir arno yn cynnig rhoi statws VC (Gwirfoddol a Reolir) ar y Campws Gydol Oes 3-19. |
| 7.32 | Mae'r cynnig yn swnio fel dewis da ar gyfer cymuned y Bala. Bydd trefniadau derbyn yr ysgol newydd yn cael eu gweinyddu gan y Tîm Derbyn yng Nghyngor Gwynedd. Byddai manylion y trefniadau derbyn yn cael eu nodi yn Llyfryn yr Ysgol. Fodd bynnag, pe bai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith, byddai'r polisi derbyn yn aros fel y mae yn awr: yn agored i bawb, beth bynnag fo'u ffydd. Ni fyddai meini prawf gordanysgrifio a fyddai'n rhoi plant Anglicanaidd neu unrhyw ffydd arall uwchlaw unrhyw un arall. | 6 | |
| | **Llywodraethwyr** | | |
| 7.33 | Bydd Bwrdd newydd y Llywodraethwyr yn cynnwys dau gynrychiolydd gan yr Eglwys a fydd yn cefnogi ymhellach y Pennaeth a'r gymuned leol. | 3 | Mewn Ysgol Wirfoddol a Reolir (VC), byddai gan yr Eglwys gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu, ond yn y lleiafrif o dipyn - byddai yn llai na chwarter aelodaeth o'r Corff. Felly ni fyddai ganddynt y grym i orfodi penderfyniadau gan y byddent yn y lleiafrif.<br><br>O ran y Corff Llywodraethu Cysgodol – nodir y byddai'r aelodaeth o'r Corff hwn yn cael eu penodi o Gyrff Llywodraethu presennol ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant. Felly, byddai ymdrech i sicrhau cynrychiolaeth deg o'r cyrff hyn drwy broses benodol yn dilyn camau statudol.<br><br>Mewn trafodaethau, yn dilyn yr ymgynghoriad, mae'r Eglwys yn awyddus i ymateb i'r pryderon a fynegwyd ac wedi nodi eu bod yn awyddus i sicrhau fod hanner eu cyfran o gynrychiolaeth ar y Corff Llywodraethu o'r enwadau ymneilltuol o'r ardal h.y. pe byddai 4 cynrychiolydd o'r Eglwys - mae'r Eglwys am roi 2 o'r seddi hynny i enwadau eraill o'r cylch. Maent yn awyddus i sicrhau fod Corff Llywodraethu'r ysgol yn adlewyrchu'r traddodiad ymneilltuol yn yr ardal.<br><br>Wrth gwrs, fel arall byddai cyfansoddiad y corff Llywodraethu Cysgodol a'r Corff Sefydlog wedi hynny yn cynnwys yr amrywiaeth arferol o Staff yr ysgol, Rheini, Aelodau'r Gymuned ac Aelodau Lleol fel sydd yn wir yn rhelyw ysgolion y Sir. |
| **8** | **Materion Adeilad a Safle** | | |
| | **Cae 3G a Gwella Cyfleusterau Ymarfer Corff** | | |
| 8.1 | Mae angen Cae 3G/Mae cae tim pêl-droed Y Bala yn gae gwair sy'n broblem. Byddai Cae 3G yn adnodd gwerth ei gael/Mae'n hanfodol i'r dref fod darpariaeth 3G a hyderaf na fydd yr ad-drefnu yn effeithio'n negyddol ar y ddarpariaeth 3G neu ar y trafodaethau sy'n cymryd lle ar hyn o bryd/Byddai'r ardal a Gogledd Gwynedd ar ei mantais o gael Cae 3G/ Oherwydd dirywiad yr Astroturf byddai'n syniad i'r ysgol a'r Clwb | 5 | Mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r egwyddor o gael darpariaeth 3G yn Y Bala, ac mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal rhwng Cyngor Gwynedd, a Chlwb Pêldroed Bala gyda'r bwriad o geisio sicrhau darpariaeth 3G yn yr ardal, gall gael ei ddefnyddio gan ddisgyblion y Campws 3-19 arfaethedig hefyd.<br><br>Pwrpas y cyfnod ymgynghori statudol yma yw ymgynghori ar sefydlu Campws Ddysgu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pêl Droed ddod at ei gilydd i sefydlu adnoddau newydd allai gael eu defnyddio gan y cyhoedd a'r clybiau chwarae | | 3-19 Cyfrwng Cymraeg VC ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. |
| 8.2 | Mae angen adnoddau chwaraeon gwell. Nid oes offer ar gael i allu gwneud profion a gwaith ymarfer corff / Nid yw'r adran chwaraeon yn elwa o gyfleusterau ychwanegol yn hytrach na dim ond adnewyddu / Mae diffyg cyfleusterau chwaraeon yn yr ysgol yn rhwystr i ddenu plant a phobl ifanc gymryd diddordeb mewn chwaraeon. | 2 | Mater i dîm rheoli unrhyw ysgol yw penderfynu ar offer sy'n cael ei ddarparu mewn ysgol. |
| 8.3 | Angen neuadd chwaraeon fwy ac yn gwbl weithredol / Angen neuadd chwaraeon mawr i gymryd lle pedwar cwrt badminton/a chwrt pêl rwyd lawn / Mae'r gampfa yn fach iawn i gymharu gydag ysgolion eraill. Gan ysgolion eraill gwell offer/llefydd na ni yn Ysgol y Berwyn ac rwy'n ei weld yn annheg ein bod ddim yn cael yr un cyfleoedd wneud yn dda mewn gwahanol chwaraeon oherwydd nid oes gennym yr offer/llefydd cywir. Pam nad yw'r tywydd yn ffafriol; rhew, oer glaw nid oes lle i'r holl flwyddyn yn y gampfa/ does dim lle i i fynd i barhau a'r wers. / Ar ôl gweld y cynlluniau teimlaf nid yw'r adran chwaraeon yn addas ar gyfer ein hanghenion/ Maint y gampfa yn achosi pryder - rhy fach! Dim ond un gampfa fydd ar gael i'r holl ddosbarthiadau / Gyda chynnydd yn nifer y disgyblion ar y safle newydd, rhaid ystyried nid yn unig uwchraddio'r gampfa, ond hefyd ymestyn ei maint fel ei bod yn medru cwrdd â'r galw / Dogfen ymgynghori yn nodi bydd tua 180 o blant oedran cynradd, a bod capasiti'r campws dysgu wedi ei gynllunio i ddarparu ar gyfer gofynion cyfredol a niferoedd disgyblion i'r disgyblion. / Nid wyf o'r farn fod uwchraddio a diweddaru'r gampfa bresennol yn ddigonol o gwbl. Disgyblion cynradd angen cymaint o ddefnydd o'r gampfa a'r disgyblion uwchradd, a bydd angen mwy o gyfleusterau dan do arnynt gan fydd y tywydd yn effeithio llawer mwy ar blant bychain / Yn ôl y cynlluniau mae'r gampfa a'r ystafelloedd newid yn edrych yn union yr un maint. Mae tua 340 o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd a thua 50-60 ymhob blwyddyn. Yn ystod tywydd gwael drwy'r hydref, gaeaf a'r gwanwyn mae angen lle i'r rhain i gyd mewn un gampfa fach / Oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr er mwyn trio gwella iechyd a ffitrwydd yr ardal i gael gwell cyfleusterau tywydd gwlyb? / Ble fydd yr ysgolion cynradd yn mynd – fydd na ddim digon o le iddyn nhw, mae'n llawn yn barod. | 14 | Bydd union ddarpariaeth a dyluniad y Gampfa yn rhywbeth fydd yn cael ei drafod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen ac wrth ddylunio'r gwaith.<br><br>Yn dilyn y gwaith uwchraddio bydd holl ddisgyblion yn elwa o'r gwelliannau i'r cyfleusterau a'r adnoddau ar gyfer addysg gorfforol yn y Campws. Mae nifer o ystyriaethau pwysig wrth gynllunio'r gampfa a fydd yn rhywbeth fydd yn cael ei drafod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen ac wrth ddylunio'r gwaith.<br><br>Un o fanteision y model 3-19 yw'r gallu i rannu adnoddau, arbenigedd a chyfleusterau er mwyn lleihau dyblygu gwariant, gan gynnig a phrofiadau addysgol ehangach i blant. Bydd amserlenni gofalus yn sicrhau y bydd holl blant a staff y campws yn medru cael mynediad at yr adnoddau chwaraeon.<br><br>Bydd y gampfa bresennol yn cael ei huwchraddio fel rhan o'r cynllun ac mae o faint sy'n cyfateb i nifer o ysgolion uwchradd eraill sydd gyda niferoedd disgyblion tebyg. |
| 8.4 | Fel aelod o staff yn yr adran addysg gorfforol rwy'n pryderu am y planiau presennol, oherwydd:<br>• nid oes cynnydd mewn maint y gampfa bresennol<br>• fydd llawer mwy o ddisgyblion yn yr ysgol felly bydd angen gwell cyfleusterau ymarfer corff a mwy o le gan fod y gampfa bresennol | 2 | Bydd union ddarpariaeth a dyluniad y Gampfa yn rhywbeth fydd yn cael ei drafod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen ac wrth ddylunio'r gwaith.<br><br>Bydd y gampfa bresennol yn cael ei huwchraddio fel rhan o'r cynllun ac mae o faint sy'n cyfateb i nifer o ysgolion uwchradd eraill sydd gyda niferoedd disgyblion tebyg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddim digon mawr<br>• mae iechyd a ffitrwydd y boblogaeth bresennol mewn argyfwng a dylid ystyried hyn fel blaenoriaeth i'r genhedlaeth nesaf<br>• Dim ond un cyfle sydd i'w gael i adeiladu'r ysgol newydd ac mae'n bwysig manteisio i'r eithaf ac adeiladu ysgol fyddai pob ardal yn genfigennus ohoni<br>Gampfa Ysgol y Berwyn yn rhy fach ar gyfer niferoedd disgyblion ar hyn o bryd. Heb os, pe byddai'r dosbarthiadau o faint mwy, a mwy o ddisgyblion angen ei ddefnyddio, byddai'n sicr yn rhy fach. Byddai'n sicr yn fuddiol i ehangu maint y gampfa i sicrhau'r budd mwyaf o'i ddefnydd. / 170 o blant ychwanegol i'r niferoedd presennol - fydd digon o le, offer ar gyfer y rhain i gyd? Pryder am faint a strwythur y gampfa | | Nid oes arian digonol o fewn y gyllideb i gynyddu maint y gampfa bresennol, ond bydd rhaglen o uwchraddio yn cael ei wneud i sicrhau fod yr adnodd yn addas ar gyfer darparu addysg gorfforol yn yr unfed ganrif ar hugain.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y bydd gwella'r adnoddau trwy'r buddsoddiad yn hyrwyddo iechyd, ffitrwydd oddi fewn i ardal Penllyn ac ehangu'r cyfranogiad ym maes chwaraeon, ar gyfleoedd o fewn y cwricwlwm addysg gorfforol.<br><br>Yn ychwanegol i ddefnydd yr ysgol o'r neuadd a'r gampfa, bydd trefnu gofalus o'r gofodau mewnol yn galluogi'r campws i reoli mynediad at ofod y neuadd a'r ardal ffitrwydd i sicrhau bydd yn adnodd hefyd i'r gymuned. |
| 8.5 | Mae cwricwlwm Addysg Gorfforol yr ysgol ar hyn o bryd yn cael ei ddysgu fesul blwyddyn gyfan. Felly mae oddeutu 50 o blant yn cael gwers gyda'i gilydd. / Mae'r grŵp yn cael ei rannu yn fechgyn a merched. Lle i 20-25 o blant sydd yn y gampfa bresennol , ac mae un grŵp ymhob gwers yn gorfod defnyddio cyfleusterau tu allan. Mae hyn yn broblem mewn tywydd anffafriol. Nid oes digon o le ar y safle presennol, yn ystod rhai cyfnodau o'r flwyddyn, i sicrhau cyfleoedd teg o Addysg Gorfforol. | 1 | Bydd amserlennu gofalus yn sicrhau fod y gampfa bresennol yn ddigonol er mwyn cyfarch angen pob disgybl.<br><br>Un gampfa sydd gan lawer o ysgolion o'r maint arfaethedig. |
| 8.6 | Pryder arall sydd gennym yw'r caeau. Ydym ni'n mynd i'w colli oherwydd y maes parcio? | 1 | Does dim bwriad i leihau arwynebedd presennol y caeau chwarae. Ni fydd y ddarpariaeth parcio arfaethedig yn cael unrhyw effaith arnynt. |
| 8.7 | Yn y ddogfen mae'n dweud fod y gampfa a'r ystafell ffitrwydd yn cael eu huwchraddio. Beth mae hyn yn ei olygu? Cot o baent? Mae'r ystafell ffitrwydd rhy fach, nid oes lle i gael sesiwn ymarfer corff a does dim digon o offer i bawb. | 3 | Mae'r ystafell ffitrwydd presennol wedi ei leoli yn rhan o'r adeilad sydd â tho fflat ac sydd wedi ei hadnabod fel ardal sydd mewn cyflwr gwael. Bydd yr ystafell ffitrwydd yn cael ei ail-leoli mewn ystafell bwrpasol ar gyfer defnydd yr ysgol a'r gymuned. |
| 8.8 | Mae'r ystafelloedd newid rhy fach ,maen nhw'n oer ac nid yw'r cawodydd yn dda o gwbl. Hefyd does dim llawer o le i gadw offer/ Eisiau cawodydd newydd! Adnewyddu'r lle i gyd a'i wneud yn fwy. | 3 | Mae bwriad i weddnewid yr ystafelloedd newid gan gynnwys uwchraddio'r cawodydd. |
| 8.9 | Neuadd chwaraeon safonol yn denu mwy o ddisgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon. / Wrth i niferoedd y disgyblion gynyddu mi fydd defnydd y gampfa hefyd yn cynyddu. Cyfle yma i ymestyn ac uwchraddio'r gampfa yn iawn - angen campfa ac adnoddau o'r un maint/safon a neuadd chwaraeon canolfan hamdden, o leiaf maint cwrt pêl rwyd safonol. Fel arall bydd disgyblion yn gorfod mynychu'r ganolfan hamdden fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. / Mae Pellter y Ganolfan Hamdden o'r ysgol yn ein rhwystro rhag ei defnyddio amser cinio'r ysgol. Byddai'r adnodd yn werthfawr i sawl tim a chlwb cymunedol yn ogystal â thimau cystadleuol yr ysgol. / Teimlaf yn gryf | 2 | Nid yw'r Cyngor o'r farn fod angen maint neuadd chwaraeon o faint canolfan hamdden ac yn ogystal ni fyddai'r gyllideb sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer y gwaith. Bydd gwaith uwchraddio sylweddol yn sicrhau fod y gampfa yn addas ar gyfer darparu addysg gorfforol yn yr unfed ganrif ar hugain, ac yn adnodd a fyddai'n bosibl i'r gymuned i'w defnyddio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | felly bod gwir angen adeiladu Neuadd Chwaraeon ychwanegol newydd ar y safle. Golyga hyn y gellid defnyddio'r gampfa bresennol ar gyfer dysgu dawns, gymnasteg, ffitrwydd a gemau bychan, tra gallasai chwaraeon megis pêl - rwyd, badminton, tenis, pêl droed 5 bob ochr, pêl foli athletau ffitrwydd gael eu dysgu yn y Neuadd Chwaraeon. | | |
| | **Gwella Amgylchedd Ddysgu a Chyfleusterau** | | |
| 8.10 | Yn y tair mis yr wyf wedi cael fy nghyflogi yn Ysgol y Berwyn, rhaid imi fynegi sioc a siom am gyflwr yr ysgol a'r diffyg adnoddau. Gywilyddus fod esgeulustod gwleidyddol ac o du'r awdurdod lleol wedi bodoli am gyfnod mor hir yma. Dyma'r amgylchedd ddysgu waethaf yr wyf wedi eu gweld mewn cyfnod o bron 40 mlynedd o weithio ym myd addysg! | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y diffyg buddsoddiad sydd wedi bod yn Ysgol Y Berwyn dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y buddsoddiad arfaethedig o £9.27m yn golygu gwelliant sylweddol yn yr amgylchedd ddysgu. |
| 8.11 | Bydd cael adeilad newydd yn gwneud y prosiect yn fwy apelgar?/Mae'r undeb yn croesawu'r nod o gael adeiladau ac adnoddau addas i bwrpas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Mae cael amgylchedd dysgu gorau yn hanfodol i addysg disgyblion. | 2 | Mae bwriad creu adnodd cynradd hollol newydd. Bydd gweddill adeilad Ysgol Y Berwyn yn cael ei ail wampio'n sylweddol, gyda darnau'n cael eu dymchwel, rhannau eraill yn cael eu huwchraddio, ac ail-gynllunio ac ad-drefnu o ran addasrwydd mewn rhannau eraill. |
| 8.12 | Mae'n bwysig iawn fod y cyfleusterau ar gyfer disgyblion anghenion dysgu arbennig y safon gorau ar gyfer plentyn unigol. Mae cael cymorth ar gyfer y plant sydd angen cymorth yn anodd iawn yn ystod y blynyddoedd cynnar | 2 | Byddwn yn ystyried hyn wrth ddylunio'r gwaith. |
| 8.13 | Mae'r system TG yn hynod hen ffasiwn | 1 | Noder hyn - mae buddsoddiad mewn TG yn digwydd bob hyn a hyn wrth i offer TG ddyddio. Bydd y sylw yma yn cael ystyriaeth |
| 8.14 | Gan nad oes gwarant y bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, pa waith cynnal a chadw hanfodol fydd yn cael ei wneud yn awr? | 1 | Disgwylir y byddwn yn gwybod os yw'r cynllun yn mynd yn ei flaen ai peidio erbyn tymor yr Hydref 2015. Bydd hi'n bosibl wedi hynny dod i benderfyniad ar ba waith fydd angen ei wneud. |
| 8.15 | Mae angen ystafell chweched well a mwy modern efo mwy o gyfrifiaduron a chadeiriau cyfforddus / Mae angen ystafell chweched dosbarth gyda mwy o gyfrifiaduron i wneud gwaith | 2 | Mae bwriad i gynnig ystafell chweched newydd. Mae Cyngor Gwynedd yn nodi'r sylw a byddwn yn ystyried hyn wrth ddylunio'r gwaith. |
| 8.16 | Mae maint y dosbarthiadau dysgu yn rhy gyfyng, yn enwedig aer gyfer dosbarthiadau o 30 o blant / Pryder am faint y dosbarthiadau / Pryder am y gofod yn y dosbarthiadau uwchradd – dulliau dysgu cyfredol yn golygu bod diffyg gofod o ran diwallu anghenion y disgyblion o fewn rhai o'r ystafelloedd dosbarth presennol / Ar hyn o bryd mae'r cyfnod sylfaen @ Beuno Sant yn rhyfeddol + fawr - bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adeilad newydd? | 4 | Mae yna ganllawiau y mae'n rhaid eu dilyn o ran maint ac arwynebedd dosbarthiadau. |
| 8.17 | Rwy'n bryderus o weld nad oes llawer o le chwarae - cae ac iard i'r cynradd - mae cae ac iard anferth yn ysgol Bro Tegid | 1 | Mae bwriad darparu iard chwarae benodol i'r oedran cynradd. Bydd gan y disgyblion cynradd hefyd fynediad at adnoddau caeau chwarae presennol Ysgol Y Berwyn sy'n cynnwys cae Astroturf a dau gae chwarae arall mawr. Does gan Ysgol Beuno Sant ddim mynediad i gae chwarae gwair ar hyn o bryd. Rydym yn hyderus y bydd y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddarpariaeth chwarae i'r oedran cynradd yn well na'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. |
| 8.18 | Mae'n bwysig ystyried lleoliad y toiledau o fewn yr ysgol. Mae fy mhryder yn deillio o'r ffaith fod fy mhlant sy'n ddisgyblion yn ysgol OM Edwards yn anfoddog ac yn bryderus o ddefnyddio'r toiledau yno oherwydd eu bod yn agored i'r coridor. Gall lleoliad toiledau effeithio ar les emosiynol plentyn. | 1 | Bydd lleoliad y toiledau yn cael ei ystyried fel rhan o'r dyluniad. Rydym yn deall pwysigrwydd dyluniad a lleoliad toiledau er mwyn lleihau bwlio. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw sylw anffafriol am doiledau Ysgol OM Edwards a cawsant eu dylunio mewn cydweithrediad â'r ysgol. |
| 8.19 | Colli'r cyfle o ran cynllunio gofod swyddfa i staff addysgol/gofod stordai i ddosbarthiadau unigol/ystafelloedd cyfweld/arholi a.y.y.b | 1 | Bydd y sylwadau yma yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r gwaith. |
| 8.20 | Mae'r bloc cynradd wedi ei leoli wrth ymyl y brif ffordd i mewn i'r Bala gyda'r lle chwarae a'r man chwarae bob tywydd ar y ffordd fawr. Oes rhaid i'r bloc cynradd fod ar flaen yr adeilad a digon o le i adeiladu yn y cefn?/ Ble mae'r ardaloedd chwarae y tu allan o dan y canopi'r Cyfnod Sylfaen? Wrth y ffordd fawr eto?/ Bydd angen ffens uchel i warchod y disgyblion cynradd rhag y ffordd fawr | 2 | Cynlluniau cychwynnol o'r Campws sydd wedi cael eu gwneud ar hyn o bryd, ond mae asesiad o'r safle gan bensaer wedi dod i'r casgliad mai ar flaen yr adeilad presennol y byddai'r lleoliad gorau i'r bloc cynradd. Drwy ddymchwel yr hen floc dysgu, bydd lle ychwanegol yn cael ei greu ar flaen y safle i'r bloc cynradd.<br><br>Er y gallesid lleoli'r bloc cynradd yng nghefn yr adeilad, byddai hynny'n lleihau gofod y maes chwarae.<br><br>Bydd maes chwarae'r bloc cynradd wedi ei wahanu o'r ffordd a'r palmant cyfagos drwy ffens ddiogelwch bwrpasol.<br><br>Mae ardaloedd chwarae'r Cyfnod Sylfaen yn rhan o'r maes chwarae cynradd presennol. |
| 8.21 | 4 labordy yn Ysgol Y Berwyn ar hyn o bryd. Pryderus os mai ond 2 fydd yn yr ysgol newydd. Angen o leiaf tri labordy. Bydd angen o leiaf 3 labordy gan fod 3 Gwyddoniaeth yn cael eu haddysgu trwy CA4 ac CA5 - Bioleg, Cemeg, Ffiseg. Bydd offer arbenigol ar gyfer Bioleg, Cemeg a Ffiseg angen eu lleoli yn y tri labordy. Hefyd beth am y defnydd o'r labordai gan ddisgyblion CA2? Bydd cyrsiau Safon Uwch newydd yn cychwyn Medi 2015 - bydd y rhain yn cynnwys gwaith ymarferol fydd yn gorfod cael eu gwneud gan ddisgyblion trwy gydol y cwrs. O Fedi 2015 bydd disgwyl i fyfyrwyr wneud MWY o waith ymarferol. Yn ogystal bydd cyrsiau TGAU newydd o Fedi 2016. Bydd mwy o waith ymarferol yn CA4 hefyd. Hollol afresymol ac anymarferol i dri athro Gwyddoniaeth orfod RHANNU 2 labordy - angen mwy o labordai yn hytrach na llai - dim yn gwneud synnwyr o gwbl ac nid yw'n arwydd o ysgol newydd 21G. / Ydy'r labordai lawr grisiau yn cael eu cadw. Mae hyn yn bryder mawr. Nid yw'r labordy yma'n addas, dyluniad gwael. Mae tapiau nwy, socedi trydan a sinciau ynghanol y byrddau - nid oes lle i ddisgyblion weithio yn iawn. O'r 4 labordy presennol dyma'r labordy gwaethaf i'w gosod yn yr ysgol newydd er mai labordy newydd ydyw. A fydd cyfle Bennaeth Gwyddoniaeth Ysgol Y Berwyn drafod anghenion efo'r bobl sy'n | 1 | Bydd y sylwadau yma' n cael eu hystyried wrth ddylunio'r gwaith. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwneud penderfyniadau? | | |
| | **Effaith Y Gwaith Adeiladu** | | |
| 8.22 | Sut fydd y gwaith adeiladu yn effeithio ar ddisgyblion presennol y Berwyn? A fydd yn rhaid iddynt dderbyn eu haddysg mewn cabanau dros y cyfnod adeiladu? / A fydd yr adeiladu yn effeithio addysg disgyblion? | 3 | Bydd y gwaith amserlennu yn cael ei strwythuro a'i amserlennu'n ofalus er mwyn lleihau'r effaith ar ddisgyblion Ysgol Y Berwyn. Cam cyntaf y gwaith adeiladu fydd adeiladu'r bloc cynradd. Mi fydd hi'n bosibl defnyddio'r bloc hwn ar gyfer rhai disgyblion tra fo gwaith yn mynd yn ei flaen ar weddill yr adeilad. Yn ogystal, mae adeilad presennol Ysgol y Berwyn yn ddigon mawr i waith gael ei wneud gam wrth gam arno er mwyn lleihau unrhyw broblemau. Gellir amserlennu'r gwaith fyddai'n achosi'r effaith fwyaf yn ystod cyfnod gwyliau ysgol. |
| 8.23 | Mae adeilad yr hen floc mewn brics coch yn adeilad hanesyddol. A ydyw wedi ei gofrestru efo CADW? Oes unrhyw un wedi ymchwilio i hyn? | 1 | Mae ymchwil wedi ei wneud sy'n dangos nad yw'r hen floc brics coch wedi ei gofrestru efo CADW. |
| | **Neuadd** | | |
| 8.24 | Oni ddylid darparu neuadd/ystafell ymgynnull ar gyfer y rhan cynradd o'r Campws Dysgu? Pan fydd arholiadau mewnol ac allanol a phrofion cenedlaethol yn cael eu cynnal mae'n debyg y bydd y brif neuadd uwchradd ddim ar gael i'r disgyblion cynradd. Yn ogystal, ymhle fydd profion Blwyddyn 2,3,4,5 a 6 yn cael eu cynnal/Nid wyf yn credu y byddai modd i'r cynradd fod yn darparu addysg dda, effeithiol heb gynnwys neuadd ar gyfer dibenion Cynradd yn unig rannu Neuadd yn | 2 | Y bwriad yw bod un neuadd ar gyfer yr holl Gampws.<br><br>Does dim neuadd ar hyn o bryd gan ysgolion Bro Tegid na Beuno Sant, ac felly mi fydd y ddarpariaeth fydd ar gael yn y Campws yn welliant sylweddol ar y sefyllfa bresennol.<br><br>Mae neuadd bresennol Ysgol Y Berwyn, yn neuadd fawr, sy'n medru diwallu holl anghenion a niferoedd Ysgol Y Berwyn ar hyn o bryd. Bydd y neuadd hon yn cael ei haddasu a'i huwchraddio'n sylweddol. Mae bwriad i ddarparu cyfleusterau sinema yn y neuadd, yn ogystal â phartisiwn symudol fydd yn galluogi rhannu'r neuadd yn ddwy. |
| 8.25 | Beth fydd yn digwydd i'r neuadd pan fydd arholiadau yn y neuadd a'r cynradd angen ei defnyddio, e.e. ymarfer Eisteddfod yr Urdd?/ Gofod cymunedol ysgol, h.y. y neuadd ddim ar gael i'r disgyblion am gyfnodau estynedig o'r flwyddyn oherwydd arholiadau mewnol/allanol y disgyblion hyn. Hyn yn debygol o effeithio ar argaeledd y gofod/ Ydych chi wedi ystyried beth all hyn wneud i'n traddodiadau ni – Eisteddfodau?! Ystyriwch beth fydyn digwydd i'r iaith? | 1 | Mi fydd yn bosibl defnyddio'r ffreutur, sydd yn ystafell o faint sylweddol, os yw'r neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau megis arholiadau. |
| 8.26 | Fydd y neuadd yn ddefnydd i'r uwchradd a'r cynradd? | 1 | Bydd y neuadd ar gyfer defnydd y cynradd a'r uwchradd. |
| | **Rheolaeth o'r Safle** | | |
| 8.27 | Pryderus fod disgyblion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r un fynedfa | 1 | Bydd mynedfa ar wahân ar gyfer y disgyblion cynradd a'r uwchradd. |
| 8.28 | A fydd disgyblion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un iard, yr un neuadd? / Yn aml mae disgyblion sylfaen a disgyblion iau yn cael eu gwahanu i ddwy ardal yn ystod amser chwarae. A fydd y disgyblion cynradd yn chwarae ar yr un maes chwarae A fydd disgyblion uwchradd dyn chwarae yma hefyd?/ A fydd unrhyw gyswllt rhwng disgyblion cynradd ac uwchradd yn ystod yr amseroedd chwarae ac amser cinio yn y cantîn? / Pwy fydd yn cael cinio gyntaf - cynradd gobeithio? / Sut fydd diogelwch plant bach yn cael eu hystyried os ydynt i fod mewn | 4 | Ni fydd disgyblion oedran cynradd yn rhannu'r iard chwarae. Bydd iard chwarae ar wahân i'r bloc cynradd newydd.<br><br>Mae bwriad i'r neuadd gael ei rhannu rhwng oedran cynradd ac uwchradd. Mae niferoedd disgyblion ac amserlennu gofalus yn gwneud hyn yn bosibl. Bydd defnydd y ddau gyfnod oedran o'r neuadd yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau cadw'r ddau gyfnod oedran ar wahân. Bydd cynllun yr adeilad hefyd yn hyrwyddo ac yn sicrhau hyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cysylltiad agosach gyda disgyblion hyn. | | |
| 8.29 | Cyfleusterau a rennir e.e. ffreutur. Sut y caiff pob oed / maint ei wasanaethu i adlewyrchu uchder o fyrddau a chadeiriau i nifer fawr o ddisgyblion yn defnyddio'r ardal mewn amser penodol. | 1 | Mater i dîm rheoli unrhyw ysgol yw penderfynu ar offer sy'n cael ei ddarparu mewn ysgol. Mewn ymateb i bryderon godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, bwriedir argymell i'r Cabinet gymeradwyo cyflogi pennaeth y Campws o leiaf flwyddyn o flaen sgôr y Campws ym Medi 2018. Bydd hyn yn galluogi'r Pennaeth cael amser digonol i paratoi a cynllunio'n ofalus a creu strwythur staffio cyn i'r ysgol agor. |
| 8.30 | Mae parcio yn broblem ar hyn o bryd yn ysgol Bro Tegid - ceir staff a rhieni ymhobman. Gwelais ar y cynlluniau mai dim ond lle i 50 o geir a ddarperir. Ydy hyn yn ddigon o le i holl staff cynradd/uwchradd a rhieni'r holl ddisgyblion? | 1 | Bydd y maes parcio presennol yn cael ei ehangu a'i ail ddylunio. Bydd sicrhau diogelwch yn rhan bwysig o'r ystyriaethau dylunio. |
| 8.31 | Ymddengys fod yr adeilad cynradd yn cael ei adeiladu gyntaf. A fydd y plant cynradd yn defnyddio'r adeilad yma yn gyntaf? Os ydynt mae hyn yn hurt! Mi ddylai'r toiledau, sinc ayyb fod yn llawer is i'r cynradd. Bydd defnydd gan yr uwchradd yn difetha'r adeilad cyn i'r cynradd gael ei ddefnyddio | 1 | Mae union strwythur a rhaglen adeiladu'r Campws i'w benderfynu. Fodd bynnag, mae'n debygol mai'r bloc cynradd fydd yn cael ei adeiladu gyntaf, ac mae'n debygol y bydd defnydd o'r bloc cynradd gan rai disgyblion uwchradd tra bod gwaith adeiladu yn cael ei wneud i'r darn uwchradd. Mae hyn yn lleihau'r tarfu ar ddisgyblion Ysgol Y Berwyn tra bo'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen, ac felly'n synhwyrol. |
| | **Arall** | | |
| 8.32 | Yn y tair mis yr wyf wedi cael fy nghyflogi yn Ysgol y Berwyn, rhaid imi fynegi sioc a siom am gyflwr yr ysgol a'r diffyg adnoddau. Gywilyddus fod esgeulustod gwleidyddol ac o du'r awdurdod lleol wedi bodoli am gyfnod mor hir yma. Dyma'r amgylched ddysgu waethaf yr wyf wedi eu gweld mewn cyfnod o bron 40 mlynedd o weithio ym myd addysg! | 1 | Mae'r Cyngor yn cydnabod fod Ysgol Y Berwyn mewn cyflwr gwael. Bydd y buddsoddiad o £9.27m yn ymateb i hyn. |
| 8.33 | Gan nad oes gwarant y bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, pa waith cynnal a chadw hanfodol fydd yn cael ei wneud nawr? | 1 | Cydnebir nad oes gwarant y bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, sicrhau fod y cynnig yn cael ei wireddu yw bwriad a deisyfiad y Cyngor. Byddai'n ddefnydd aneffeithlon o arian ac adnoddau cyhoeddus i wario ar yr ysgolion presennol yn y tymor byr, os mai bwriad y cynnig ydy eu cau a sefydlu Campws Dysgu 3-19 newydd. Pe byddai'r sefyllfa'n newid, byddai'n rhaid i'r Cyngor ail ystyried y sefyllfa. |
| 8.34 | Mae'r cynlluniau sy'n cael eu harddangos yn sôn am welliannau campws y dref yn unig. Tybed oes bwriad i uwchraddio a gwella ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. Mae ysgol OM Edwards eisoes wedi derbyn gwariant sylweddol a thegwch fyddai gallu cynnig yr un adnoddau ym mhob ysgol yn y dalgylch/ Mae'r Corff yn edrych ymlaen at gael gwybodaeth bellach ynglŷn â'r buddsoddiad y mae'r Cyngor yn ei fwriadu ar gyfer Ysgol Ffridd y Llyn o ganlyniad i'r diffygion sydd wedi eu hadnabod yn y Ddogfen Ymgynghorol.. | 3 | Bwriedir buddsoddi o tua £100,000 ar Ysgol Ffridd y Llyn a £55,000 ar Ysgol Bro Tryweryn. Bydd y gwariant yma yn cael ei wneud er mwyn clirio'r ôl-groniad cynnal a chadw. Mae hwn yn ychwanegol i'r £9.27miliwn o arian cyfalaf bwriedir buddsoddi wrth sefydlu'r Campws Ddysgu 3-19. |
| 8.35 | Mae lleoliad y swyddfeydd a'r maes parcio wedi fy synnu. Onid fyddai'n ddoeth trafod hefo staff presennol beth yw'r anghenion a'r adnoddau sydd eu hangen | 1 | Cynlluniau cychwynnol o'r Campws arfaethedig sydd wedi eu rhannu ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau yma yn cynnwys y swyddfeydd a'r maes parcio wedi cael mewnbwn gan uwch reolwyr Ysgol Y Berwyn. Bydd cyfle i staff gynnig sylwadau am leoliad y swyddfeydd a'r maes parcio wrth i'r broses ddylunio ac adeiladu fynd yn ei blaen. |
| 8.36 | Ydy'r adeilad yn mynd i fod yn ddau lawr? Beth am blant wedi | 1 | Bwriad y cynlluniau presennol ydy y bydd y bloc cynradd ar ddua lawr. Bydd lifft yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | brifo/anabl. Oes modd heblaw grisiau iddynt fynd i'r ail lawr? anabl | | cael ei ddarparu er mwyn sicrhau mynediad rhwydd i'r ail lawr. |
| 8.37 | Ym marn i credaf mae'n syniad da ond be fydd yn digwydd i'r ysgolion sydd yn cau e.e. Ysgol Bro Tegid a Beuno Sant? Mi fyswn i yn awgrymu i'r tir troi yng nghae pêl droed a pharc i'r plant chwarae (Ysgol Bro Tegid). /Beth fydd yn digwydd gyda safle Ysgol Bro Tegid? Fydd y gymuned yn ei gael i'w ddefnyddio? Neu bydd y safle yn cael ei werthu? | 1 | Mae polisi ôl-ddefnydd safleoedd ysgolion gan Gyngor Gwynedd. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei wireddu, bydd trafodaethau ôl-ddefnydd safleoedd sydd ddim yn parhau'n rhan o'r cynnig yn cael eu cynnal yn unol a'r polisi. Os oes dymuniad lleol, bydd y Cyngor yn gofyn i'w Swyddogion Adfywio gefnogi'r gymuned wrth ystyried unrhyw ôl-ddefnydd o dir ac adeiladau a ryddheir o ganlyniad i'r cynnig. |
| 8.38 | Mae unrhyw benderfyniadau yng nghylch addysg plentyn yn hynod bwysig. Mae gan bob Cyngor rhyw syniadau am beth sydd yn dda "iddyn nhw" ddim i'r gymuned. Busnes yw hyn ar ddiwedd y dydd, ond tase ffasiwn beth a grantiau gan Lywodraeth ddim yn bod beth fase ymateb y cyngor i gau ysgolion bach y wlad. Mae Ysgol Parc a nifer a nifer o ysgolion bach y wlad yn galon i'r gymuned. A syniad y Cyngor yw cau ysgolion i arbed arian ond eto gwario arian ar estyniad i OM Edwards ag Ysgol y Berwyn. Petai bawb yn ddalgylch y Berwyn yn anghytuno i newidiadau'r ardal a fyddai Cyngor yn dymchwel eu cynlluniau yn gyfan gwbl? | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried y bydd y cynnig yn sicrhau addysg wledig yn ardal y Bala oddi fewn i gyfundrefn gynaliadwy ac effeithiol, ac yn cryfhau y darpariaeth yn y tymor hir. |
| **9** | **Ymgynghori gyda Phlant a Phobl Ifanc** | | |
| 9.1 | Gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd yn darparu holiaduron sy'n addas i blant a bod llais y plentyn yn ganolog i'r ymgynghoriad | 1 | Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi sylwadau plant a phobl ifanc yr ysgolion ac yn falch o weld y nodweddion penodol mae disgyblion yn edrych ymlaen atynt ac yn eu hystyried yn bwysig mewn ysgol. |
| | **Sylwadau Cyffredinol ar yr Ymgynghoriad gyda Plant** a **Phobl Ifanc** | | |
| 9.2 | Wedi ymateb i'r cwestiwn "Oes unrhyw beth yn eich poeni am hyn?" gyda "Dydw i ddim yn hoffi bod yr ysgolion yn cau. Hefyd dydw i ddim eisiau i'r athrawon golli ei swyddi". | 1 | Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai goblygiadau staffio a allai arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. O dan y model hwn, byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r 3 ysgol yn dod i ben. Byddai penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol y Campws Dysgu.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu model polisi adleoli ar gyfer ysgolion, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Mater i'r Corff Llywodraethu cysgodol fyddai mabwysiadu'r polisi hwn, ei ddiwygio, neu benderfynu peidio â mabwysiadu'r polisi. Byddai'n rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.<br><br>Roedd staff o adran Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol yn y diwrnod agored yn Y Bala ac roedd croeso i unrhyw aelod o staff a oedd yn dymuno trafod eu sefyllfa. Mae croeso hefyd i staff gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, yn ystod y cyfnod pontio i'r holl staff yr effeithir arnynt gan y cynnig.<br><br>Petai'r cynnig i greu Campws Dysgu newydd yn cael ei weithredu, byddai angen sefydlu corff llywodraethu cysgodol. Byddai'r corff llywodraethu cysgodol hwn yn cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ei sefydlu yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ymhell cyn y dyddiad gweithredu arfaethedig o fis Medi 2018. Byddai angen amser digonol i greu pob polisi perthnasol, Offeryn Llywodraethu, penodi pennaeth a chreu strwythur staffio ar y cyd â'r pennaeth.<br><br>Mae'r Cyngor yn penodi a chyflogi staff ategol (staff cegin, gofalu a glanhau) sy'n gweithio yn yr ysgolion cynradd o fewn y dalgylch.<br><br>Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i Gorff Llywodraethu Cysgodol y Campws Dysgu 3-19 newydd benderfynu a yw'n dymuno i lywodraethwyr yr ysgol ynteu'r Cyngor fod yn gyfrifol am gyflogi staff ategol yn yr ysgol newydd |
| 9.3 | Wedi ticio wyneb hapus yn yr holiadur plant - ☺ | 2 | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau – bydd angen i'r Cabinet ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol cyn penderfynu parhau ai peidio gyda'r cynnig. |
| 9.4 | Wedi ymateb i'r cwestiwn "Beth yw'r pwysicaf i chi mewn ysgol?" gyda: *Gwersi diddorol ac addysg dda/ Cael gwersi da ac athrawon hapus* | 2 | |
| 9.5 | Wedi ymateb i'r cwestiwn "Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato gyda'r newid yma?" gyda: Cael gwersi Ffrangeg a Sbaeneg / Mae'n wych i'r Bala gael ysgol gydol oes. Mae eisiau adnoddau ac adeiladau newydd. Mae Ysgol Bro Tegid yn ddarnau | 2 | Mae'r Cyngor yn nodi'r ymateb ac yn cytuno fod cyfleoedd newydd yn codi o ran yr hyn ellid ei addysgu a phryd, ond hefyd i sicrhau buddsoddiad yn y ddarpariaeth |
| 9.6 | Wedi ymateb i'r cwestiwn "Pa syniadau sydd gennych ar gyfer y Campws Dysgu Newydd? gyda: *Cael ystafelloedd lliwgar offer chwarae tu allan . Parc hefo rhaffau dringo, sleids, olwynion, swings, pethau siglog/Llyfrgell dda gyda chyfrifiaduron a llyfrau, timau chwaraeon gyda mwy nag un i bob chwaraeon.* | 2 | Mae'r Cyngor yn diolch am yr awgrymiadau ac yn nodi'r ymateb. |
| **10** | **Y Prosesau Statudol** | | |
| 10.1 | Gwybodaeth ffeithiol anghywir yn y ddogfen ymgynghori / Teimlad nad yw'r ddogfen ymgynghori ynddo'i hun yn ddiduedd e.e. pam cynnwys data diweddaraf o ran cyrhaeddiad rhai ysgolion a chynnwys data hŷn o eraill? | 1 | Wrth gwblhau ymchwil cyn cychwyn y broses rhoddwyd cyfle i benaethiaid ysgolion y dalgylch wirio ystadegau'r pecyn ystadegol. Gan fod y broses statudol yn cymryd amser, cymerwyd ciplun o ddata am un flwyddyn academaidd (2013/14) ac yna defnyddiwyd y rhain yn gyson, i osgoi unrhyw ddryswch. Mae'r ddogfen ymgynghorol felly yn cynnwys gwybodaeth yn seiliedig ar ddata 2013/14. |
| 10.2 | Sawl camgymeriad yn eich dogfen am Ysgol Bro Tegid, o ran y trefniadau parcio, y buarth a'r cae chwarae. | 1 | Mae'r Cyngor yn derbyn eich sylwadau ond heb y wybodaeth o ran pa gamgymeriadau penodol a cyfeirir atynt ni fedrwn ei ateb. |
| 10.3 | Anffodus fod y gair "Ia" yn cael ei ddefnyddio yn y ddogfen ymgynghori, nad yw'n ramadegol gywir nac yn rhan o dafodiaith Y Bala a Phenllyn - siomedig gan fod y ddogfen wedi dod gan gorff cyhoeddus. | 1 | Nodir y sylwad, nid yw'r Cyngor o'r farn bod hyn yn cael effaith ar y cyfnod ymgynghori statudol. |
| 10.4 | Yn lle defnyddio pwyntiau negyddol o'r ddogfen Ymgynghori Statudol am yr ysgolion er mwyn cryfhau eich cais, cefnogi'r pwyntiau positif o'r ysgolion? / Dwi'n siomedig mai agweddau negatif yn unig sydd wedi cael eu pwysleisio yn Adran 3.1 o'r ddogfen ymgynghori, sef canlyniad arolwg Estyn ar Ysgol Beuno Sant. | 2 | Mae'n angenrheidiol cynnwys ystod eang o wybodaeth wrth lunio cynigion ad-drefnu ysgolion, boed y rheini yn cyfleu agweddau positif neu negatif. Mae'r ddogfen ymgynghorol statudol Y Bala wedi ei llunio yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.5 | Mae oedi yn y broses ad-drefnu yn y dalgylch wedi achosi anfantais i Ysgol y Berwyn oherwydd:<br>• Plant sy'n byw ar ffiniau'r Sir wedi dewis mynychu ysgolion yng Nghonwy a Dinbych oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol Ysgol y Berwyn<br>• Staff yn ansicr am eu dyfodol a'u swyddi<br>• Mae adeilad yr ysgol wedi ei esgeuluso oherwydd addewid y bydd gwelliant pan ddaw'r Ysgol Gydol Oes<br>Siomedig oedd yr ymateb yn y diwrnod agored i'r pwyntiau uchod a'r sylw fod "popeth yn yr awyr" yn achos pryder pellach | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod fod proses ad-drefnu yn cymryd amser ac yn gallu arwain at gyfnod o ansicrwydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wireddu cynllun i wella darpariaeth addysgol dalgylch Y Berwyn. Gan ystyried bod y prosesau statudol wrthi'n cael eu dilyn, gyda'r prif cerrig milltir ac amserlen amlinellol wedi ei rhyddhau, gobeithir bod hyn yn lleihau'r cyfnod o ansicrwydd. Nid yw'n bosibl rhoi manylder ar rhai agweddau'r cynnig e.e. effaith ar swyddi benodol staff yr ysgolion, gan ystyried bod y penderfyniad terfynol heb ei wneud eto. |
| 10.6 | Dogfen ymgynghori yn gamarweiniol, pwynt 1.3 yn nodi mai ymgynghoriad ynglŷn ag ysgolion yn Y Bala yw'r ddogfen, ond bod bwriad cael cydbwyllgor dalgylchol sydd â gofal o'r Campws Dysgu a'r ysgolion gwledig. Ni chyflwynir esboniad o rôl a chyfrifoldebau'r corff yma ac mae'r bwriad o lunio corff o'r fath yn annerbyniol pan nad oes ystyriaeth o'i effaith ar yr ysgolion gwledig. Rydych yn rhwymo dwylo unrhyw ymgynghoriad ynglŷn â ffedereiddio'r ysgolion gwledig trwy benderfyniad di-droi'n ôl yr ymgynghoriad hwn heb ystyried yr effaith ar yr ysgolion gwledig ac heb roi cyfle i drigolion yr ardaloedd gwledig fynegi barn ar sgil effeithiau'r ail strwythuro o fewn tref Y Bala. | 1 | Mae' wir nodi bod y ddogfen ymgynghorol statudol yn nodi mai ymgynghoriad statudol yn ymwneud ag ysgolion yn nhref y Bala yn unig gynhaliwyd. Eglurir ymhellach yn adran 1.2 y ddogfen bod ad-drefnu Y Bala yn rhan o weledigaeth hir dymor Cyngor Gwynedd ar gyfer y dalgylch.<br>Mae'r weledigaeth yn ceisio sicrhau bod y tair ysgol wledig, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn hefyd yn elwa ar y buddsoddiad arfaethedig yn y Bala, ac mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol, a chydbwyllgor rhwng y ffederasiwn a'r Campws Dysgu.<br>Bydd bwriad Cyngor Gwynedd i sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol wledig yn y dalgylch, (Ysgol OM Edwards, Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn), yn destun ymgynghoriad ar wahân, a bydd partïon â diddordeb yn gallu rhoi eu safbwyntiau ar hyn fel rhan o broses ar wahân, a fydd yn cael ei chynnal dros y misoedd nesaf.<br>Nid yw'r Cyngor yn rhagfarnu'r prosesau ffedereiddio a chydbwyllgor ond wedi llunio gweledigaeth hir dymor bwriedir ymgynghori arno.<br>Mae'r ddogfen ymgynghorol statudol wedi ei ddosbarthu i staff, llywodraethwyr a rhieni bob ysgol y dalgylch – gan gynnwys y rhai gwledig – fel bo modd i unrhyw un ymateb i'r ymgynghoriad. |
| 10.7 | Dogfen ymgynghorol yn gamarweiniol o'r cychwyn. Parthed y cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad mae Adran 1.1 yn datgan yn blaen "Mae'r cynnig hwn yn ymwneud a'r ysgolion yn nhref Y Bala yn unig"<br>Pam felly mae Adran 4.2 yn mynd ymlaen i drafod modelau sy'n effeithio'r tair ysgol wledig? Pam bod rhyw fath o "gydbwyllgor dalgylchol" rhwng y Campws Dysgu arfaethedig (sef testun yr ymgynghoriad) a rhyw fath o ffederasiwn o'r tair ysgol wledig? Beth yw'r cydbwyllgor??/Byddai'n fuddiol, bod wedi cael rhagor o wybodaeth ynghylch gweledigaeth y Cyngor ar sut maent yn credu y byddai'r ffedereiddio arfaethedig yn gweithio er lles ein hysgolion gwledig. | 2 | |
| 10.8 | Dylid sicrhau ei bod hi'n bosibl llenwi'r ffurflen ymateb ar lein. | 1 | Yn anffodus nid oedd yn bosib rhoi fersiwn 'Word' o'r ffurflen ar y gwefan ond roedd copi ar gael ar gais i'r Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion. Bydd y Cyngor yn edrych i mewn i hyn at ymgynghoriadau yn y dyfodol. |
| 10.9 | Trist meddwl bod ymgynghoriad am y trydydd tro. Costio yn ariannol, a hefyd wedi effeithio ar y gymdeithas ,teuluoedd, staff a phlant yr ardal. Cafwyd cefnogaeth ddiwrthwynebiad gan ysgolion y dre o'r dechrau i greu Ysgol Gydol Oes | 1 | Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod mai dyma'r ail ymgynghoriad o ran ad-drefnu ysgolion tref y Bala. Newid yn null cyllido Llywodraeth Cymru a'r angen i flaenoriaethu gwaith mewn dalgylchoedd eraill yw'r prif reswm dros yr oedi. Bu ymgynghoriad hefyd ar gau Ysgol Y Parc, ond ymgynghoriad ar fater ad-drefnu gwahanol oedd hwn, er y cydnabyddir ei fod yn ymwneud ag ad-drefnu o fewn yr un dalgylch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10.10 | Trist fod datganiad Llywodraethwyr Ysgol y Berwyn wedi ei ryddhau yn gyn amserol – cyn i’r amser ymgynghori statudol ddod i ben. Diffyg parch a gweledigaeth o ran yr aelodau gyda’r bwriad o ddylanwadu ddwedwn oedd y pwrpas. | 1 | Mater a penderfyniad Corff Llywodraethol yr ysgol yw’r mater yma. Bydd y sylw yn cael ystyriaeth yn yr un modd a rhoddir ystyriaeth i bob sylw derbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. |
| 10.11 | Pa dystiolaeth sydd o gefnogaeth gan rieni a phobl Penllyn i’r cynnig hwn, hynny yw sawl llythyr/sylw oedd y Cyngor wedi’u derbyn cyn cyhoeddi’r ymgynghoriad? | 1 | Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) mae angen i’r Cyngor datblygu a phenderfynu ar gynnig ad-drefnu ysgolion fel bo modd i ymgynghori’n statudol arno. |
| 10.12 | Hoffwn eich atgoffa o’n llythyr 22 Gorffennaf 2014, yn ymateb i’r cyn-ymgynghoriad efo’r Eglwys yng Nghymru parthed ad-drefnu yn nalgylch Ysgol y Gader, yn enwedig paragraffu 2 a 4. Mae paragraffau 2 a 4 o’r llythyr yn cyfeirio at y ffaith fod yr Eglwys yng Nghymru yn cytuno efo’r ad-drefnu sy’n digwydd yn nalgylch y Gader, ar yr amod os na fydd ychwanegiad o ddarpariaeth addysg Eglwysig yn nalgylch Y Berwyn , yna byddant yn cadw’r hawl i herio ac ymateb mewn modd negyddol i unrhyw Ymgynghoriad Statudol yn nalgylch Y Gader. | 2 | Mae’r Cyngor yn ymwybodol o gais yr Eglwys yng Nghymru yn ystod cyfnod rhag-ymgynghori dalgylch Y Gader a bydd ymdrech yn parhau i gyd-amserlennu prosiectau dalgylch Y Gader a’r Berwyn. |
| **11** | **Campws Ddysgu 3-19 (Ysgol Gydol Oes)** | | |
| 11.1 | Ar hyn o bryd mae merch 6 oed yn teimlo’n ddiogel a hapus mewn ysgol fach - Ysgol Bro Tegid yn ysgol gartrefol iawn. Sut gall ysgol fawr fel hyn greu'r un teimlad? | 1 | Bydd ethos a naws yr ysgol yn rhan allweddol o waith sefydlu’r Campws Ddysgu 3-19 gan y pennaeth a’r corff llywodraethol cysgodol.<br>Ni fydd niferoedd y disgyblion cynradd yn sylweddol uwch na’r hyn sydd yn Ysgol Bro Tegid ar hyn o bryd, ac felly dylai bod yn bosibl sicrhau awyrgylch gartrefol. |
| 11.2 | Nid wyf yn gefnogol i’r syniad o ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn oherwydd ni hoffwn i fy mhlentyn blwyddyn derbyn rannu ysgol a phlentyn deunaw oed / Nid wyf o’r farn y dylai plant oedran cynradd orfod rhannu eu hamser chwarae neu ginio gyda phlant eraill. / Nid wyf yn gefnogol i’r syniad o ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn oherwydd ni hoffwn i fy mhlentyn blwyddyn derbyn rannu ysgol a phlentyn deunaw oed. / Fel rhiant plentyn oed meithrin mae’n bryder fod presenoldeb plant meithrin ar yr un safle a disgyblion hyn. | 3 | Bydd y Campws Ddysgu 3-19 yn un endid cyfreithiol (un ysgol), ond bydd disgyblion oedran cynradd a disgyblion oedran uwchradd yn cael eu cadw ar wahân. Bydd gan y bloc cynradd ei fynediad a lle chwarae ei hun. Mae bwriad i rannu adnoddau megis y gampfa, neuadd a’r ffreutur, ond mae cynllun yr ysgol yn ei gwneud hi’n bosibl i’r disgyblion cynradd ddefnyddio’r cyfleusterau yma heb orfod dod i gysylltiad efo’r disgyblion oedran uwchradd.<br>Bydd gan y disgyblion oedran cynradd eu lle chwarae eu hunain. Er bod bwriad i rannu’r ffreutur, bydd amserlennu gofalus yn golygu y bydd eisteddiad cinio'r disgyblion oedran cynradd ac uwchradd yn cael eu cynnal ar wahân. |
| 11.3 | Rwy’n bryderus fod plant uwchradd a cynradd am rannu ffreutur. Ni fydd ymdeimlad o agosatrwydd fel Neuadd Bro Tegid gan y bydd y ffreutur ar gyfer defnydd disgyblion hyn. | 1 | |
| 11.4 | Byddai unrhyw fath o gyfuno, uno neu ffederasiwn yn adeiladu ar rywbeth sydd yn gryfach na’r rhannau sy’n cyfrannu ar wahân | 1 | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau ac yn cytuno fod angen cryfhau a sicrhau darpariaeth addysg wydn yn y dalgylch cyfan i’r dyfodol. Bydd y broses ffedereiddio yn destun proses ar wahân. |
| 11.5 | Wastad wedi gwerthfawrogi manteision addysg gydol oes. Disgyblion ifanc yn elwa o’r esiampl a’r gefnogaeth sydd ar gael gan y disgyblion hyn fel mentoriaid a “rolemodels”, ac mae’r disgyblion hyn yn cael cyfle i feddwl am arweinyddiaeth a sut y gallent gefnogi a hyrwyddo eu | 1 | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau ac yn cytuno fod cyfleoedd i ddatblygu’r disgyblion yn addysgol gwricwlaidd ac fel unigolion o fewn y model addysgol newydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cymuned lle gall pob disgybl lewyrchu waeth beth yw eu hoed. | | |
| **12** | **Cylch Meithrin** | | |
| 12.1 | Rydym fel Cylch Meithrin Y Bala (Bro Tegid) yn poeni nad oes son am leoliad i'r Cylch yn y trefniant adleoli. Hoffem fel Cylch gael gwybod eith bwriadau/Hoffwn ofyn i'r Cyngor ystyried dyfodol Cylch Meithrin Y Bala sy'n cyfarfod mewn campws ar safle Bro Tegid/Does dim yn y cynllun lleol i leoli'r Cylch Meithrin. Os mai Campws Dysgu 3-19 sy'n cael ei gynllunio mi ddylai fod lle i'r meithrin ar yr un safle. / Mae dros 50 o blant yn mynychu'r Cylch. Nid oes ystyriaeth wedi bod i'r ffaith mai lle i 25 o blant meithrin sydd yn yr ysgol arfaethedig ond fod gan y cylch gofrestriad i 28 o blant ac yn llawn bob blwyddyn. Mae angen ystyried 2 grŵp o blant sef y rhai oed meithrin ac hefyd y plant iau sydd yn mynd i golli eu darpariaeth yn gyfan gwbl. Mae yna 24 o blant rhwng dwy a hanner a thair oed yn mynychu ar hyn o bryd. | 4 | Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Cylch Meithrin yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar safle Ysgol Bro Tegid ac yn nodi'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.<br><br>Mae'n gywir i nodi mai'r bwriad fyddai i'r ysgol ddarparu addysg o 3 oed i fyny, ac felly byddai oedran meithrin yn dod yn rhan o'r Campws. Ond o ran darpariaeth y Cylch Meithrin, os fydd y cynllun hwn yn mynd yn ei flaen, mae'r Cyngor yn awyddus i drafod posibiliadau gyda chynrychiolwyr perthnasol - gallai'r posibiliadau gynnwys aros yn y lleoliad presennol, ail-leoli i'r Campws Dysgu arfaethedig, neu symud i safle arall yn nhref y Bala. |
| **13** | **Ystadegau a Chyllid** | | |
| 13.1 | Mae Ysgol y Berwyn yn cael £5,174 y flwyddyn am bob disgybl. Sut y mae'r swm yma yn cael ei ddyrannu, oherwydd am bythefnos ym mis Mawrth nid oedd gennym doner na phapur argraffu. Sut gall disgyblion blynyddoedd 10,11,12 ac 13 orffen eu gwaith cwrs heb adnoddau sylfaenol? | 1 | Mater i reolwyr a Chorff Llywodraethol yr ysgol yw penderfynu sut i ddyrannu eu cyllideb flynyddol. Mae'r Cyngor yn annog y defnydd gorau o adnoddau er lles a safonau addysg y disgyblion. |
| 13.2 | Trist yw'r ffaith eich bod wedi dewis a dethol y data/sylwadau mwyaf negyddol am yr ysgolion presennol yn y ddogfen /Synnu hefyd mai Ysgol Bro Tegid sy'n derbyn y gyllideb leiaf y pen yn yr ardal. Hoffwn wybod pam fod plant sy'n mynd i Ysgol Beuno Sant yn derbyn bron i fil yn fwy'r pen. Dwi'n ymwybodol fod costau ysgolion gwledig yn uwch, ond dylai ysgolion o fewn yr un dref dderbyn yr un gyllideb. /<br>Mae ffigyrau yn cael eu cyflwyno ynglŷn â chost gyfredol y ddarpariaeth fesul disgybl yn y gwahanol ysgolion. Nid oes ffigyrau yn y ddogfen ynglŷn â beth fyddai costau'r ddarpariaeth addysg fesul disgybl yn ôl y gwahanol fodelau a gyflwynir. Nid yw felly'n bosibl gwneud cymhariaeth debyg am debyg, nac ychwaith scrwtineiddio'n fanylach ar y cyfiawnhad o'r ochr achos busnes dros y bwriad i ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn. | 3 | Mae ystod eang o wybodaeth yn cael ei gyflwyno fel rhan o unrhyw ymgynghoriad er mwyn darlunio sefyllfa yn llawn. O ran cyllid yr ysgolion – mae modd adrodd ar beth sydd wedi neu yn cael ei ddyrannu hyd at y flwyddyn gyfredol.<br><br>Mae'n gywir nodi fod yr wybodaeth gyllidol yn dangos fod amrediad gwariant y pen o fewn tref y Bala a bod bron i £1000 o wahaniaeth yng nghost y pen y ddwy ysgol gynradd yn y dref.<br><br>Wrth ddod ag adnoddau at eI gilydd a chreu campws – bydd cost y disgybl yn dod yn fwy cyfartal.<br><br>Mae cyllideb ysgol yn cael ei llunio yn ôl fformwla. Gan fod yr ysgol hon yn mynd i fod yn ysgol 3-19, byddai angen datblygu fformwla gyllidol o'r newydd er mwyn llunio'r gyllideb. Mae'r fformwla yma yn cael ei ddatblygu - ond sail y fformwla fydd niferoedd disgyblion. Os fydd y datblygiad yn mynd yn ei flaen, bydd angen gwneud gwaith cyllidol manwl er mwyn llunio cyllideb ddrafft i'r Corff Llywodraethu Cysgodol i'w galluogi i lunio strwythur staffio ayb. |
| **14** | **Opsiynau Amgen** | | |
| 14.1 | Hoffwn i'r Cyngor ystyried oes modd datblygu Beuno Sant yn ysgol i'r cynradd i gyd fel bod cynradd ac uwchradd ar ddau safle gwahanol. | 1 | Mae nifer o wahanol opsiynau wedi eu hystyried cyn i'r Cyngor benderfynu ymgynghori'n statudol ar yr opsiwn a ffafrir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14.2 | Pam cadw Ysgol Bro Tryweryn yn agored gyda chyn lleied o blant? Mae dan 50 yn fach ond nid oes hyn yno? | 1 | Prif ragoriaeth y model a ffafrir yw’r syniad o ysgol gydol oes. Mae gan ysgol gydol oes fanteision addysgol, megis y gallu i rannu arbenigedd ar draws ystod eang o oedran. Mae hyn yn golygu un ysgol ar gyfer ystod oedran 3-19 ar un safle. Byddai cadw’r cynradd a’r uwchradd ar ddau safle ar wahân yn groes i’r egwyddor yma.<br><br>Yn ogystal, mae adeilad ysgol Beuno Sant yn adeilad fictoraidd gyda chyfleusterau cyfyngedig ac ystafelloedd sy’n amrywio’n fawr mewn maint. Nid yw’r adeilad yn addas ar gyfer amgylchedd ddysgu 21 ganrif.<br><br>Wrth drafod gwahanol fodelau a chyn cytuno ar yr opsiwn a ffafrir bu trafodaeth ar y ddarpariaeth wledig. Mae ysgolion gwledig fel Ysgol Bro Tryweryn yn gwasanaethu cymunedau gwasgaredig unigryw, ac mae’n fwriad gan Gyngor Gwynedd fel rhan o’r weledigaeth hir dymor ar gyfer y dalgylch ffedereiddio’r ysgolion gwledig gan sefydlu cydbwyllgor fel bod ysgolion gwledig y dalgylch yn cael budd o’r Campws 3-19 hefyd. |
| 14.3 | Rwy’n gwrthwynebu’r statws Eglwysig sy’n cael ei argymell ar gyfer yr ysgol newydd. Mae’r Awdurdod yn darparu elfen Gristnogol o fewn ein hysgolion. Pam ddim gadael i Ysgol Beuno Sant barhau yn ysgol Eglwysig fel bod dewis eglwysig yn y dalgylch. | 1 | Mae’r sylw hwn yn gwrthwynebu gosod statws Eglwysig ar y Campws arfaethedig, ond yn cefnogi cadw darpariaeth bresennol (Gwirfoddol a Gynorthwyir) yn nalgylch Y Berwyn drwy gadw Beuno Sant ar agor.<br><br>Pwrpas yr ad-drefnu yn nhref Y Bala yw gwella a sicrhau cysondeb yng nghyrhaeddiad addysgol disgyblion. Un rheswm dros argymell Campws 3-19 yw er mwyn rhesymoli’r sefyllfa bresennol ble ceir dwy ysgol gynradd yn agos i’w gilydd - Ysgol Bro Tegid yn llawn ac Ysgol Beuno Sant gyda 48% o lefydd gweigion.<br><br>Ni fyddai parhau gyda darpariaeth addysgol yn Ysgol Beuno Sant yn gwneud dim i ddatrys y gwendidau sy’n bodoli ar hyn o bryd yn nhrefniadaeth ysgolion tref Y Bala. |
| **15** | **Materion Cyffredinol** | | |
| 15.1 | Mae newid yn medru achosi ansefydlogrwydd i blant. Rwy’n poeni y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar fy mab sydd ar ei flwyddyn gyntaf yn Ysgol y Berwyn. | 1 | Mae newid yn medru bod yn anodd ac achosi ansefydlogrwydd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cynllunio gwaith adeiladu ar y safle fel nad yw’n effeithio ar addysg y disgyblion. Bydd yr athrawon yn parhau i fod yr un rhai hyd nes y bydd y Campws yn agor, ac mae’n debyg y bydd y rhelyw o athrawon yn parhau i ddysgu yn y Campws wedi iddo gael ei sefydlu. |
| 15.2 | Mae Ysgolion Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tegid yn ysgolion sydd gyda llawer o gryfderau. Beth fydd eu dyfodol? | 1 | Nid yw Ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn rhan o’r ymgynghoriad statudol yma. Mae gan y Cyngor fwriad i ffedereiddio ysgolion gwledig dalgylch Y Berwyn, ond bydd hyn yn dilyn proses statudol ar wahân fydd yn cymryd lle dros y misoedd nesaf. Bwriad y broses ffedereiddio yw sicrhau fod yr ysgolion gwledig yn cael budd o’r ddarpariaeth yn y Campws 3-19. |
| 15.3 | Mae angen sicrhau enw arbennig iawn i’r ysgol | 1 | Y Corff Llywodraethol Cysgodol fydd yn penderfynu ar enw’r ysgol. |
| 15.4 | Hoffwn wybod beth sy’n digwydd i adeiladau’r ysgolion ar ôl iddynt gau? | 1 | Pe gweithredir y cynnig byddai dau safle yn peidio â pharhau i ddarparu addysg, sef Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid. Ni fyddai safle Ysgol Beuno Sant yn ysgol mwyach, ond byddai’n parhau fel eiddo i’r Eglwys yng Nghymru. Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd ar gyfer adeiladau ysgol a byddai’r polisi’n cael ei ddilyn. Byddai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | angen i'r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol a all ddod i rym pe tai unrhyw un o'r safleoedd yn peidio â pharhau fel safle ar gyfer darparu addysg.<br><br>Er mai mater i'r Eglwys yng Nghymru fyddai pennu defnydd o safle Ysgol Beuno Sant i'r dyfodol, byddai'r Cyngor yn fodlon trafod a chyd-weithio gyda'r Eglwys yng Nghymru ynghylch dyfodol ac unrhyw ddefnydd cymunedol posib o'r safle.<br><br>Mae Cylch Meithrin Y Bala ar hyn o bryd wedi'i leoli ar safle Ysgol Bro Tegid. Os yw'r cynnig hwn yn arwain at gau Ysgol Bro Tegid, yna bydd angen rhoi ystyriaeth i ddyfodol lleoliad y Cylch Meithrin. Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda'r cyhoedd a phartïon ymglymedig er mwyn trafod darpariaeth amgen ar gyfer y dyfodol. |
| 15.5 | Dydy'r cyfiawnhad dros ymyrryd yn radical yn y sefyllfa bresennol mewn tair ysgol wledig sydd eisoes yn perfformio'n dda gydag elfennau rhagorol ddim yn glir o gwbl...... / Wrth edrych drwy'r modelau gwahanol i weld yr opsiynau ar gyfer y tair ysgol wledig credaf fod angen cadw bwrdd llywodraethol i bob ysgol. Rhaid cofio bod y tair ysgol wedi cael adroddiadau Estyn rhagorol a bod safon y dysgu yn wych. Gan fod y Llywodraethwyr yn gwneud y gwaith yn wirfoddol nid yw'r ddadl o arbed arian yn dal dŵr. / Mae gennyf amheuon am y bwriad o gael un Pennaeth ar y DAIR ysgol gynradd wledig. Mae'r Penaethiaid presennol yn effeithiol ac yn llwyddo i gynnal safonau da a rhagorol – felly pam newid rhywbeth sy'n llwyddo? / Beth yw'r Cyd-bwyllgor dalgylchol a beth fyddai ei gyfrifoldebau? / Nid wyf yn cefnogi'r syniad o ffedereiddio'r ysgolion gwledig a sefydlu Cyd-bwyllgor efo'r Campws. Mae hyn oherwydd diffyg manylion ynglŷn â'r strwythur a rôl y corff ffederaleiddio. / Nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai ail strwythuro'r ysgolion cynradd yn gwella addysg y plant nac ychwaith yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i'r athrawon. Mae'r niferoedd o lefydd gwag yn y tair ysgol wledig yn isel iawn ac yn wir mae Ysgol Ffridd y Llyn yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwyr o ran costau a safon addysgol. | 4 | Mae'r ymgynghoriad statudol yn ymwneud ag ysgolion yn nhref y Bala yn unig. Fodd bynnag, mae'r ad-drefnu sy'n digwydd yn y Bala yn rhan o weledigaeth hir dymor Cyngor Gwynedd ar gyfer y dalgylch.<br><br>Mae'r weledigaeth yn ceisio sicrhau bod y tair ysgol wledig, Ysgol OM Edwards, Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn hefyd yn elwa ar y buddsoddiad arfaethedig yn y Bala, ac mae Cyngor Gwynedd felly'n bwriadu sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol, a chydbwyllgor rhwng y ffederasiwn a'r Campws Dysgu.<br><br>Bydd bwriad Cyngor Gwynedd i sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol wledig yn y dalgylch, (Ysgol OM Edwards, Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn), **yn destun ymgynghoriad ar wahân**, a bydd partïon â diddordeb yn gallu rhoi eu safbwyntiau ar hyn fel rhan o **broses ar wahân.**<br><br>Wrth gynnal trafodaethau a gwneud gwaith ar opsiynau a modelau posibl yn y dalgylch, daeth yn amlwg na fyddai cau'r ysgolion gwledig yn cyfrannu at wella addysg a phrofiadau disgyblion yn y dalgylch. Fodd bynnag, daeth hi'n amlwg hefyd na fyddai creu Campws Gydol Oes heb roi ystyriaeth ar yr un pryd i ddyfodol y ddarpariaeth addysgol wledig yn synhwyrol.<br><br>Mae safon addysg yr ysgolion gwledig ymhlith y gorau yng Ngwynedd. Yn gymharol ddiweddar, cafodd ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn arolygiad da neu ragorol gan Estyn. Er bod rhagolygon niferoedd disgyblion yr ysgolion yma'n gyson, cymharol fach yw maint rhai o'r ysgolion.<br><br>Fel rhan o gynllunio strategol, mae'n rhesymol fod Cyngor Gwynedd yn ystyried ffedereiddio fel opsiwn ar gyfer darparu ysgolion effeithiol mewn cymunedau. Gyda buddsoddiad o £9.27m yn y dref, mae'n synhwyrol fod Y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ar sut y gall plant yr ysgolion gwledig elwa o'r buddsoddiad yn y dref. Yn ogystal, yn ystod trafodaethau efo Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r buddsoddiad yn y dalgylch, daeth hi'n eglur na fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon cyfrannu heb fod yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgolion gwledig hefyd yn cael budd ac yn medru manteisio ar y buddsoddiad.<br><br>Un ffordd o gryfhau'r ddarpariaeth wledig a sicrhau fod y disgyblion gwledig yn cael budd o'r Campws Gydol Oes yw drwy ffedreiddio'r ysgolion gwledig a sefydlu cydbwyllgor rhyngddynt a'r Campws yn y dref.<br><br>Nid yn unig gall ffedereiddio'r ysgolion gwledig gryfhau'r berthynas strategol rhwng yr ysgolion gwledig a'r Campws Gydol Oes, mae yna resymau dilys eraill dros ffedereiddio ac mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Sicrhau hyfywedd yr ysgolion a'r cymunedau gwledig yn y dalgylch<br>• Cryfhau a sicrhau cysondeb yn y cydweithio sy'n digwydd ar hyn o bryd<br>• Cyfleoedd ehangach i'r disgyblion a staff<br>• Cynnal a gwella safonau dysgu a chyrhaeddiad<br>• Ymgodymu gyda'r agenda toriadau drwy rannu adnoddau ar draws y ffederasiwn<br>• Newid dalgylchol – galluogi'r ysgolion gwledig i gael budd o'r Campws Gydol Oes<br>• Sicrhau fod y gyfundrefn addysg o fewn y dalgylch o fewn fframwaith cydweithio cadarn i sicrhau'r cyfleoedd i holl ddisgyblion y dalgylch<br><br>Byddai ffederasiwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu hunaniaeth a chymeriad yr ysgolion gwledig, ond eto'n gosod seilwaith cadarn ar gyfer gweithio'n strategol gyda'i gilydd a chynnig cyfle i fanteisio ar adnoddau'r Campws Gydol Oes drwy gyfrwng y Cydbwyllgor:<br>• Un corff llywodraethol dros y tair ysgol<br>• Dyraniad ariannol pob ysgol yn aros yr un fath<br>• Enw a statws pob ysgol yn parhau<br>• Mater i'r corff llywodraethol fyddai newid unrhyw drefniadau i'r ysgol<br>• Arolwg Estyn i bob ysgol<br>• Nid cau na chyfuno ysgolion, tair ysgol yn parhau ond fel rhan o ffederasiwn |
| 15.6 | Mae gennyf amheuon am y bwriad o gael un Pennaeth ar y TAIR ysgol gynradd wledig. Mae'r Penaethiaid presennol yn effeithiol ac yn llwyddo i gynnal safonau da a rhagorol - felly pam newid rhywbeth sy'n llwyddo? | 1 | Fel rhan o weledigaeth tymor hir y Cyngor, mae bwriad i ffedereiddio ysgolion gwledig y dalgylch. Rhaid bydd cynnal proses ymgynghori cyn penderfynu i fwrw ymlaen efo'r ffederasiwn ai peidio. Pe sefydlir ffederasiwn yn y dalgylch gwledig, bydd dyraniad ariannol yr ysgolion yn parhau'r un fath. Mater i gorff llywodraethol y ffederasiwn fydd penderfynu ar y strwythur staffio. Gall hyn olygu un pennaeth dros y tair ysgol, neu dri phennaeth i'r tair ysgol. |
| 15.7 | Gyda syndod y sylweddolodd y Corff bod y Ddogfen Ymgynghorol wedi mabwysiadu'r egwyddor o ffedereiddio ysgolion er bod y ddogfen yn honni mai dim ond ag ysgolion yn Y Bala y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud. Mae'r Corff yn gwrthwynebu'r egwyddor yma'n gryf pan fo dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i gyfiawnhau'r bwriad, a dim ymgynghori wedi bod ar y mater hyd yma. Mae'r Corff Llywodraethol | 1 | Gweledigaeth hir dymor y Cyngor yw ffedereiddio'r ysgolion gwledig.<br><br>Bydd bwriad Cyngor Gwynedd i sefydlu ffederasiwn rhwng y tair ysgol wledig yn y dalgylch, (Ysgol OM Edwards, Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn), **yn destun ymgynghoriad ar wahân**, a bydd partïon â diddordeb yn gallu rhoi eu safbwyntiau ar hyn fel rhan o **broses ar wahân** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn gwrthwynebu'r egwyddor o greu Cydbwyllgor Dalgylchol gan nad yw rôl na chyfrifoldebau'r Corff yma wedi eu diffinio a phryderir bod posibilrwydd y gall y fath gorff wanhau cysylltiad yr ysgol a'i chymuned. Yn ychwanegol nid oes cyfiawnhad wedi ei gyflwyno am yr angen am gydbwyllgor. Roedd y Corff yn amheus a fyddai unrhyw arbediad ariannol wrth greu Corff o'r fath. | | Ni fydd y Cyd-bwyllgor yn dod i weithrediad hyd nes y bydd yr ysgolion gwledig wedi eu ffedereiddio. Bydd cyfle i roi mewnbwn a thrafod rôl a chyfrifoldebau'r Cydbwyllgor dalgylchol wedi i'r ffederasiwn gwledig gael ei sefydlu.<br><br>Mae trafodaethau cychwynnol wedi bod am rôl, pwrpas a chyfiawnhad y Cydbwyllgor, sef er mwyn sicrhau fod yr ysgolion gwledig yn cael budd o'r buddsoddiad yn y Campws 3-19.<br><br>Nid oes unrhyw reswm pam fyddai sefydlu Cydbwyllgor yn gwanhau cysylltiad ysgolion gwledig y dalgylch â'u cymuned. Gosod perthynas yr ysgolion gwledig â'r Campws ar lefel strategol yw bwriad y Cydbwyllgor.<br><br>Nid pwrpas sefydlu'r Cydbwyllgor yw sicrhau arbedion ariannol. |

# Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc Dalgylch Y Berwyn 2015

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori statudol yn Nalgylch y Berwyn rhwng 13 Mawrth a 28 Ebrill 2015 ar y cynnig i sefydlu Campws Dysgu 3-19 oed ar safle presennol ysgol Y Berwyn. Mae bwriad hefyd i greu Ffederaiswn rhwng ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn ac i sefydlu Cyd-Bwyllgor rhwng y Ffederasiwn a'r Campws Dysgu. Byddai hyn yn destun ymgynghoriad ar wahân maes o law. Mae'n ofynnol fod y Cyngor yn ymgynghori gyda plant a phobl ifanc yr ardal yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ogystal

Paratowyd dogfennau priodol ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 yn y Cynradd ac aelodau'r Cyngor Ysgol yn yr Uwchradd a trefnwyd bod hwylusydd yn mynychu pob ysgol i drafod y cynnig gyda'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn oedd yn cael ei gynnig ac er mwyn rhoi cyfle i'r plant ddatgan barn am y cynnig. .

Roedd pob sesiwn yn cymryd hanner awr i awr i'w gwblhau. Roedd yn cynnwys esbonio'r cynnig a chwblhau holiadur. .


Roedd 6 ysgol yn gysylltiedig a 223 o blant a phobl ifanc wedi cymryd rhan

Gweler isod amserlen y sesiynau ymgynghori, rhestr yr ysgolion perthnasol a nifer yr ymatebwyr:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dydd Mawrth**<br>**14 Ebrill 2015** | **9.30am**<br>**Ysgol Beuno Sant** | **11.00am**<br>**Ysgol Bro Tryweryn** | **12.45pm**<br>**Ysgol y Berwyn** | **2.15pm**<br>**Ysgol Bro Tegid** |
| **Dydd Mercher**<br>**15 Ebrill 2015** | **9.30am**<br>**Ysgol Ffridd y Llyn** | **11.00am**<br>**Ysgol OM Edwards** | | |

**Ysgolion:**

1. Ysgol Bro Tryweryn - 27
2. Ysgol Ffridd y Llyn - 34
3. Ysgol OM Edwards - 43
4. Ysgol Bro Tegid - 28
5. Ysgol Beuno Sant - 32
6. Ysgol Uwchradd Y Berwyn - 59



**Gweler isod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y disgyblion**

*NODER - Mae sylwadau'r plant a'r bobl ifanc wedi eu dyfynnu'n uniongyrchol o'u hymatebion.*

| **Cwestiwn 1 – Sut yr ydych yn teimlo am hyn?** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol** |  **Hapus** |  **Anhapus** |  **Ddim yn sicr** |
| **Ysgol Beuno Sant** | **26** | **6** | **0** |
| **Ysgol Bro Tegid** | **8** | **11** | **9** |
| **Ysgol OM Edwards** | **25** | **14** | **4** |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | **18** | **11** | **5** |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | **15** | **12** | **0** |
| **Ysgol Uwchradd y Berwyn** | **18** | **36** | **5** |
| **Cyfanswm** | **84** | **84** | **23** |

| **Cwestiwn 1 – Sylawdau** | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Rwan (14 Ebrill) mae yna rivalry rhwng ysgol Beuno Sant a ysgol Bro Tegid, ond pan mae'r campws newydd yn dod gyda'i gilydd fydd y rivalry yn stopio<br>• Gwisg ysgol newydd a ffrindiau newydd<br>• Dwi ddim eisiau mynd i Ysgol Berwyn<br>• Gwersi Cerddoriaeth |
| **Ysgol Bro Tegid** | • I blentyn bach ym mlwyddyn derbyn ac iau fydd yn sioc fawr pan fyddyn yn cychwyn gyda holl blant yno a fydd yr ysgol yn anferthol<br>• Gormod o blant yn y dosbarthiadau<br>• Rydw i'n teimlo bach sionedig fod hyn yn digwydd |
| **Ysgol OM Edwards** | • Dydy hyn ddim yn fy mhoeni o gwbwl<br>• Mae'n gret cael ysgol newydd<br>• Efallai bydd y plant mawr yn siarad i'r plant bach a dweud pethau drwg |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Mae 3 – 19 yn amser hir ac mae plant eisiau symud i ysgol newydd i wneud ffrindiau newydd<br>• Rydw i'n meddwl ei fod yn syniad da<br>• Rhy fawr i ffeindio lle ti isio mynd |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Gormod o blant<br>• Ysgolion yn cau?<br>• Mae'n mynd i gymryud dipyn o amser i adeiladu<br>• Rydw i yn teimlo yn hapus hefo hyn oherwydd mi fydda i yno yn barod |

| Cwestiwn 2 - Beth sydd yn eich poeni am hyn? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Lot o pobl hyn yn gneud i ni deimlo yn ofnus<br>• Dim, oherwydd mae hwn yn syniad da<br>• Bwlio<br>• Mynd ar goll<br>• Fydd pob athrawes ddim yn cael gwaith yn yr ysgol |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Yes, I might not see my friends again in schoolFydd ddim cystadlaethau chwaraeon ar gael oherwydd fydd ddim llawer o dimau yn gallu cystadlu.<br>• Colli athrawon, gormod o blant yn y dosbarthiadau<br>• Bydd ysgol Bro Tegid yn cau ac mae wedi bod yn sefyll ers tua 100 o flynyddoedd<br>• Tydw i ddim yn hoffi y syniad bod yr ysgol tan 19 oed.<br>• Bwlio a colli ffrindiau<br>• This build could affect our education and would be hard to focus. There will be too much at the school. More groupd, more arguments, could lead to fights. |
| **Ysgol OM Edwards** | • Dydy hyn ddim yn fy mhoeni<br>• Syniad da oherwydd mae'r ysgol yn hen<br>• Dim byd yn fy mhoeni |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Dim ond bydd yr ysgol yn fawr iawn ac wedyn rhoi'r plant mawr gyda plant bach<br>• Mynd ar goll<br>• Rydw i'n meddwl fydd llawer o blant yn ffraeo<br>• Llai o Gymraeg<br>• Rhag ofn i'r iaith fynd yn waeth<br>• Beth os ydy rhieni yn poeni fod eu plant mewn ysgol hefo plant mwy |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Rydw i ddim yn hapus iawn oherwydd bod angen cau ysgolion ac yna bydd hefyd yn effeithio gyfa ffrindiau y plant.<br>• Mi fydd gormod o blant yn yr ysgol<br>• Rydw i'n meddwl y bydd hyn yn effeithio ar yr ysgolion bach |

| Cwestiwn 3 – Beth yw'r pethau pwysicaf i chi mewn ysgol? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Dim Bwlio, pawb yn cael hwyl<br>• Gwaith a siarad Cymraeg<br>• Bod y ni yn cael gwersi sydd yn lefel ni. Cael ffrindiau sydd yn cydweithio gyda'i gilydd. Neb yn cael eu bwlio oherwydd mae ei personoliaeth yn wahanol i bawb arall |
| **Ysgol Ysgol Bro Tegid** | • Arthro/athrawes ychydig bach yn strict a chydig o joc i gael weithiau ac i helpu ni gael addysg dda<br>• Ffrindiau ag addysg dda<br>• Chwaraeon i gael pawb i chwarae a dysgu hefo'i gilydd a cadw'n iach. Mathemateg hefyd oherwydd i gael wydd pryd da chi'n hyn fel dwi am fod yn ffarmwr |
| **Ysgol OM Edwards** | • Y peth pwysicaf i fi mewn ysgol yw cael gwersi sports a cael addysg a ffrindiau<br>• Bod ni angen canteen newydd yn yr ysgol<br>• Ystafelloedd addas<br>• Rheolau teg |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Addysg dda ac athrawon clen<br>• Ffrindiau<br>• Gwrando a dim paffio |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Ffrindiau a dysgu, gwaith a gwrando<br>• Bod pawb yn cael yn union ry'n faint o sylw<br>• Bod ganddom ffrindiau ac ein bod yn sairad Cymraeg a Saesneg.<br>• Rydym yn lwcus ein bod yn lwcus i gael dysgu gwahanol bynciau |

| Cwestiwn 4 – Beth ydych chi'n edrych ymlaen ato gyda'r newid yma? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Gwersi newydd, timau ymarfer corff<br>• Ymarfer corff anoddach a gwell<br>• Dim ffraeo yn mynd ymlaen gyda'r ysgolion<br>• Maybe things will be more modern |
| **Ysgol Ysgol Bro Tegid** | • Gweld sut fydd pethau yn mynd yn ei flaen a edrych faint o bres rydym wedi eu wario a sut fase hynny yn wahahnol gyda ysgol fwy.<br>• Mwy o chwaraeon |
| **Ysgol OM Edwards** | • Gwneud mwy o ymarfer corff a cael lle braf i fwyta<br>• Enw newydd i'r ysgol<br>• Ysgol mwy modern |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Yr ysgol yn cael trio pethau newydd<br>• Dwi ddim yn mynd i'r campsu dysgu |
| **Ysgol Bro Trywweryn** | • Gweld ffrindiau<br>• Bod ysgolion yn gweithio yn agosach at ei gilydd ac ein bod yn cael ffrindiau newydd |

| Cwestiwn 5 – Pa syniadau sydd gennych ar gyfer y Campws Dysgu Newydd? | |
|---|---|
| **Ysgol Beuno Sant** | • Dysgu pethau newydd<br>• Cymysgu lliwiau y gwisgau ysgol, dewis cinio, cael gwallt ni i lawr<br>• Gwersi Ffrangeg<br>• Gwersi sydd yn siwtio pawb. Bod yr ysgol yn gadael i ni siarad Cymraeg a Saesneg ? |
| **Ysgol Bro Tegid** | • Cael ffyrdd gwahanol i fynd adref a pob dosbarth i fynd amser gwahanol falle?<br>• Cale parc chwarae hwylus, clybiau hwyl ar ol ysgol, pynciau gwahanol, dewis gwahanol amser cinio<br>• Pob 2 wythnos cael dau ddiwrnod i ffermio. Buse plant o oed 15/19 yn gallu dysgu sut i weithio yn iawn. Mae ne lot o ffermwyr rownd Bala.<br>• Gliniadur yr un i bawb mewn dosbarth. Dewis mwy na un pryd bwyd amser cinio. |
| **Ysgol OM Edwards** | • Technoleg newydd<br>• Ei wneud yn fwy modern<br>• Chwaraeon<br>• Chwaraeon a canu |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Addysg a chwaraeon<br>• Y sinema newydd<br>• Rydw i yn gobeithio cael dysgu mwy (pa athrawon fydd yno?)<br>• Dysgu mwy a mwy o Gymraeg<br>• Gwneud yn siwrbod o leiaf 2 buarth chwarae, cinio adegau gwahanol a gwneud yn siwr bod cynradd ac uwchradd ddim yn cyfarfod yn aml i stopio bwlio a gwneus hwyl am ben plant llai |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Mi rydw i eisiau dysgu celf, gwnio, gwehyddu gweu<br>• Cael gwersi gwyddoniaeth yn y labordy yn ysgol Berwyn<br>• Cael gweld athrawon cyn mynd yno<br>• Bod pawbyn cael ry’n gwersi mewn diwrnod ond ar amser gwahanol |

| **Cwestiwn ychwanegol ar gyfer Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol Bro Tryweryn a Ysgol OM Edwards:**<br><br>**Sut hoffech chi weld Ffederasiwn Ysgol Bro Tryweryn, Ffridd y Llyn ac OM Edwards yn cydweithio?** | |
|---|---|
| **Ysgol OM Edwards** | • Cael mynd ar mwy o dripiau hefo'n gilydd ac cael cystadleuaeth pel droed<br>• Mynd i weld llefydd a gweld y gymdeithas a cael pobl i fewn i siarad<br>• Cael piano newydd<br>• Ystafell chwarae ar gyfer amser chwarae gwlyb, ystafell dawel i wneud gwaith cartref<br>• Ystafell celf a gwyddoniaeth |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | • Cydweithio yn dda<br>• Chwaraeon<br>• Gwneud gwaith datrys problemau |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | • Dod i adnabod y plant ac athrawon<br>• Mwy o wersi hefo'r plant yma<br>• Rydw i'n meddwl ein bod yn mynd llawer i ysgol Bro Tegid yn barod<br>• Dod i adnabod plant ac athrawon<br>• Dysgu ieithoedd cyn mynd i blwyddyn 7 |

| **Ysgol Uwchradd y Berwyn**<br><br>Roedd yr hwylusydd yn cael sgwrs fer gyda aelodau'r Cyngor Ysgol i esbonio'r cynnig ac yna roedd yr unigolion yn cwblhau'r holiadur eu hunain. 16 aelod o'r Cyngor Ysgol a gwblhaodd yr holiadur a 43 o ddigyblion ychwanegol yn eu dosbarthiadau cofrestru | |
|---|---|
| **Cwestiwn 1 –Sut yr ydych chi'n teimlo am yr hyn sy'n cael cynnig?** | • Mwy o offer i ddysgu<br>• Dwi'n gweld hwn yn syniad da iawn, gwell addysg.<br>• Mae'r ysgol angen gwella<br>• Dwi yn ei weld yn syniad drwg oherwyddd mae plant 3 oed yn mynd i fod yn yr un ysgol, dydy o ddim yn gwneud synnwyr o gwbwl<br>• Ansicr, dwi ddim yn meddwl bod ysgol newydd yn mynd i wella safon addysg disgyblion<br>• Oherwydd bod yr ysgol newydd wedi ei fod i'w wneud erbyn rwan, ond does dim byd wedi newid |
| **Cwestiwn 2 – Beth yr ydych yn ei hoffi neu edrych ymlaen ato gyda'r** | • I weld yr adran chwaraeon yn gwella<br>• Fydd yr ysgol yn edrych yn well<br>• Cale ysgol fwy modern, gyda adnoddau newydd. Fyddai'r ysgol yn adlewyrchu safon |

| | |
|---|---|
| **cynnig hwn?** | addysg plant yn Ysgol Berwyn. Byddai yn edrych yn dda hefyd<br>• Rwy'n edrych ymlaen i weld yr holl adnoddau newydd<br>• Plant mwy hyderus i ddod i'r ysgol uwchradd<br>• Gwella adnoddau TGCH<br>• Gwersi gyda mwy o offer |
| **Cwestiwn 3 - Oes unrhyw beth yn eich poeni am y cynnig?** | • Dwin poeni na fydd digon o le<br>• Rhoi plant bach a mawr hefo'i gilydd<br>• Dwin meddwl ei fod yn mynd i fod yn anodd i blant 3 oed ddod i ysgol mor fawr<br>• Mi fydd llai o le amser egwyl ac amser cinio |
| **Cwestiwn 4 – Gan ystyried y pethau sy'n bwysig i chi mewn ysgol – Pa fath o bethau hoffech chi weld yn y Campws Dysgu Newydd?** | • Mwy o gyfrifiaduron a offer chwaraeon<br>• Mwy o athrawon a mwy o adnoddau newydd<br>• Mwy o adnoddau<br>• Ystafelloedd newydd<br>• Adnoddau gwell<br>• Yn y campws dysgu newydd byddwn yn hoffi gweld ysgol mwy a cael mwy o athrawon i gael gwersi |
| **Cwestiwn 5 – Mae datblygu Campws Dysgu yn gynnig arloesol i ddalgylch Y Berwyn. Pa syniadau sydd gennych ar gyfer y Campws Dysgu Newydd?** | • Mwy o lefydd Chwaraeon<br>• Mwy o ystafelloedd<br>• Pynciau mwy pwysig fel Maths a Cymraeg<br>• Mwy o naws traddodiadol, e.e. cadw'r edrychiad hen hefo briciau coch<br>• Angen cadw hanes a naws traddodiadol yr ysgol<br>• Loceri newydd, paent newydd ar y waliau, llenwi tyllau yn y waliau |

Beth ddaeth yn amlwg o'r broses ymgynhori oedd fod plant yn fodlon addasu i sefyllfa newydd er eu bod yn poeni am fwlio, colli ffrindiau ac athrawon, ond yn gyffredinol roedd yr adborth yn bositif yn rhan fwyaf o'r ysgolion.

<u>Prif bwyntiau'r ymgynghori:</u>

| Cynradd | Uwchradd |
|---|---|
| Mwy o gyfleoedd i ddysgu pynciau newydd | Dim digon o le i bawb |
| Plant yn poeni am fwlio | Adnodddau gwell |
| Eisiau cadw elfen hanesyddol yr ysgolion a'r ardal | Chwaraeon yn bwysig |
| Plant ddim eisiau colli ffrindiau | Cadw elfen hanesyddol yr ysgol |
| Cael dewis cinio | Iaith |


# Gwerthusiad Opsiynau Rhestr Hir o Fodelau Dalgylch Y Berwyn

| Ystyriaethau | Gofynion Strategaeth “Addysg o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” |
|---|---|
| **Amgylchedd Ddysgu** | Ein disgwyliadau yw bod yr amgylchedd dysgu i blant ac athrawon y Sir - fel cyflwr yr ysgol, y dosbarth, ystafell athrawon, y ddarpariaeth chwarae- yn bodloni gofynion addysgu a dysgu yn y $21^{ain}$ Ganrif |
| **Niferoedd Disgyblion** | Ein disgwyliadau yw bod angen adlewyrchu tueddiadau o ran poblogaeth a niferoedd disgyblion cynradd wrth gynllunio ar gyfer dyfodol addysg mewn dalgylchoedd gwahanol |
| **Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran** | Ein disgwyliadau yw y bydd dosbarthiadau o'r maint addas yn ysgolion cynradd Gwynedd fel bod y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl yn cael eu cynnig i blant y Sir |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | Ein disgwyliadau yw bod penaethiaid yn cael tegwch i fedru arwain a rheoli yn broffesiynol yn eu hysgolion |
| **Cymuned** | Ein disgwyliadau yw bod Ysgolion Cynradd y sir yn ganolbwynt i weithgareddau cymunedol, gan gyfoethogi profiadau a chyfleoedd i'r disgyblion |
| **Iaith** | Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni |
| **Adnoddau Ariannol** | Ein disgwyliadau yw bod Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg gynradd y sir |
| **Ffactorau Daearyddol** | Ein disgwyliad yw bod gan bob plentyn yr hawl i gael mynediad at addysg safonol o fewn pellter rhesymol i'r cartref |
| **Categori Ysgol (hystyried ychwanegol i’r strategaeth)** | Mae'n ofynnol i roi categori cyfreithiol penodol i bob ysgol a gynhelir fel y diffinnir gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. |



**Nodyn Esboniadol**

Mae unrhyw gyfeiriad tuag at sefydlu Campws Dysgu, yn cynnwys **Cau** Ysgolion y Berwyn, Beuno Sant a Bro Tegid a sefydlu **Ysgol 3-19 Newydd** ar safle presennol y Berwyn - **oni bai** am **model 4** sy’n cynnwys cau ysgolion Y Berwyn, a Bro Tegid a sefydlu Ysgol 3-19 Newydd ar safle presennol y Berwyn.



O fewn y tablau yma mae'r *ysgrifen italic yn dangos manteision*, **ysgrifen bold yn dangos anfanteision** a'r ysgrifen du yn dangos ffeithiau neu sylwadau

| Ystyriaethau | **Model 1**<br>**GWNEUD DIM** | **Model 2**<br>**CAMPWS DYSGU**<br>**CYDBWYLLGOR DALGYLCHOL GYDA'R 3 YSGOL WLEDIG** | **Model 3**<br>**CAMPWS DYSGU**<br>**FFEDEREIDDIO'R 3 YSGOL WLEDIG**<br>**CYDBWYLLGOR DALGYLCHOL** | **Model 4**<br>**CAMPWS DYSGU**<br>**YMDDIRIEDOLAETH GYDWEITHIO (LCT) RHWNG BEUNO SANT A'R CAMPWS** |
|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Ddysgu** | **Dim newid i'r amgylchedd ddysgu.**<br>*Sefydlogrwydd a sicrwydd.*<br>**Safleoedd ac amgylchedd ddysgu'n parhau fel ag y maent. Dim mantais o gyllideb Rhaglen 21G i wella'r amgylchedd ddysgu y dref.**<br>**Dim cyfle i blant o'r ysgolion gwledig i gymryd mantais o adnoddau newydd yn y campws.**<br>**Holl diffygion addasrwydd ysgolion y dalgylch yn parhau** | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle.*<br>*Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala.*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Trwy sefydlu cydbwyllgor dalgylchol bydd yn bosibl gwneud trefniadau i blant yr holl dalgylch cael mynediad i fudd y campws gydol oes*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu.*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif.**<br>**Ni fyddai sicrwydd o gydweithrediad ymysg y staff yn yr ysgolion gwahanol. Ni fyddai unrhyw ffordd i warantu fod yr un cyfleoedd ar gael i blant cynradd y campws a disgyblion cynradd yr ysgolion wledig. O ganlyniad, ni fydd unrhyw fecanwaith ffurfiol i sicrhau fod arbenigedd ac adnoddau yn cael eu rhannu.** | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala.*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Trwy sefydlu cydbwyllgor dalgylchol bydd yn bosibl gwneud trefniadau i blant yr holl ddalgylch cael mynediad i fudd y campws gydol oes*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu.*<br>*Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.*<br>*Defnyddio arbenigedd staff ym mhob ysgol yn y Ffederasiwn, ac ar draws sectorau yn y campws yn y dref yn arwain at well parhad a chysondeb yn addysg y plant*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain ganrif.**<br>Bydd cyfundrefn ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch | **Ni fyddai'n debygol y byddai unrhyw fuddsoddiad cyfalaf o gyllideb Rhaglen 21G i wella'r amgylchedd ddysgu yn y dref**<br>**Safleoedd ac amgylchedd ddysgu'n parhau fel ag y maent.**<br>**Dim cyfle i blant o'r ysgolion gwledig i gymryd mantais o adnoddau newydd yn y campws.**<br>**Holl diffygion addasrwydd ysgolion y dalgylch yn parhau** |

Tud. 76

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Niferoedd Disgyblion a Llefydd Gweigion | **Dim cyfraniad at leihau llefydd gweigion fel y disgwylia Llywodraeth Cymru ac Estyn.**<br>**Y dalgylch yn parhau gyda thua 470 o lefydd gweigion - ddim yn bell o 50%.**<br>**Dros 50% o lefydd gweigion yn parhau yn yr Uwchradd.**<br>**42% o lefydd gweigion yn Ysgol Beuno Sant yn parhau.** | *Lleihad yn nifer y llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch.*<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.** | *Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch.*<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.** | **Dim cyfraniad at leihau llefydd gweigion fel y disgwylia Llywodraeth Cymru ac Estyn.**<br>**Y dalgylch yn parhau gyda thua 470 o lefydd gweigion - ddim yn bell o 50%.**<br>**42% o lefydd gweigion yn Ysgol Beuno Sant yn parhau.** |
| Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran | **Dosbarthiadau yn parhau gydag amrediad oedran eang.**<br>**Maint dosbarthiadau yn amrywio rhwng 11 a 27 o ran niferoedd yn y cynradd.** | *Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala.*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.** | *Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala.*<br>*Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i gyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau faint mwy addas.*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.** | **Dosbarthiadau yn parhau gydag amrediad oedran eang.**<br>**Maint dosbarthiadau yn amrywio rhwng 11 a 27 o ran niferoedd yn y cynradd.** |
| Arweinyddiaeth a Staffio | *Dim diswyddiadau staff.*<br>*Un corff llywodraethol i bob ysgol. Hyn yn cadw'r cysylltiad cryf gyda'r cymunedau lleol.*<br>**Bydd angen parhau i gyflogi'r un nifer o staff a phenaethiaid yn y dalgylch. Dim arbedion refeniw.**<br>**Her o recriwtio penaethiaid yn parhau**<br>**Penaethiaid yn treulio llawer o amser yn dysgu yn hytrach nag yn rheoli.** | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, ar draws ystod oedran 3-19.*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm.*<br>*Un corff llywodraethol yn nhref Y Bala, pan oedd 3 yn flaenorol.*<br>**Bydd angen Pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19.**<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu.**<br>**Y manteision uchod ddim yn berthnasol i'r ysgolion gwledig.**<br>**Y pellteroedd teithio rhwng y 3** | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Mwy o gyfleoedd i rannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch).*<br>*Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol.*<br>*Cyfle i sefydlu rolau newydd y gellir eu rhannu rhwng ysgolion (swyddi gweinyddu, byrsar)*<br>*2 gorff llywodraethol yn hytrach na 6.*<br>*Gwell defnydd o staff ac adnoddau rhwng y 3 ysgol wledig, a rhwng y ffederasiwn a'r campws*<br>*Cysondeb yn y polisïau gyda dim ond un polisi sengl yn y dref, ac un ar gyfer yr ysgolion gwledig*<br>Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y | *Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, ond i raddau llai*<br>*Bydd rhaid cael eglurdeb ar y mater, ond rhagwelir byddai 1 corff llywodraethol yn nhref Y Bala pan oedd 3 yn flaenorol.*<br>*Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol yn dibynnu ar yr union strwythur rheolaethol*<br>**Model all fod yn heriol yn rheolaethol oherwydd statws Eglwysig Beuno Sant a statws cymunedol Ysgol Y Berwyn.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ysgol a'r campws gydol oes yn amharu ar y cydweithio.**<br>**Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Parhad i'r angen o sicrhau fod 4 pennaeth yn yr dalgylch.** | ffederasiwn yn ddibynnol ar benderfyniad y corff llywodraethu<br>**Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19.**<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu.**<br>**Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Her o arwain dros safleoedd gwahanol yn yr ysgolion gwledig.**<br>**Y pellteroedd teithio rhwng y 3 ysgol ffederasiwn a'r campws dysgu yn amharu ar ar y gallu i gydweithio.** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cymuned** | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch Y Berwyn yn cael eu gwarchod.*<br>**Dim buddsoddiad cyfalaf ar gyfer adnoddau a fyddai'n cael ei rannu gan y cyhoedd** | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch Y Berwyn yn cael eu gwarchod.*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>*Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor* | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod.*<br>*Cyfleoedd i ehangu profiadau cymdeithasol i blant*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>*Gyda thrafodaeth bellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor* | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod.*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>**Colli cyfle i adleoli a ddatblygu nifer o gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.** |
| **Iaith** | Ni fydd unrhyw newid i'r sefyllfa ieithyddol presennol. | *Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog.*<br>*Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i* | *Cyfleoedd i gryfhau trwy gael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog.* | **Ni chynigir mwy o gyfleodd i blant Ysgol Beuno Sant i gymysgu a defnyddio'u Cymraeg gyda'u cyfoedion.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | *ddisgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.* | *Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.* | |
| **Adnoddau Ariannol** | **Dim arbedion refeniw.**<br>**Gwariant cyfalaf ychwanegol oherwydd parhau i gynnal a chadw'r un nifer o ysgolion.**<br>**Y Cyngor yn peidio â manteisio ar gyllid Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru.**<br>**Amrediad sylweddol yng nghost y disgybl yn parhau.**<br>**Cost cynnal a chadw 6 safle yn parhau.** | *Gwariant y disgybl yn rhan o'r dalgylch yn fwy cyfartal a darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Dim gwariant o ran talu costau teithio ychwanegol.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbediad refeniw.*<br>**Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth.**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.** | *Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw.*<br>*Cydweithio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol*<br>**Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth.**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.** | *Dim gwariant i dalu costau teithio ychwanegol.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbediad refeniw.*<br>**Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth.**<br>**Y Cyngor yn peidio â manteisio ar gyllid Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru.**<br>**Amrediad sylweddol yng nghost y disgybl yn parhau.**<br>**Cost cynnal a chadw 6 safle yn parhau.** |
| **Ffactorau Daearyddol** | *Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.* | *Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.* | *Pellteroedd teithio y plant yn aros yr un fath.*<br>**Pellter teithio ychwanegol i'r uwch rheolwyr a staff rhwng safleoedd ysgolion y ffederasiwn (yn ddibynnol ar y strwythur staffio)** | *Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.* |
| **Categori Ysgol** | *Parhau gyda'r dewis i rieni o ddarpariaeth addysg gynradd gymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru* | Byddai'r model yn galluogi parhad darpariaeth addysg gynradd gymunedol yn ogystal ag yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar y categori a ddewisir ar gyfer yr Ysgol 3-19 Newydd. | *Mae'r model yn galluogi parhad o ddewis i rieni o ddarpariaeth addysg cynradd cymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar ganlyniad asesiadau* | *Parhau gyda'r dewis i rhieni o ddarpariaeth addysg cynradd cymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru* |
| **Sylwadau ychwanegol** | Y gymuned leol ac ehangach yn anhapus fod addewid am Gampws Dysgu yn Y Bala yn 2011.<br>Colli cyfle i sefydlu darpariaeth addysg cryf hir dymor yn yr ardal.<br>Nid yw'n debygol bydd cyfle tebyg i ddenu arian cyfalaf sylweddol yn digwydd yn y dyfodol<br>Dim newid yng nghategori cyfreithiol unrhyw ysgol. | Bydd yn anoddach i wireddu buddion posibl y model (enwedig rhannu arbenigedd athrawon) oherwydd y diffyg trefniant ffurfiol rhwng ysgol. | Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion | Model cymhleth. Angen edrych yn fanylach ar oblygiadau ymddiriedolaeth gydweithio, ac os yw'n bosibl yng Nghymru. |

| Ystyriaethau | **Model 5**<br>**CAMPWS DYSGU DDALGYLCHOL AR GYFER YR HOLL ARDAL** | **Model 6**<br>**CAMPWS DYSGU.**<br>**OM EDWARDS, BRO TRYWERYN, FFRIDD Y LLYN YN FFEDEREIDDIO GYDA'R CAMPWS GYDOL OES** | **Model 7**<br>**CAMPWS DYSGU**<br>**AC YSGOL ARDAL AML-SAFLE, CYDWEITHIO DALGYLCHOL** | **Model 8**<br>**CAMPWS DYSGU AC YSGOL ARDAL AML-SAFLE, FFEDEREIDDIO** |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 80<br>**Amgylchedd Ddysgu** | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle.*<br>*Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala. Gan mai 1 ysgol dalgylchol fydd y model yma, byddai'n haws sicrhau fod yr elfen yma o fudd i ddisgyblion y safleoedd gwledig yn ogystal.*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu.*<br>*Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd y campws gydol oes*<br>*Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio'n llawn ar amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif.** | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli 1 safle.*<br>*Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala.*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu*<br>*Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws yr ysgolion gwledig a'r campws yn y dref*<br>*Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion yr ardal yn gallu manteisio ar amgylchedd 21ain Ganrif.** | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala.*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu.*<br>*Trwy sefydlu cydbwyllgor dalgylchol bydd yn bosibl gwneud trefniadau i blant yr holl dalgylch cael mynediad i fudd y campws gydol oes*<br>*Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.*<br>*Defnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd yn yr ysgol aml-safle, ac ar draws sectorau yn y campws yn y dref yn arwain at well parhad a chysondeb yn addysg y plant*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain ganrif.**<br>Bydd cyfundrefn ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn y dalgylch | *Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala.*<br>*Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd yr ysgol aml-safle a'r campws yn y dref er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn addysg y plant*<br>*Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu.*<br>*Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol*<br>*Cyfundrefn ffurfiol gadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn y dalgylch*<br>**Ni fydd holl ddisgyblion yr ardal yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif well.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Disgyblion** | *Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch*<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.**<br>**Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd cynradd** | *Lleihau nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch*<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.** | *Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch.*<br>**Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd wledig**<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.** | *Lleihau nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala.*<br>*Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch*<br>**Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.**<br>**Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd gwledig** |
| **Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran** | *Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala.*<br>*Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.** | *Dosbarthiadau maint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala ac yn yr oedran uwchradd.*<br>*Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i gyfoedion mewn dosbarthiadau mwy - plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.** | *Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala.*<br>*Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i gyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau faint mwy addas.*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.** | *Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala ac yn yr oedran uwchradd.*<br>*Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas*<br>**Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.** |
| **Arweinyddiaeth a Staffio** | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, a hyn yn wir ar draws yr holl ddalgylch.*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm, a hyn yn wir ar draws yr holl ddalgylch.*<br>*1 corff llywodraethol yn hytrach na 6.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu.*<br>*Cyfleoedd i gael arweinyddion pynciau craidd unigol ar gyfer yr ysgol cyfan*<br>*Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch* | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleoedd i staff rannu arbenigedd a phrofiad ar draws ystod oedran 3-19.*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm*<br>*1 corff llywodraethol yn hytrach na 6*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu.*<br>*Cyfundrefn ffurfiol gadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn y dalgylch*<br>*Gwell defnydd o staff ac adnoddau* | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch).*<br>*Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol*<br>*2 bennaeth – un ar gyfer y campws, un ar gyfer yr ysgol aml-safle*<br>*2 gorff llywodraethol yn hytrach na 6.*<br>*Gwell defnydd o staff ac adnoddau yn yr ysgol aml-safle newydd, a rhwng yr ysgol aml-safle a'r campws*<br>**Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, a phennaeth sydd yn medru arwain ysgol ardal aml-safle.**<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y** | *Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol.*<br>*Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch).*<br>*2 corff llywodraethol yn hytrach na 6.*<br>*Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu.*<br>*Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch*<br>*Gwell defnydd o staff ac adnoddau rhwng y rhwng y ddwy ysgol.*<br>*Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol*<br>*Mwy o gyfleoedd i rhannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd*<br>*Cyfle i gynyddu cysondeb polisïau yn y* |

Tud. 81

Tud. 82

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Gan mai 1 ysgol fydd, bydd mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau arweinyddiaeth a staffio.*<br>*Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol*<br>*Polisïau sengl ar gyfer y dalgylch cyfan*<br>**Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, ac ysgol ddalgylchol.**<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu.**<br>**Baich gwaith y Llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Y pellteroedd teithio rhwng yr holl safleoedd, a nifer y safleoedd yn amharu ar allu Pennaeth i reoli'n effeithiol.** | *rhwng y 3 ysgol gwledig a'r campws.*<br>*Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol*<br>*Mwy o gyfleoedd i rhannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd*<br>*Cyfle i gynyddu cysondeb polisïau yn y dalgylch*<br>**Bydd angen Pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19.**<br>**Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y ffederasiwn yn ddibynnol ar benderfyniad y corff llywodraethu**<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu.**<br>**Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Pellteroedd teithio rhwng y 3 safle gwledig yn rwystr i ffedereiddio llwyddiannus.**<br>**Her o arwain dros safleoedd gwahanol.** | **swyddi dysgu.**<br>**Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Y pellteroedd teithio rhwng y 3 safle yr ysgol ardal aml-safle a'r campws gydol oes yn amharu ar y cydweithio.**<br>**Her o arwain dros safleoedd gwahanol yn y safleoedd gwledig.** | *dalgylch*<br>**Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, a phennaeth sydd yn medru arwain ysgol ardal aml-safle ac ysgol ddalgylchol.**<br>Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y ffederasiwn yn ddibynnol ar penderfyniad y corff llywodraethu<br>**Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu.**<br>**Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr.**<br>**Y pellteroedd teithio rhwng yr ysgol ardal aml-safle a'r campws gydol oes yn medru effeithio ar lwyddiant ffedereiddio.**<br>**Her o arwain dros safleoedd gwahanol.** |
| **Cymuned** | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg.*<br>*Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>**Presenoldeb safle ymhob cymuned, ond dim hunaniaeth gymunedol i'r safleoedd. Byddai cau'r holl ysgolion yn cael effaith ar y cymunedau hynny.**<br>**Byddai angen cynllun lliniaru cynhwysfawr ar gyfer unrhyw effaith negyddol.**<br>**Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.**<br>**Posibilrwydd byddai llai o** | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>*Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>**Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.** | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod, ac er nad oes gan bob cymuned eu hysgol eu hunain, bydd yr hunaniaeth wledig yn cael ei chynnal.*<br>*Cyfleoedd i ehangu profiadau cymdeithasol i blant*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>*Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi* | *Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg.*<br>*Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod, ac er nad oes gan bob cymuned eu hysgol eu hunain, bydd yr hunaniaeth wledig yn cael ei chynnal.*<br>*Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned.*<br>*Gyda thrafodaeth bellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.*<br>**Posibilrwydd byddai llai o weithgareddau yn cael ei cynnal (e.e.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **weithgareddau yn cael ei cynnal (e.e. sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn** | | *darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor*<br>**Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.**<br>**Posibilrwydd byddai llai o weithgareddau yn cael eu cynnal (e.e. sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn** | **sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn**<br>**Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.** |
| **Iaith** | *Cyfleoedd i gryfhau trwy sefydlu un polisi ar draws y dalgylch*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog.*<br>*Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.*<br>Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn. | *Cyfleoedd i gryfhau trwy gael cysondeb ym mholisïau a rhannu arbenigedd*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog.*<br>*Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i ddisgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.* | *Cyfleoedd i gryfhau trwy cael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog.*<br>*Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i ddisgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.*<br>Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn. | *Cyfleoedd i gryfhau trwy cael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd*<br>*Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog.*<br>*Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i ddisgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.*<br>Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn. |
| **Adnoddau Ariannol** | *Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw.*<br>*Gwell defnydd o adnoddau ariannol gan mai 1 ysgol sydd.*<br>**Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth.**<br>**Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd.**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.** | *Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw.*<br>*Ffedereiddio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol.*<br>**Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth.**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.**<br>**Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd.** | *Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw.*<br><br>*Cydweithio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol*<br>**Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth.**<br>**Costau teithio ychwanegol i Bennaeth a staff rhwng safleoedd**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.** | *Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal a darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau.*<br>*Llai o gost cynnal a chadw adeiladau.*<br>*Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw.*<br>*Ffedereiddio yn arwain at well defnydd o adnoddau ariannol.*<br>**Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth.**<br>**Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd.**<br>**Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ffactorau Daearyddol** | *Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.* **Pellter teithio ychwanegol i bennaeth a staff rhwng yr holl safleoedd.** | *Pellteroedd teithio yn parhau'r un fath i'r disgyblion.* **Pellter teithio ychwanegol i'r benaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-saflea'r campws** | *Pellteroedd teithio y plant yn aros yr un fath.* **Pellter teithio ychwanegol i'r bennaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-safle** | *Pellteroedd teithio yn parhau'r un fath i'r disgyblion.* **Pellter teithio ychwanegol i'r benaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-saflea'r campws** |
| **Categori Ysgol** | **Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg gymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn y dalgylch** | **Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg cymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn yr dalgylch** | Byddai'r model yn galluogi parhad darpariaeth addysg gynradd gymunedol yn ogystal ag yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar y categori a ddewisir ar gyfer yr ysgolion a sefydlwyd. | **Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg cymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn yr dalgylch** |
| **Sylwadau Ychwanegol** | Y model yma yn cydbwyso dadleuon ariannol ail-drefnu a sicrhau natur wledig gymunedol yr ardal.<br>Model radical ac yn her i bennaeth fod yn gyfrifol am y sector gynradd ac uwchradd dros 4 safle gwahanol | Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion | Y model yma yn dibynnu ar reoli ysgol ardal aml-safle yn effeithiol a hefyd cydweithio rhyngddo a'r campws dysgu. Cydweithio yn ddibynnol ar nifer o ffactorau amwys a phersonoliaethau.<br>Hawdd fyddai cau un neu fwy o'r safleoedd yn y dyfodol, heb orfod cau ysgol. Gall hyn olygu y byddai'r trigolion lleol yn amheus o'r model hwn. | Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion |


Tud. 84

# Asesiadau Effaith
# Dalgylch Y Berwyn
# Mawrth/Ebrill 2015

| Trefn | Dogfen |
|---|---|
| 1 | Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol |
| 2 | Asesiad Ardrawiad Cymunedol |
| 3 | Asesiad Cydraddoldeb |
| 4 | Asesiad o Angen am wahanol Fathau o Ysgolion yn Nalgylch Y Berwyn, Bala |

# Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol

## Dalgylch Y Berwyn




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

# CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD
    1.1 Sefyllfa Gwynedd
    1.2 Polisi Iaith
    1.3 Cefndir Addysgol

2. PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH Y BERWYN
    2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd
    2.2 Wardiau
        2.2.1 Ward Bala
        2.2.2 Ward Llandderfel
        2.2.3 Ward Llanuwchllyn
    2.3 Ysgolion
        2.2.1 Ysgol Y Berwyn
        2.3.1 Ysgol Bro Tegid
        2.3.2 Ysgol Beuno Sant
        2.3.3 Ysgol Ffridd y Llyn
        2.3.4 Ysgol Bro Tryweryn
        2.3.5 Ysgol OM Edwards
    2.4 Lefelau Cyrhaeddiad
    2.5 Holiadur Ieithyddol Dalgylch Y Berwyn

3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG
    3.1 Effaith wrth sefydlu Campws Gydol Oes (CGO) yn Y Bala
    3.2 Rhestr Hir Modelau Posib

4. CASGLIAD

## 1. Cyflwyniad

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau ieithyddol yn allweddol i strategaethau addysg y Sir. Mae'r Cyngor yn ad-drefnu ysgolion nalgylch Y Berwyn, ac mae'n ofynnol, yn unol a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), i cynnal asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r sefyllfa ynglŷn â'r prif ystyriaethau iaith yn ymwneud ag effeithiau yr opsiynau dan sylw yn Y Bala.

### 1.1 Sefyllfa Gwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65.4% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Yn y pegynau eithaf, megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18%-38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bo cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg e.e. Llanrug.

### 1.2 Polisi iaith

**<u>Cynradd</u>**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd CA1. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**<u>Uwchradd</u>**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol, sef 3+ , ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog.

### 1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth *"Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* gan y Cyngor yn Ebrill 2009 ac fe'i hadolygwyd yn Rhagfyr 2010. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth *"Rhaglen Strategol – Tuag at 2025"* gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol, i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

## 2. Proffil Ieithyddol Dalgylch Y Bala

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter o'r boblogaeth sirol wedi'i eni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth dros dair blwydd oed yn siaradwyr Cymraeg – yn sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a anwyd yng Nghymru yn cynyddu tuag at y gorllewin, ac wrth deithio yn fewndirol o'r ardaloedd arfordirol mwy poblog. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yng Ngwynedd yn ward Llanrug (87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei hisaf yn ardal Menai Bangor (18.6%).

### 2.2 Wardiau

#### 2.2.1 Ward Bala

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Bala yn 1,974. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 76.7% o boblogaeth ward Bala wedi'i eni yng Nghymru, gyda 78.5% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r cyfartaledd sirol Gwynedd (65.4% ), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

| | Bala | | Gwynedd | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,889 | 95.7% | 117,789 | 96.6% | 2,955,841 | 96.5% |
| Gallu siarad Cymraeg | 1,482 | 78.5% | 77,000 | 65.4% | 562,016 | 19.0% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 282 | 14.9% | 31,177 | 26.5% | 2,167,987 | 73.3% |
| Gallu deall Cymraeg lafar yn unig | 104 | 5.5% | 8,125 | 6.9% | 157,792 | 5.3% |
| Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 132 | 7.0% | 6,838 | 5.8% | 80,429 | 2.7% |
| Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 75 | 4.0% | 3,947 | 3.4% | 45,524 | 1.5% |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 1,271 | 67.3% | 65,921 | 56.0% | 430,717 | 14.6% |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 25 | 1.3% | 1,781 | 1.5% | 73,392 | 2.5% |

#### 2.2.2 Ward Llandderfel

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Llandderfel yn 1,511. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 68.8% o boblogaeth ward Llandderfel wedi'i eni yng Nghymru, gyda 70.8% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn cydymffurfio gyda'r canran sirol Gwynedd (65.4%), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

| | Llandderfel | | Gwynedd | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 1,459 | 96.6% | 117,789 | 96.6% | 2,955,841 | 96.5% |
| Gallu siarad Cymraeg | 1,033 | 70.8% | 77,000 | 65.4% | 562,016 | 19.0% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 326 | 22.3% | 31,177 | 26.5% | 2,167,987 | 73.3% |
| Gallu deall Cymraeg lafar yn unig | 82 | 5.6% | 8,125 | 6.9% | 157,792 | 5.3% |
| Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 66 | 4.5% | 6,838 | 5.8% | 80,429 | 2.7% |
| Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 43 | 2.9% | 3,947 | 3.4% | 45,524 | 1.5% |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 924 | 63.3% | 65,921 | 56.0% | 430,717 | 14.6% |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 18 | 1.2% | 1,781 | 1.5% | 73,392 | 2.5% |

### 2.2.3 Ward Llanuwchllyn

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Llanuwchllyn yn 877. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 74.7% o boblogaeth ward Llanuwchllyn wedi'i eni yng Nghymru, gyda 78.6% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r cyfartaledd sirol Gwynedd (65.4% ), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

| | Llanuwchllyn | | Gwynedd | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| **2011** | | | | | | |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 847 | 96.6% | 117,789 | 96.6% | 2,955,841 | 96.5% |
| Gallu siarad Cymraeg | 666 | 78.6% | 77,000 | 65.4% | 562,016 | 19.0% |
| Dim sgiliau Cymraeg | 134 | 15.8% | 31,177 | 26.5% | 2,167,987 | 73.3% |
| Gallu deall Cymraeg lafar yn unig | 41 | 4.8% | 8,125 | 6.9% | 157,792 | 5.3% |
| Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 51 | 6.0% | 6,838 | 5.8% | 80,429 | 2.7% |
| Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 27 | 3.2% | 3,947 | 3.4% | 45,524 | 1.5% |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 585 | 69.1% | 65,921 | 56.0% | 430,717 | 14.6% |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 9 | 1.1% | 1,781 | 1.5% | 73,392 | 2.5% |

### 2.2 Ysgolion

Yn dalgylch Y Berwyn mae un ysgol uwchradd (Ysgol Y Berwyn) a pump ysgol gynradd(Beuno Sant, Bro Tegid, Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac OM Edwards).

| Ysgolion | Categori Ieithyddol |
|---|---|
| **Ysgol Y Berwyn** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |
| **Ysgol Beuno Sant** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |
| **Ysgol Bro Tegid** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |
| **Ysgol OM Edwards** | Cyfrwng Cymraeg [WM] |

### 2.3.1 Ysgol Y Berwyn

Mae Ysgol Y Berwyn yn ysgol gymunedol sydd wedi ei lleoli yng nghanol dref Bala ar gyfer dysgwyr 11-18 oed gyda 317 ar y gofrestr ym Medi 2014. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn bwydo o'r pum ysgol gynradd sydd oddi mewn ei ddalgylch. Yn ychwanegol, ceir sawl disgybl o'r siroedd cyfochrog, gyda 75 (24%) o ddisgyblion yn trosglwyddo o siroedd Dinbych a Chonwy. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl tra defnyddir tafodiaith leol a safon dda o Gymraeg ar lafar. Mae'r defnydd hyderus o Gymraeg graenus ar draws testunau gan y disgyblion mwyaf abl hefyd wedi'i nodi. Yn ôl Adroddiad Adolygiad Estyn (2013), gan gyfeirio at y sefyllfa ieithyddol yn yr ysgol, *"Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chynhaliol Cymreig ac mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i'r cwricwlwm"* .

*"Siarada'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg gan ddefnyddio iaith lafar gyfoethog a'r dafodiaith leol, yn ogystal â'r cywair Cymraeg ffurfiol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn mynegi eu hunain yn huawdl ynghylch ystod eang o destunau."*

*"Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chynhaliol Cymreig ac mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i'r cwricwlwm"*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2013*

### 2.3.2 Ysgol Bro Tegid

Mae Ysgol Bro Tegid yn ysgol gynradd 3-11 wedi ei leoli yn nhref y Bala, gyda 115 ar y gofrestr ym Medi 2014. Mae rhan fwyaf o blant yr ysgol yn byw yn y Bala ac mae'r nifer sy'n mynychu'r ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddarpariaeth addysg ddwyieithog yn un o gryfderau yr ysgol, gyda disgyblion Cymraeg iaith gyntaf ynghyd â disgyblion o gartrefi di-gymraeg yn dilyn y Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus. Nododd Adroddiad Adolygiad Estyn (2011) fod yr ysgol yn rhoi *"ystod dda o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn amrywiol ac ymestynnol, yn enwedig yn y Gymraeg."*

*"Mae datblygiad y Gymraeg a meithrin dwyieithrwydd yn gryfder yn yr ysgol hon gyda phob disgybl yn dilyn rhaglen astudio mamiaith. Mae'r disgyblion o gartrefi Di-gymraeg yn datblygu i fod yn rhugl o fewn byr amser ac mae'r cwricwlwm Cymreig yn greiddiol i waith ac ethos yr Ysgol".*

*"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm Cymreig yn gryfder yn yr ysgol hon ac wedi ei gynllunio'n arbennig ac yn naturiol yn yr holl feysydd cwricwlaidd. Rhoddir ystod dda o gyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu yn amrywiol ac ymestynnol, yn enwedig yn y Gymraeg."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2011*

### 2.3.3 Ysgol Beuno Sant

Mae Ysgol Beuno Sant yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru sydd wedi'i lleoli yng nghanol tref y Bala. Mae safle'r Ysgol yn agos iawn i Ysgol Y Berwyn. Daw rhan fwyaf o'r disgyblion naill ai o'r dref neu o'r ardal gyfagos. Roedd 46 o blant ar gofrestr yr ysgol yn Medi 2014. Mae plant cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu mewn ffordd addas yn y Gymraeg a'r Saesneg ond nodwyd yn Adroddiad Adolygiad Estyn (2014) fod *"canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4 mewn ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn sylweddol islaw cyfartaleddau Cymru am y pedair blynedd ddiwethaf".*

*"Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio cystrawen chwithig yn eu gwaith ysgrifenedig Cymraeg".*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2014*

### 2.3.4 Ysgol Ffridd y Llyn

Ysgol gymunedol 3-11 sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer 64 o blant. Lleolir Ysgol Ffridd y Llyn tua 4.5 milltir i'r gogledd-ddwyrain o'r Bala rhwng pentrefi Cefnddwysarn a Llandderfel. Sefydlwyd yr Ysgol yn 1977 fel ysgol ardal yn dilyn cau Ysgol Sarnau ac Ysgol Llandderfel. Mae'r Ysgol hefyd yn derbyn sawl plentyn o'r sir gyfagos (Sir Ddinbych). Mae safonau cymhwysedd dwyieithog y disgyblion trwy'r ysgol wedi cael eu dyfarnu'n rhagorol gan Adroddiad Adolygiad Estyn (2010). Yn ogystal, mae ethos Cymreig yr ysgol a'r pwyslais ar y diwylliant Cymraeg wedi'i ganmol: *"Ymfalchïa'r dysgwyr yn eu Cymreictod ac yn eu gallu i siarad Cymraeg".*

*"Mae safonau cymhwysedd dwyieithog y disgyblion, ynghyd â'u gwybodaeth am y Cwricwlwm Cymreig, yn rhagorol drwy'r ysgol".*

*"Mae ethos Cymreig yr ysgol a'r pwyslais a roddir ar y diwylliant Cymraeg ac, yn enwedig ar etifeddiaeth ddiwylliannol eu hardal leol, yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. Dyma elfen ragorol o'r ddarpariaeth. Ymfalchïa'r dysgwyr yn eu Cymreictod ac yn eu gallu i siarad Cymraeg".*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2010*

### 2.3.5 Ysgol Bro Tryweryn

Ysgol gymunedol 3-11 sydd yn darparu addysg ar gyfer 49 o blant yn bresennol. Mae ysgol Bro Tryweryn wedi ei leoli ym mhentref Frongoch, tua 4 milltir o'r Bala. Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentrefi Frongoch, Tal y Bont a chymunedau gwledig Cwmtirmynach ac Arenig. Mae'r modd mae'r ysgol yn darparu'r Cwricwlwm Cymreig yn elfen gryf o waith yr ysgol. Nododd Adroddiad Adolygiad Estyn (2009) fod holl ddisgyblion yr ysgol yn elwa o'r cyfleoedd i "d*datblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg yn gywir ac estynedig".*

*"Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd gref yn holl fywyd a gwaith yr ysgol. Mae ystod eang o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a'u diwylliant ar raddfa leol ac ehangach".*

*"Ar draws yr oedrannau, mae cyfleoedd niferus ym mywyd a gwaith yr ysgol, ac mewn ystod eang o bynciau ar gyfer datblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg yn gywir ac estynedig. Mae hyn yn nodwedd ragorol yn y ddarpariaeth".*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2009*

### 2.3.6 Ysgol OM Edwards

Ysgol gymunedol 3-11 sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer 94 o blant (yn cynnwys 14 rhan amser). Mae Ysgol OM Edwards wedi ei leoli ym mhentref Llanuwchllyn, tua 6 milltir o'r Bala. Fel Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn, mae'n gwasanaethu ardal amaethyddol wledig, gydag o ddeutu 15 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o hen ddalgylch Ysgol Parc. Derbyniwyd buddsoddiad o Filiwn i ymestyn ac ailwampio'r adeilad drwy'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Gorffennwyd y gwaith yma ym mis Awst 2013. Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn elwa o ddarpariaeth ragorol o'r iaith Gymraeg yn ôl Adroddiad Adolygiad Estyn (2012). Nododd yr Adroddiad fod y *"disgyblion oll yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu hardal a'u hetifeddiaeth".*

*"Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn rhagorol. Mae'r disgyblion oll yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu hardal a'u hetifeddiaeth".*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn 2012*

Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn amlinellu'r sefyllfa ieithyddol yn ysgolion Uwchradd a Gynradd yn ardal y Bala. Mae'r tabl yn dangos y niferoedd o siaradwyr o gartrefi Cymraeg fel y nodwyd gan benaethiaid yr ysgolion yn Ionawr 2014 (PLASC 2014).

Dengys y tabl fod y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn uchel yn rhan fwyaf o'r ysgolion yn yr ardal. Ysgol Beuno Sant yn unig sydd yn is na 50%. Mae'n bwysig nodi fod y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol, h.y. cyfanswm y nifer sy'n rhugl sy'n siarad Cymraeg adref ynghyd â'r rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg adref, yn 70%.

**Gwybodaeth Ieithyddol  y Dalgylch**

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Ddim yn siarad Cymraeg gartref ac nid yn rhugl | Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Y Berwyn** | 246 (78%) | 23 (7%) | 10 (3%) | 37 (12%) | 1 (<1%) | 317 |
| **Ysgol Bro Tegid** | 68 (64%) | 3 (3%) | 7 (7%) | 21 (20%) | 6 (6%) | 106 |
| **Ysgol Beuno Sant** | 19 (36%) | 18 (34%) | 0 (0%) | 12 (23%) | 4 (7%) | 53 |
| **Ysgol Ffridd y Llyn** | 48 (73%) | 15 (23%) | 0 (0%) | 3 (4%) | 0 (0%) | 66 |
| **Ysgol Bro Tryweryn** | 42 (96%) | 1(2%) | 1 (2%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 44 |
| **Ysgol OM Edwards** | 73 (82%) | 2 (2%) | 3 (4%) | 6 (7%) | 4 (5%) | 89 |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid yn PLASC Ionawr 2014

## 2.4 Lefelau Cyrhaeddiad

| Ysgol | % y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig - Cymraeg (iaith gyntaf) | | |
|---|---|---|---|
| | CA1  (cyflawni deilliant 5+) | | |
| | 2012 | 2013 | 2014 |
| Ysgol Beuno Sant | 90% | 42.9% | 81.8% |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 85.7% | 75% | 100% |
| Ysgol Bro Tegid | 81.3% | 100% | 94.1% |
| Ysgol Bro Tryweryn | - | 100% | 100% |
| Ysgol OM Edwards | 83.3% | 100% | 100% |
| | CA2 | | |
| | 2012 | 2013 | 2014 |
| Ysgol Beuno Sant | 83.3% | 62.5% | 100% |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 88.9% | 100% | 92.3% |
| Ysgol Bro Tegid | 91.7% | 87.5% | 100% |
| Ysgol Bro Tryweryn | - | - | 100% |
| Ysgol OM Edwards | 90% | - | 100% |

| Ysgol | % y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel ddisgwyliedig - Cymraeg (iaith gyntaf) | | |
|---|---|---|---|
| Ysgol Y Berwyn | **CA3 -** Yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 o leiaf mewn Cymraeg (iaith gyntaf) | | |
| | 2012 | 2013 | 2014 |
| | 88.5% | 92.5% | 90.7% |
| | **CA4 -** Canran y disgyblion sy'n cyflawni TGAU Gradd A*-C o leiaf mewn Cymraeg (iaith gyntaf) | | |
| | 2012 | 2013 | 2014 |
| | 81.7% | 87.5% | 78% |

**2.5 Holiadur Ieithyddol Dalgylch Y Berwyn**

| | Beth yw gallu disgyblion yn y Gymraeg? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| **Siarad** | Da Iawn | Da | Da Iawn | Da Iawn | Da | Da Iawn |
| **Ysgrifennu** | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da | Da Iawn |
| **Darllen** | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da | Da Iawn |
| **Gwrando** | Da Iawn | Da | Da Iawn | Da Iawn | Da | Da Iawn |

| | Llwyddiant gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg (CA1)? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da Iawn | Da | - |
| | **Cyrraedd lefel ddwyieithrwydd oed berthnasol yn eich barn chwi?** | | | | | |
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| **Allweddol 2** | 80%-100% | 80%-100% | 80%-100% | 80%-100% | 80%-100% | 80%-100% |
| **Allweddol 3** | | | | | | 80%-100% |
| **Allweddol 4** | | | | | | 80%-100% |
| **Allweddol 5** | | | | | | 80%-100% |

| | Ydi statws iaith y Gymraeg yng nghymuned y ward yn? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| Iach iawn | ✓ | | ✓ | | | |
| Iach | | | | ✓ | | ✓ |
| Gweddol | | ✓ | | | ✓ | |
| Graddol | | | | | | |
| Colli ei thir | | | | | | |

| | | Iaith a ddefnyddir amlaf gan ddisgyblion? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| **Yn y Dosbarth** | Cymraeg | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Saesneg | | | | | | |
| | Cymraeg gan Amlaf | | ✓ | | | ✓ | |
| | Saesneg gan amlaf | | | | | | |
| **Yn ystod amser chwarae** | Cymraeg | ✓ | | ✓ | | | |
| | Saesneg | | | | | | |
| | Cymraeg gan Amlaf | | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | Saesneg gan amlaf | | | | | ✓ | |
| **Yn y ffreutur** | Cymraeg | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| | Saesneg | | | | | | |
| | Cymraeg gan Amlaf | | ✓ | | | | ✓ |
| | Saesneg gan amlaf | | | | | ✓ | |
| **Clwb Brecwast** | Cymraeg | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| | Saesneg | | | | | | |
| | Cymraeg gan Amlaf | | ✓ | | | ✓ | |
| | Saesneg gan amlaf | | | | | | |
| **Clybiau ar ôl Ysgol** | Cymraeg | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| | Saesneg | | | | | | |
| | Cymraeg gan Amlaf | | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| | Saesneg gan amlaf | | | | | | |

| | Iaith staff ategol gyda'r plant? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| Cymraeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Saesneg | | | | | | |
| Cymraeg yn bennaf | | | | | | |
| Gyfartal | | | | | | |
| Saesneg yn bennaf | | | | | | |
| Saesneg | | | | | | |

| | Digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol yr ysgol? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| Cymraeg | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Saesneg | | | | | | |
| Cymraeg yn bennaf | | | | | | |
| Gyfartal | | | | | ✓ | |
| Saesneg yn bennaf | | | | | | |
| Saesneg | | | | | | |


| Digwyddiadau a gweithgareddau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| Nac ydy | Nac ydy | ✓ | Nac ydy | ✓ | ✓ |
| **Arall tu allan i'r ysgol ar gyfer plant lle ddefnyddir y Gymraeg?** | | | | | |
| **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **OM Edwards** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| Clwb Rygbi. Clybiau chwaraeon | Dim | Capel, Urdd, Teithiau Clybiau Bala, Pêl Droed, Clwb Rygbi, Nofio, Athletau | Clwb Rygbi. Clybiau chwaraeon | Dim | Ymweliadau Addysgol |

## 3. Effaith ar yr Iaith Gymraeg

### 3.1 Effaith wrth sefydlu Campws Gydol Oes (CGO) yn Y Bala

Yn ystod y broses o werthuso'r opsiynau ar gyfer y dalgylch, ystyriwyd nifer o fodelau cyn cytuno ar y rhestr hir. Roedd yn allweddol fod y modelau dan ystyriaeth o fudd i holl blant ysgolion y dalgylch, yn enwedig i gynnal safon addysg yr ardal. Daeth i'r amlwg yn fuan fod dyhead cryf i sefydlu Campws Gydol Oes, ac felly, mae rhan helaeth o'r modelau ar y rhestr hir yn cynnwys y cysyniad o sefydlu Campws

Yn unigryw ar gyfer modelau addysgol yng Nghymru, mae'r model 3-19 yn rheoli'r trawsnewid o'r sectorau cynradd ac uwchradd ar un safle. Mae'r model hefyd wedi ei adnabod fel un a fyddai'n creu sawl budd addysgol ar gyfer ysgolion dalgylch Y Berwyn, ac yn cyd-fynd ag amcanion strategaethau'r Cyngor. Er enghraifft, byddai'r model yn galluogi cysondeb mewn dulliau addysgu, asesu a'r cyfleodd sydd ar gael i ddisgyblion, a chynllunio rhai agweddau cwricwlaidd e.e. rhifedd a llythrennedd o safbwynt ysgol gyfan. Yn ogystal, medrir safoni polisïau a gweithdrefnau gan gynyddu effeithlonrwydd. Disgwylir i gategori iaith yr ysgol newydd gael ei dynodi yn "Cyfrwng Cymraeg" (WM). Er mwyn sefydlu'r CGO yn y Bala, byddai angen cau ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid, ac Y Berwyn, a byddai angen sefydlu ysgol newydd 3-19 ar safle presennol Ysgol Y Berwyn:




Mae manteision i'r model yn cynnwys hyblygrwydd i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r gyllideb a'r adnoddau. Er enghraifft, gellir defnyddio arbenigeddau pwnc athrawon uwchradd i ddysgu pynciau arbenigol i ddisgyblion cynradd, ac ymgorffori dulliau dysgu llythrennedd a rhifedd cynradd yn yr uwchradd. Ceir hefyd cyfleoedd i greu perthynas gadarnhaol rhwng staff a dysgwyr, a sicrhau gwell cefnogaeth i addysg y plant. Mae'r potensial ar gael i wella dilyniant mewn addysg Cymraeg a dwyieithog, gan arfogi mwy o ddisgyblion i fod yr un mor hyderus yn y ddwy iaith. Bydd cyfleoedd yn ogystal i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion yn ddyddiol.

Mae'r tabl ar y tudalen nesaf yn cynnwys asesiad o'r effaith o sefydlu CGO yn Y Bala ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn dangos cyfleoedd ychwanegol i gryfhau'r iaith Cymraeg, a mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effaith negyddol a all godi o'r model.

**Asesiad o'r effaith o sefydlu CGO yn Y Bala ar yr iaith Gymraeg i gymharu â'r sefyllfa bresennol**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith Weddillol (ar ôl lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith y campws** | Mae ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac ysgol Y Berwyn yn Gymraeg eu cyfrwng. Felly byddai'r cynnig o greu CGO ym Mala yn cael effaith bositif ar iaith addysg y plant oherwydd fwy o integreiddio dros oedrannau (3 i 19). | Positif<br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg | Holiadur yn datgan mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir gan amlaf yn Ysgol Beuno Sant yn ystod amser chwarae ond mae'r cyfle yma i integreiddio gyda mwy o blant Cymraeg eu hiaith gyntaf. | Positif |
| **Mynediad at addysg Gymraeg ei chyfrwng** | Mae'r ysgolion yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn barod ac felly ni rhagwelir unrhyw fudd ychwanegol i hyn. | Niwtral<br>Dim effaith ar sefyllfa'r Iaith | Dim yn berthnasol | Dim yn berthnasol |
| **Darpariaeth Anstatudol** | Byddai gan ddisgyblion fynediad at ystod ehangach o gyfleusterau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddant yn rhan o grwpiau cyfoedion mwy o'r un oedran. | Positif | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol y Campws newydd ystyried dulliau o sicrhau bod darpariaeth ar ôl ysgol mor hygyrch ag y bo modd i'r holl ddisgyblion. | Positif |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Byddai gan ddisgyblion fynediad at ystod mwy o gyfleusterau addas tu allan y dosbarth, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddant yn rhan o grwpiau cyfoedion mwy.<br>Mae ysgol mwy yn cynnig cyfle ar gyfer ystod ehangach o weithgareddau. | Positif<br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol y Campws newydd ystyried dulliau o sicrhau bod darpariaeth ar ôl ysgol mor hygyrch ag y bo modd i'r holl ddisgyblion. | Positif |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Bala yn 1,974 gyda 78.5% yn siarad Cymraeg.<br><br>Gallai gwell darpariaeth addysg a mynediad at fwy o weithgareddau gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. | Positif<br>Mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg | Gallai 'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol y Campws ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol trwy gynnal gweithgareddau y tu allan i'r ysgol. | Positif |

## 3.2 Rhestr Hir Modelau Posib

Ceir gwybodaeth am holl elfennau'r modelau sydd ar y rhestr hir is law:

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 1.

- *Gwneud dim – parhau a'r strwythur ysgolion presennol.*

Byddai cadw'r drefn presennol yn golygu byddai plant o gartrefi di-Gymraeg yn colli'r manteision o gymysgu gyda mwy o blant Cymraeg iaith gyntaf. Byddai cadw'r drefn bresennol hefyd yn golygu diffyg rhannu adnoddau ac arbenigedd yn effeithiol.

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 2.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Gydol Oes (CGO) ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala*
- *Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CGO a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn.*

Ni ragwelir unrhyw wahaniaeth ychwanegol i'r trefniant wrth sefydlu'r CGO sydd wedi ei drafod eisoes. Mae'n bosibl bydd rhai cyfleoedd hefyd yn codi i gefnogi a rhannu adnoddau gyda'r ysgolion unigol trwy'r cydbwyllgor.

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 3.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala.*
- *Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CGO.*

Yn ychwanegol, i'r buddion a wneir trwy'r sefydlu'r CGO, mae'r opsiwn o sefydlu ffederasiwn yn creu mwy o gysondeb mewn polisïau ar draws y dalgylch. Bydd yn bosibl i gyd- gynllunio cwricwlwm a rhannu adnoddau ar draws yr ysgolion gwledig sydd yn rhan o'r ffederasiwn

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 4.

- *Cau ysgolion Y Berwyn a Bro Tegid a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala.*
- *Creu Ymddiriedolaeth Gydweithio yn y dref rhwng y CGO ac Ysgol Beuno Sant.*
- *Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent.*

Er y byddai cyfleoedd ychwanegol i gryfhau'r trefniadau presennol, ni chynigir mwy o gyfleodd i blant Ysgol Beuno Sant i gymysgu gyda'u cyfoedion.

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 5.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant Bro Tegid, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala*

Byddai'r opsiwn yn galluogi cysondeb mewn polisïau a gyda'r cwricwlwm ar draws y dalgylch. Byddai adnodd canolig ar gyfer yr holl ddalgylch yn rhoi cyfleoedd i atgyfnerthu'r iaith Gymraeg. Er, rhaid sicrhau na fydd sefydlu'r drefn newydd yn amharu ar yr ymarferiad da sydd eisoes wedi ei hadnabod gan Estyn.

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 6.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala*

- *Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CGO.*

Yn ychwanegol i'r buddion a wneir trwy'r sefydlu'r CGO, mae'r opsiwn o sefydlu ffederasiwn yn creu fwy o gysondeb mewn polisïau ar draws y dalgylch. Bydd yn bosibl i gynllunio cwricwlwm ar y cyd ac i rannu adnoddau ar draws y ffederasiwn.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 7.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala*
- *Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn*
- *Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CGO.*

Yn ychwanegol, i'r buddion a wneir trwy'r sefydlu'r CGO, mae'r opsiwn o sefydlu ysgol aml-safle wledig yn creu mwy o gysondeb mewn polisïau ar draws y dalgylch. Bydd yn bosibl i gyd-gynllunio cwricwlwm a rhannu adnoddau rhwng y Campws ar ysgol aml-safle. Er, rhaid sicrhau na fydd sefydlu'r drefn newydd yn amharu ar yr ymarferiad da sydd eisoes wedi ei hadnabod gan Estyn.

## Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Model 8.

- *Cau ysgolion Y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol Y Berwyn yn y Bala*
- *Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn*
- *Cynllunio i ffedereiddio'r CGO a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig.*

Yn ychwanegol i'r buddion a wneir trwy'r sefydlu'r CGO, mae'r opsiwn o sefydlu ysgol aml-safle wledig a ffedereiddio'r ysgol gyda'r campws yn creu mwy o gysondeb mewn polisïau ar draws y dalgylch. Bydd yn bosibl i gyd-gynllunio cwricwlwm a rhannu adnoddau ar draws y ffederasiwn. Er, rhaid sicrhau na fydd sefydlu'r drefn newydd yn amharu ar yr ymarferiad da sydd eisoes wedi ei hadnabod gan Estyn.

## 4. Casgliad

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau leol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwella'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.


Yn gryno, nodwyd yn yr asesiad na fyddai creu Campws Gydol Oes ar dir Ysgol Y Berwyn yn cael effaith negyddol ar ddefnydd yr iaith Gymraeg. Wrth edrych ar ystadegau'r iaith a ddefnyddir amlaf gan ddisgyblion a'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau tu allan i'r dosbarth, bydd sefydlu'r campws newydd yn creu mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy ymestyn y cyfle iddynt gymysgu â mwy o blant trwy'r Gymraeg. Yn ychwanegol i'r cyfleoedd sy'n codi trwy sefydlu Campws ar gyfer y dref, mae rhai o'r modelau yn cynnig cyfleoedd i rannu a gwella'r defnydd o adnoddau.

Er mwyn sicrhau delwedd Gymreig ar gyfer y drefn addysgol newydd, nodir fod y sefyllfa yn ysgolion Bro Tegid ac Y Berwyn yn gryf - gyda 64% yn Bro Tegid a 78% yn Y Berwyn yn gallu Cymraeg yn rhugl ac yn ei siarad gartref (7% o ddisgyblion Berwyn hefyd yn rhugl ond ddim yn siarad Cymraeg adref). O'i gymharu, mae ymhell yn llai na hanner y disgyblion (36%) yn Ysgol Beuno Sant ar hyn o bryd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac yn ei siarad gartref. Felly, gwelir cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg trwy sefydlu CGO yn Y Bala, gan sicrhau fod cyfle i'r holl ddisgyblion fynychu ysgol sydd yn addysgiadol ac yn gymdeithasol Gymreig.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cymunedol

# Modelau Posib Dalgylch Y Berwyn




www.gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

**CYNNWYS**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | | |
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| | | |
| 2. | Crynodeb o'r dalgylch | 4 |
| | | |
| 3. | Ysgolion y Dalgylch | 5 |
| 3.1 | Cyd-destun yr ysgolion yn ôl arolygiadau Estyn | 5 |
| 3.2 | Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion | 7 |
| 3.3 | Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig | 7 |
| 3.4 | Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig | 8 |
| 3.5 | Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol | 8 |
| 3.6 | Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau? | 9 |
| 3.7 | Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch | 9 |
| 3.8 | Asesiad o effaith ardrawiad cymunedol modelau posibl | 10 |
| | | |
| 4. | Casgliadau | 11 |
| | | |

## 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, mae angen gwneud asesiad effaith cymunedol yn unol a Chod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig.

*"Mewn rhai ardaloedd, gall yr ysgol fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol hefyd, a gallai goblygiadau ei chau fod yn fwy na mater o ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd arbennig mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos y mae cyflwynwyr cynigion yn ei baratoi dangos bod asesiad wedi'i gynnal ar effaith cau ysgol ar y gymuned, a sut y gallai'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd gael eu cynnal. Os oes cynnig i gau ysgol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal neu wella ymgysylltu â'r broses addysg ac â chyfleusterau eraill a gynigir gan ysgolion fel gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a allai helpu i fynd i'r afael â thlodi plant."*

Ffynhonnell: Cylchlythyr 006 /2013

Mae trafodaethau ad-drefnu ysgolion yn cael eu cynnal yn nalgylch Y Berwyn sef yr ardal o amgylch Y Bala, ym Meirionnydd. O fewn dalgylch Y Berwyn mae 6 ysgol; un ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11-19 (Ysgol Y Berwyn) a 5 ysgol gynradd. Mae Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant syn nhref y Bala a mae tair ysgol gynradd wledig - Ysgol OM Edwards yn Llanuwchllyn, Ysgol Bro Tryweryn yn Frongoch, ac Ysgol Ffridd y Llyn yng Nghefnddwysarn.

## 2. CRYNODEB O'R DALGYLCH

**Yr Ardal**

Mae tref Y Bala yn hen dref farchnad ar lan llyn naturiol mwyaf Cymru, Llyn Tegid ac o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Bala a Phenllyn yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant ac mae ei thirwedd naturiol, golygfeydd, amaethyddiaeth a'i hanes cyfoethog yn ei gwneud yn ardal adnabyddus trwy Gymru.

Mae'r dalgylch sy'n cwmpasu tref Y Bala hefyd yn cynnwys ardaloedd Cymunedau Llanuwchllyn, Llandderfel, Llanycil a Llangower.

Mae dalgylch Y Berwyn yn ddalgylch gwledig iawn yn gryf, o ran hanes, ac yn gadernid i'r iaith Gymraeg. Ceir nifer o gymunedau unigol, sydd â hunaniaeth gref. Mae'r dalgylch yn ddiwylliannol fywiog gyda nifer o weithgareddau megis corau cerdd dant a phartïon llefaru, corau, aelwydydd yr Urdd, traddodiad Eisteddfodol cref a chlybiau ffermwyr ifanc.

**Yr Economi**

Mae economi'r ardal yn ddibynnol iawn ar nifer fechan o sectorau amlwg, sef y sector cyfanwerthu/ dosbarthu manwerthu, Gwestai, arlwyo, y sector gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd a'r sector gwneuthuro. O ran cyfleodd cyflogaeth mae 22.53% o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) yn cael eu cyflogi yn y sector a nodir gyntaf uchod, 21.36% yn gweithio yn yr ail a 18.90% yn y trydydd. Mae'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota hefyd yn bwysig gyda 11.54% o'r boblogaeth yn gyflogedig yn y sector yma. Mae amlygrwydd a phwysigrwydd y sectorau yma i'r economi ac i gyflogaeth ac incwm lleol yn adlewyrchu'r tueddiad sirol a chenedlaethol o ddibyniaeth arnynt.

**Amddifadedd**

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (Malc) dynodir ward Llandderfel a Llanuwchllyn a ward Y Bala yn y 50% isaf o fewn Gwynedd.

Yn ôl Uned Data Llywodraeth Leol, mae Llanuwchllyn a Llandderfel yn rhif 53 allan o 70 ardal yng Nghymru sydd wedi eu hadnabod fel ardaloedd mwyaf pell o wasanaethau.

Noda cyfrif hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm) fod 1.8% o boblogaeth oedran gweithio Bala a Penllyn yn derbyn y lwfans hwn ym mis Rhagfyr 2005, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Gwynedd o 2.6%. Roedd y % uchaf o'r hawlwyr i'w canfod yn ward Y Bala (2.6%), gyda Llandderfel yn is (1.4%) a'r % isaf o hawlwyr i'w canfod yn ward Llanuwchlllyn (0.8%).

O'r 2.1% o Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn Bala a Penllyn mae 47.5% ohonynt yn perthyn i'r grŵp oedran 25-49, a'r mwyafrif o'r cyfan ohonynt (65.6%) yn ddiwaith ers llai na chwe mis. Mae'r patrwm yn Bala a Penllyn yn dilyn y tueddiadau sirol a chenedlaethol.

# 3. Ysgolion Y Dalgylch

## 3.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i ysgolion dalgylch Y Berwyn gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Y Berwyn**

Mae Ysgol Y Berwyn yn Ysgol gymunedol, naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed, wedi ei lleoli yn nhref fechan Y Bala. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang. Daw rhan fwyaf y disgyblion o bum ysgol gynradd y dalgylch yng Ngwynedd. Mae carfan fechan o ddysgwyr yn trosglwyddo o ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Chwech y cant o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.7%. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda 3% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn ychydig yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol. Daw 79% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith ond mae 97% o'r disgyblion yn dilyn y llwybr mamiaith yn y Gymraeg TGAU. Nid oes disgybl yn derbyn cymorth ar gyfer dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol.
*(Tachwedd 2013)*

**Ysgol Beuno Sant**

Mae Beuno Sant yn ysgol gynradd wirfoddol dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru sy'n gwasanaethu tref y Bala a'r cyffiniau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 20% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd, sydd yn agos at gyfartaledd Cymru. Daw 58% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai dim ond 6% o ddisgyblion sydd o gefndir lle'r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed. Mae tua 34% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
*(Ebrill 2014)*

**Ysgol Bro Tegid**

Mae Ysgol Bro Tegid, sydd wedi ei lleoli yn nhref Y Bala, yn gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Derbynnir hwy (*disgyblion*) i'r ysgol yn y Medi wedi iddynt gael eu pedwerydd pen-blwydd.

Daw 71% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf; 1% o gefndir lleiafrifol ethnig a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Y Gymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac ni ystyrir bod yr ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Saith y cant o'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 27% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gyda 1% ar ddatganiad.
*(Chwefror 2011)*

**Ysgol Bro Tryweryn**

Mae’r ysgol wedi’i lleoli ym mhentref Fron Goch sydd oddeutu ddwy filltir o dref Y Bala yng Ngwynedd. Mae bron pob disgybl o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na’r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Nid oes yr un disgybl sydd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.
*(Tachwedd 2014)*

**Ysgol Ffridd y Llyn**

Mae Ysgol Ffridd y Llyn yn ysgol ardal, naturiol ddwyieithog wedi’i lleoli hanner ffordd rhwng pentrefi Sarnau a Llandderfel, nepell o’r Bala yn Sir Gwynedd. Sefydlwyd yr ysgol yn 1977 a gwasanaetha’r ysgol y Pentref a’r ardal gyfagos.

Derbynia’r ysgol ddisgyblion o 3-11 oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o’r ystod allu lawn ac ar y cyfan, mae eu cyrhaeddiad yn dda pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae’r ardal yn un sydd heb fod o dan anfantais na mantais economaidd. 4% o ddisgyblion sydd wedi’u cofrestru ar ffurflen gyfrifiad yr ysgol fel rhai sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol a bernir bod 76% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf, neu i safon gyfatebol. Daw 56% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf, neu i safon gyfatebol. Daw 56% o’r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith a 44% o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith y teulu.

Mae pob disgybl yn perthyn i’r grŵp ethnig gwyn. Nid yw’r Cyngor Sir yn ‘gofalu’ am unrhyw blentyn ac nid oes un disgybl yn derbyn gwersi yn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan un disgybl ddatganiad anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae tri disgybl arall wedi eu hadnabod fel rhai y mae anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arnynt.
*(Chwefror 2010)*

**Ysgol O.M. Edwards**

Mae’r ysgol yn gwasanaethu pentref Llanuwchllyn a’r ardal amaethyddol o’i chwmpas. Nid ystyrir yr ardal yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 2% o'r disgyblion a hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae tua 10% o’r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol, 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac mae 3% â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r holl ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Ystyrir yr ysgol yn un naturiol Gymraeg. Daw 88% o’r disgyblion o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn brif iaith. Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen gyda’r Saesneg yn cael ei chyflwyno’n raddol i blant o Flwyddyn 1 ymlaen pan yw’n briodol i’r unigolyn. Addysgir yr holl ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg o saith oed ymlaen gyda’r nod o gael y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn 11 oed.
*(Mai 2012)*

### 3.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

| Ysgol | Capasiti Llawn | Nifer ar y gofrestr Medi 2014 | Nifer o Lefydd Gwag 2014 | % o Lefydd Gwag 2014 | Dynodiad yr Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffridd Y Llyn** | 71 | 64 | 7 | 10% | Cymunedol |
| **OM Edwards** | 98 | 94 | 4 | 4% | Cymunedol |
| **Bro Tryweryn** | 60 | 49 | 11 | 18% | Cymunedol |
| **Bro Tegid** | 95 | 115 | 0 | 0% | Cymunedol |
| **Beuno Sant** | 89 | 46 | 43 | 48% | Gwirfoddol a Gynorthwyir (Eglwys yng Nghymru) |
| **Y Berwyn** | 730 | 317 | 413 | 57% | Cymunedol |

### 3.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Ag eithrio Ysgol Beuno Sant, mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad). Does gan Ysgol Beuno Sant ddim dalgylch am ei bod yn ysgol Eglwysig.

**Disgyblion All-Dalgylch Cynradd:**

| | | Byw yn Dalgylch Ysgol (Medi 2014) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Bro Tegid** | **OM Edwards** | **Bro Tryweryn** | **Ffridd y Llyn** | **Beuno Sant** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol** | **Cyfanswm All-dalgylch mesul Ysgol** |
| **Mynychu Ysgol (Medi 2014)** | **Bro Tegid** | 108 | 1 | 1 | 3 | *Ysgol Eglwysig felly dim dalgylch wedi ei diffinio* | 2 x Gwynedd | **115** | **7 (6%)** |
| | **OM Edwards** | 5 | 86 | 3 | 0 | | 0 | **94** | **8 (9%)** |
| | **Bro Tryweryn** | 2 | 9 | 30 | 2 | | 2 x Dinbych<br>1 x Conwy | **46** | **16 (35%)** |
| | **Ffridd y Llyn** | 12 | 1 | 3 | 40 | | 4 x Dinbych<br>3 x Llandrillo / Corwen<br>1 x Maesincla | **64** | **24 (38%)** |
| | **Beuno Sant** | 43 | 0 | 1 | 1 | | 1 x Dinbych | **46** | **-** |
| | **Arall** | 43 | 0 | 1 | 1 | | | | |
| **Cyfanswm yn byw y Dalgylch** | | **171** | **97** | **38** | **46** | | | | |
| **Cyfanswm All-dalgylch mesul dalgylch** | | **63 (37%)** | **11 (11%)** | **8 (21%)** | **6 (13%)** | | | | |
| **Cyfanswm Disgyblion All-dalgylch** | | **88 (25%)** | | | | | | | |

**Disgyblion All-dalgylch Uwchradd:**

| | Byw yn Dalgylch Ysgol (Medi 2014) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Y Berwyn** | **Y Moelwyn** | **Ardudwy** | **Y Gader** | **All Sirol** | **Cyfanswm** |
| **Mynychu Ysgol y Berwyn 2014-15** | 240 (76%) | 5 (1%) | 1 (1%) | 1 (1%) | 70 (22%) | **317** |
| **Cyfanswm Disgyblion All-dalgylch** | 77 (24%) | | | | | |

### 3.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig

| | Bala (Ysgolion Bro Tegid, Y Berwyn a Beuno Sant) | OM Edwards | Bro Tryweryn | Ffridd y Llyn |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Gymuned | ✓ | ✓ | | |
| Capel/Eglwys | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | ✓ | ✓ | | |
| Siop | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Caffi/Tafarn | ✓ | ✓ | | |
| Swyddfa Bost | ✓ | ✓ | | |
| Meddygfa/Fferyllfa | ✓ | | | |
| Llyfrgell | ✓ | | | |
| Cae Chwarae Plant | ✓ | | ✓ | |
| Banc | ✓ | | | |
| Cartref Henoed | ✓ | | | |
| Canolfan Hamdden | ✓ | | | |
| Garej | ✓ | ✓ | | |
| Atyniad Twristaidd | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Neuadd y Pentref | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cylch Ti a Fi | ✓ | ✓ | ✓ | |

### 3.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

| | Bro Tegid | Beuno Sant | O M Edwards | Bro Tryweryn | Ffridd y Llyn | Y Berwyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol) | | | ✓ | | | ✓ |
| Aelwyd yr Urdd | | ✓ | ✓ | | | |
| Dramâu | | | | | | ✓ |
| Grwpiau Gwirfoddol | | | | | | ✓ |
| Bore/Noson Goffi | | | ? | | | |
| Arwerthiant Cymunedol | | | | | | ✓ |
| Llyfrgell Cymunedol | | | | | | ✓ |
| Ymarfer Côr | | | | | | ✓ |
| Cymraeg i Oedolion | | | | | | ✓ |
| Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned | | | | | | ✓ |
| Cylch/Ysgol Feithrin | ✓ | | ✓ | | | |
| Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon | | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| Clwb ar ôl Ysgol | | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Clwb Diddordeb Lleol | | | ✓ | ✓ | | ✓ |

**3.6 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?**

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Ffridd Y Llyn** | Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir. |
| **OM Edwards** | Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir. |
| **Bro Tryweryn** | Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir. |
| **Bro Tegid** | Bydd modd defnyddio safle ac adnoddau'r Campws Gydol Oes arfaethedig sydd o fewn pellter rhesymol. |
| **Beuno Sant** | Bydd modd defnyddio safle ac adnoddau'r Campws Gydol Oes arfaethedig sydd o fewn pellter rhesymol |
| **Y Berwyn** | Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir. |

Dylid nodi y bydd safle unrhyw ysgol sy'n cau yn cael ystyriaeth ôl-ddefnydd yn unol â pholisi ôl-ddefnydd y Cyngor.

**3.7 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch**

Dyma'r pellteroedd teithio i'r ysgolion eraill yn y dalgylch.

| Ysgol | Pellter ac amser teithio i ysgolion eraill Dalgylch Y Berwyn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Pellter ac Amser** | **OM Edwards** | **Bro Tryweryn** | **Bro Tegid** | **Beuno Sant** | **Y Berwyn** |
| **Ffridd Y Llyn** | Milltiroedd | 8.9 | 5.8 | 3.0 | 3.0 | 3.0 |
| | Munudau | 512 | 10 | 5 | 5 | 5 |
| **OM Edwards** | Milltiroedd | | 8.5 | 5.5 | 5.5 | 5.5 |
| | Munudau | | 14 | 8 | 8 | 8 |
| **Bro Tryweryn** | Milltiroedd | | | 2.7 | 2.7 | 2.5 |
| | Munudau | | | 12 | 10 | 10 |
| **Bro Tegid** | | | | | 200m | 200m |
| | Munudau | | | | 5 | 5 |
| **Beuno Sant** | | | | | | 50m |
| | Munudau | | | | | 1 |
| **Y Berwyn** | Milltiroedd | | | | | |
| | Munudau | | | | | |

### 3.8 Asesiad o effaith ardrawiad cymunedol modelau posib

| | | |
|---|---|---|
| **Model 1** | Gwneud dim. | Dim newid i'r sefyllfa bresennol |
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Gydol Oes (CGO) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CGO a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau cydweithio cymunedol yn yr ardal ehangach drwy'r Cyd-bwyllgor. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CGO. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysg o fewn y cymunedau gwledig a sicrhau cydweithio cymunedol yn yr ardal ehangach drwy'r Cyd-bwyllgor. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CGO<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Dim newid yn yr ardaloedd gwledig |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant Bro Tegid, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala | Byddai hwn yn newid arwyddocaol i gymunedau'r dalgylch. Byddai cau'r holl ysgolion gwledig yn cael effaith ar y cymunedau hynny. Byddai angen cynllun lliniaru cynhwysfawr. |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CGO. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysg o fewn y cymunedau gwledig. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CGO. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Byddai presenoldeb safle ysgol yn parhau ymhob un o'r cymunedau gwledig |
| **Model 8** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CGO a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. | Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Byddai presenoldeb safle ysgol yn parhau ymhob un o'r cymunedau gwledig. |

## 4. CASGLIADAU

Fel rhan o rai o'r modelau mae safleoedd presennol ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn cael eu cau.

Dangosir o'r wybodaeth a gyflwynwyd bod ysgolion yn nhref Y Bala yn rhannu rhai cyfleusterau ac adnoddau yn barod, ac felly ni fydd unrhyw newid sylweddol nac effaith gymunedol niweidiol yn Y Bala oherwydd gall defnydd cymunedol ar gyfer Y Bala parhau ar safle presennol Ysgol Y Berwyn lle cynllunnir lleoli'r Campws Gydol Oes fel rhan o nifer y modelau.

Bydd cyfle yn ystod yr ymgynghoriad ar unrhyw gynnig i amlygu a thrafod yn llawn yr effaith ar ddarpariaeth a gynhelir ar safleoedd fydd yn cau er mwyn ceisio atebion a ffordd ymlaen. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen ystyriaeth i leoliad darpariaeth y Cylch Meithrin sydd yn cael ei ddarparu ar safle Ysgol Bro Tegid ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn trafod posibiliadau ail-leoli, all gynnwys parhau ar y safle presennol, ail-leoli i safle'r Campws Gydol Oes arfaethedig, neu symud i safle arall yn nhref Y Bala gyda chynrychiolwyr priodol.

Mae her a chyfle i'r ysgol a'r gymuned i ddatblygu ar y Campws Gydol Oes yn nhref y Bala a sicrhau fod y safle yn gweithredu fel hub ar gyfer nifer o anghenion nid yn unig i gymuned tref y Bala, ond ar gyfer holl gymunedau Penllyn. Mae elfennau penodol fel y llyfrgell a darpariaeth theatrig a sinematig yn medru cael eu hadnabod o fewn datblygiad y campws.


Fel rhan o'r modelau posib, nid oes unrhyw un o'r modelau dan ystyriaeth yn golygu fod unrhyw ysgol mewn cymuned wledig yn cau. Golyga hyn, nad oes unrhyw effaith ar gymunedau gwledig ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn na Ffridd y Llyn – sef pentrefi a chymunedau Llanuwchllyn, Frongoch, Llandderfel, Sarnau a Cefnddwysarn.

Mae cyfle o fewn y model o ffedereiddio ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol yn y cymunedau gwledig i'r dyfodol. Yn ogystal, mae cyfleoedd cymunedol ehangach drwy'r Cydbwyllgor i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol a hefyd yn gymunedol drwy'r Cydbwyllgor dalgylchol a gynigir

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb

# Modelau Posib Dalgylch Y Berwyn





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

**CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Gwynedd yn ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Y Berwyn, ac yn rhan o'r broses mae'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) i gynnal asesiad cydraddoldeb.

Cystal yw nodi fod asesiadau eraill sydd wedi eu cwblhau sydd hefyd yn rhoi gwybodaeth am faterion sy'n cyd-fynd â'r asesiad cydraddoldeb yma. Mae asesiad angen am wahanol fathau o ysgolion wedi ei gwblhau gan roi ystyriaeth drylwyr i'r ffaith fod ysgolion cynradd cymunedol ac ysgol gynradd gwirfoddol dan gymorth (Eglwys yng Nghymru) yn y dalgylch. Mae asesiad effaith ieithyddol a chymunedol hefyd wedi ei gwblhau. Mae'r adroddiadau terfynol yr asesiadau yma ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.go.uk/trefniadaethysgolion

Mae'r asesiad cydraddoldeb yn cael ei wneud fesul model penodol, mae 8 model posib ar hyn o bryd, dyma fanylion y modelau:

| | |
|---|---|
| **Model 1** | Gwneud dim. |
| **Model 2** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Gydol Oes (CGO) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CGO a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn. |
| **Model 3** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CGO. |
| **Model 4** | • Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala.<br>• Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CGO<br>• Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent. |
| **Model 5** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant Bro Tegid, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CGO dalgylchol ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala |
| **Model 6** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CGO. |
| **Model 7** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CGO. |
| **Model 8** | • Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala<br>• Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn<br>• Cynllunio i ffedereiddio'r CGO a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig. |

**Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn cyfuno'r deddfau gwrthwahaniaethol blaenorol ac yn creu un Deddf i'w disodli. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ag anghysondebau ac yn ei

gwneud yn haws i bobl ddeall y gyfraith a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd ynghylch cydraddoldeb ar gyfer y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol') sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân ynghylch cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd a rhywedd. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

**Beth yw'r dyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r sawl sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy wella cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori yn y modd y caiff polisïau eu cynllunio a'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu, ac mae'n sicrhau bod polisïau a gwasanaethau'n cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hynny'n sicrhau gwell canlyniadau i bawb h.y. cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; meithrin perthnasau da.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Gallai awdurdodau sy'n methu â bodloni'r dyletswyddau wynebu her gyfreithiol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod pobl ar sail cyfres o nodweddion gwarchodedig: Hil, Rhyw, Anabledd, Cyfeiriadedd Rhywiol, Ail-bennu Rhyw, Crefydd a Chred ac Oedran. Pan yn berthnasol, mae hefyd yn gwarchod ar sail Priodas a Phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth. Nodir yn ogystal bod y Ddeddf yn gwarchod ar sail 'cysylltiad' a'r nodweddion gwarchodedig, ac felly byddai'n gwarchod rhieni neu ofalwyr plant anabl ar sail cysylltiad â'r plentyn. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y ddyletswydd i roi 'sylw dyledus' yn amlwg yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr awdurdodau cyhoeddus sy'n rhwym wrth y dyletswyddau ynghylch cydraddoldeb hefyd yn debygol o fod yn rhwym wrth y rhwymedigaethau sy'n berthnasol i'r Ddeddf Hawliau Dynol. Felly, byddai'n ddoeth ystyried yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol hefyd, yn rhan o'r un broses.

# ASESIAD MODELAU

## 1) AWDURON YR ASESIAD

Adran Addysg Cyngor Gwynedd

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayyb.

Penaethiaid, staff, llywodraethwyr, rhieni/gwarchodwyr a disgyblion ysgolion dalgylch Y Berwyn
Aelodau Panel Adolygu Dalgylch Y Berwyn
Aelodau'r Gymuned
Aelodau Lleol Dalgylch Y Berwyn
Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd
Aelod Cabinet Addysg Cyngor Gwynedd
Cyfarwyddwr Strategol Cyngor Gwynedd

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Medi 2014

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Hydref 2014

## 5) PERTHNASEDD

### 5a) Perthnasedd i'r Dyletswyddau Cyffredinol

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**
  Y bwriad yw parhau i ddefnyddio gweithdrefnau a pholisïau ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif.

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**
  Y bwriad yw parhau i ddefnyddio gweithdrefnau a pholisïau ysgolion i gael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**
  Y bwriad yw parhau i ddefnyddio polisïau cydraddoldeb ysgolion er mwyn ymateb i anghenion yr unigolyn.

- **Meithrin perthnasau da**
  Y bwriad yw parhau i ddefnyddio gweithdrefnau a pholisïau ysgolion i feithrin perthnasau da.

### 5b) Perthnasedd i wahanol elfennau cydraddoldeb

- **Rhyw**
  Mae'r tabl isod yn dangos y canran o fechgyn a genethod yn yr ysgolion presennol

| Ysgol | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| Y Berwyn | 51% | 49% |
| Beuno Sant | 45% | 55% |
| Bro Tegid | 55% | 45% |
| Bro Tryweryn | 41% | 59% |
| Ffridd y Llyn | 55% | 45% |
| OM Edwards | 57% | 43% |

- **Anabledd**
  Gwybodaeth ddim yn hysbys, ond bydd angen cadw llygad ar y nifer o ddisgyblion anabl sy'n mynychu'r ysgolion. Yn ddibynnol ar yr anabledd bydd yn rhaid i'r ysgolion addasu eu cynlluniau ar gyfer rhoi mynediad i ddisgyblion gydag anableddau penodol. Yn sgil hyn bydd yn rhaid i'r Awdurdod hefyd sicrhau bod adrannau perthnasol yn ymwybodol o newidiadau a sicrhau'r mewnbwn angenrheidiol.

- **Iaith**
  Mae mwyafrif helaeth disgyblion yr ysgolion, yn siarad unai Cymraeg a/neu Saesneg fel Iaith Gyntaf.

- **Cyfeiriad Rhywiol**
  Ddim yn berthnasol.

- **Crefydd neu gred**
  Nid oes gwybodaeth gyfredol neu benodol am grefydd neu gred y disgyblion.

  Mae Ysgol Beuno Sant yn ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda chymeriad crefyddol (Eglwys yng Nghymru). Mae Ysgol Y Berwyn, Ysgol Bro Tegid, Ysgol Bro Tryweryn, Ysgol OM Edwards, ac Ysgol Ffridd Y Llyn yn ysgolion categori 'Cymunedol' heb gymeriad crefyddol.

  Mae'r tabl isod yn dangos categorïau ysgolion sydd yn nalgylch Y Gader, a'r nifer o ddisgyblion yn y categorïau:

| CATEGORI | CYNRADD | | UWCHRADD | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer o Ysgolion | Nifer Disgyblion | Nifer o Ysgolion | Nifer Disgyblion |
| Cymunedol | 4 | 302 | 1 | 319 |
| Ysgol Wirfoddol dan Gymorth (VA) | 1 | 53 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **355** | **1** | **319** |

- **Oedran**
  Cefnogi cyfleoedd i ddisgyblion cynradd yn y grŵp oedran 3 i 11, ac uwchradd yn y grŵp oedran 11 i 19.

**6) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH**

Sicrhau cydraddoldeb.

7) **CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**
Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Bydd ymgynghoriad statudol ar yr opsiwn ffafredig yn cael ei gynnal i dderbyn sylwadau'r ymgynghorai.

Fel rhan o'r ymgynghoriad statudol bydd gweithgaredd penodol i dderbyn sylwadau disgyblion yr ysgolion yn cael ei gynnal, fel bod sicrhad o dderbyn barn y disgyblion.

8) **TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Data PLASC Ionawr 2014.

Bylchau mewn tystiolaeth – dim.

**9) BETH YW'R EFFAITH WIRIONEDDOL NEU DEBYGOL AD-DREFNU ADDYSG YN NALGYLCH Y BERWYN**

**9a) O safbwynt y grwpiau cydraddoldeb**

- **Hil**
  Dan ofynion Polisi'r Cyngor, bydd gofyn i ysgolion newydd ddarparu Polisi Gwrth-Fwlio, ac felly bydd disgwyl i ysgolion warchod yn erbyn bwlio ar sail hil o fewn yr ysgol.

  Mae gan ysgolion Gwynedd Gòd Ymarfer Trafnidiaeth a Polisi Gwrth Fwlio sydd wedi ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd.

- **Rhyw**
  Model 1
  Dim effaith gan bod yr ysgolion yn parhau yn eu strwythur presennol.

  Model 2
  Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
  Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod disgyblion ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn cael eu cyfuno ar yr un safle.

  Dyma fyddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |
| Bro Tryweryn | 41% | 59% |
| Ffridd y Llyn | 55% | 45% |
| OM Edwards | 57% | 43% |

  Model 3
  Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
  Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod disgyblion ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn cael eu cyfuno ar yr un safle.
  Ni fydd ffedereiddio'r ysgolion gwledig yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb gan y bydd yr ysgolion gwledig yn parhau fel ysgolion unigol.

  Dyma fyddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |
| Bro Tryweryn | 41% | 59% |
| Ffridd y Llyn | 55% | 45% |
| OM Edwards | 57% | 43% |

Model 4

Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
Ni fydd effaith ar y cohort cynradd gan na fydd disgyblion ychwanegol yn ymuno a disgyblion Bro Tegid ar safle presennol Y Berwyn.

Model 5

Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod holl disgyblion cynradd y dalgylch yn cael eu cyfuno ar yr un safle.

Dyma byddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |

Model 6

Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod disgyblion ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn cael eu cyfuno ar yr un safle.
Ni fydd ffedereiddio'r ysgolion gwledig yn cael unrhyw effaith ar gydraddoldeb gan y bydd yr ysgolion gwledig yn parhau fel ysgolion unigol.

Dyma fyddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |
| Bro Tryweryn | 41% | 59% |
| Ffridd y Llyn | 55% | 45% |
| OM Edwards | 57% | 43% |

Model 7

Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod disgyblion ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn cael eu cyfuno ar yr un safle. Er bod yr ysgolion gwledig yn cau, gan ystyried bod y safleoedd yn parhau fel rhan o'r Ysgol Ardal Aml-safle ni fydd effaith ar niferoedd bechgyn a merched ar y safleoedd.

Dyma byddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol / Safle | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |
| Safle Frongoch (Bro Tryweryn presennol) | 41% | 59% |
| Safle Cefnddwysarn (Ffridd y Llyn presennol) | 55% | 45% |
| Safle Llanuwchllyn (OM Edwards presennol) | 57% | 43% |

Model 8

Ni fydd effaith ar y cohort uwchradd gan na fydd newid yn nharddiad y disgyblion.
Bydd effaith ar y cohort cynradd gan ystyried bod disgyblion ysgolion Beuno Sant a Bro Tegid yn cael eu cyfuno ar yr un safle. Er bod yr ysgolion gwledig yn cau, gan ystyried bod y safleoedd yn parhau fel rhan o'r Ysgol Ardal Aml-safle ni fydd effaith ar niferoedd bechgyn a merched ar y safleoedd.

Dyma byddai canran y bechgyn a'r merched gyda'r model yma:

| Ysgol / Safle | Bechgyn | Merched |
|---|---|---|
| CGO – Disgyblion Uwchradd | 51% | 49% |
| CGO – Disgyblion Cynradd | 52% | 48% |
| Safle Frongoch (Bro Tryweryn presennol) | 41% | 59% |
| Safle Cefnddwysarn (Ffridd y Llyn presennol) | 55% | 45% |
| Safle Llanuwchllyn (OM Edwards presennol) | 57% | 43% |

- **Anabledd**
  Byddai cyfle fel rhan o fuddsoddiad cyfalaf sicrhau fod y campws yn ateb gofynion a safonau mynediad i'r anabl (y DDA)

  Dan ofynion Polisi'r Cyngor, mae gofyn i ysgolion ddarparu Polisi Gwrth-Fwlio, ac felly bydd disgwyl i'r ysgol warchod yn erbyn bwlio ar sail anabledd, ac yn wir, ar unrhyw sail arall.

  Bydd angen i staff yr ysgolion ddarparu'r un lefel o ofal a bod yn ymwybodol o holl anghenion y plant.

  Mae gan ysgolion Gwynedd Gòd Ymarfer Trafnidiaeth a Polisi Gwrth Fwlio sydd wedi ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd.

- **Iaith**
  Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni fydd yna unrhyw newid.

- **Cyfeiriadedd rhywiol**
  Ddim yn berthnasol.

- **Crefydd neu gred**

  Mae angen rhoi ystyriaeth lawn wrth ddewis categori yn gysylltiedig a'r holl fodelau. Mae angen bod yn ymwybodol bod oblygiadau o ran parhad dewis darpariaeth addysgol wrth gau Ysgol Beuno Sant. Ar hyn o bryd mae ddewis darpariaeth addysg gynradd, cymunedol neu Wirfoddol dan Dan Gymorth (Eglwys yng Nghymru)

Model 1
Dim effaith gan fod yr ysgolion yn parhau yn eu strwythur presennol.

Model 2
Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig – bydd hyn yn creu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch
  – bydd dewis addysg gynradd gymunedol yn parhau yn yr ysgolion gwledig.

Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y ddarpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

Model 3
Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig – bydd hyn yn creu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch
  – bydd dewis addysg gynradd gymunedol yn parhau yn yr ysgolion gwledig.

Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y darpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

Model 4
Dim effaith gan fod dewis darpariaeth addysg gynradd gymunedol ac Eglwysig yn parhau.

Model 5
Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd ac uwchradd cymunedol yn y dalgylch a chreu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch

Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y ddarpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

Model 6
Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig – bydd hyn yn creu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch
  - bydd yn dileu darpariaeth cynradd ac uwchradd cymunedol gan nad yw'n bosib

ffedereiddio ysgolion o wahanol gategorïau yn unol â rheoliadau ffedereiddio 2014.
Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y darpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

Model 7
Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol - bydd hyn yn dileu darpariaeth gynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig – bydd hyn yn creu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch
  – bydd dewis addysg gynradd gymunedol yn parhau yn ddibynnol ar statws cyfreithiol yr ysgol aml-safle.

Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y ddarpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

Model 8

Wrth ddynodi statws y CGO gyda categori:

- Cymunedol – bydd hyn yn dileu darpariaeth cynradd Eglwysig yn y dalgylch
- Eglwysig – bydd hyn yn creu addysg uwchradd Eglwysig ehangach yn y dalgylch
  - bydd yn dileu darpariaeth cynradd ac uwchradd cymunedol gan nad yw'n bosib ffedereiddio ysgolion o wahanol gategorïau yn unol â rheoliadau ffedereiddio 2014.

Felly yn ddibynnol ar y categori dewisir i fynd gyda'r model yma, bydd dewis presennol y ddarpariaeth addysg yn newid. Rhaid bod yn ymwybodol o hyn wrth ystyried modelau.

- **Oed**

  Ddim yn berthnasol.

**9b) O safbwynt y Dyletswyddau Cyffredinol**

- **Hyrwyddo cydraddoldeb yn bositif**

  Bydd pawb yn cael ei drin yn unol a'u anghenion dan weithdrefnau sydd yn bodoli mewn ysgolion eisoes. Ysgol newydd i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb statudol sydd eisoes mewn bodolaeth.

- **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth**

  Anelir at roi cyfle i ddisgyblion i fynegi barn ac mewn dull sydd yn addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Parhau i ddefnyddio Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a gweithdrefnau arall i sicrhau bod yr ysgol yn cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu.

- **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal**

  Anelir at roi cyfle i ddisgyblion i fynegi barn ac mewn dull sydd yn addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Parhau i ddefnyddio Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a gweithdrefnau arall i sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

- **Meithrin perthnasau da**

  Sicrhau defnydd yr ysgol o gymorth penodol sydd ar gael e.e. i hyrwyddo ymddygiad da yn yr ysgol.

  Anelir at roi cyfle i ddisgyblion i fynegi barn ac mewn dull sydd yn addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Parhau i ddefnyddio Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a gweithdrefnau arall i sicrhau bod yr ysgol yn meithrin perthnasau da.

  Gall colli adnodd lleol gael effaith negyddol ar gydsyniant cymunedol, a bydd angen lliniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau cadarn rhwng yr ysgol a'r cymunedau lleol.

**10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw un o'r modelau yn cael effaith o unrhyw sylwedd ar yr elfennau cydraddoldeb a nodir yn 5b uchod.

**11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Mae'r ysgolion yn gyfrifol am weithredu polisi cydraddoldeb (drwy eu cyrff llywodraethu) a bydd yr awdurdod drwy ei gweithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal o fewn cylch arolygu ysgolion bydd Estyn yn arolygu'r agwedd yma.

# Asesiad o'r Angen am Wahanol Fathau o Ysgolion yn Nalgylch y Berwyn

Gorffennaf 2014

Dr. G.R. Humphreys

## Cynnwys


Adran 1. Cefndir 1

Adran 2. Data 1

Cwestiwn 1: Lleoliad y Cartref 1

Cwestiwn 2: Ysgolion y Plant 2

Cwestiwn 3: Dewis Ysgol 3

Cwestiwn 4a: Pwysigrwydd Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddewis Ysgol 5

Cwestiwn 4b: Trefnu Eitemau 4a yn ôl eu Pwysigrwydd 14

Cwestiwn 5: Sylwadau Ychwanegol 22

Adran 3. Trafodaeth 23

Ansawdd yr Addysg 24

Rôl Crefydd wrth Ddewis Ysgol 25

Sylwadau i Gloi 28

Atodiad A: Mwy o Dablau Data 30

Atodiad B: Yr Holiadur 38

# Adran 1. Cefndir

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal arolwg gyda rhieni sydd â phlant sy'n mynychu ysgolion yn nalgylch Ysgol Y Berwyn, gan gynnwys Ysgol y Berwyn ei hun, i asesu'r angen am wahanol fathau o ysgolion yn nalgylch Ysgol y Berwyn. Mae pum ysgol gynradd yn y dalgylch, gan gynnwys Ysgol Beuno Sant, sy'n ysgol gynradd a redir gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru ac Ysgol y Berwyn, ysgol uwchradd sy'n darparu addysg ôl-16.

Anfonwyd yr holiadur i'r ysgolion yn mis Ebrill, 2014, ac fe'u dychwelwyd i Ysgol y Berwyn cyn eu hanfon at Dr. G.R Humphreys i gael eu dadansoddi. Lluniwyd yr holiadur gan Gyngor Gwynedd a'r Eglwys yng Nghymru. Y bwriad yw canfod barn rhieni ynghylch pwysigrwydd amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud ag addysg eu plant, gan gynnwys elfennau crefyddol ac ysbrydol, gan annog rhieni i gyfathrebu eu safbwynt a'u barn ar y mater.

# Adran 2. Data

Dychwelwyd cyfanswm o 160 holiadur, oddeutu 23.7% o'r hyn a ddosbarthwyd. Nododd un rhiant nad oedd yn teimlo ei fod yn medru barnu beth yw pwysigrwydd crefydd i bobl eraill, ac o'r herwydd, penderfynodd beidio â llenwi'r holiadur. Ni ddefnyddiwyd yr ymateb hwn wrth ddadansoddi Cwestiwn 3 nac wrth ddadansoddi cwestiynau dilynol (ond mae wedi'i gynnwys yn y cwestiynau demograffig).

## Cwestiwn 1: Lleoliad y Cartref

Yn y cwestiwn cyntaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi lleoliad eu cartref. Dywedodd y gyfran fwyaf (36.2%) eu bod yn byw yn y Bala, gyda Llanuwchllyn yn ail (17.5%) a Frongoch yn drydydd (5.6%). Gyda'i gilydd, mae pob un o'r lleoliadau eraill a nodwyd yn cyfrif am lai na 5% o'r sampl.

## Cwestiwn 2: Ysgolion y Plant

Roedd chwech ateb posib i'r eitem hon (Ysgol Beuno Sant, Ysgol Bro Tegid, Ysgol Bro Tryweryn, Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol O.M. Edwards ac Ysgol y Berwyn). Gweler nifer yr ymatebwyr fesul ysgol yn Nhabl 1. Daeth y gyfran fwyaf o ymatebion o Ysgol Bro Tegid, 23.8% o'r sampl. Dychwelodd rhieni oedd â phlentyn/plant oedd ond yn mynychu Ysgol y Berwyn 9.7% o'r ymatebion. Roedd gan 18.8% o'r rhieni blant oedd yn mynychu ysgol gynradd leol ac Ysgol y Berwyn. Yr ysgolion oedd yn cynrychioli cyfran leiaf y sampl oedd Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Ffridd y Llyn, y naill a'r llall yn dychwelyd 10% o'r sampl. Nid oedd un rhiant wedi nodi pa ysgol yr oedd ei blentyn yn mynychu.

*Tabl 1. Nifer yr ymatebion fesul ysgol.*

| | Nifer yr Ymatebwyr | % |
|---|---|---|
| Ysgol Beuno Sant | 16 | 10.0% |
| Ysgol Bro Tegid | 38 | 23.8% |
| Ysgol Bro Tryweryn | 25 | 15.6% |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 16 | 10.0% |
| Ysgol OM Edwards | 33 | 20.6% |
| Ysgol y Berwyn (yn unig) | 31 | 19.4% |
| Ysgol y Berwyn (gyda phlentyn arall mewn ysgol gynradd) | 30 | 18.8% |

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 159 o'r ymatebwyr. Noder nad yw'r canrannau yn gwneud cyfanswm o 100% gan fod y sawl sydd â phlant sy'n mynychu ysgol gynradd ac Ysgol y Berwyn wedi'u cynnwys fan hyn i sicrhau darlun cyflawn.

Gan ystyried y meintiau cymharol, Ysgol Bro Tryweryn oedd yr ysgol â'r gyfran fwyaf o ymatebwyr, gyda 25 ymateb i'w 43 disgybl (58.1%). Gellir gweld nifer yr ymatebion o gymharu â nifer y disgyblion ym mhob ysgol yn Nhabl 2. Dylid nodi nad oedd yr arolwg yn gofyn faint o blant sydd gan bob ymatebwr ym mhob ysgol, ac o ystyried y posibilrwydd y gall rhiant fod â mwy nag un plentyn mewn ysgol benodol, gellid tybio fod maint cymharol yr ymatebion i bob ysgol yn uwch na'r hyn a geir yma. Dylid nodi hefyd fod nifer yr ymatebwyr a nododd fod ganddynt blant yn Ysgol y Berwyn, boed hon yr unig ysgol, neu fod ganddynt blant mewn ysgolion cynradd hefyd, yn eithaf isel, gyda dim ond 61 o ymatebwyr o ysgol o 319 o ddisgyblion (19.1%) yn 2013 (yn seiliedig ar ddata gan Gyngor Gwynedd).

*Tabl 2. Nifer yr ymatebion o gymharu â maint yr ysgol.*

| | Nifer yr Ymatebwyr | Nifer y disgyblion yn 2013/14 | % yr Ymatebion |
|---|---|---|---|
| Ysgol Beuno Sant | 16 | 53 | 30.2% |
| Ysgol Bro Tegid | 38 | 103 | 36.9% |
| Ysgol Bro Tryweryn | 25 | 43 | 58.1% |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 16 | 66 | 24.2% |
| Ysgol OM Edwards | 33 | 90 | 36.7% |
| Ysgol y Berwyn (yn unig) | 31 | 319 | 9.7% |
| Ysgol y Berwyn (gyda phlentyn arall mewn ysgol gynradd) | 30 | 319 | 9.4% |
| Ysgol y Berwyn (yn unig *neu* gyda phlentyn arall mewn ysgol gynradd) | 61 | 319 | 19.1% |
| | | | |
| Ymatebion (ac eithrio'r ddwy res olaf) | 159 | 674 | 23.6% |

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 159 o'r ymatebwyr. Noder nad yw'r rhieni a nododd fod ganddynt blant sy'n mynychu ysgol gynradd ac Ysgol y Berwyn yn cyfrannu at gyfanswm nifer yr ymatebion. Maent wedi'u cynnwys yn y tabl i gyflwyno'r darlun yn llawn.

## Cwestiwn 3: Dewis Ysgol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa un o'r datganiadau a ganlyn oedd yn cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol i'w plant. Roedd y pedwar datganiad fel a ganlyn:

- Mae'n bwysig i mi fod fy mhlentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig
- Mae'n bwysig i mi fod fy mhlentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru gyda chefnogaeth gan enwadau Cristnogol eraill
- Mae'n bwysig fod ysgolion a gynhelir gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru gyda chefnogaeth gan enwadau Cristnogol eraill ar gael yn fy ardal er mwyn cynnig dewis i rieni
- Yr unig beth sy'n bwysig i mi yw bod fy mhlentyn yn cael addysg dda.


Nododd mwy na thri chwarter yr ymatebwyr (76.9%) mai'r unig beth oedd yn bwysig iddynt hwy oedd addysg eu plant (gweler Tabl 3). Yn ail, nododd 16% o'r rhieni eu bod yn teimlo y

dylai eu plant fynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig. Roedd 9 rhiant (5.8%) yn nodi eu bod yn teimlo fod ysgolion a gynhelir mewn partneriaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru yn bwysig er mwyn cynnig dewis i rieni. Dim ond 2 riant wnaeth nodi ei bod yn bwysig fod eu plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir mewn partneriaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru (dim ond un o'r rhain oedd â phlentyn yn mynychu Ysgol Beuno Sant, roedd gan y llall blentyn a oedd yn mynychu Ysgol Bro Tryweryn).

*Tabl 3. Nifer yr ymatebion fesul datganiad wrth ateb pa un sy'n cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol.*

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ysgol a gynhelir gan Gyngor Gwynedd yn Unig | 25 | 16.0% |
| Plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru | 2 | 1.3% |
| Ysgolion yn cael eu cynnal ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru i roi'r dewis i rieni | 9 | 5.8% |
| Yr unig beth sy'n bwysig yw ansawdd yr addysg | 120 | 76.9% |
| Ymatebion | 156 | |

*Ffigwr 1. Canran yr ymatebion fesul datganiad wrth ateb pa un sy'n cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol.*



Roedd bwlch ar gael yng Nghwestiwn 3 i rieni ychwanegu unrhyw sylwadau eraill mewn unrhyw ffurf, a bu i 14 o'r rhieni (8.8%) fanteisio ar y cyfle hwn. Roedd yr ymatebion hyn yn amrywio o gadw maint dosbarthiadau'n fach, i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r pellter i'r ysgol agosaf. Fodd bynnag, roedd yna nifer o rieni oedd yn teimlo nad oedd yr opsiynau oedd ar gael yn gynrychiolaeth deg o'r ffactorau sy'n bodoli wrth ddewis ysgol, neu roedd ganddynt farn gref iawn am natur y cwestiwn. Nododd un rhiant fod amryw o ffactorau wedi apelio at ei blant, megis perthynas agos rhwng yr ysgol a'r Eglwys, ei naws a'i darpariaethau ac mai hyn a gyfrannodd at ddewis Beuno Sant. Roedd rhiant arall, nad yw ei blentyn yn mynychu Beuno Sant, yn teimlo'n gryf y dylai plant sy'n mynychu'r ysgol fod ag ymrwymiad i'r Eglwys a theimlai nad oedd hyn i'w weld yn y Bala. Cwyn dau o'r rhieni oedd nad oedd dewis ond mynd am y pedwerydd opsiwn (yr unig beth sy'n bwysig i mi yw fod fy mhlentyn yn cael addysg dda), ac na ddylid awgrymu o gwbl y dylai rieni ddewis rhwng naill ai darpariaethau crefyddol neu ansawdd yr addysg. Trafodir ymatebion tebyg i Gwestiwn 5 yn nes ymlaen.

## Cwestiwn 4a: Pwysigrwydd Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddewis Ysgol

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pwysigrwydd ar raddfa o bedwar pwynt ("Pwysig Iawn", "Pwysig", "Ddim yn bwysig", "Ddim yn bwysig o gwbl"), pob un o'r saith ffactor all ddylanwadu ar y penderfyniad wrth ddewis ysgol i'w plentyn. Roedd y saith eitem fel a ganlyn:

- Ansawdd yr addysg
- Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol
- Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant
- Y pellter teithio i'r ysgol
- Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon
- Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol
- Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)

Ni lwyddodd rhai o'r rhieni i benderfynu ar ambell eitem (cyfartaledd o 3 i bob eitem), ac o'r herwydd, ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad.


## *Ansawdd yr Addysg*

Yn ôl pob un o’r ymatebwyr, roedd *Ansawdd yr Addysg*, fan leiaf, yn “Bwysig” wrth ddewis ysgol, nododd 95.6% ei fod yn “Bwysig Iawn” a 4.4% ei fod yn “Bwysig”. Ni wnaeth unrhyw riant nodi nad oedd ansawdd yr addysg yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl. Yr eitem hon wnaeth dderbyn y nifer fwyaf o ymatebion “Pwysig Iawn” o bob un o'r saith eitem.

*Tabl 4. Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 151 | 7 | 0 | 0 | 158 |
| % | 95.6% | 4.4% | 0.0% | 0.0% | 100.0% |

*Ffigwr 2. Canran Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg*




## *Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi’u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol*

O’r holl eitemau, yr eitem hon wnaeth dderbyn y nifer leiaf o “Pwysig Iawn” a'r nifer uchaf o “Ddim yn Bwysig o Gwbl", gan dderbyn 10.4% ac 11% o gyfanswm yr ymatebion yn ôl eu trefn. Roedd mwy na hanner y rhieni (53.9%) yn meddwl fod gwerthoedd Cristnogol yn


"Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" wrth ddewis ysgolion, a 46.1% o'r farn naill ai nad oedd hyn yn bwysig neu nad oedd hyn yn bwysig o gwbl.

*Tabl 5. Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol wrth Ddewis Ysgol*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 16 | 67 | 54 | 17 | 154 |
| % | 10.4% | 43.5% | 35.1% | 11.0% | 100.0% |

| | Pwysig Iawn neu Bwysig | Ddim yn Bwysig neu Ddim yn bwysig o Gwbl |
|---|---|---|
| Nifer | 83 | 71 |
| % | 53.9% | 46.1% |

*Ffigwr 3. Canran Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol wrth Ddewis Ysgol*




Nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n "Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig", gyda 43.5% yn nodi eu bod yn bwysig a 35.1% yn nodi nad ydynt yn bwysig. Wrth rannu'r ymatebion i'r rhai Cadarnhaol ('Pwysig Iawn' a 'Phwysig') a'r rhai Negyddol ('Ddim yn Bwysig' a 'Ddim yn Bwysig o Gwbl'), gwelwn fod ychydig mwy o ymatebwyr wedi ateb yn Gadarnhaol i'r eitem, o gymharu â'r rhai a atebodd yn Negyddol (53.9% yn ymateb yn Gadarnhaol a 46.1% yn ymateb yn Negyddol).

*Tabl 6. Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol yn yr Ysgol fesul pob Ysgol Unigol, a hefyd y rhaniad rhwng yr ymatebion Cadarnhaol (Pwysig Iawn neu Bwysig) a'r ymatebion Negyddol (Ddim yn Bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl)*

| | Pwysig Iawn | | Pwysig | | Ddim yn Bwysig | | Ddim yn Bwysig o Gwbl | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Beuno Sant | 2 | 12.5% | 5 | 31.3% | 8 | 50% | 1 | 6.3% |
| Ysgol Bro Tegid | | | 15 | 40.5% | 16 | 43.2% | 6 | 16.2% |
| Ysgol Bro Tryweryn | 3 | 13.6% | 12 | 54.6% | 7 | 31.8% | | |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 6 | 40.0% | 5 | 33.3% | 2 | 13.3% | 2 | 13.3% |
| Ysgol OM Edwards | 3 | 9.4% | 13 | 40.6% | 12 | 37.5% | 4 | 12.5% |
| Ysgol y Berwyn | 2 | 6.5% | 16 | 51.6% | 9 | 29.0% | 4 | 12.9% |
| Dim ymateb | | | 1 | 100.0% | | | | |
| Cyfanswm | 16 | 10.4% | 67 | 43.5% | 54 | 35.1% | 17 | 11.0% |

| | Pwysig Iawn neu Bwysig | | Ddim yn bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl | |
|---|---|---|---|---|
| | 83 | 53.9% | 71 | 46.1% |


## *Yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.*

O ran yr ysgolion yn *Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant*, nododd 48.4% o'r ymatebwyr fod hyn yn "Bwysig" wrth ddewis ysgol, a nododd 36.8% ei fod yn "Bwysig Iawn" (gweler Tabl 7). O ran ymatebion negyddol, nododd 12.3% nad oedd yr eitem yn bwysig a dim ond 2.6% (4 person) wnaeth nodi nad oedd yn bwysig o gwbl. Wrth gymharu'r Cadarnhaol ("Pwysig Iawn" a "Phwysig") a'r Negyddol ("Ddim yn Bwysig", "Ddim yn Bwysig o Gwbl") gwelwn fod 85.2% o'r bobl wedi ymateb yn Gadarnhaol o gymharu ag 14.8% yn ymateb yn Negyddol.

*Tabl 7. Pwysigrwydd Datblygiad Ysbrydol a Moesol*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 57 | 75 | 19 | 4 | 155 |
| % | 36.8% | 48.4% | 12.3% | 2.6% | 100.0% |

*Ffigwr 4. Canran Pwysigrwydd Datblygiad Ysbrydol a Moesol*





## Y Pellter Teithio i'r Ysgol.

Nododd dros hanner y rhieni (55.1%) fod y *Pellter Teithio i'r Ysgol* yn "Bwysig" wrth ddewis ysgol, ac roedd bron i draean (30.1%) yn nodi ei fod yn "Bwysig Iawn". Nododd cyfanswm o 14.7% o'r ymatebwyr naill ai nad oedd y pellter teithio yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl.

*Tabl 8. Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 47 | 86 | 18 | 5 | 156 |
| % | 30.1% | 55.1% | 11.5% | 3.2% | 100.0% |

*Ffigwr 5. Canran Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol*





## *Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon*

Nododd mwyafrif y rhieni (81%) fod cael *Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon* yn "Bwysig Iawn", a nododd 18.4% ei fod yn "Bwysig". Felly, roedd 99.4% o'r rhieni wedi ymateb i'r eitem hon yn Gadarnhaol ("Pwysig Iawn" neu "Bwysig"), gan ei gosod yn ail i ansawdd yr addysg o ran eitemau cadarnhaol y rhestr hon. Dim ond un person wnaeth nodi nad oedd perthynas dda yn bwysig.

*Tabl 9. Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 128 | 29 | 1 | 0 | 158 |
| % | 81.0% | 18.4% | 0.6% | 0.0% | 100.0% |

*Ffigwr 6. Canran Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon*





## Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel ar Gael yn yr Ysgol

Yn yr un modd â'r eitem flaenorol, nododd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (98.7%) fod *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* naill ai'n "Bwysig Iawn" (61.1%) neu'n "Bwysig" (37.6%). Nododd dau o'r rhieni (1.3%) nad oedd y rhain yn bwysig ac ni wnaeth neb nodi nad oeddynt yn bwysig o gwbl.

*Tabl 10. Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 96 | 59 | 2 | 0 | 157 |
| % | 61.1% | 37.6% | 1.3% | 0.0% | 100.0% |

*Ffigwr 7. Canran Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel*





## Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

O ran darpariaethau ychwanegol, roedd 43.6% o'r rhieni yn teimlo fod *Darpariaethau Ychwanegol* yn "Bwysig", a 25% yn eu hystyried yn "Bwysig Iawn", felly roedd mwy na dwy ran o dair o'r rhieni wedi ymateb yn Gadarnhaol i'r eitem hon. Fodd bynnag, roedd 30.8% o'r rhieni yn teimlo nad oedd y rhain yn bwysig ac roedd un rhiant yn teimlo nad oeddynt yn bwysig o gwbl.

*Tabl 11. Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)*

| | Pwysig Iawn | Pwysig | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 39 | 68 | 48 | 1 | 156 |
| % | 25.0% | 43.6% | 30.8% | 0.6% | 100.0% |

*Ffigwr 8. Canran Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)*




## Crynodeb o Gwestiwn 4a

Roedd y cwestiwn yn adnabod elfennau oedd yn amlwg yn bwysig i rieni wrth ddewis ysgol. Yr eitem oedd yn cael ei hystyried bwysicaf yn fwyaf cyson oedd *Ansawdd yr Addysg*, ac nid oedd unrhyw un o'r rhieni wedi nodi naill ai nad oedd hyn yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl. Er bod mwyafrif y rhieni yn teimlo ei bod yn bwysig i'r ysgol gefnogi *Datblygiad Ysbrydol a Moesol*, roedd y diffyg gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig i ysgol gael *Gwerthoedd Cristnogol* a'r rhai oedd yn teimlo nad oedd hynny yn bwysig, yn awgrymu nad yw'r *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* hwn o reidrwydd i fod mewn gosodiad traddodiadol neu Gristnogol ffurfiol. Yn ogystal, adnabuwyd elfennau amgylcheddol megis adeiladau ysgolion a pherthynas dda gydag athrawon fel ffactorau pwysig wrth ddewis ysgol.

## Cwestiwn 4b: Trefnu Eitemau 4a yn ôl eu Pwysigrwydd.

Gofynnwyd i'r rhieni restru pa mor bwysig oedd pob un o'r saith elfen a welwyd yng nghwestiwn 4a, gan ddefnyddio graddfa o 1 i 7, a nodi 1 fel y lefel pwysicaf:

- Ansawdd yr addysg
- Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol
- Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant
- Y pellter teithio i'r ysgol
- Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon
- Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol
- Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)

Mae'n ymddangos fod nifer o ymatebwyr wedi camddehongli'r cwestiwn hwn, ac ni wnaeth 69 o'r ymatebwyr (43.4%) gwblhau'r cwestiwn yn unol â'i fwriad. O'r herwydd, mae'r dadansoddiad a ganlyn yn cynnwys ymatebion 90 o rieni.


### *Ansawdd yr Addysg*

Yn yr un modd â'r eitem yng Nghwestiwn 4a, nodwyd *Ansawdd yr Addysg* fel yr elfen bwysicaf wrth ddewis ysgol gyda 93.3% o'r rhieni yn ei osod yn gyntaf, 3.3% yn ei osod yn ail, a'r radd isaf a roddwyd iddo oedd 5ed.

*Tabl 12. Graddau Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 84 | 3 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 90 |
| % | 93.3% | 3.3% | 1.1% | 1.1% | 1.1% | 0.0% | 0.0% | 100.0 % |

*Ffigwr 9. Canran Graddau Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg*





## Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

Roedd y rhan fwyaf o'r graddau a roddwyd i'r eitem hon (84.5%) yn 5 neu'n is, gyda 21.1% yn ei gosod yn y chweched safle a bron i hanner (46.7%) yn ei gosod yn y seithfed safle. Drwy ei gymharu â Chwestiwn 4a, gwelir o'r rhieni a nododd fod *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig", mai dim ond 17% wnaeth osod yr eitem hon yn 1af neu'n 2il, gyda'r gyfran fwyaf (28.3%) yn ei gosod yn 5ed, a 15% yn ei rhoi yn 7fed. O'r rhai hynny wnaeth ateb nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n Bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl, gosododd 81% ohonynt yr eitem yn 7fed.

*Tabl 13. Graddau Pwysigrwydd fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 2 | 6 | 0 | 6 | 15 | 19 | 42 | 90 |
| % | 2.2% | 6.7% | 0.0% | 6.7% | 16.7% | 21.1% | 46.7% | 100.0% |

*Ffigwr 10. Canran Graddau Pwysigrwydd fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol*





## Yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

O gymharu â'r eitem flaenorol, roedd dosbarthiad graddau Datblygiad Ysbrydol a Moesol yn fwy cytbwys, gyda'r gyfran fwyaf o ymatebwyr (23.3%) yn ei osod yn drydydd. Tra roedd 41.1% o ymatebwyr yn rhoi'r eitem yn y safle cyntaf, ail neu drydydd, gosododd 37.7% o ymatebwyr yr eitem yn bumed, chweched neu seithfed o ran pwysigrwydd.

*Tabl 14. Graddau Pwysigrwydd fod yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfans wm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 2 | 14 | 21 | 19 | 13 | 19 | 2 | 90 |
| % | 2.2% | 15.6% | 23.3% | 21.1% | 14.4% | 21.1% | 2.2% | 100.0% |

*Tabl 11. Canran Graddau Pwysigrwydd fod yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol*





## *Y Pellter Teithio i'r Ysgol.*

Nid oedd y *Pellter i'r Ysgol* yn cael ei raddio'n arbennig o uchel o ran y ffactorau sy'n effeithio ar rieni wrth iddynt ddewis ysgol, gyda 15.6% ohonynt yn ei osod yn ail neu'n 3ydd i'r ffactor, a neb yn ei ystyried fel y ffactor pwysicaf. Gosododd y gyfran fwyaf o rieni (32.2%) y ffactor yn bumed, a derbyniodd radd o 4ydd, 5ed neu 6ed gan bron i dri chwarter y rhieni (73.3%).

*Tabl 15. Graddau Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 7 | 7 | 19 | 29 | 18 | 10 | 90 |
| % | 0.0% | 7.8% | 7.8% | 21.1% | 32.2% | 20.0% | 11.1% | 100.0 % |

*Ffigwr 12. Canran Graddau Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol*





## Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

Barnwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 4a fod yr eitem hon yn ffactor pwysig i rieni wrth ddewis ysgol, ac mae patrwm tebyg i'w weld fan hyn, gydag 80% o'r ymatebwyr yn ei gosod yn 1af, 2il neu'n 3ydd. Fodd bynnag, dim ond un rhiant wnaeth osod yr eitem yn y safle cyntaf, gyda'r gyfran fwyaf (45.6%) yn ei gosod yn yr ail safle.

*Tabl 16. Graddau Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 41 | 30 | 13 | 4 | 1 | 0 | 90 |
| % | 1.1% | 45.6% | 33.3% | 14.4% | 4.4% | 1.1% | 0.0% | 100.0 % |

*Ffigwr 13. Canran Graddau Pwysigrwydd ar gyfer Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon*





## *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel*

Mae dosbarthiad y graddau hyn wedi'u canoli rhwng yr 2il a'r 4ydd safle, ac roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr (76.7%) yn eu sgorio'n ail, trydydd neu bedwerydd. Dim ond un ymatebwr wnaeth nodi mai *Adeiladau ac Adnoddau Ysgol* oedd yr elfen bwysicaf tra bod 3.3% o'r ymatebwyr wedi nodi mai hon fyddai'r eitem lleiaf pwysig.

*Tabl 17. Graddau Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 19 | 26 | 24 | 10 | 7 | 3 | 90 |
| % | 1.1% | 21.1% | 28.9% | 26.7% | 11.1% | 7.8% | 3.3% | 100.0 % |

*Ffigwr 14. Canran Graddau Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel*





## Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

Yng Nghwestiwn 4a nododd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (68.6%) fod *Darpariaethau Ychwanegol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig". Fodd bynnag, o ran graddio darpariaethau ychwanegol yn ôl eu pwysigrwydd, ymddengys eu bod yn cael eu hystyried yn llai pwysig nag eitemau eraill ar y rhestr. Ni wnaeth unrhyw yn o'r ymatebwyr osod yr elfen hon yn gyntaf neu'n ail o ran pwysigrwydd, gyda 5.6% o ymatebwyr yn gosod yr eitem yn y trydydd safle a 85.6% yn ei graddio'n bumed neu'n is.  Gosodwyd yr eitem hon yn y seithfed safle gan y gyfran fwyaf o rieni (36.7%).

*Tabl 18. Graddau Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)*

| | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd | 5ed | 6ed | 7fed | Cyfan swm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 5 | 8 | 18 | 26 | 33 | 90 |
| % | 0.0% | 0.0% | 5.6% | 8.9% | 20.0% | 28.9% | 36.7% | 100.0 % |

*Ffigwr 15. Canran Graddau Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)*




## Crynodeb o'r Cwestiwn

Mae Cwestiwn 4b yn cadarnhau casgliadau Cwestiwn 4a oedd yn awgrymu mai *Ansawdd yr Addysg* oedd y ffactor pwysicaf i'r ymatebwyr wrth iddynt ddewis ysgol. Er bod 95.6% a 4.4% yn nodi fod *Ansawdd yr Addysg* un ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" yng Nghwestiwn 4a, yn y cwestiwn hwn gosododd 93.3% o'r ymatebwyr yr eitem hon yn gyntaf o'r saith eitem yn y rhestr. Yng Nghwestiwn 4a dosbarthwyd y *Disgwyliad bod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol* yn weddol gytbwys rhwng y rheini oedd yn teimlo ei fod yn bwysig a'r rheini oedd yn teimlo nad oedd yn bwysig, ond yng Nghwestiwn 4b roedd tueddiad i'r eitem gael ei gosod yn 4ydd neu'n is o ran pwysigrwydd. Yn ogystal, er bod *Darpariaethau Ychwanegol* megis clybiau brecwast yn cael eu nodi'n bwysig yn gyffredinol yng Nghwestiwn 4a, roedd tueddiad iddynt gael eu gosod yn isel o ran pwysigrwydd yng Nghwestiwn 4b, gyda'r gyfran fwyaf o'r ymatebwyr yn eu gosod yn y seithfed safle.

Rhoddwyd sgôr penodol i bob eitem drwy luosi nifer yr ymatebwyr oedd wedi'i gosod yn 1af, 2il, 3ydd ac ati gyda gwerth y radd honno. Felly, pe bai pawb wedi rhoi'r eitem yn 1af, byddai'n derbyn sgôr o 90 (1x90=90), pe bai pawb wedi ei rhoi yn 7fed, byddai'n derbyn sgôr o 630 (90 x 7 = 630), a phe bai'r ymatebion wedi'u rhannu rhwng 30 o ymatebwyr yn ei gosod yn drydydd, 50 yn ei gosod yn 4ydd a 10 yn ei gosod yn 5ed, byddai gan yr eitem honno sgôr o 280 (3 x 30 = 90; 4 x 50 = 200; 5 x 10 = 50 felly: 30 + 200 + 50 = 280). Trefnwyd yr eitemau hyn yn ôl eu sgôr, gyda sgôr uwch yn nodi fod yr eitem wedi cael ei gosod yn is ar y raddfa. Yn ôl y disgwyl, yn dilyn y dadansoddi blaenorol, *Ansawdd yr Addysg* a ddaeth yn gyntaf yn seiliedig ar y sgôr, gyda graddfa gyfartalog o 1.1. Daeth y *Berthynas rhwng Rhieni ac Athrawon* yn ail i hyn, ac yna *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* i ddilyn. Ar gyfartaledd roedd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* yn fwy nag un radd uwchben *Gwerthoedd Cristnogol*. Rhoddwyd y sgôr uchaf i *Ddarpariaethau Ychwanegol*, oedd ond ychydig yn uwch na *Gwerthoedd Cristnogol*, ac ar gyfartaledd derbyniodd y ddau radd o 5.8 o ran pwysigrwydd.

*Tabl 19. Eitemau Cwestiwn 4b wedi'u Trefnu yn ôl Sgôr Pwysigrwydd*

| | Sgôr | Gradd Gyfartalog |
|---|---|---|
| Ansawdd Addysg | 102 | 1.1 |
| Perthynas rhwng Rhieni ac Athrawon | 251 | 2.8 |
| Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel | 326 | 3.6 |
| Datblygiad Ysbrydol a Moesol | 362 | 4.0 |
| Pellter Teithio | 434 | 4.8 |
| Gwerthoedd Cristnogol | 521 | 5.8 |
| Darpariaethau Ychwanegol | 524 | 5.8 |

## Cwestiwn 5: Sylwadau Ychwanegol

O'r 159 o ymatebwyr, dewisodd 24 ohonynt gynnwys sylwadau ychwanegol yn yr adran hon. Dosbarthwyd hwy i un o dri dosbarth a cheir trafodaeth arnynt isod.

### *Crefydd ac Addysg*

O'r 24 ymateb i Gwestiwn 5, roedd eu hanner yn ymwneud â'r berthynas rhwng crefydd ac addysg, tra roedd y gweddill yn ymwneud ag agweddau o addysg nad ydynt yn berthnasol i grefydd, ac fe'u trafodir isod. Roedd un o'r ymatebwyr yn teimlo fod ei ysgol

(Ysgol Ffridd y Llyn) yn rhagorol, ond roedd yn pryderu "bod y traddodiad cryf o addysg Gristnogol yn y wlad hon yn diflannu’n raddol”. Roedd dau o’r farn y dylai rhieni gael yr hawl i anfon eu plant i ysgolion sy’n darparu addysg wedi’i hintegreiddio â chrefydd, waeth beth fo’u crefydd. Roedd un rhiant yn bryderus iawn nad oedd disgyblion sy’n mynychu Ysgol Beuno Sant yn ymwneud digon â’r Eglwys ac nad ydynt yn mynychu’n rheolaidd. Dywedodd eraill eu bod o blaid ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan yr Eglwys, a theimlant nad oedd yr holiadur yn adlewyrchu'r cysylltiadau cryf rhwng yr Eglwys a'r ysgol. Roeddynt yn teimlo'n gryf fod yr holiadur yn eu gorfodi i ddewis rhwng crefydd ac ansawdd yr addysg.

Roedd eraill yn teimlo i’r gwrthwyneb. Nododd un rhiant ei fod yn Gristion, ond nad oedd yn teimlo fod gan yr Eglwys rôl mewn addysg yng Nghymru, a theimlai fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd bychain sy’n mynychu Ysgol Beuno Sant. Roedd eraill o’r farn fod ffactorau megis Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm, a’r gallu i gael cyfarwyddyd ysbrydol a chrefyddol yn yr eglwys, yn golygu nad oedd angen integreiddio ymhellach rhwng yr Eglwys ac addysg.

## *Ansawdd yr Addysg*

Mynegodd nifer o ymatebwyr eu bod yn fodlon â safon yr addysg ar hyn o bryd, neu cynigwyd ffyrdd i wella ganddynt. Nodwyd gan rai ei bod hi’n bwysig bod addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd un o’r farn ei bod hi’n bwysig iddi fod yn addysg wledig. Cred rhai fod dosbarthiadau bychain yn bwysig, tra bod eraill yn teimlo y dylai pob dosbarth gael yr un athrawon trwy’r amser gan bwysleisio gwerth staff dysgu da. Pwysleisiodd un o’r rhieni bwysigrwydd y chweched dosbarth yn Ysgol y Berwyn.

## *Cymuned*

Nododd rhai o’r ymatebwyr hefyd ei bod hi’n bwysig i dref y Bala gadw ei hysgol uwchradd, ac y dylai hefyd agor fel canolfan ddysgu oedolion i gael datblygiad personol o fewn y gymuned. Awgrymodd un y byddai’n ddefnyddiol pe bai ysgolion yn medru derbyn plant am gyfnodau o hanner diwrnod cyn iddynt gychwyn yn llawn amser, ac y byddai hyn yn fuddiol i rieni sy’n gweithio.

# Adran 3. Trafodaeth

Bwriad yr holiadur oedd casglu barn y rhieni o ran yr amrywiol elfennau sy'n eu harwain at ddewis ysgol i'w plant, ac i asesu'r angen am sefydliad addysg wedi'i redeg gan Gyngor Gwynedd ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru. Rhoddwyd un holiadur i bob plentyn ym mhob ysgol, ac o'r tua 674 o holiaduron (yn seiliedig ar ffigyrau Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013) a fyddai wedi'u dosbarthu, daeth 160 ohonynt yn ôl (23.7%). Mae cyfraddau ymateb i holiaduron yn dueddol o fod yn isel, ond gan gofio ei bod yn bosib fod gan rieni fwy nag un plentyn ym mhob ysgol (neu yn achos 31 o'r ymatebion, o leiaf un plentyn mewn ysgol gynradd ac un plentyn yn Ysgol y Berwyn), gallwn ragdybio'n eithaf siŵr fod y 160 o ymatebwyr yn rieni i fwy na 160 o blant. Roedd nifer yr ymatebion a ddaeth o Ysgol y Berwyn yn unig (heb blant mewn ysgol gynradd) yn syfrdanol o isel (9.4%). Mae'r rhesymau am hyn yn aneglur, ond fe all gynrychioli fod rhieni'r plant hynny sy'n mynychu ysgol uwchradd yn amharod i roi eu barn ar fater sydd ond yn effeithio ar ysgolion cynradd. Wrth ystyried nifer yr ymatebwyr sydd â phlant sy'n mynychu ysgol gynradd ac Ysgol y Berwyn, mae nifer y rhieni sydd â phlant sy'n mynychu Ysgol y Berwyn yn cynyddu i 61, neu 19.1% o'r tua 319 o holiaduron a ddosbarthwyd.

O ran iaith yr ymatebion, fe wnaeth 59.4% lenwi'r holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg, a 40.6% yn Saesneg. Er nad yw hyn yn adlewyrchu defnydd iaith aelwydydd, mae'r ffigyrau hyn yn ymdebygu'n fawr i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn awgrymu fod 56% o bobl Gwynedd yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. O'r herwydd, er gwaethaf maint gweddol fychan y sampl, byddai modd casglu fod y sampl yn adlewyrchu cyfansoddiad y boblogaeth o ran y defnydd o iaith, ei fod yn lled gynrychioli'r boblogaeth hon ac yn adlewyrchu barn rhieni sydd â phlant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd lleol. Fodd bynnag, gan ystyried y gwahaniaeth yn nifer yr ymatebwyr sydd â phlant mewn ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd, mae'n debygol na ellid gwneud unrhyw gymhariaeth ystyrlon rhwng y cynradd a'r uwchradd.

## Ansawdd yr Addysg

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau, roedd yr ymatebwyr yn tueddu i nodi mai'r dylanwad pwysicaf wrth ddewis ysgol yw ansawdd yr addysg. Wrth ymateb i Gwestiwn 3, lle'r oedd

gofyn i ymatebwyr nodi pa un o'r pedwar datganiad oedd yn cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol, nododd 76.9% ohonynt "*yr unig beth sy'n bwysig i mi yw fod fy mhlentyn yn cael addysg dda*", gyda nifer o rieni'n gwneud sylwadau i'r perwyl hwn, megis, *"Our child's education is the most important thing to us as a family"*.

Roedd nifer fechan o'r ymatebwyr yn teimlo fod cwestiwn 3 yn eu gorfodi i ddewis rhwng addysg Gristnogol ac addysg o ansawdd uchel, gan ddadlau na fyddai neb yn dewis ysgol grefyddol sy'n darparu addysg wael. Fodd bynnag, yng Nghwestiwn 4a, gofynnwyd i'r rhieni restru pwysigrwydd ansawdd addysg wrth ddewis ysgol ar raddfa pedwar pwynt, a nododd 95.6% ohonynt ei fod yn "Bwysig Iawn", gyda 4.4% yn nodi ei fod yn "Bwysig". Ni wnaeth neb nodi "Ddim yn Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl". Pan ofynnwyd yng Nghwestiwn 4b iddynt raddio'r saith eitem o 1 i 7, gyda rhif 1 yn dynodi'r eitem bwysicaf, nododd 93.3% mai'r eitem hon oedd y pwysicaf. Y radd isaf a dderbyniodd yr eitem oedd 5ed o 7. Pan roddwyd sgoriau i'r graddau hyn (gweler Tabl 19), daeth *Ansawdd yr Addysg* yn gyntaf, gyda gradd gyfartalog o 1.1, mwy nag un radd gyfan yn uwch na'r eitem oedd yn y safle nesaf. Yn amlwg, yn seiliedig ar y data hwn, *Ansawdd yr Addysg* oedd y ffactor pwysicaf i bron iawn pob un o'r ymatebwyr.

Os y cytunir yn gyffredinol mai *Ansawdd yr Addysg* yw'r ffactor pwysicaf wrth ddewis ysgol, mae'r ffactorau sy'n galluogi hyn hefyd yn derbyn gradd uchel. O ran graddau cyfartalog (gweler Tabl 19), yr eitem a dderbyniodd yr ail radd uchaf (cyfartaledd o 2.8) oedd *Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon,* gydag *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* yn drydydd (cyfartaledd o 3.6). Fodd bynnag, *Darpariaethau Ychwanegol*, megis clybiau brecwast, ddaeth yn olaf, gyda gradd gyfartalog o 5.8. Ymddengys fod rhieni'n rhoi pwyslais uchel ar elfennau sy'n cyfrannu at addysg o ansawdd uchel, ond eu bod yn teimlo nad yw clybiau allgyrsiol yn ychwanegu fawr o werth i'r profiad addysgol.

## Rôl Crefydd wrth Ddewis Ysgol

Yng Nghwestiwn 3, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa ddatganiad oedd yn cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol i'w plant. Roedd modd i'r rhieni ymateb eu bod yn dymuno anfon eu plentyn i ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, eu bod yn

dymuno anfon eu plentyn i ysgol sy’n cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru, bod cynnal ysgolion ar y cyd â'r Eglwys yn bwysig i ddarparu dewis i rieni (nid o reidrwydd hwy eu hunain), neu mai'r unig beth sy'n bwysig yw ansawdd yr addysg.

O’r ymatebwyr wnaeth ateb y cwestiwn, nododd 16% eu bod yn dymuno i’w plentyn fynychu ysgol sy’n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, gan awgrymu difaterwch o ran mynychu ysgol gydag elfen grefyddol. Ysgrifennodd un o’r ymatebwyr eu bod yn poeni am rôl yr Eglwys yn y broses o benderfynu ar ddarpariaeth addysg. Roedd nifer y rhieni hyn yn fwy na’r nifer a atebodd ei bod yn bwysig i’w plant fynychu ysgol sy’n cael ei chynnal ar y cyd â’r Eglwys, neu fod gan rieni y dewis i anfon eu plant i’r ysgolion hyn, cyfanswm o 7.1%. Fodd bynnag, nododd y mwyafrif o’r ymatebwyr (76.9%) mai’r unig beth oedd yn bwysig iddynt hwy oedd ansawdd addysg eu plant.

Wrth edrych ar hyn yn unigol, nid yw o reidrwydd yn awgrymu fod yna ddiffyg galw am ysgolion sy’n cael eu cynnal ar y cyd â’r Eglwys, dim ond bod 16% o'r sampl yn ymddangos yn ddifater ynghylch y syniad, neu nad oeddynt eisiau i'w plant fynychu un. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi fod 59.5% o bobl Gwynedd a 64.8% o bobl ardal y Bala yn ystyried eu hunain yn Gristnogion (nid yw'r data enwadol ar gael), ac mae Cwestiwn 4a yn adlewyrchu hyn yn fras. Pan ofynnwyd iddynt restru pwysigrwydd *Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol yn Greiddiol i fywyd yr Ysgol* ar raddfa pedwar pwynt, roedd yr ymatebion bron iawn wedi’u rhannu’n hafal, gydag ychydig mwy yn nodi ei fod naill ai’n “Bwysig Iawn" neu’n “Bwysig” (53.9%) o gymharu â naill ai "Ddim yn Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl" (46.1%). Wrth edrych ar y rhai hynny a ddywedodd eu bod yn dymuno i’w plant fynychu ysgol sy’n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, nododd 39.1% fod Gwerthoedd Cristnogol yn “Bwysig”, ond dim ond tri ohonynt (12%) wnaeth nodi nad oedd hynny’n “bwysig o gwbl”.

Roedd y rhai hynny a nododd mai’r unig beth sy’n bwysig yw *Ansawdd yr Addysg* wedi’u rhannu bron yn union rhwng y rhai hynny a nododd fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n ”Bwysig Iawn” neu’n “Bwysig”, a'r rhai hynny oedd yn teimlo eu bod naill ai “Ddim yn Bwysig” neu “Ddim yn Bwysig o Gwbl” (52.1% o gymharu â 47.9% yn ôl eu trefn). Felly, ymddengys fod nifer o rieni’n dymuno cael rhyw elfen o *Werthoedd Cristnogol* yn ysgol eu plentyn, hyd yn oed os nad oedd yr ysgol yn cael ei chynnal ar y cyd â’r Eglwys yn ffurfiol.


Yng Nghwestiwn 4b gofynnwyd i rieni restru, yn ôl trefn eu pwysigrwydd, 7 ffactor all ddylanwadu ar eu penderfyniad wrth ddewis ysgol. Dim ond dau o'r bobl oedd wedi ymateb yn gywir i'r holiadur wnaeth nodi fod *Y Disgwyliad Ffurfiol o Werthoedd Cristnogol* yn dod yn gyntaf yn eu rhestr. Yn wir, fe wnaeth 84.5% nodi fod pwysigrwydd yr eitem hon o dan y canolrif (5ed, 6ed neu 7fed). O'r sawl wnaeth nodi fod *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig Iawn" yng Nghwestiwn 4a (ac wedi llenwi 4b yn llwyddiannus), rhoddodd 3 ohonynt (50%) radd o un ai 5ed neu 6ed allan o saith i'r eitem. O'r sawl wnaeth nodi fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" yng nghwestiwn 4a ac a lenwodd 4b yn llwyddiannus, rhoddodd 69.6% ohonynt radd o 5ed neu is i'r eitem, gyda 15.2% yn ei graddio'n 7fed. O'r sawl a nododd nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl", ac a lenwodd 4b, rhoddodd pawb radd o 5ed neu is i'r eitem, gydag 81% ohonynt yn ei gosod yn 7fed.

Mae'n glir fod oddeutu hanner yr ymatebwyr yn credu fod *Gwerthoedd Cristnogol* o leiaf yn "Bwysig", fodd bynnag, mae'n ymddangos er eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, nad ydynt yn cael eu hystyried i fod cyn bwysiced â *Pherthynas Dda gyda'r Athrawon*, neu *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* i addysg eu plant. Diddorol felly yw cymharu perfformiad yr eitem *Gwerthoedd Cristnogol* gyda'r eitem nesaf yn y rhestr, "*Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant*". Derbyniodd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* radd uwch na *Gwerthoedd Cristnogol* ym mhob ymateb, gyda 85.2% yn nodi fod *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" (o gymharu â 53.9% ar gyfer *Gwerthoedd Cristnogol*). Derbyniodd yr eitem hon raddau uchel gan bobl a oedd wedi nodi nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn bwysig wrth ddewis ysgol. O ran y bobl a nododd nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl", nododd 71.4% ohonynt fod *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* naill ai'n "Bwysig" neu'n "Bwysig Iawn" (54.3% o gymharu â 171% yn ôl eu trefn).

O gymharu â'r data ar *Werthoedd Cristnogol*, roedd graddau pwysigrwydd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* wedi cael eu dosbarthu'n fwy cytbwys (gweler Ffigwr 16). Roedd ymatebwyr yn tueddu i osod yr eitem yn 5ed neu'n is yn llai aml na'r eitem *Gwerthoedd Cristnogol* (37.7% o ymatebion *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* wedi'u gosod yn 5ed neu'n is

o gymharu â 84.5% ar gyfer *Gwerthoedd Cristnogol*), a gosododd 41.1% ohonynt yr eitem yn 1af, 2il neu'n 3ydd (2.2%, 15.6% a 23.3% yn ôl eu trefn) o ran pwysigrwydd.

*Ffigwr 16. Cymharu Gwerthoedd Cristnogol a Datblygiad Ysbrydol a Moesol ar draws y Graddau Pwysigrwydd*




| | 1st | 2nd | 3rd | 4th | 5th | 6th | 7th |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Christian Values | 2% | 7% | 0% | 7% | 17% | 21% | 47% |
| Spiritual/Moral Development | 2% | 16% | 23% | 21% | 14% | 21% | 2% |

Wrth gymharu'r graddau pwysigrwydd yn Nhabl 16, gwelwn fod gan Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol radd gyfartalog o 4.0, tra bod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u gosod bron i ddwy radd yn is, gyda gradd gyfartalog o 5.8. Unwaith eto, er bod ychydig dros hanner y rhieni wedi nodi fod Gwerthoedd Cristnogol yn bwysig iddynt, ymddengys bod yr eitem yn cael ei gosod yn is na Datblygiad Ysbrydol a Moesol o ran pwysigrwydd, sydd ei hun yn eitem llai pwysig nag ansawdd yr addysg, yn ogystal â'r adnoddau sy'n galluogi hynny.

## Sylwadau i Gloi

Mae'r holiadur a ddosbarthwyd i rieni dalgylch y Berwyn yn adnabod nifer o bwyntiau pwysig sy'n berthnasol i anghenion addysgol disgyblion a rhieni, yn ogystal â dyfodol darpariaeth addysg yr ardal. Mae tri prif bwynt yn deillio o'r dadansoddiad.

1. Mae’r rhan fwyaf o rieni’n credu mai ansawdd yr addysg y mae eu plant yn ei derbyn yw’r ffactor pwysicaf wrth ddewis ysgol. Derbyniodd hwn bwyslais arbennig o uchel ac fe'i nodwyd fel y ffactor pwysicaf un gan bron i bob un o'r rhieni. Ymddengys bod y rhieni’n credu fod perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon a chyfleusterau o safon uchel yn yr ysgolion yn hollbwysig ar gyfer darparu addysg ragorol, o ystyried eu graddau uchel a'u bod wedi'u gosod yn ail a thrydydd i ansawdd yr addysg.
2. Mae rhieni’n credu fod ffactorau megis y pellter i’r ysgol a darpariaethau ychwanegol yn bwysig wrth ddewis ysgol. Fodd bynnag, o gymharu â ffactorau eraill, nid ydynt mor bwysig â ffactorau megis ansawdd cyfleusterau'r ysgol a datblygiad ysbrydol a moesol yn yr ysgol.
3. Mae llawer o rieni hefyd yn credu fod datblygiad ysbrydol a moesol eu plant yn ffactor pwysig wrth ddewis ysgol. Mae tueddiad i hyn gael ei osod yn bwysicach nac ymgorfforí Gwerthoedd Cristnogol yn addysg eu plant, hyd yn oed i rieni nad ydynt yn teimlo fod integreiddio gwerthoedd Cristnogol yn benodol yn bwysig iddynt. Er gwaethaf hyn, roedd ychydig dros hanner y rhieni (53.9%) yn teimlo ei bod hi’n bwysig neu’n bwysig iawn ymgorffori rhyw ffurf ar werthoedd Cristnogol yn addysg eu plentyn, ac nid ydynt o bosib yn gwrthwynebu’r syniad o gael addysg mewn ysgol sy’n cael ei chynnal gan yr Eglwys yng Nghymru.
4. Gan ystyried fod mwy na thri chwarter (76.9%) y rhieni’n dweud mai’r unig beth sy’n bwysig iddynt hwy wrth ddewis ysgol yw ansawdd yr addysg, mae’n deg tybio nad yw mwyafrif y rhieni yn nalgylch y Berwyn o reidrwydd yn pryderu p’un a yw ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd neu gan yr Eglwys yng Nghymru, cyn belled â bod yr ysgol yn darparu’r addysg orau bosib. Ar gyfer y mwyafrif hwn o rieni, mae’n amlwg mai ansawdd yr addysg yw’r flaenoriaeth, waeth pwy sy’n ei darparu.

## Atodiad A: Mwy o Dablau Data

Mae'r atodiad a ganlyn yn darparu dadansoddiad o'r sgoriau a'r graddau a roddwyd i bob eitem yng Nghwestiwn 3, 4a a 4b fesul ysgol. Mae'r holl gyfansymiau yn cynrychioli cyfanswm yr ymatebion fesul ysgol. Caiff eitemau sydd yr un fath yng Nghwestiynau 4a a 4b eu cynnwys ar yr un dudalen er mwyn cymharu eu sgôr a'u gradd. Noder fod yr ymatebwr nad oedd wedi cynnwys enw ysgol wedi cael ei eithrio o'r tablau hyn.

*Tabl 20: Cwestiwn 3, Pa Ddatganiad Sy'n Cyfleu Barn Orau Wrth Ddewis Ysgol, Fesul Ysgol*



| | Plentyn yn Mynychu Ysgol a Gynhelir gan Gyngor Gwynedd yn Unig | | Plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru | | Ysgol yn cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru i roi'r Dewis i Rieni | | Yr unig beth sy'n Bwysig yw Addysg Dda | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Beuno Sant | | | 1 | 6.7% | 3 | 20% | 11 | 73.3% | 15 |
| Ysgol Bro Tegid | 14 | 36.8% | | | | | 24 | 63.2% | 38 |
| Ysgol Bro Tryweryn | 1 | 4.2% | 1 | 4.2% | | | 22 | 91.7% | 24 |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 1 | 6.3% | | | 3 | 18.8% | 12 | 75.0% | 16 |
| Ysgol OM Edwards | 6 | 18.8% | | | 1 | 3.1% | 25 | 78.1% | 32 |
| Ysgol y Berwyn | 3 | 9.8% | | | 2 | 6.5% | 26 | 83.9% | 31 |

## Cwestiwn 4a a 4b: Ansawdd yr Addysg

*Tabl 21: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg, Fesul Ysgol*

| | Pwysig Iawn | | Pwysig | | Ddim yn Bwysig | Ddim yn Bwysig o Gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Beuno Sant | 14 | 87.5% | 2 | 12.5% | | | 16 |
| Ysgol Bro Tegid | 36 | 94.7% | 2 | 5.3% | | | 38 |
| Ysgol Bro Tryweryn | 25 | 100.0% | | 0.0% | | | 25 |
| Ysgol Ffridd y Llyn | 15 | 100.0% | | 0.0% | | | 15 |
| Ysgol OM Edwards | 31 | 96.9% | 1 | 3.1% | | | 32 |
| | **1,541** | **1,579** | **38** | | **38** | *27* |

Y sefyllfa gorwariant terfynol wedi gwaethygu ers y trydydd chwarter, a'r cyfanswm yn cynnwys costau staffio uwch dros dro o £24k, a gostyngiad incwm o £14k.

# CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: ECONOMI A CHYMUNED

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **2,717** | **2,669** | **(48)** | | **(48)** | *(13)* |

Mae'r tanwariant net (£48k) yma'n adlewyrchu nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd, ond yn arbennig tanwariant (£10k) ar Ddatblygu Chwaraeon, tanwariant (£7k) ar Reolaeth, tanwariant (£18k) gan y Tîm Prosiectau Strategol, a thanwariant (£11k) gan y Gwasanaeth Celfyddydau.

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (cynnwys Asiantaeth Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| Gwasanaeth Priffyrdd | **9,577** | **9,547** | **(30)** | **0** | **(30)** | *(30)* |
| Gorfodaeth Stryd | **327** | **302** | **(25)** | **0** | **(25)** | *(13)* |
| Tiroedd Agored | **391** | **372** | **(19)** | **0** | **(19)** | *41* |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo Gwastraff | **1,205** | **1,360** | **155** | **0** | **155** | *106* |
| Casglu Gwastarff ac Ailgylchu | **3,389** | **3,365** | **(24)** | **0** | **(24)** | *34* |
| Gwastraff Masnachol | **(57)** | **(62)** | **(5)** | **0** | **(5)** | *42* |
| Safleoedd Gwaredu - Ôl-Ofalaeth | **(29)** | **(91)** | **(62)** | **0** | **(62)** | *(16)* |
| Eraill Gwastraff | **4,313** | **4,280** | **(33)** | **0** | **(33)** | *2* |
| Eraill (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | **4,107** | **4,101** | **(6)** | **0** | **(6)** | *1* |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **23,223** | **23,174** | **(49)** | **0** | **(49)** | *167* |

Sefyllfa tanwariant terfynol o (£49k) sy'n newid go sylweddol o (£216k) o'r gorwariant a ragwelwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

**Gwasanaeth Priffyrdd**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **9,577** | **9,547** | **(30)** | | **(30)** | *(30)* |

Y darlun terfynol yn gyson â'r rhagolygon trydydd chwarter, sef tanwariant o (£30k) yn bennaf oherwydd arbedion staffio un-tro o ganlyniad i gyflawni rhai cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**Gorfodaeth Stryd**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **327** | **302** | **(25)** | | **(25)** | *(13)* |

Sefyllfa tanwariant yn dilyn arbedion staffio un-tro.

**Tiroedd Agored**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **391** | **372** | **(19)** | | **(19)** | *41* |

Newid o (£60k) yn sefyllfa'r pennawd yma ers adolygiad y trydydd chwarter, o ganlyniad i ostyngiad mewn costau fflyd (£25k) ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol o (£35k).

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

### Maes Gwastraff

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Safleoedd Trin a Throsglwyddo Gwastraff** | **1,205** | **1,360** | **155** | | **155** | *106* |

Yn yr adolygiad trydydd chwarter, rhagwelwyd gorwariant o £106k yn bennaf oherwydd gostyngiad incwm sylweddol o werthiant deunyddiau ailgylchu. Mae'r sefyllfa derfynol wedi gwaethygu i orwariant o £155k, oherwydd gostyngiad incwm pellach, ynghyd â chynnydd mewn costau gweithredol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Casglu Gwastarff ac Ailgylchu** | **3,389** | **3,365** | **(24)** | | **(24)** | *34* |

Newid o (£50k) yn y sefyllfa yn ystod y pedwerydd chwarter, yn cynnwys gwahaniaethau ar nifer o benawdau, ond yn gyffredinol yn adlewyrchu gostyngiad mewn costau gweithredol perthnasol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Gwastraff Masnachol** | **(57)** | **(62)** | **(5)** | | **(5)** | *42* |

Y darlun wedi newid (£47k) ers yr adolygiad trydydd chwarter, o ganlyniad i dderbyniad incwm allanol ychwanegol (£30k), ynghyd a thanwariant (£18k) ar gyflenwadau. Mae'r sefyllfa terfynol wedi newid i danwariant o (£5k).

# CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd Gwaredu - Ôl-Ofalaeth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **(29)** | **(91)** | **(62)** | | **(62)** | *(16)* |

Mae'r sefyllfa tanwariant a ragwelwyd yn flaenorol wedi cynyddu (£42k) yn y chwarter olaf, a'r tanwariant terfynol (£62k) yn adlewyrchu gostyngiad mewn costau trin elifiant a chynnal y safleoedd.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eraill Gwastraff** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **4,313** | **4,280** | **(33)** | | **(33)** | *2* |

Sefyllfa tanwariant net (£33k) sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eraill (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **4,107** | **4,101** | **(6)** | | **(6)** | *1* |

Sefyllfa net sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| Rheolaeth Datblygu | **379** | **304** | **(75)** | **0** | **(75)** | *(51)* |
| Cynllunio Ymlaen | **(89)** | **1** | **90** | **0** | **90** | *1* |
| Gwasanaeth Parcio | **(1,189)** | **(1,289)** | **(100)** | **0** | **(100)** | *(40)* |
| Cludiant Integredig | **1,376** | **1,525** | **149** | **0** | **149** | *184* |
| Gweithredu Gwledig | **188** | **220** | **32** | **0** | **32** | *20* |
| Gwarchod y Cyhoedd | **1,879** | **1,849** | **(30)** | **0** | **(30)** | *(52)* |
| Datblygu Beicio | **27** | **6** | **(21)** | **0** | **(21)** | *(20)* |
| Eraill | **5,614** | **5,609** | **(5)** | **0** | **(5)** | *(23)* |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **8,185** | **8,225** | **40** | **0** | **40** | *19* |

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRAN: RHEOLEIDDIO

| Rheolaeth Datblygu | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **379** | **304** | **(75)** | | **(75)** | *(51)* |

Cynnydd (£24k) i sefyllfa tanwariant terfynol (£75k) sy'n adlewyrchu incwm ffioedd ychwanegol.

| Cynllunio Ymlaen | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **(89)** | **1** | **90** | | **90** | *1* |

Newid sylweddol yn y chwarter olaf o'r flwyddyn, yn bennaf oherwydd cyfraniadau refeniw tuag at wariant uwch yn y rhaglen gyfalaf.

| Gwasanaeth Parcio | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **(1,189)** | **(1,289)** | **(100)** | | **(100)** | *(40)* |

Cynnydd (£60k) i sefyllfa tanwariant terfynol (£100k) yn dilyn derbyniad incwm ffioedd ychwanegol o (£46k) a lleihad mewn costau cyffredinol o (£14k).

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cludiant Integredig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **1,376** | **1,525** | **149** | | **149** | *184* |

Gostyngiad o (£35k) mewn gorwariant i lawr i £149k, yn dilyn cyfuniad o dderbyniad incwm ychwanegol a lleihad mewn costau gweithredol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu Gwledig** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **188** | **220** | **32** | | **32** | *20* |

Sefyllfa gorwariant terfynol £32k ar y pennawd yma, yn adlewyrchu lleihad mewn grant allanol o £38k, a thanwariant o (£5k) ar nifer o benawdau cyffredinol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod y Cyhoedd** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **1,879** | **1,849** | **(30)** | | **(30)** | *(52)* |

Gostyngiad o (£22k) mewn tanwariant i sefyllfa terfynol (£30k), yn bennaf oherwydd costau fflyd ychwanegol.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: RHEOLEIDDIO**

| **Datblygu Beicio** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **27** | **6** | **(21)** | | **(21)** | *(20)* |

Sefyllfa sy'n weddol gyson â'r darlun trydydd chwarter. Bu tanwariant oherwydd arbedion costau staff un-tro o ganlyniad i wireddu cynllun arbedion yn gynnar.

| **Eraill** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **5,614** | **5,609** | **(5)** | | **(5)** | *(23)* |

Sefyllfa lled-niwtral sy'n cynnwys nifer o fân wahaniaethau ar sawl pennawd.

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

| Crynhoad o Sefyllfa'r Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| Gwasanaeth Ffyrdd a Pheirianneg | **(403)** | **(417)** | **(14)** | **0** | **(14)** | *56* |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | **385** | **378** | **(7)** | **0** | **(7)** | *(14)* |
| Gwasanaeth Adeiladu | **103** | **103** | **0** | **0** | **0** | *13* |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **85** | **64** | **(21)** | **0** | **(21)** | *55* |

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

**ADRAN: YMGYNGHORIAETH**

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Gwasanaeth Ffyrdd a Pheirianneg** | **(403)** | **(417)** | **(14)** | | **(14)** | *56* |

Newid o (£70k) yn y chwarter olaf i sefyllfa tanwariant net terfynol (£14k), a gyflawnwyd drwy dderbyniad incwm ffioedd ychwanegol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Uned Rheoli Risg Llifogydd** | **385** | **378** | **(7)** | | **(7)** | *(14)* |

Sefyllfa tanwariant terfynol (£7k) oherwydd arbedion staffio un-tro.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Gwasanaeth Adeiladu** | **103** | **103** | **0** | | **0** | *13* |

O fewn sefyllfa net niwtral, mae gorwariant £22k gan yr Uned Adeiladau Peryglus, a thanwariant (£28k) gan Reolaeth Adeiladau, yn bennaf o ganlyniad i dderbyn incwm ffioedd ychwanegol.

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| Adran y Prif Weithredwr | **2,228** | **2,164** | **(64)** | **0** | **(64)** | *(110)* |
| Adran Cyllid | **6,090** | **6,052** | **(38)** | **0** | **(38)** | *(34)* |
| Adran Adnoddau Dynol | **2,824** | **2,760** | **(64)** | **0** | **(64)** | *(33)* |
| Adran Strategol a Gwella | **4,863** | **4,769** | **(94)** | **0** | **(94)** | *(78)* |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **16,005** | **15,745** | **(260)** | **0** | **(260)** | *(255)* |

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRANNAU CANOLOG

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran y Prif Weithredwr** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **2,228** | **2,164** | **(64)** | | **(64)** | *(110)* |

Gostyngiad £46k o'r rhagolwg tanwariant blaenorol, gyda'r sefyllfa derfynol yn cynnwys arbedion staffio un-tro (£9k) ac arbedion ar wasanaethau a chyflenwadau (£9k) ar Reolaeth a Gweinyddol, tanwariant (£18k) gan yr Uned Gyfathrebu yn bennaf oherwydd arbedion staffio, tanwariant (£38k) ar wasanaethau a chyflenwadau, a lleihad incwm o £35k. Cynhwysir hefyd tanwariant net (£12k) gan yr Uned Gyfreithiol oherwydd derbyniad incwm ychwanegol o (£28k), ond hefyd gorwariant o £17k ar wasanaethau a chyflenwadau.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Cyllid** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | **6,090** | **6,052** | **(38)** | | **(38)** | *(34)* |

Mae'r sefyllfa tanwariant terfynol (£38k) yn weddol gyson â'r darlun a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, ac yn adlewyrchu nifer o wahaniaethau. Mae'n cynnwys tanwariant (£57k) gan yr Unedau Cyfrifeg (arbedion staffio un-tro ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol), tanwariant (£38k) gan Archwilio Mewnol (arbedion staffio ac incwm ychwanegol un-tro), gorwariant £108k ar wasanaethau a chyflenwadau Casglu Trethi, (yn bennaf meddalwedd a ffioedd llys), incwm ychwanegol (£31k) er gwaethaf lleihad yn y Sybsidi Budd-dal, tanwariant staffio un-tro o (£36k) yn yr Uned Incwm, a gorwariant net o £26k gan Technoleg Gwybodaeth (sef nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd).

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## ADRANNAU CANOLOG

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Adran Adnoddau Dynol** | **2,824** | **2,760** | **(64)** | | **(64)** | *(33)* |

Cynnydd (£31k) o'r rhagolygon tanwariant blaenorol o (£33k) i lefel tanwariant terfynol o (£64k) sy'n cynnwys gorwariant £31k ar Reolaeth, gorwariant £21k gan yr Argraffdy, tanwariant un-tro (£24k) ar staffio gan Iechyd a Diogelwch, tanwariant (£47k) ar Wasanaethau Cefnogol (arbedion trosiant staff un-tro eto), tanwariant (£17k) gan yr Uned Cefnogi Arlwyaeth a Glanhau, a hefyd derbyniad incwm ychwanegol (£28k) o gontractau allanol.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| **Adran Strategol a Gwella** | **4,863** | **4,769** | **(94)** | | **(94)** | *(78)* |

Cynnydd (£16k) o'r rhagolygon blaenorol i sefyllfa tanwariant terfynol (£94k), sy'n cynnwys arbedion staffio un-tro a rhai gwahaniaethau ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr Adran. Bu tanwariant (£21k) gan yr Uned Reolaeth, tanwariant (£14k) gan yr Uned Cydraddoldeb, tanwariant (£17k) gan yr Uned Caffael, tanwariant (£20k) gan yr Uned Democratiaeth, tanwariant (£9k) gan yr Uned Gyfiieuthu, a thanwariant (£13k) gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth.

**CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL**

| **Crynhoad o Sefyllfa'r Cyllidebau Corfforaethol (adroddir yma ar yr elfennau ychwanegol yn unig)** | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| Cynlluniau Arbedion | **0** | **0** | **263** | **0** | **263** | *221* |
| Cost Ychwanegol ar gyfer Darpariaethau Posib | **0** | **0** | **708** | **0** | **708** | *0* |
| Budd-daliadau | **0** | **0** | **(295)** | **0** | **(295)** | *(245)* |
| Derbyniad Llog Net | **0** | **0** | **(27)** | **0** | **(27)** | *(31)* |
| Costau Cyfalaf Corfforaethol | **0** | **0** | **(108)** | **0** | **(108)** | *(93)* |
| Treth Cyngor | **0** | **0** | **(185)** | **0** | **(185)** | *(204)* |
| Ad-Daliad o Dreth ar Werth | **0** | **0** | **(150)** | **0** | **(150)** | *(150)* |
| Eraill | **0** | **0** | **29** | **0** | **29** | *(59)* |
| Defnydd o Gronfa Rhaglen Arbedion Corfforaethol | **0** | **0** | **0** | **(235)** | **(235)** | *0* |
| **Cyfanswm Gwahaniaethau** | **0** | **0** | **235** | **(235)** | **0** | *(561)* |

# CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

## CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

**Cynlluniau Arbedion**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | **263** | | **263** | *221* |

Sefyllfa gorwariant net o £263k ar y pennawd yma. Fel a adroddwyd yn y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2015-16 mae hyn yn cynnwys rhai cynlluniau corfforaethol na ellir eu cyflawni, cynlluniau eraill yn llithro ac angen cymorth pontio am 2014/15, a chynlluniau eraill a gyflawnwyd ymlaen llaw o'r targed ar gyfer 2015-2018.

**Cost Ychwanegol ar gyfer Darpariaethau Posib**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | **708** | | **708** | *0* |

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol, rhaid adolygu'r swm tebygol i'w ddarparu ar gyfer posibilrwydd o alwadau yn erbyn y Cyngor, ac mae'r gost £708k yma uwchben y ddarpariaeth wreiddiol. Mae'r ychwanegiad yma yn cynnwys yn bennaf, darpariaeth i adlewyrchu sefyllfa achosion cyfreithiol yn erbyn y Cyngor.

**Budd-daliadau**

| Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | **(295)** | | **(295)** | *(245)* |

Yn unol â'r tueddiad a ragwelwyd yn flaenorol, bu tanwariant terfynol o (£295k).

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

### CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniad Llog Net** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **(27)** | | **(27)** | *(31)* |

Yn weddol gyson â'r rhagolygon blaenorol. Bu derbyniad llog ychwanegol o (£27k) am y flwyddyn, sy'n adlewyrchu sefyllfa'r farchnad ychydig mwy ffafriol o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn gynharach yn y flwyddyn.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cyfalaf Corfforaethol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **(108)** | | **(108)** | *(93)* |

Yn bennaf oherwydd derbyniad grant ychwanegol, bu lleihad mewn costau cyfalaf.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Treth Cyngor** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **(185)** | | **(185)** | *(204)* |

Sefyllfa 'tanwariant' (£185k) sy'n adlewyrchu cynnydd yn y cyfanswm taladwy ar yr holl gyfrifon Treth Cyngor.

## CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - ADOLYGIAD TERFYNOL

### CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ad-Daliad o Dreth ar Werth** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **(150)** | | **(150)** | *(150)* |

Ad-daliad Treth ar Werth yn berthnasol i gyfrifon Gwastraff Masnachol, yn dilyn llwyddiant hawliad y Cyngor yn erbyn Cyllid a Thollau E.M.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Eraill** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **29** | | **29** | *(59)* |

Sefyllfa net derfynol sy'n cynnwys cyfuniad o amrywiol wahaniaethau.

| | Cyllideb Arfaethedig 2014/15 | Sefyllfa Terfynol 2014/15 | **Gor / (Tan) Wariant 2014/15** | Addasiadau a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | *Adolygiad Trydydd Chwarter* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd o Gronfa Rhaglen Arbedion Corfforaethol** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | *£'000* |
| | | | **0** | **(235)** | **(235)** | *0* |

**Argymhellir** defnyddio (£235k) o'r Balansau Cyffredinol er mwyn clirio'r diffyg net ar benawdau Corfforaethol.

# Eitem 8

**ADRODDIAD I'R CABINET**
2 MEHEFIN 2015

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET - ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2014/15 – 2016/17

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.5 o'r adroddiad, sef:

- lleihad £478,000 yn yr angen am grantiau a chyfraniadau;
- cynnydd £17,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf;
- lleihad £195,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw;
- cynnydd £169,000 mewn defnydd o gronfeydd.

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol fel rhan o broses cau cyfrifon 2014/15. Mae'r adroddiad mewn 3 rhan:

**Rhan 1**: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £92m am y 3 blynedd 2014/15 – 2016/17.

**Rhan 2**: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r lleihad net oddeutu £0.487m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf, felly ym mharagraff 2.6 gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2014/15 i 2015/16, a phroffil gwariant.

**Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa derfynol yw:

- Llwyddodd y Cyngor i wario bron i £37m ar gynlluniau cyfalaf yn 2014/15, ac y mae wedi denu dros £19m o grantiau penodol i'w ariannu.
- Bydd £15m o gyllideb gwariant yn llithro o 2014/15 i 2015/16, o'i gymharu â'r llithriad o £9.07m ar ddiwedd 2013/14. Er hynny, ni welir colled mewn grant, nac unrhyw ffynhonnell ariannu arall.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario cyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2014/15 - 2016/17, ac yn arbennig y symudiadau o 2014/15 i 2015/16.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

Adroddir ar oedi gyda rhai cynlluniau penodol (rhan 3), a gallasai'r pwyllgor craffu perthnasol ddewis asesu effaith yr ail-broffilio ar wasanaethau sydd wedi ymdopi'n hirach gyda'r "hen" asedau.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen fel bydd modd i'r Adran Cyllid symud ymlaen i gau cyfrifon ariannol y Cyngor ar gyfer 2014/15, gan gyhoeddi'r datganiadau statudol erbyn diwedd mis Mehefin.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Rwy'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r ffaith ei fod yn cynnwys sicrwydd am reolaeth o'r rhaglen a hefyd y ffaith nad oes unrhyw adnoddau wedi eu colli yn sgil unrhyw lithro. Mater ddylai gael sylw yw i ba raddau y mae unrhyw un o'r amryw o lithriadau a nodir yn yr adroddiad wedi effeithio ar ddeilliannau i drigolion. Awgrymaf y gallai hyn fod yn bwnc i wneud ymchwil iddo er gweld a oes yna unrhyw faterion yno y dylid eu craffu.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Dim

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2014/15 i 2016/17

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Mawrth 2015 yn erbyn y sefyllfa diwedd Rhagfyr 2014:

**CYMHARIAETH RHWNG Y TRYDYDD CHWARTER A DIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL**

| | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y CHWARTER DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | CYFANSWM | |
| **ADRAN** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adnoddau Dynol | 9 | 160 | 0 | 169 | 3 | 167 | 0 | 170 | 1 |
| Addysg | 5,217 | 17,649 | 13,333 | 36,199 | 4,905 | 16,013 | 15,275 | 36,193 | (6) |
| Cyllid | 898 | 954 | 0 | 1,852 | 788 | 976 | 0 | 1,764 | (88) |
| Economi a Chymuned | 5,698 | 4,037 | 610 | 10,345 | 4,746 | 4,891 | 610 | 10,247 | (98) |
| Tai | 2,808 | 2,211 | 0 | 5,019 | 2,870 | 2,180 | 0 | 5,050 | 31 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,030 | 1,641 | 0 | 2,671 | 930 | 1,744 | 0 | 2,674 | 3 |
| Plant a Theuluoedd | 550 | 0 | 0 | 550 | 556 | 0 | 0 | 556 | 6 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,677 | 3,609 | 989 | 11,275 | 6,164 | 4,205 | 989 | 11,358 | 83 |
| Rheoleiddio | 17,881 | 5,778 | 58 | 23,717 | 15,176 | 8,169 | 58 | 23,403 | (314) |
| Ymgynghoriaeth | 569 | 18 | 0 | 587 | 464 | 18 | 0 | 482 | (105) |
| **CYFANSWM** | **41,337** | **36,057** | **14,990** | **92,384** | **36,602** | **38,363** | **16,932** | **91,897** | **(487)** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae lleihad net o £0.487m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers y sefyllfa trydydd chwarter. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| FFYNHONNELL ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN | | | CYNNYDD/ (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | 2016/17 £000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | 2016/17 £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,122 | 6,630 | 6,543 | 4,122 | 6,630 | 6,543 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 6,539 | 7,562 | 1,329 | 4,472 | 6,156 | 4,802 | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 21,324 | 10,216 | 5,861 | 19,704 | 12,889 | 4,330 | (478) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,866 | 1,461 | 0 | 1,873 | 1,471 | 0 | 17 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 2,508 | 3,552 | 0 | 2,303 | 3,562 | 0 | (195) |
| Cronfa Cyfalaf | 866 | 4,029 | 200 | 156 | 4,739 | 200 | 0 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,112 | 2,607 | 1,057 | 3,972 | 2,916 | 1,057 | 169 |
| **CYFANSWM** | **41,337** | **36,057** | **14,990** | **36,602** | **38,363** | **16,932** | **(487)** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **92,384** | | | **91,897** | |

**2.2 Grantiau a Chyfraniadau**

Mae yna leihad net o £478,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cronfa Trafnidiaeth Leol (Adran Rheoleiddio)- (£176,640) yn 2014/15**
  Ariannwyd gwaith dichonoldeb ar gynlluniau A496 cyffordd Maentwrog/Blaenau Ffestiniog a Llanbedr drwy ddefnyddio £171,000 o grant Llywodraeth. Mae'r cynlluniau yma wedi costio llai na'r amcan gwreiddiol, sydd wedi arwain at leihad yn y grant angenrheidiol.
- **Cynlluniau Mawr (Adran Rheoleiddio) – (£97,810) yn 2014/15**
  Ariannwyd gwaith sylweddol (dros £1.276m hyd yma) ar gynllun gwella ffordd rhwng Pontbren a Nantygwenlli drwy ddefnydd o grant Trafnidiaeth Leol a Menter Benthyca Llywodraeth Leol y Llywodraeth. Mae'r cynlluniau yma wedi costio llai na'r amcan gwreiddiol, sydd wedi arwain at leihad yn y grant angenrheidiol.
- **Cyfleusterau Harbwr a Traeth Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) - (£50,000) yn 2014/15**
  Grant gan Croeso Cymru (y Llywodraeth) wedi ei drosglwyddo allan o'r rhaglen gyfalaf i ariannu gwariant refeniw cymwys i'r cynllun uchod.
- **Cynllun Adfywio Canol Blaenau Ffestiniog (Adran Economi a Chymuned) – (£38,670) yn 2014/15**
  Tanwariant ar y cynllun uchod wedi arwain at leihad yn y grant angenrheidiol gan y Llywodraeth.

**2.3 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £17,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf yn bennaf i ariannu costau gwerthu eiddo'r Cyngor gan yr Uned Eiddo (Adran Rheoleiddio).

**2.4 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Lleihad net o £195,000 yn y defnydd o refeniw adrannol, yn bennaf gan yr **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn 2014/15** -

- **Capio Cell 4 Ffridd Rasus (£120,000)** (gweler hefyd 2.5 isod)
  Defnydd o gronfa fewnol yn hytrach nag ariannu yn uniongyrchol o gyfraniad refeniw.
- **Cynlluniau Dŵr ar y Ffyrdd (£40,000)**
  Roedd yr Adran wedi bwriadu defnyddio refeniw adrannol fel ariannu cyfatebol ar gyfer denu grant gan y Llywodraeth i wireddu cynllun gwella system dŵr wyneb ym Mhenisarwaun. Nid oes cadarnhad wedi ei dderbyn am y grant, felly mae'r defnydd o'r refeniw adrannol wedi cael ei dynnu'n ôl am rŵan.
- **Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd (£30,000)** (gweler hefyd 2.5 isod)
  Defnydd o gronfa fewnol, yn hytrach nac ariannu yn uniongyrchol o gyfraniad refeniw.

**2.5 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £169,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd y cynlluniau canlynol:

- **Biniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – £142,320 yn 2014/15**
  Defnydd uwch o Gronfeydd Adnewyddu i ariannu pryniant biniau gwastraff, gweddillol a masnachol, oherwydd yr angen i adnewyddu yn gynharach na ragwelwyd yn wreiddiol.
- **Capio Cell 4 Ffridd Rasus (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – £120,000 yn 2014/15** (gweler hefyd 2.4 uchod)
  Defnydd o gronfa gwastraff penodol i'r pwrpas, yn hytrach na drwy refeniw.
- **Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd – £30,000** (gweler 2.4 uchod)
  Defnydd o gronfa benodol i'r pwrpas, yn hytrach na drwy refeniw.
- **Prosiect VOIP (Voice Over Internet Protocol) (Adran Gyllid) - (£90,030) yn 2014/15**
  Lleihau defnydd cyfalaf o'r gronfa benodol ar gyfer yr elfen cyfalaf o'r cynllun yma.

**2.6 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 i 2016/17 a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (manylion yn para. 2.2 i 2.5 uchod), sef:**

- **lleihad £478,000 yn yr angen am grantiau a chyfraniadau;**
- **cynnydd £17,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf;**
- **lleihad £195,000 mewn defnydd o gyfraniad refeniw;**
- **cynnydd £169,000 mewn defnydd o gronfeydd.**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2014/15 hyd at 2016/17 yw £14,972,330 o'i gymharu â £10,785,470 roedd wedi'i adnabod erbyn yr adolygiad trydydd chwarter. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn.

**3.2** Mae'r prif lithriadau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Adeiladau Dros Dro Ysgolion (Adran Addysg/Uned Eiddo) £669,670
- Cronfa Fflyd y Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £620,120
- Sustem Rheoli Gofal Cymunedol (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £572,500
- Sustem 'EDRMS' (*Electronic Document and Records Management System*) (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £508,250
- Cynlluniau Rheoli Carbon Adeiladau'r Cyngor (Adran Rheoleiddio/Uned Eiddo) £378,080
- Adnewyddu Offer Technoleg Gwybodaeth y Cyngor (Adran Gyllid) £323,960
- Adleoli Gwasanaeth Dydd Segontiwm (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £301,260
- Cerbydau Uned Darparu Priffyrdd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £283,000
- Trofeydd Twnnel Llanberis (Adran Rheoleiddio) £150,000
- Canolfan Adennill Deunyddiau Meirionnydd (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £122,940

Cynlluniau wedi'u hariannu (yn rhannol) drwy grantiau penodol:-

- Pont Briwet, Penrhyndeudraeth (Adran Rheoleiddio) £3,723,580
  *(erys elfen o risg ariannol i'r Cyngor gyda'r cytundeb, sy'n destun trafodaethau cyfredol rhwng y partïon).*
- Academi Hwylio Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £1,929,610
- Amgueddfa Oriel Gwynedd (Adran Economi a Chymuned) £1,181,970
- Ysgol Bro Llifon (Adran Addysg) £1,099,000
- Ysgol Hafod Lon Newydd (Adran Addysg) £717,150

**3.3** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled mewn grant.

**3.4** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

**3.5** Serch y lefel llithriadau uchod, bu gwir wariant yr holl adrannau ar eu cynlluniau cyfalaf ar ddiwedd y flwyddyn bron yn £37miliwn.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
2 Mehefin 2015

**Aelodau Cabinet:** Cyng. Ioan Thomas a'r Cyng. Mair Rowlands

**Pwnc:** Cydleoli Llyfrgell Porthmadog a Chanolfan Hamdden Glaslyn

**Swyddog cyswllt:** Sioned Williams, Pennaeth Adran Economi a Chymuned

---

**Y penderfyniad a geisir**

Cefnogi adleoli Llyfrgell gyhoeddus Porthmadog yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn gyda chymorth grant Llywodraeth Cymru.

Cymeradwyo defnyddio holl dderbyniadau cyfalaf gwerthiant yr adeilad Llyfrgell bresennol tuag at gostau addasu'r ganolfan hamdden.

---

**Barn yr aelod lleol**

Cyng. Selwyn Griffiths

*"Yn cefnogi y symudiad. Byddi gweithredu fel hyn yn sicrhau y Ganolfan a' r Llyfrgell i'r dyfodol ac yn sicrhau gwasanaeth ardderchog i gymuned ardal Porthmadog."*

Cyng. Jason Humphreys

*"Mae'r adroddiad yn cydnabod llawer o fanteision dros gyd-leoli'r llyfrgell gyda gwasanaethau eraill yn Ganolfan Glaslyn ac mae hyn i'w groesawu.*

*Nodwn y bwriad i ymgynghori. Mae lleoliad presennol y llyfrgell ar Stryd y Wesla yn fwy hygyrch i fwy o bobol i'w gerdded nac Ganolfan Glaslyn. Fe all ei ail-leoli creu anawsterau i rai o'r defnyddwyr hyn, bregus ac anabl. Yn y cyfamser cyn ail-leoli, gobeithiwn fydd staff y llyfrgell yn gweithio'n agos ac yn effeithiol gyda defnyddwyr er mwyn adnabod a chofnodi pryderon y rhai yma er mwyn ystyried pa gamau all gael ei gymryd i'w cynorthwyo nhw."*

---

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Adolygiad y Gwasanaeth Llyfrgell (2014) wedi adnabod cyfeiriad strategol a phwrpas i'r Gwasanaeth Llyfrgell i'r dyfodol. Mae Cydleoli gyda gwasanaethau eraill wedi ei adnabod fel modd o gynhyrchu arbedion; ac fel modd o ymateb i anghenion trigolion Gwynedd i gael mynediad i wasanaethau'r cyngor o un lleoliad.

1.2 Mae Adolygiad Hamdden hefyd wedi adnabod y byddai cydleoli gwasanaethau o fewn cyfleusterau hamdden y Sir yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd o'r cyfleusterau hynny. Byddai hynny yn cyfrannu at wella iechyd trigolion y Sir wrth gynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau egnïol o fewn grwpiau sydd ddim yn defnyddio'r cyfleusterau ar hyn o bryd.

1.3 Mae'r cynllun hwn i adleoli'r Gwasanaeth Llyfrgell oddi fewn i'r Ganolfan Hamdden yn cyfarch yr adolygiadau uchod, yn cyd-fynd gyda chynlluniau arbedion y 2 wasanaeth ac yn cynnig gwell darpariaeth i drigolion tref Porthmadog a'r dalgylch.

## 2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

### Ffordd Gwynedd

2.1 Bydd adleoli y Gwasanaeth Llyfrgell i Ganolfan Glaslyn yn cynnig darpariaeth fwy integredig i drigolion yr ardal. Rhagdybir y bydd buddion i drigolion yr ardal o'r cydleoli megis yn y meysydd Iechyd a Lles drwy sicrhau fod darpariaeth craidd y gwasanaethau yn ogystal â rhai ataliol ychwanegol megis Llyfr ar Bresgripsiwn, Cynllun Ymarfer drwy Wahoddiad, Cynllun Cymorth Macmillan a Gwasanaeth Ffisiotherapi (Iechyd Cyhoeddus Cymru) ar gael ac yn darparu cynnig holistaidd i'r defnyddwyr gwasanaeth.

2.2 Bydd yr adleoli hefyd yn darparu mynediad cyfforddus, anffurfiol a chymdeithasol i drigolion yr ardal i wasanaethau'r Cyngor, ac i gyrchu gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor.

2.3 Disgwylir buddion i drigolion yr ardal hefyd yn y meysydd dysgu a sgiliau drwy wella'r cysylltiadau gyda'r Ysgol Gynradd ac Uwchradd Leol ac hygyrchedd disgyblion i'r Llyfrgell.

**Arbedion**

2.4 Bydd adleoli'r llyfrgell gyda gwasanaeth arall yn y Cyngor yn cynnig arbedion ar gostau cynnal adeilad i'r ddau wasanaeth. Amcangyfrif y bydd arbedion o £18k y flwyddyn.

2.5 Bydd adleoli'r llyfrgell yng nghanolfan Glaslyn hefyd yn arwain at gydweithio agos rhwng y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Gwasanaeth Hamdden all arwain at arbedion oherwydd y bwriad i rannu staff.

**Gwasanaeth**

2.6 Mae Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd : Mwy na Llyfrau yn dynodi Llyfrgell Porthmadog fel prif lyfrgell. Bydd yr adleoli yma, oherwydd y cynnydd mewn gofod, posibiliadau ehangu oriau agor, mynediad i ofod amlbwrpas, agosatrwydd y safle i aros fannau cludiant cyhoeddus, yn arwain at Wasanaeth Llyfrgell yn nalgylch Porthmadog all gyflawni'r Safonau a osodir ar brif lyfrgelloedd yn unol a'r strategaeth. Rhagwelir i nifer yr ymweliadau gynnydd 10% yn sgil yr adleoli.

2.7 Mae prif lyfrgell ar agor mwy na 20 awr yr wythnos, yn derbyn mwy nag 20,000 o ymweliadau, yn benthyg mwy na 30,000 o eitemau mewn blwyddyn ac yn gwasanaethu ardal eang.

2.8 O safbwynt y darpariaeth Hamdden, byddai'r datblygiad hwn yn arwain at gynnydd mewn ymweliadau ac yn sgil hynny, yn rhoi cyfle arbennig i'r gwasanaeth ddenu cynnydd mewn incwm craidd drwy ei rhaglen weithgareddau ac incwm eilradd drwy ei gynnig arlwyaeth a gwerthiant nwyddau. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod yr elfen Hamdden yn manteisio ar y cyfleon hynny sy'n golygu bod angen ail ddylunio rhai agweddau o'r cynnig presennol. Mae angen penderfynu ar sgôp yr ail ddyluniad hynny gan sicrhau bod yr achos busnes yn un hyfyw a chynaliadwy.

**3. Ystyriaethau perthnasol**

**Ymgynghori**

3.1 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y gwasanaeth yn y sir.

3.2 Mae adborth eisoes wedi derbyn gan drigolion y sir sy'n awgrymu gwella'r ddarpariaeth drwy gydleoli gyda gwasanaethau eraill mewn cymunedau cymaint a phosibl.

3.3 Yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell bydd Sesiwn Galw Heibio benodol wedi ei chynnal ym Mhorthmadog ar Fai 13eg i gasglu barn trigolion lleol ar ddyfodol y gwasanaeth yn y dalgylch penodol hwn, gan gyfeirio'n uniongyrchol at yr opsiwn i adleoli.

**Ystyriaethau Cyllid**

3.4 Mae amcan bris y gwaith adleoli yn £388,359 a bwriedir ariannu'r cynllun drwy'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| Grant derbynnir gan CyMAL/Llywodraeth Cymru | £258,659 |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | £129,700 |

3.5 Mae Cyfraniad y Cyngor yn ddarystonedig i benderfyniad y Cabinet i ganiatáu defnyddio yr holl o'r derbyniadau cyfalaf a dderbynnir o werthu yr adeilad Llyfrgell bresennol (sydd ac amcan werth o £80,000).

3.6 Mae gweddill cyfraniad Cyngor Gwynedd, hyd at £49,700, yn cael ei ariannu o gyllideb yr Adran Economi a Chymuned.

**Ystyriaethau Cynaladwyedd**

3.7 Un o brif heriau'r cynllun adleoli yw ceisio osgoi rhagdybio penderfyniadau anodd sy'n wynebu'r Cyngor mewn perthynas a thoriadau.

3.8 Mae'r cynllun adleoli a'r cynnig grant ynghlwm a blwyddyn ariannol 2014-15 ac ynghlwm a'r gyfundrefn arbedion.

3.9 Fodd bynnag mae dyfodol y Gwasanaeth Llyfrgell a'r Gwasanaeth Hamdden yn nalgylch Porthmadog yng nghyd-destun Her Gwynedd yn fater i'w ystyried o ddifri.

**Ystyriaethau Cydraddoldeb**

3.10 Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus sy'n digwydd ar hyn o bryd ynghylch dyfodol y gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer adleoli llyfrgell Porthmadog.

3.11 Dengys yr asesiad effaith mai un o brif fanteision yr adleoli yn y cyd-destun cydraddoldeb yw gwella mynediad i'r anabl gyda llefydd parcio priodol a chyfleusterau toiled anabl ac i rieni/ gofalwyr plant ifanc.

## 4. Camau nesaf ac amserlen

4.1 Mae Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu ar gyfer rheoli'r cynllun adleoli sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Llyfrgell, Gwasanaeth Hamdden, Gwasanaeth Eiddo. Bydd y Grŵp Prosiect yn gyfrifol am reoli a chyflawni'r cynllun.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod Tîm Prosiect - llunio cynllun gwaith | Ebrill 2015 |
| Ymgynghoriad Llyfrgell Porthmadog | Mai 2015 |
| Penderfyniad Cabinet | Mai 2015 |
| Proses tendro | Mehefin 2015 |
| Gwaith addasu'r adeilad | Medi 2015 /Ionawr 2016 |
| Mewn osod cyfarpar | Chwefror 2016 |
| Agor i'r cyhoedd | Mawrth 2016 |
| Agoriad swyddogol /marchnata | Mai 2016 |

----------------------------------------------------------

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae'r symudiad sydd yn cael ei argymell yn un synhwyrol a rhesymol ac mae'r Pennaeth Cyllid wedi tynnu sylw at yr ystyriaethau ariannol y mae'n ofynnol i'r Cabinet roi sylw iddynt cyn dod i benderfyniad. Y peth arall i gofio efo hwn a bydd yn rhaid i hyn gael sylw gydag amryw o faterion eraill sydd ar y gweill efo'r Cyngor, yw y gallai ystyriaeth y Cyngor o'r angen i dorri rhai gwasanaethau dros y misoedd nesaf newid y cyd-destun ar gyfer cynigion effeithlonrwydd."

**Y Swyddog Monitro:**

"Bydd angen i'r Cabinet ystyried canlyniad ymgynghoriad penodol a gynhaliwyd ar y 13eg Mai a gyfeirir at o yn 3.3 yn yr adroddiad. Disgwylir felly i'r wybodaeth yma fod ar gael yn y cyfarfod. Fel arall nid oes sylwadau o ochr priodoldeb"

**Y Pennaeth Cyllid:**

Tra mae angen gwireddu bob arbediad effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau, ar yr olwg gyntaf, nid yw'r arbediad £18,000 yn sylweddol, gan fod angen gwariant cyfalaf o £388,359 i'w wireddu. Fodd bynnag, fel mae rhan 3.4 o'r adroddiad yn nodi, disgwylir grant CyMAL ar gyfer ariannu £258,659 o'r gost cyfalaf. Ar gyfer rhan o gyfraniad £129,700 y Cyngor, mae cais gan Bennaeth Economi a Chymuned, er penderfyniad gan y Cabinet, i gadw a defnyddio'r holl dderbyniad cyfalaf o werthu'r

hen lyfrgell (gall fod tua £80,000). Mewn cyd-destun o gynilo parhaus, mater i'r aelodau ystyried yw blaenoriaethu'r derbyniad cyfalaf hwnnw, sydd heb ei ymrwymo yn y Cynllun Asedau (gan na fu rhagdybiaeth o waredu'r eiddo dan sylw). Cadarnhaf fod gan yr Adran Economi dderbyniadau cyfalaf eraill heb ei ymrwymo (cyfran adrannol o werthiant eiddo hanesyddol) sy'n ddigonol er mwyn ariannu'r balans o gyfraniad y Cyngor (gall fod tua £50,000).

---

**Atodiadau**